

# CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn,  
Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed  
a Llywarch Bentwrch

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Nerys Ann Jones, BA, PHD

W. Dyfed Rowlands, BA

Erwain Haf Rheinallt, MA

*Golygyddion Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Dafydd H. Evans, BA, DPHIL

Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA

Peredur Lynch, BA, PHD

GWAITH SEFNYN, RHISIERDYN,  
GRUFFUDD FYCHAN AP  
GRUFFUDD AB EDNYFED  
A LLYWARCH BENTWRCH

golygwyd gan

NERYS ANN JONES

ac

ERWAIN HAF RHEINALLT



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

1995

© Prifysgol Cymru ©, 1995.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 09 2

Diolchir i Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn am gymorth ariannol tuag at gyhoeddi'r llyfr hwn.

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## *Dull y golygu*

Ceir testun cerddi 1–7, 9, 10 a 12 yn Llyfr Coch Hergest a chan mai dyma ffynhonnell yr holl gopiâu diweddarach o'r cerddi hyn, ni ddangoswyd darlleniadau amrywiol ohonynt. Os diwygir darlleniad yn nhestun y Llyfr Coch, dangosir y darlleniad gwreiddiol ar waelod y testun. Mae hanes llawysgrifol y cywyddau (cerddi 8, 11 a 13) yn fwy cymhleth a chrewyd testunau cyfansawdd ohonynt, gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlleniad amrywiol yn digwydd mewn sawl llawysgrif, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes llinell ar goll yn un o'r llawysgrifau, dynodir hynny drwy roi bachau petryal o gwmpas llythyren y llawysgrif; os ceir llinell ychwanegol, defnyddir yr arwydd + gan roi'r llinell ychwanegol yn dilyn. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Fodd bynnag, os yw'r gair neu'r geiriau'n annarllennadwy neu wedi cael eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny gyda bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Cymraeg Canol (gw. GDG<sup>3</sup> xlvii); er enghraifft, diwedderir *-aw-*, *aw-* yn *o* pan fydd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiwedderir geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Yn y Mynegai ar ddiwedd gwaith pob bardd rhestrir pob gair a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'); rhestrir yma hefyd rai geiriau dieithr, yn enwedig os nad ydynt yn ymddangos yn y *Geiriadur Mawr*, a hefyd eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r ystyr a roddir ar eu cyfer yno. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fônt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu'r Drindod.

## *Diolchiadau*

Cydnabyddwn yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygydd a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ac yn arbennig Mr Graham Thomas; staff Llyfrgell Dug Humfrey yn Llyfrgell Bodley, Rhydychen; Dr Rhiannon Ifans; Mr Daniel Huws; Mr Tomos Roberts, Dr Gruffydd Aled Williams a Dr A.D. Carr o Brifysgol Cymru Bangor.

N.A.J. ac E.H.Rh.

# Cynnwys

	<i>Tud.</i>
DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU.....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a Geiriau.....	xvii
GWAITH SEFNYN	
RHAGYMDRODD.....	3
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1.    Moliant Angharad wraig Dafydd Fychan o Drehwfa a Threfeilir.....	9
2.    Marwnad Iorwerth ab y Cyriog.....	12
3.    Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd a Myfanwy ei wraig.....	18
NODIADAU.....	25
MYNEGAI I'R NODIADAU.....	39
Mynegai i enwau personol.....	42
Mynegai i enwau lleoedd.....	42
GWAITH RHISIERDYN	
RHAGYMDRODD.....	47
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
4.    Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd.....	52
5.    Moliant Myfanwy wraig Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd.....	61
6.    Marwnad Hywel ap Gruffudd o Eifionydd.....	65
7.    Moliant Ieuan ap Rhys, abad Aberconwy.....	74
8.    Moliant Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed.....	78
NODIADAU.....	85
MYNEGAI.....	113
Mynegai i enwau personol.....	119
Mynegai i enwau lleoedd.....	120

GWAITH GRUFFUDD FYCHAN AP GRUFFUDD AB EDNYFED	
RHAGYMDRODD .....	125
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
9. Moliant Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir .....	131
10. Moliant Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd a Thre Castell .....	137
11. Gofyn telyn i Risiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Emral .....	145
12. Awdl i Grist a Mair .....	151
NODIADAU.....	169
MYNEGAI .....	201
Mynegai i enwau personol.....	209
Mynegai i enwau lleoedd.....	209
GWAITH LLYWARCH BENTWRCH	
RHAGYMDRODD .....	213
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
13. Moliant Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir .....	217
NODIADAU.....	223
MYNEGAI .....	227
Mynegai i enwau personol.....	227
Mynegai i enwau lleoedd.....	227
LLAWYSGRIFAU.....	229
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	233
MYNEGAI I'R NODDWYR.....	235



# Byrfoddau

## Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- AH *Astudiaethau ar yr Hengerdd*, gol. R. Bromwich ac R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
- Arch Camb *Archaeologia Cambrensis*, 1846–
- Arm P *Armes Prydein o Lyfr Taliesin*, gyda rhagymadrodd a nodiadau gan Ifor Williams (Caerdydd, 1955)
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–
- P.C. Bartrum: WG1 *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- BBIAS *Bibliographical Bulletin of the International Arthurian Society*, 1949–
- BD *Brut Dingestow*, gol. H. Lewis (Caerdydd, 1942)
- BDe *Buched Dewi*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1965)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig
- BI BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. M. Haycock (Llandybïe, 1994)
- BI B XIV *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Ddeg*, gol. Dafydd Johnston (Llandybïe, 1989)
- BRh *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)

- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum in the years 1841–1845* (London, 1850)
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Sir De Morgannwg
- CGRG K.A. Evans, ‘Cerddi’r Gogynfeirdd i Rianedd a Gwragedd’ (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1972)
- CLC *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (Caerdydd, 1986)
- CLIH *Canu Llywarch Hen*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–1993; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CO *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (Caerdydd, 1988)
- CO<sup>2</sup> *Culhwch and Olwen*, ed. Rachel Bromwich and D. Simon Evans (Cardiff, 1992)
- CT *Canu Taliesin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960)
- CTC C.T. Beynon Davies, ‘Cerddi’r Tai Crefydd’ (M.A., Cymru [Bangor], 1973)
- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- ChO *Chwedleu Odo*, gol. Ifor Williams (Wrecsam, 1926)
- Th.M. Chotzen: Rech Th.M. Chotzen: *Recherches sur la poésie de Dafydd ab Gwilym* (Amsterdam, 1927)
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- Dat ‘Datguddiad Sant Ioan’ yn y Testament Newydd

- DGG *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (Bangor, 1914)
- DGG<sup>2</sup> *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- DWH M.P. Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- ELISG J. Lloyd-Jones, *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon* (Caerdydd, 1928)
- Études *Études celtiques*, 1936–
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- EWSP *Early Welsh Saga Poetry*, ed. Jenny Rowland (Cambridge, 1990)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GBDd *Gwaith Bleddyn Ddu*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1994)
- GBF *Gwaith Bleddyn Fardd ac Eraill o Feirdd Ail Hanner y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Rhian Andrews *et al.* (i ymddangos)
- GCBM i *Gwaith Cynnddelw Brydydd Mawr*, i, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1991)
- GCBM ii *Gwaith Cynnddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (yn y Wasg)

- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. Y Chwaer Bosco *et al.* (yn y Wasg)
- GDG<sup>3</sup> *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GGI<sup>2</sup> *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Gronw Ddu a Mab y Clochyddyn*, gol. W. Dyfed Rowlands (i ymddangos).
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)

- H *Llawysgrif Hendregadredd*, gol. J. Morris-Jones a T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1933)
- HAA Rhŷs W. Hays, *The History of the Abbey of Aberconway 1186–1537* (Cardiff, 1963)
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HG Cref *Hen Gerddi Crefyddol*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1931)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- J *Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*
- KAA<sup>2</sup> *Kedymdeithas Amlyn ac Amic*, gol. Patricia Williams (Caerdydd, 1982)
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LGC *Gwaith Lewis Glyn Cothi*, gol. Tegid a Gwallter Mechain (Oxford, 1837–9)
- LGCD *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)*, gol. E.D. Jones (Caerdydd, 1984)
- LWS G.H. Doble, *Lives of the Welsh Saints*, ed. D. Simon Evans (Cardiff, 1971)
- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- LIC *Llyfr Colan*, gol. Dafydd Jenkins (Caerdydd, 1963)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)

LIGC	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
J.E. Lloyd: HW <sup>3</sup>	J.E. Lloyd, <i>A History of Wales</i> (third ed., London, 1939)
Llst	Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
MA <sup>2</sup>	<i>The Myvyrian Archaeology of Wales</i> (second ed., Denbigh, 1870)
MAng	A.D. Carr, <i>Medieval Anglesey</i> (Llangefni, 1982)
Math	‘Yr Efengyl yn ôl Mathew’ yn y Testament Newydd
MED	<i>Middle English Dictionary</i> (Michigan, 1963–)
ML	<i>The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris, 1728–65</i> , ed. J.H. Davies (Aberystwyth, 1907–9)
J. Morris-Jones: CD	John Morris-Jones, <i>Cerdd Dafod</i> (Rhydychen, 1925)
Mos	Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
MWRL	Catherine A. McKenna, <i>The Medieval Welsh Religious Lyric</i> (Belmont, Massachusetts, 1991)
ODCC	<i>The Oxford Dictionary of the Christian Church</i> , ed. F.L. Cross (London, 1958)
OED	<i>The Oxford English Dictionary</i> (Oxford, 1933)
OED <sup>2</sup>	<i>The Oxford English Dictionary</i> (second ed., Oxford, 1989)
G. Owen: DP	<i>The Description of Penbrokshire by George Owen</i> , ed. Henry Owen (London, 1892–1936)
Pant	Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
PBA	<i>Proceedings of the British Academy</i> , 1903–
Pen	Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- PRO SC Public Records Office, London, Special Collections
- P Tal *The Poems of Taliesin*, ed. Ifor Williams, English version by J.E. Caerwyn Williams (Dublin, 1968)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RCAHM (Anglesey) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, 'Anglesey'* (London, 1937)
- RCAHM (Caernarvonshire) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, 'Caernarvonshire'* (3 vols., London, 1956, 1960, 1964)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
- SC *Studia Celtica*, 1966–
- Siôn Brwynog: Gw 'Casgliad o weithiau Siôn Brwynog', gol. Gwilym H. Jones (cyfrol anghyhoeddedig, 1927)
- T *The Book of Taliesin*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1910)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TYP<sup>2</sup> *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
- VSΒ *Vitae Sanctorum Britanniae et Genealogiae*, ed. A.W. Wade-Evans (Cardiff, 1944)

- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- I. Williams: ELI Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- WLW *The Welsh Law of Women*, ed. Dafydd Jenkins and Morfydd E. Owen (Cardiff, 1980)
- W Surnames T.J. Morgan and Prys Morgan, *Welsh Surnames* (Cardiff, 1985)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965– )
- YCM<sup>2</sup> *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YMTh *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1951)



*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	grb.	gorberffaith
a.	<i>ante</i>	grch.	gorchmynnol
adf.	adferf	grff.	gorffennol
amhff.	amherffaith	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
amhrs.	amheronol	gw.	gweler
anh.	anhysbys	Gwydd.	Gwyddeleg
ardd.	arddodiad, -iaid	H.	Hen
arg.	argraffiad	h.y.	hynny yw
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
b.	benywaidd	<i>id.</i>	<i>idem</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
bf.	(f.) berf, -au	ll.	lluosog; llinell
c.	<i>circa</i>	Llad.	Lladin
c.	(g.) canrif	llau.	llinellau
C.	Canol	llsgr.	llawysgrif
cf.	cymharer	llsgrau.	llawysgrifau
Cym.	Cymraeg	m.	mewnol
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.	mynegol
d.g.	dan y gair	neg.	negydd, -ol
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
diw.	diweddar	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.	enw	p.	priod
eb.	enw benywaidd	pres.	presennol
e.c.	enw cyffredin	prff.	perffaith
ed.	<i>edited by, edition</i>	prs.	person, -ol
e.e.	er enghraifft	pth.	perthynol
eg.	enw gwrywaidd	r	<i>recto</i>
e.p.	enw priod	rh.	rhagenw, -ol
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	S.	Saesneg
f.	ffolio	sc.	<i>scilicet</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	s.n.	<i>sub nomine</i>
ff.	ffolios	td.	tudalen
g.	(c.) canrif	un.	unigol
g.	gwrywaidd	v	<i>verso</i>
gol.	golygydd, golygydd gan	vols.	<i>volumes</i>



# GWAITH SEFNYN

golygwyd gan

ERWAIN HAF RHEINALLT



## *Rhagymadrodd*

Prin iawn yw ein gwybodaeth am Sefnyn ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu amdano o'r tair awdl a oroesodd o'i waith. Ni cheir ei linach yn yr achau a'r unig wybodaeth sydd gennym ynglŷn â'i deulu yw mai ef, yn ôl pob tebyg, oedd tad y bardd Gwilym ap Sefnyn.<sup>1</sup>

### *Ei ddyddiadau*

Ni ellir dyddio'r un o gerddi Sefnyn ac ni ellir gwneud mwy na chynnig bras amcan ynglŷn â dyddiad eu canu. Awdl foliant i Angharad, sef, yn ôl pob tebyg, gwraig Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir ym Môn, yw'r awdl gyntaf isod. Ceir cofnodion yn cadarnhau bod ei gŵr yn fyw rhwng 1346 a 1377; gwyddys hefyd iddo fod yn briod ddwywaith ac mai Angharad oedd ei wraig gyntaf.<sup>2</sup> Mae'n rhaid, felly, fod yr awdl wedi cael ei chanu yn ystod ei hoes hi ond, ysywaeth, ni wyddys pa bryd yr ailbriododd Dafydd.

Ail gerdd y casgliad yw'r awdl farwnad i Iorwerth ab y Cyriog, bardd a gysylltir â Môn.<sup>3</sup> Ni wyddys dyddiad marw Iorwerth, ond awgrymodd Ifor Williams iddo fod yn ei flodau tua 1360, a derbynnir hynny'n fras gan Mr Dyfed Rowlands yn ei olygiad o waith Iorwerth, ond gan nodi ei bod yn dra thebygol i Iorwerth hefyd ganu rai blynyddoedd cyn 1350.<sup>4</sup> Ceir awgrym yn y farwnad fod Sefnyn yn ddisgybl barddol i Iorwerth a'i fod wedi derbyn nawdd ganddo, a'r tebyg yw, felly, fod Sefnyn yn perthyn i genhedlaeth iau nag Iorwerth.<sup>5</sup>

Canwyd y drydedd awdl, sef moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd ym Môn a'i wraig Myfanwy, cyn 1382, oherwydd gwyddys i Oronwy foddï yn y flwyddyn honno.<sup>6</sup> Ni wyddys oedran Goronwy yn marw, ond mae'n debygol i'r moliant hwn gael ei ganu pan oedd yn ŵr ifanc, ac o bosibl newydd briodi Myfanwy.<sup>7</sup> Ar y llaw arall, mae'n bosibl fod Sefnyn ei hun yn ŵr oeddrannus pan gyfansoddwyd yr awdl: cyfeiria ato ef ei hun fel

<sup>1</sup> Ar Wilym ap Sefnyn, gw. CLC 245; cysylltir ef â phlwyf Llandygái a chanodd i Wilym ap Gruffudd o'r Penrhyn, sef mab yng nghyfraith Goronwy Fychan, gwrthrych y drydedd awdl isod gan Sefnyn.

<sup>2</sup> Gw. y nodyn cefndir i gerdd 1 isod.

<sup>3</sup> Sonnir yn benodol yn y farwnad isod am golled beirdd Môn yn sgil marwolaeth Iorwerth, 2.74–5 *Didlawd traws fwynwawd tros Fôn. / Gwae ger Môn o feirddion fyrdd ...* Ategir hyn gan y disgrifiad ohono gan Ddafydd ap Gwilym fel ... *Mab y Cyriog ym Môn* (GDG<sup>3</sup> 89 (31.37)).

<sup>4</sup> Gw. IGE<sup>2</sup> lxxxiii a gw. y Rhagymadrodd i waith Iorwerth ab y Cyriog yn GGrG.

<sup>5</sup> Gw. y nodyn cefndir i gerdd 2 isod.

<sup>6</sup> Gw. y nodyn cefndir i gerdd 3 isod.

<sup>7</sup> Cf. 3.23–4 *I'r nêr, edmycer, oed macwy—o serch, / Union hoywdeg ferch o Nanheudwy.*

*gwanfardd* (3.54) ac ymhellach fel un *rhy laswedd*—*fy ngran* (3.55). Ategir hyn gan y llinellau *Rhy fain ferydd wyf ... / Rhaid ym, golofn gwŷr, rhad amgeledd* (3.59–60), sy'n pwysleisio dibyniaeth Sefnyn ar Oronwy. Bid a fo am hynny, mae'r awdl hon yn hynod o grefftus ac ymddengys yn gynnyrch bardd aeddfed yn hytrach na bardd sy'n bwrw ei brentisiaeth. Ni chadwyd marwnad gan Sefnyn i Oronwy yn y llawysgrifau a gallai hyn awgrymu bod Goronwy wedi goroesi Sefnyn, er mor fregus yw damcaniaeth a seilir ar ffaith negyddol.

Ni ellir cynnig dyddiadau pendant, felly, i ganu Sefnyn; y cyfan y gellir ei ddweud yn bur hyderus yw iddo ganu yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac iddo dewi, o bosibl, cyn 1382.

### *Ei fro*

Mewn rhestr o feirdd a geir yn llaw William Salesbury (c. 1574) ar derfyn llawysgrif Cwrtmawr 3B, disgrifir y bardd fel *Sefnyn o lan pabo ym Môn*.<sup>8</sup> Gwyddys hefyd i fab Sefnyn, y bardd Gwilym ap Sefnyn, fod yn berchen ar dir yn Llandyfrydog, Môn, cyn iddo ei golli fel cosb am gefnogi gwrthryfel Owain Glyndŵr.<sup>9</sup> Mae'r ddau beth hyn yn ategu'r cysylltiad cryf rhwng Sefnyn a Môn a welir yn y tair awdl isod. Yn ogystal â'r ffaith fod gwrthrychau'r tair yn dod o Fôn, ceir ym moliant Goronwy Fychan gyfeiriadau helaeth at rannau o'r ynys: *Cawrnwy* (3.18), *Penmynydd* (3.29), *Dinsylwy* (3.30), *Gafrogwy* (3.32), *Dindaethwy* (3.34), *Cynfarwy* (3.35), *Berwy* (3.36). (Gellir nodi bod Cornwy, Llechgynfarwy a Gafrogwy yng nghyffiniau Llanbabo.) Cyfeiria Sefnyn hefyd at haelioni Goronwy yn Arllechwedd (3.54) a chan fod tystiolaeth yn dangos bod Goronwy Fychan wedi bod yn berchen ar diroedd yn Arllechwedd Uchaf (gw. y nodyn ar y ll.), mae'n debygol fod Sefnyn wedi canu i Oronwy yn Arllechwedd yn ogystal ag ym Mhenmynydd.

### *Ei waith*

Fel y nodwyd eisoes, cadwyd inni dair awdl o waith Sefnyn, sef 'Moliant Angharad wraig Dafydd Fychan o Drehwfa a Threfeilir' (cerdd 1) sydd o bosibl yn anghyflawn fel y gwelir isod, 'Marwnad Iorwerth ab y Cyriog' (cerdd 2) a 'Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd a Myfanwy ei wraig' (cerdd 3). Ffurfia'r rhain gyfanswm o 218 llinell. Cambriodolwyd dwy awdl arall iddo. Mae'r naill yn dechrau â'r llinell *Crist Celi poed mi o'm meithfaint*, sef awdl i Lywelyn ab Iorwerth a gyfansoddwyd tua 1215 ac

<sup>8</sup> Yn agos at Lanbabo ceir trefgordd Alaw'r Beirdd, sef tir a dderbyniodd beirdd gan eu noddwyr, mae'n debyg, gw. M. Richards, *Atlas Môn* (Llangefni, 1972), 186. Tybed a oedd Sefnyn yn gysylltiedig â'r drefgordd hon? Diddorol nodi bod Alaw'r Beirdd yn gysylltiedig â Chlynnog Fawr yn ôl Stent Môn, 1352 (*ex inf.* Dr A.D. Carr).

<sup>9</sup> Gw. CLC 245.

sydd felly'n rhy gynnar i fod yn gynnyrch Sefnyn;<sup>10</sup> tadogwyd y llall sy'n dechrau â'r llinell *Ffrwythlawn a chyfiawn a chyfoeth* ar Sefnyn hefyd mewn rhai llawysgrifau, ond derbynir yn gyffredinol bellach mai Gwilym Ddu o Arfon a'i cyfansoddodd.

Mae'n bosibl fod yr awdl gyntaf yn anghyflawn yn ei ffurf bresennol a hwyrach fod y gerdd wreiddiol yn cynnwys moliant i Ddafydd yn ogystal â'i wraig, yn yr un modd ag y mae cerdd 3 yn moli Goronwy Fychan a'i wraig Myfanwy. (Sylwer ar [c]ymar *Ddafydd* yn 1.16.) Canmolir Angharad am ei moesau a'i rhinweddau cymdeithasol yn ogystal ag am ei phrydferthwch. Cyfeirir at ei doethineb, ei ffydd a'i haeddiant, ac at ei lletygarwch a'i haelioni fel anrhegydd—y cyfan yn creu aelwyd ddedwydd sy'n denu lluoedd. Wrth gyfleu harddwch Angharad, pwysleisir ei disgleirdeb yn anad dim (gw. 1.6, 16, 27–8, 29, 31 a 32), ac mae hyn yn cyrraedd uchafbwynt yn y pennill olaf lle disgrifir hi a'i cheyrydd yn disgleirio o un pen o Fôn i'r llall. Ni cheir llawer o gymariaethau o fyd natur fel y cyfryw, ond prydfarth a thrawiadol yw'r disgrifiad ohoni fel *Prif degwch dilwch eiry dolydd—cyn glaw, / (Praw nwyf gyrfanaw) nyf gorfynydd* (1.13–14).

Egyr 'Marwnad Iorwerth ab y Cyriog' (cerdd 2) drwy ddilyn fformwla arferol y canu marwnad, gan ymbil ar Dduw am faddeuant i'r gwrthrych, cyn gofyn iddo am awen i'w farwnadu. Trafodir yma golled bersonol y bardd ar ôl Iorwerth a'r golled cymdeithasol. Mae'r awdl hon yn arbennig gan mai marwnad i fardd a noddwr gan fardd arall ydyw. Yn ogystal â'r galar a'r dagrau ceir myfyrdod ar y bedd sy'n cyfleu ymdeimlad o ddarfod-edigrwydd dyn a'i ddoniau. Dwyseir yr agwedd hon drwy gyfosod yr hyn sydd a'r hyn a fu—dyfais gyffredin yn y marwnadau.

Ceir ar ddechrau 'Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd a Myfanwy ei wraig' (cerdd 3) agoriad tebyg i'r hyn a geir mewn canu natur, gan ddisgrifio eira'n disgleirio ar fryniau, a nentydd yn llawn rhew yn llifo i Lyn Mynedwy; daw'n amlwg mai sôn yn drosiadol am Fyfanwy a wneir ac fe'i cymherir yn benodol ag Eigr, sef safon prydfarthwch yng ngwaith y beirdd. Yn ogystal â'i harddwch, molir Myfanwy am ei lletygarwch a'i rhinweddau cymdeithasol a thrwy hyn ceir darlun o'r wraig briod ddelfrydol. Cyflwynir Goronwy Fychan, ei gŵr, mewn rhan o drosiad estynedig, fel Gwrlais gŵr Eigr. Canmolir ei farch a chlodforir ei ffyrnigrwydd mewn brwydr, ei ddewrder a'i haelioni yn null arferol y beirdd gydag epithetau megis *llew, dragon, eryr, gwalch a rhwyd ysgwyd*, trwy sawl topos megis 'brain dieisiau' a thrwy gyfrwng cyfoeth o drosiadau a chyfeiriadau at gymeriadau chwedlonol a hanesyddol, megis Garwy, Gwrlais, Uthr, Alaswy,

<sup>10</sup> Gw. GDB cerdd 20. Mae'r gerdd hon yn ddi-deitl yn y ddwy lsg. hynaf, sef J 111, 1404–5 ac LIGC 4973B, 43<sup>v</sup>–44<sup>f</sup> ond mae'r llsgrau. eraill yn ei phriodoli i Gynddelw Brydydd Mawr, Daniel ap Llogswrn Mew a Sefnyn a hynny, o bosibl, am ei bod yn dilyn cerddi'r beirdd hynny yn y llsgrau.

Rhun ap Maelgwn Gwynedd, Llŷr Llediaith, Mordaf ac Owain, sy'n dangos inni ystod a natur hyfforddiant bardd o'r cyfnod. Mae gwybodaeth arbennig Sefnyn am arwyr o 'Brut y Brenhinedd' a'r chwedlau Arthuriaidd (megis Eigr, Gwrlais ac Uthr) o bosibl yn adlewyrchu'r diddordeb a'r ffasiwn newydd yn llys Penmynydd ar y pryd, efallai yn sgil teithiau Goronwy i Ffrainc.<sup>11</sup> Molir Goronwy Fychan yn ei swyddogaeth gymdeithasol fel un sy'n cynnig lletygarwch i feirdd, yn anrhegu eirchiaid â gwisgoedd porffor, gwirod a rhoddion, fel cynhaliwr gwleddau sy'n gwasanaethu deisyfwyr ac yn garedig wrth dlodion nes cymell beirdd o'u cartrefi cynnes a'u denu i Benmynydd o bob cwr o Wynedd. Darlunnir ef fel gŵr addfwyn a chyfiawn, ond hefyd fel un sy'n gwastrodi ei elyn yn gadarn.

### *Mydryddiaeth*

Cyfes o doddeidiau yw'r awdl gyntaf a cheir ynddi gymeriad llythrennol a amrywir bob wyth llinell. Nodir yn llawysgrif BL Add 14970 fod darn o'r awdl ar goll ac o'i chymharu â ffurf y ddwy awdl arall, y naill yn ymrannu'n ddau ganiad a'r llall yn dri chaniad, credir mai'r hyn a geir yma yw caniad cyntaf yr awdl yn unig. (Ategir hynny o bosibl gan ei chynnwys, fel y nodwyd uchod.) Nodweddd arbennig o'r gerdd hon yw fod pob llinell, ac eithrio llinell 28, yn cynnwys cynghanedd sain; cynghanedd groes sydd yn y llinell honno a thyr ar batrwm y cymeriad llythrennol hefyd.

Mae caniad cyntaf yr ail awdl ar ffurf cyfes o doddeidiau sydd, fel cerdd 1, yn cynnwys cymeriad llythrennol sy'n amrywio bob wyth llinell hyd at linell 16 ac ar ôl llinell 22. Dilynrir hyn gan gadwyn o englynion unodl union am yn ail ag englynion proest, gan gynnwys tri englyn proest dalgron (2.51–4, 59–62, 67–70). Cysylltir yr englynion â chyrch-gymeriad ac mae diwedd yr awdl yn cyrchu ei dechrau hefyd â'r cyfuniad *gwisg hardd* a *Mygrdduw hardd*.

Mae'r drydedd awdl yn gerdd fwy cymhleth ei gwedd na'r ddwy flaenorol. Yn y caniad cyntaf ceir cyfes o wawdodynau ac yn yr ail ganiad gyfes o linellau ar fesur cyhydedd fer am yn ail â thoddaid. Dilynrir hyn gan gyfes o gwpledi ar fesur rhupunt hir. Yn ôl arfer y bardd ceir cymeriad llythrennol helaeth yn yr awdl hon hefyd.

### *Llawysgrifau*

Llyfr Coch Hergest yw'r brif ffynhonnell ar gyfer gwaith Sefnyn a thestunau'r llawysgrif honno a ddefnyddiwyd yn sail i'r golygiadau isod. Ceir ei

<sup>11</sup> Diddorol yn y cyswllt hwn yw'r cyfeiriad at *Eiriol gerdd o Ffrainc*, 3.16, gw. ymhellach y nodyn ar y ll. Mae Dr Rachel Bromwich, TYP<sup>2</sup> lxxxii, yn tynnu sylw at gyfoeth cyfeiriadau Gruffudd ap Maredudd, yr oedd Goronwy Fychan ap Tudur yn un o'i brif noddwyr, at gymeriadau o 'Brut y Brenhinedd' a'r chwedlau Arthuriaidd. Mae hyn hefyd yn awgrymu bod diddordeb newydd yn y chwedlau hyn ym Mhenmynydd.



waith yng ngholofnau 1259–63 yn llaw Hywel Fychan.<sup>12</sup> Dyma ffynhonnell yr holl gopïau diweddarach o'r cerddi.

<sup>12</sup> Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 255.



## 1

*Moliant Angharad wraig Dafydd Fychan o Drehwfa a Threfeilir*

- Bryd ar olud byd, o bydd,—mawrddodaf,  
 Brysiau lle y gwelaf brys llu gweilydd,  
 Braint nef hun adref, hoen fadrydd—y'i caid  
 4 Breiniawl hawl henblaid gannaid gynnydd.  
 Braisg addurn difurn, neud ufydd—arfer  
 Brenhines haelder, gloywder gwledydd.  
 Brwysg fyddaf, od af, y dydd—y'm gwelo,  
 8 Bro aml yw yno ym lewenydd.
- Prydaf a lluniau o'i llonydd—falchdud  
 (Praw aelaw olud) o'r sud y sydd  
 Pêr ddatsain, coelfain celfydd—lafarwawd:  
 12 Parawd berth dafawd gan borth Dofydd;  
 Prif degwch dilwch eiry dolydd—cyn glaw,  
 (Praw nwyf gyrf anaw) nyf gorfynydd.  
 Priawd oleuwawd eilewydd—hyfryd,  
 16 Pryd gem ar ddeufyd, gymar Ddafydd.
- Gwawr gerddgar, hwyrwar herwydd—adnabod,  
 Gorfod ar hoywglod, gwiw ei rheglydd.  
 Gorhoffter llawer, medd llywydd—cerddau,  
 20 Geiriau aml fwriau ymlefydd;  
 Gwir gymwyll ei phwyll a'i ffydd—a'i champau  
 (Gorau ffurf brodiau) gan ffurf brydydd.  
 Gwared yw rhwydded y rhydd—o'i gwydrin  
 24 Gwin o'r llaw iesin i'r lluosydd.
- Rhagores cares (cerydd—ni haeddai  
 Rhai a'i rhyfolai), llawr hefelydd,  
 Rhag braint merch wynddaint, Wenddydd—wybodau,  
 28 O'r môr bu golau mawr bwy gilydd.  
 Rhoddiad Angharad yng ngheyrydd—gwyngalch,  
 Rhieddog dremwalch wylfalch elfydd.  
 Rhiaain loyw firain leferydd—gwastad,  
 32 Rhad hylwys blaniad, haul ysblennydd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 318<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 199<sup>r</sup> C—J 111, 1262 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 82<sup>r</sup> E—LIGC 4973B, 286<sup>r</sup> F—Pen 118, 169

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, sef yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.) Wrth godi'r gerdd i lawysgrif E, diwygiodd John Davies nifer o ddarlleniadau ar sail cynghanedd neu ystyr, a derbynnir nifer o'r diwygiadau hynny isod gan gyfeirio atynt yn y nodiadau.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

3 hoewvat ryd. 4 henbleit gynnyd Gwyned. 5 vuyd arber. 10 paraw. 11 perdastein. 14 nyt gorvynyd. 15 Priaót o oleuwaót. 26 llaór huvelyd. 27 llenn dyd wybodeu. 29 yngheryd.

*Moliant Angharad wraig Dafydd Fychan o Drehwfa a Threfeilir*

Rhoddaf fy mryd yn fawr ar gyfoeth byd, os bydd,  
 Brysiaf lle gwelaf gyflymder llu parod,  
 Rhagorfraint nefol orffwys tuag adref, yn llawenydd ffodus a  
 helaeth y('i) caid

- 4 Hawl freintiedig hen linach o ffyniant gwych.  
 Addurn godidog [ac] amlwg, gwylaidd yw ymddygiad  
 Brenhines haelioni, disgleirdeb gwledydd.  
 Sionc fyddaf, os af, pa ddydd bynnag y'm gwêl,  
 8 Y fro y mae llawenydd yn aml i mi yno.

Prydaf a lluniau i'w phobl wych a bodlon  
 (Prawf o olud aml) ynglŷn â'r modd y mae [pethau]  
 Ddatsain hyfryd, rhodd o farddoniaeth lafar gelfydd:  
 12 Parod yw iaith goeth gyda chynhaliaeth Duw;  
 [Am un o] fawr degwch dilychwin eira [ar] ddolydd cyn glaw,  
 (Prawf golud cynheiliaid [llawn] nwyf) eira [ar] fynydd-dir.  
 Cerdd ddisglair briodol prydydd hyfryd  
 16 [I] bryd [sy'n llewyrchu fel] gem ar y ddeufyd, cymar Dafydd.

Arglwyddes sy'n caru cerdd, addfwyn dyner o ran ei hadnabod,  
 Y rhagoraf mewn mawl bywiog, ardderchog yw ei haeddiant.  
 [Gwrthrych] ymffrost llawer, [rhoddwr] awdurdod [i] lywydd  
 cerddi,

- 20 Lleferydd geiriau helaeth feddyliau;  
 Ystyried yn sicr ei bwriad a'i ffydd a'i champau [a wneir]  
 (Gorau [eu] math yw[r] dyfarniadau) gan brydydd nerthol.  
 Rhyddhad yw pa mor rhwydd y rhydd o'i ffiol wydr  
 24 Win o'r llaw deg i'r lluoedd.

Rhagorodd y gyfeilles (cerydd ni haeddai'r  
 Rhai a'i molai yn helaeth), gymar pen-campwr,  
 Oherwydd urddas merch wyn ei dannedd, o ddoethineb  
 Gwenddydd,

- 28 Bu'n olau mawr o'r naill fôr i'r llall.  
 Anrhegydd yw Angharad mewn ceirydd gwyngalchog,  
 [Un] wylaidd a hardd a brenhinol [ei] threm walchaidd [yn y] fro.  
 Merch ddisglair hardd [o] leferydd isel,  
 32 Planiad graslon teg iawn [a] haul ysblennydd [ydyw].

*Marwnad Iorwerth ab y Cyriog*

- Mygrdduw hardd, mae bardd balchffawd—cyfannedd  
 Mywn bedd, modd buchedd maddau'i bechawd!  
 Moes rad mold pariad parawd—ddigrifiaith,  
 4 Maith fawrddwyn gwiwdaith Fyrddin geudawd.  
 Macwy mau fordwy myfyrdawd—garwfloedd,  
 Mad oedd mau wisgoedd, mwrrai wasgawd.  
 Medd cyhoedd milioedd molawd—Aneirin,  
 8 Maer gwin, mur gwerin, Mair a'i gwarawd.  
 Dysgais gur dwysgur, neud ysgawd—terfysg,  
 Dysg ddyrrwyf addysg ddiryfeddawd.  
 Dycnaf Duw Eurnaf, diwarnawd—dygn fu,  
 12 Du doe gan drillu, dogn o drallawd,  
 Dwyn eurwas difas defawd—ddiwecry  
 I dŷ dirwely daear waelawd.  
 Diaing dros fawrgaing fargawd—grudd prydydd  
 16 Deigr rhydd diefrydd dau aeafrawd.  
 Gwiw fydd ger broydd ei briawd—ddeigrgost,  
 Garw ffrost gan gwaedd-dost gwyno gwedd-dawd.  
 Gwneynt draw gwyrandaw gŵr undawd—feddgyrn,  
 20 Gâr chwyrn ger tefyrn, gorau tafawd.  
 Gwae nifer glewder, gloywdddefawd—pobloedd,  
 Draws fywyd oesoedd, dros fydysawd.  
 Cafas cwbl urddas rhag cabl orddawd—hawdd,  
 24 Cawdd cain ymadrawdd cyn no medrawd.  
 Cyfiawn cathl fawrddawn, farddawd—diletbai,  
 Cof rhai ced ddifai, cadw addefawd;  
 Ceingau coeth ddadlau, caith ddidlawd—ddarmerth,  
 28 Cyngerth cwyn Iorwerth, canon eurawd.  
 Cuddiodd llawr (cwymp mawr am arawd—gywraint)  
 (Côr saint) corff haeddfraint cywir ffyddfrawd.
- Brawd ffydd pob prydydd, pab, priodawr—gwawd,  
 32 Gwydn ynn fyw bedeirawr,  
 Bod ar Iorwerth, gerth gerddawr,  
 Byddargudd bedd lliwrudd llawr.

- 36 Llawr duoer (yw llai'r deall)  
Llety Iorwerth ddawnferth ddull,  
Â garw bwys crynfain geirw bell  
Ac irbwynt dderw ac oerbwll.
- 40 Pwll a gudd ei rudd! O rif—penceirddiaid  
Gwlad gannaid glod gynnif,  
Pawb a'i gwyl lliid gynfyl lif,  
Pelled deigr, pyllaid digrif.
- 44 Digrifweh, diau grefydd,  
Dwygrefft bardd urddedigrodd;  
Doded yn gaeth doe dan gudd,  
Dogn trafael dig nid rhyfedd.
- 48 Nid rhyfedd (trosedd traserth—trais galar  
Tros golofn cerdd brydferth  
A marw ein bardd mawrenw berth)  
Ymarwain deigr am Iorwerth.
- 52 Eurodd Iorwerth geinferth gân  
Erllynedd, gwir gyfedd gwin,  
Arawd teg o orau tôn  
O rodd Duw a eurodd dyn.
- 56 Dyn doethbwyll didwyll, dodais—floedd gyngerth,  
Dwyn Iorwerth lwysferth lais  
Araf i dref, oer fu'r drais,  
I waelod llawr a welais.
- 60 Gwelais am fardd hardd hylithr,  
Gwedy darllain gwawd eurllythr  
Baradwysaidd, berw disathr,  
Bridd a derw: breuddwyd aruthr!
- 64 Aruthr alaethruthr o lithraw—proffwyd:  
Meddylwyd modd wylaw  
Dinydr ddagrau amdanaw,  
Defni glud deufwy no glaw.
- 68 Glaw bryd wylaw (brad alar)  
Gloywon ddagrau a glywir,  
Nychwyd, anafwyd nifer  
Na chawn ragorddawn gerddwr.

72 Da gerddwr, hawlwr haelion,—a guddiwyd,  
 Gwyddiad ffyrf amryson  
 Dafodiog beirdd difudion,  
 Didlawd traws fwynwawd tros Fôn.

76 Gwae ger Môn o feirddion fyrdd,  
 Gwisgo o gorff gwisgi gerdd  
 Gwead diffast gwawd hyffordd  
 Gwasg llawr, gwaisg gerddawr gwisg hardd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 182<sup>v</sup> B—BL Add 15001, 198<sup>r</sup> C—J 111, 1261 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 60<sup>v</sup> E—LIGC 2021B [= Pant 53], 38<sup>v</sup> F—LIGC 4973B, 284<sup>v</sup> G—Pen 118, 168

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, sef yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*

11 eurnaf diwarnaf. 18 g6ayfdost. 29 ara6dyr. 34 bydar kud. 41 llif. 77 g6a6t g6a6t.

*Teitl*

Sefnyn ae kant



*Marwnad Iorwerth ab y Cyriog*

- Dduw mawreddog [a] godidog, mae bardd gwych ei ffawd [a]  
dymunol
- Mewn bedd, oherwydd dull ei fywyd maddau ei bechod.  
Dyro fendith [yn] null crëwr iaith ddymunol [a] rhwydd,
- 4 Meddylwaith Myrddin gwych ei daith [a] maith [a] mawr ei  
ddygiad.
- Gwas ieuanc yw [gwrthrych] fy llifeiriant o fyfyrdod [gan un] croch  
[ei] waedd,
- Da oedd fy ngwisgoedd, [fy] mantell alarwisg.
- Awdurdod hysbys i filoedd [yn nhraddodiad] maw|gan Aneurin,
- 8 Stiward gwin, amddiffynnwr y bobl, Mair a'i cipiodd ymaith.  
Profais boen ddirboenus, mae cythrwfl meddwl yn fraw,  
Addysg ryfeddol [ei threfn sy'n] ddysgeidiaeth gorfodaeth.
- Llymaf Duw[r] Arglwydd gogoneddus, diwrnod llym fu,
- 12 Melltigidig [oedd] doe [oherwydd] dwyn ymaith gyda'r tri llu,  
[dyna] ddoen o drallod,  
Y gwas ardderchog sylweddol [sy'n] gadarn [ei] foes  
I dŷ sicr wely gwaelod daear.
- Fe ddianc dros ymyl mawrfrig grudd prydydd
- 16 Ddagrau rhydd [a] chyflym [fel] dwy gawod aeafol.  
Gweddu fydd ger [y] broydd ei briod draul o ddagrau,  
Sŵn croch oherwydd cwyno croch am amddifadedd.  
Arferent wrando acw ar [y] gŵr [mewn] undod [uwchben eu] cynr  
yfed medd,
- 20 [Gwrando ar] gydymaith bywiog ger tafarnau, [y] llefarwr gorau  
[ydoedd].  
Gwae mintai[r] dewrder, rhai disglair eu moesau [ymysg] pobl-  
oedd,  
[Oherwydd] bywyd cadarn [ymhlith yr] oesoedd [a] thros y byd  
Cristnogol.
- Derbyniodd urddas gyflawn i arbed ergyd hawdd o gerydd,
- 24 Poen [lawn] ymadrodd teg cyn [iddo fynd i'w] fedd.  
Cywir yw cân [sy'n arddangos] dawn arbennig, barddoniaeth  
ddeheuig,  
Atgof y rhai di-fai [eu] rhodd [wrth] gadw cyffes;
- Ceinciau gwych [eu] hymresymiad, darpariaeth fanwl [a] dibrin,
- 28 Dwys yw cwyn [am] Iorwerth, awdurdod ar brydyddiaeth gain.  
Cuddiodd y ddaear (cwmp mawr ar ben un cywrain [ei] draethiad)  
([Mae bellach yng] nghanell y seintiau) gorff breiniol deilwng  
cywir frawd [yn y] ffydd.

32 Brawd [yn y] ffydd [i] bob prydydd, tad, pennaeth prydyddiaeth,  
Anodd yw inni fyw cyhyd â phedair awr [ymhellach],  
[Am] fod ar Iorwerth, brydydd cywir,  
Orchudd byddar bedd cochliw[’r] ddaear.

36 [Y] ddaear ddu ac oer (llai yw’r deall)  
Yw trigfan Iorwerth dawn wych [ei] ddull,  
A phwys garw cerrig bychain llymion yn faith [arno]  
A derw newydd ei dorri a phwll oer.

40 Pwll sy’n cuddio ei rudd! [Un] o blith penceirddiaid  
Gwlad ddisglair [a] chlodfawr [ei] llafur,  
Mae pawb yn gweld llifeiriant [o] ofid dicllonedd,  
Mor faith yw[’r] dagrau, llond pwll yw[’r] un tirion.

44 Diddanwch, crefydd sicr,  
Dwy grefft bardd â rhodd anrhydeddus;  
Dodwyd [hwy, sc. y ddwy grefft] yn gaeth ddoe dan orchudd,  
Nid yw’n rhyfedd fod cyfran o drallod chwerw.

48 Nid rhyfedd (trosedd serth iawn gorthrech galar  
Dros gynheiliad prydyddiaeth gain  
A marwolaeth ein bardd mawr ei fri [a] gwych)  
Yw dwyn dagrau ar ôl Iorwerth.

52 Cywreiniodd Iorwerth harddwych [ei] gerdd  
Y llynedd, gydymaith ffyddlon [uwch] gwin,  
Gyfarchiad teg o’r diwyg gorau  
[Ag] a gywreiniodd dyn trwy rodd Duw.

56 Dyn synhwyr gall diffuant, dodais floedd ddwys,  
Dwyn ymaith Iorwerth harddwych [ei] lais  
[A] mwyn i gartref, garw fu’r gorthrech,  
I grombil y ddaear a welais.

60 Gwelais o gylch bardd teg [a] rhugl,  
Ar ôl darllen prydyddiaeth o eiriau coeth  
Nefolaidd, bwrlwm pur,  
Bridd a derw: gweledigaeth ddychrynllyd!

Aruthrol fu[’r] rhuthr o alar oherwydd i [fywyd] proffwyd lithro  
[ymaith]:

64 Pwrpaswyd dull wyllo  
Dilestair ddagrau ar ei ôl,  
Distyll taer [sydd] ddwywaith cymaint â [chawod o] law.

Wyllo megis glaw (galar ystrywiol)

68 Ddagrau gloywon a glywir,  
Clwyfwyd, doluriwyd llawer [oherwydd]  
Na chawn brydydd o ddawn ragorol [yn ôl] .

Cuddiwyd prydydd da, hawliwr [nawdd gan] wŷr hael,

72 Cyfarwydd â chystadleuaeth rymus  
Oedd lladmerydd [y] beirdd huawdl,  
Dibrin oedd prydyddiaeth fwyn [a] chadarn tros Fôn.

Gwae myrdd ger Môn o feirdd

76 [Oherwydd] i gorff parod ei gerdd  
O wead gofalus prydyddiaeth fedrus  
Wisgo rhwymiad o bridd, bardd urddasol [y] wisg hardd.

*Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd a Myfanwy ei wraig*

- Llathrodd dros fydoedd, drumoedd dramwy,  
 Llwybr nod gwyn friwod, myn Gwenfrewy,  
 4 Lliw ewyn ar ddyn, i'r ddwy—adlif,  
 Llanw mynudrew llif Llyn Mynedwy.  
 Llewychodd cyfair crair credadwy,  
 Llanw gwir, geir Deifrdir, o lan Dyfrdwy.  
 8 Llun a'm pair mawrair rhag amaerwy—deigr,  
 Lliwloyw deurudd Eigr, lleilai dirwy;  
 Llawen o'r Drefwen hyd Edrywy  
 Llais lon o'm calon i hon, a hwy.  
 12 Lle bai, cain yrthiai canhorthwy—esbyd,  
 Lliw eiry, fedrus fryd, llaw eurfodrzy.  
 Eirmoed y cerais Wrlais arlwy,  
 Arf cadwayw didarf, ceidwad adwy,  
 16 Iôr dieiddil mil a mwy—o'r ieuainc,  
 Eiriol gerdd o Ffrainc, arial Garwy;  
 Llathrlen bryd llawen, briod llywy,  
 Llyw a'i glod Gernyw o glyd Gawrnwy.  
 20 Llew cymell castell, llafn cystwy—aergrwydr,  
 Llaeswr gofrwysg frwydr, llasar gyfrwy;  
 Olwyn ddifod, perffeiddfod pwy  
 Eiliw briw breisgfron mawrdon mordwy?  
 24 I'r nêr, edmycer, oed macwy—o serch,  
 Union hoywdeg ferch o Nanheudwy.  
 Aeth cant drwy feddiant draw o Fawddwy  
 (Uthr bwyll gair didwyll) ac Ardudwy,  
 28 Eirchiaid a'i dywaid o Dawy—â'u gwawd,  
 I ddygynnull ffawd i Ddegannwy.  
 Deuwn Benmynydd, ufydd ofwy,  
 Dinas dan solas, a Dinsylwy  
 (Dyfynt hynt dremynt tramwy—beirdd Gwynedd  
 32 I gyfragod gwledd) a Gafrogwy.  
 Tra fo teyrnaidd folchraidd falchrwy,  
 Dragon, nen doethion, yn Nindaethwy,  
 36 Didlawd cain wirawd, myn Cynfarwy—walch,  
 Oesloyw barabl balch islaw Berwy.  
 Dyludwr Einglgad, angad angwy,

Didlawd waith lwysiaith dadl Alaswy.  
 Dewrwiw telediw taladwy—roddion,  
 40 Da glydwr beirddion digeladwy,  
 Da fu glod Tudur, aerddur orddwy,  
 Dôr cymen oror, camawn Arwy;  
 Da iawn gair uniawn Goronwy,—fy llyw,  
 44 Difai fonedd yw da Fyfanwy.

Rhwyd ysgwyd ysgwn gymaredd,  
 Rhaid eirchiaid, orchwyl llaweredd;  
 Rhifo dy wleddau, rhyfedd—o gellir,  
 48 O rhybarthwn wir er rhoi berthedd.  
 Rhod eurglod f'arglwydd â mawredd,  
 Rhaid eirchiaid, orchwyl tangnefedd.  
 Rhag llid frodau dwyll, rhag lledfrydedd—rhawd,  
 52 Rhoid Duw arnad nawd, Rhi teŷrnedd.  
 Rhed eurbed ergyd tros Wynedd,  
 'Rhyd gwynfyd gwanfardd, Arllechwedd.  
 Rhyw lwyswawd a'th bair, rhy laswedd—fy ngran,  
 56 Rhi ni dreisiodd wan, Rhun odrosedd.  
 Rhwysg hoywfrwysg, hyfryd i'th gyfedd  
 Rheg mawrdeg, Mordaf dy gydwedd.  
 Rhy fain ferydd wyf, rhwyf un fawredd—Llŷr,  
 60 Rhaid ym, golofn gwŷr, rhad amgeledd,  
 Dinydr hydr hyder yng ngorsedd,  
 Dawn cof cyfiawnder enmynedd.  
 Diau gadernid dyhedd—a'th blymlwyd  
 64 Â deg ceinwlad wyd a deucanwledd;  
 Dâr oesbar, esbyd ddiomedd,  
 Dôr eurior, dewr arial mawredd,  
 Diwraidd cebyddiaeth, a dewredd—i ddyn  
 68 Dwy gamp fynog hŷn, digwymp fonedd.

Curwr dreigiau, ceirydd greigiau,  
 Cleroedd eigiau clarai ddygiad.  
 Coethem geisio, caith ogleisio,  
 72 Cedyrn dreisio cadarn drwsiad.  
 Cyflym redais, cyfle credais,  
 Cain ehedais, canon hoywdad.  
 Cyn ebrwydded cawn hir drwydded,  
 76 Coeliwn rhwydded calon rhoddiaid.  
 Yn fynychaf (o dyarchaf,  
 Ef yw'r gwychaf, wyf argochiad)

- 80 Y'u molestai o'u cynestai,  
I'w bell westai hybwyll wastad.  
A rhwydd ffynnu, aur ystynnu,  
Aer ddisgynnu, urddas gennad;  
Arian llestri ar ffenestri
- 84 Ar eu rhestri, eryr ystrad.  
Brys y parai, brynwr clarai,  
Brith a garai, brathau girad,  
Briw a chleisau, brain dieisiau,
- 88 Bryder leisiau, brwydr loesiad.  
Llwyd a glewgain, bod ail Owain,  
Berwddawn gywain beirddion gawad,  
Wrth ddyneillion, berth gyfeillion,
- 92 (Bydd i ddeillion budd o'i ddillad)  
Gâr profadwy gair taladwy,  
Gŵr ar adwy, garw ei rediad:  
Gwŷd ni'i sengis, gwŷn a drengis,
- 96 Gwâr ddihengis gwyrdd o'i angad.  
Groes i'w geirydd, gweilch gerennydd,  
Gwelwyf drennydd golud raniad;  
Gwalch lle delwyf gwn y'i gwelwyf,
- 100 Gwedy delwyf gwawd adeilad.  
Llwyr, myn creirau, lle bai ffeirau  
Lluniwn eiriau llon enyriad.  
Llwydd rieni, lludd drueni,
- 104 Lles oedd eni llysoedd ynad.  
Lliaws feiddio, llwydd freiddilo,  
Lluddiwr eiddio, llawddewr roddiad;  
Llafnau hirion llednais dirion,
- 108 Llochwr gwirion, llychwr gariad.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 196<sup>v</sup> B—J 111, 1259 C—LIGC 1984B [= Pant 15], 57<sup>v</sup>  
D—LIGC 4973B, 283<sup>r</sup> E—Pen 118, 165

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, sef yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Darlenniadau'r llawysgrif*

1 drim6y. 16 gerd ffreinc. 18 oglyt. 21 dyuot. 35 kynnar6y. 37 yngat ang6y. 40 gludwr. 44 veuvanwy. 45 Kwyt. 48 or rybarth6n. 51 llit vro deu dwyll. 52 tu6.

55 vy guarn. 63 vlymlwyt. 68 yn di góymp. 69 keryd greigyeu. 79 ymolestei. 81  
Arwyd ffynnu. 91 wrth dyneilyon. 92 oe deillyon.

*Teitl*

llyma gerd sefnyn

*Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd a Myfanwy ei wraig*

- Disgleiriodd dros fydoedd, yn tramwyo bryniau,  
 Lwybr nodedig o eira mân gloyw, myn Gwenfrewi,  
 [O] liw ewyn ar ferch, i'r ddau lif,  
 4 Gorlif o rew briw llifeiriant Llyn Mynedwy.  
 Llewyrchodd ardal [yr] anwylyd gywir,  
 Lanw gwiw [o oleuni], ger Lloegr, o lan [Afon] Dyfrdwy.  
 Ffurf sy'n peri imi ymadrodd coeth rhag modrwy [h.y. ?caethiwed]  
 dagrau,  
 8 Llathraidd yw deurudd Eigr, lleilai yw [ei ] fforffed;  
 Llawen o'r Dre-wen hyd at Edrywy  
 Yw[’r] canu siriol o'm bron i hon, a phellach.  
 Lle byddai, cain gyffroai cynheilwraig gwesteion,  
 12 [Yr un o] liw eira, medrus ei bryd [a chanddi] law eurfodrwyog.  
 Cerais erioed ddarpariaeth Gwrlais,  
 [Yr un ag] arf gwaywffon brwydr gadarn, ceidwad bwlch,  
 Arglwydd cadarn mil a mwy o'r gwŷr ieuainc,  
 16 [Sef] cerdd ymbil o Ffrainc, [yr un a chanddo] nwyf Garwy;  
 Disglair ei fantell [a] llawen ei fryd, priod [y] wraig hardd,  
 Arglwydd a'i glod [yn ymestyn] hyd Gernyw o Gornwy glyd.  
 Llew [sy'n] orfod ar gastell, llafn arteithiol [mewn] rhyfelgyrch,  
 20 Darostyngwr brwydr egniol [ac iddo] gyfrwy asur;  
 [Y] dinistr[iwr ar] farch, gwynfyd pwy  
 Yw [merch] debyg i ewyn briw mynwes nerthol ton fawr [lawn]  
 rhyferthwy?
- I'r arglwydd, canmoler, [o] oed gwas ifanc llawn o serch,  
 24 [Mae] merch unionsyth nwyfus a phrydweddol o Nanheudwy.  
 Aeth cant [o feirdd] drwy awdurdod draw o Fawddwy  
 ([Un â] phwyll Uthr [a] didwyll [ei] air) ac Ardudwy,  
 Mae eirchiaid yn adrodd amdani o Dawe â'u cerddi,  
 28 Er mwyn crynhoi llwyddiant i Ddegannwy.  
 Deuwn i Benmynydd, ymweliad gostyngedig,  
 [Sy'n] noddfa dan gysur, ac i Ddinsylwy  
 (Taith eiddgar [ei] hynt yw taith beirdd Gwynedd  
 32 Er mwyn aros gwledd) ac i Afrogwy.  
 Tra bo arglwydd balch brenhinol [â] phicell doredig,  
 Pennaeth, arglwydd ar wŷr doeth, yn Nindaethwy,  
 Dibrin yw gwirod gwych, myn ymladdwr dewr [o ardal] Cynfarwy,  
 36 [Ac] ymadrodd disglair iawn [a] gwych islaw Berw.  
 Erlidiwr byddin y Saeson ffymig [ei] law,



Iaith hyfryd sy'n waith dibrin [i'r un megis] Alaswy [mewn]  
brwydr.

- 40 Gwych, ysblennydd a hardd yw[’r] rhoddion a delir,  
Amddiffynnwr daionus i feirdd amlwg,  
Gwych fu clod Tudur, gormes[wr] ym mrwydr arfau,  
Amddiffynnwr ardal hardd, [un megis] Garwy [mewn] brwydr;  
44 Da iawn yw gair cywir Goronwy, fy mhennaeth,  
Di-fai [ei] bonedd yw Myfanwy dda.

- Rhwydwr tarian parod [ei] lid,  
Anghenraid [i] eirchiaid, [un a’i] lafur [i] laweroedd;  
Syndod yw os gellir cyfrif dy wleddau,  
48 Os gallwn lunio [gair o] wirionedd yn gyfnewid am rannu golud.  
Byd gwych ei foliant ag urddas f’arglwydd,  
Anghenraid [i] ddeisyfwyr, [un a’i] lafur [yn peri] tangnefedd.  
Rhag digofaint twyll barnau [a] rhag tristwch rhawd,  
52 Boed i Dduw roi iti gynneddf, Brenin brenhinoedd.  
Rhed trawiad haelioni gwych dros Wynedd,  
Ar hyd Arllechwedd, dedwyddwch bardd tyner.  
Mae rhyw brydyddiaeth deg yn peri iti, rhy welw ei gwedd ydyw fy  
ngrudd,  
56 Brenin na threisiodd wan, oruchafiaeth Rhun.  
[Ti sy’n] rhwysg nwyfus bywiog, hyfryd i’th gyd-wleddwr  
[Yw dy] anrheg helaeth a theg, Mordaf yw dy gymar.  
Un araf rhy fain wyf, arglwydd o’r un urddas â Llŷr,  
60 Mae’n rhaid imi, gynheiliad gwŷr, [wrth] fendith ymgeledd,  
Rhwydd ddewr lewder mewn llys,  
Cynneddf cof yw cyfiawnder amynedd.  
Cadernid sicr [mewn] rhyfel a’th frwydr  
64 Â deg bro gain wyt a deucanwledd;  
Arweinydd sy’n cynnal bywyd, diwarafun wrth westeion,  
Gwych arglwydd o amddiffynnwr, [gŵr] dewr [o] nwyf godidog,  
Difa cybydd-dod, a dewrder tuag at ddyn  
68 [Oedd] dwy gamp urddasol [dy] hynafiaid, cadarn [eu] bonedd.

- Maeddwr ymladdwyr [a] meini ceirydd,  
Dygwyr clarai [i] heidiau o finteioedd o feirdd.  
Ceisio gem goeth, cleisio caethion,  
72 Darostwng gwŷr cadarn [a wnâi’r un] cadarn ei arfwisg.  
Rhedais yn gyflym, credais [ynddo] mewn iawn bryd,  
Symudais yn chwim, [o!] batrwm o dad ffyniannus.  
Mor rhwydd y cawn groeso maith,  
76 Coeliwn pa mor hael yw calon [y] rhoddwr.

- Yn fynychaf (os gofynnaf [iddo o gwbl],  
 Ef yw'r gwyachaf, [wele'r] wyf mewn mantell borffor)  
 Fe'u cythruddai hwy o'u cartrefi cynnes,  
 80 I'w ymwelydd o bell [mae'n] wastad feddylgar.  
 A llwyddo parod, estyn aur,  
 [Un yn] ymosod [mewn] rhyfel, [y] cennad urddasol;  
 Mae llestri arian ar ffenestri  
 84 Yn eu rhesi, [yr] eryr dyffryn.  
 Ar frys y parai, prynwr [y] clarai,  
 [March] brith a garai, waniadau ffyrnig,  
 [A] briw a chleisiau, brain wedi eu digoni,  
 88 Lleisiau llawn pryder [a barai'r] clwyfwr [mewn] brwydr.  
 Bendigaid a harddwych yw bod [yr un] tebyg i Owain,  
 [Yr un sy'n] casglu [ynghyd] haid o feirdd gydag egni brwd,  
 Wrth [ei] ddeiliaid, gyfeillion hardd,  
 92 (Bydd i'w ddeillion fudd o'i ddillad)  
 [Yn] gyfaill profedig [o] air haeddiannol,  
 Gŵr ym mwllch [argyfwng], garw ei rediad:  
 Ni sangodd drygioni arno, darfu gofid,  
 96 Yn hynaws y llithrodd [dillad] gwyrdd o'i law.  
 Ceir croeso i'w gaerau, cyfaill milwyr campus,  
 Boed imi weld drennydd rannwr cyfoeth;  
 Gwn y gwelwyf wron lle delwyf,  
 100 Wedi delwyf i dŷ prydyddu.  
 Yn gyflawn, myn creiriau, lle byddai dathliadau  
 Lluniwn eiriau [o foliant] yr anogwr cryf.  
 [A chando] gyndadau [y bu iddynt] lwyddiant, [ac a fu'n] ddinistr  
 [i] wrthwynebiad,  
 104 Lles oedd geni barnwr llysoedd.  
 [Un yn] herio lliaws, [un yn] darnio'n dost,  
 Atelydd eiddo, rhoddwr gwrol ei law;  
 Llafnau hirion [fyddai gan yr] un tirion llednais,  
 108 Amddiffynnwr y dieuog, carwr goleuni.

# Nodiadau

## 1

Awdl foliant i Angharad ydyw hon, sef, yn ôl pob tebyg, Angharad wraig Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir ym Môn.<sup>1</sup> Mae cofnodion cyfreithiol sy'n enwi Dafydd Fychan yn profi ei fod yn fyw rhwng 1346 a 1377 a'i fod yn ŵr o gryn ddylanwad.<sup>2</sup> Bu Dafydd yn briod ddwywaith, ac Angharad, merch Gruffudd ap Dafydd o lwyth Iarddur, oedd ei wraig gyntaf.<sup>3</sup> Fodd bynnag, ni wyddys pryd y bu iddo ailbriodi na phryd y bu farw Angharad. Cyfeirir yn y gerdd at [g]eirydd—gwyngalch (ll. 29) Angharad, sydd o bosibl yn cyfeirio at y ffaith ei bod hi a'i gŵr yn berchen ar fwy nag un cartref—o bosibl yn Nhrehwfa a Threfeilir.<sup>4</sup>

Yr oedd Angharad ei hun yn hanfod o deulu dylanwadol a theulu ac iddo hanes noddï beirdd: cofnodir i'w thad wneud gwrogaeth i'r Tywysog Du yn 1343 ac yr oedd ei mam, Nest ferch Iorwerth, yn hanfod o linach Rhirid Flaidd y canodd Cynddelw Brydydd Mawr iddo yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif.<sup>5</sup>

Dyma awdl sy'n adlewyrchu dull arferol ac amheronol y beirdd o foli gwragedd. Rhai o'r elfennau confensiynol ynddi yw'r cymariaethau o fyd natur a ddefnyddia'r bardd wrth ddisgrifio tegwch y ferch a hefyd y canmol ar ei lleferydd a'i dannedd gwynion. Mae hyn, a'r canmol ar ei galluoedd fel gwestai, yn cyfrannu at y darlun o uchelwraig ddelfrydol y beirdd.

Canwyd yr awdl hon ar ffurf cyfres o doddeidiau. Un caniad sydd iddi ac ymranna'n bedair adran yn ôl amrywiad y cymeriad llythrennol neu gynganeddol sy'n digwydd bob wyth llinell. Ceir cynghanedd sain ym mhob llinell ac eithrio llinell 28 lle ceir cynghanedd groes gydag *r* wreiddgoll. Sylwer bod nifer o'r llinellau sain yn ymylu ar fod yn gynganeddion croes am fod y bardd yn ateb mwy na'r hyn sy'n ofynnol.

## 2 lle y gwelaf Cywesgir er mwyn hyd y ll.

<sup>1</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Hwfa' 3 a D.W. Wiliam, 'Tair Cerdd Gynnar o Fôn', AAST, 1983, 34–5. Ymhellach ar gysylltiadau Dafydd Fychan â Threhwfa a Threfeilir, gw. y nodyn cefndir i gerdd 9 isod a'r rhagymadrodd i waith Llywarch Bentwrch isod.

<sup>2</sup> Gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 31.

<sup>3</sup> P.C. Bartrum: WG1 'Iarddur' 3.

<sup>4</sup> Gw. yn arbennig y rhagymadrodd i waith Llywarch Bentwrch isod, lle gwelir bod y bardd hwnnw yn cyfeirio at ddau blasty Dafydd, sef Trehwfa ym mhlwyf Bodedern yng nghwmwd Llifton, a Threfeilir ym mhlwyf Trefdraeth yng nghwmwd Malltraeth.

<sup>5</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Iarddur' 3, 'Rhirid Flaidd' 9 a GCBM i, cerddi 23–5.

- 3 **hoen fadrydd** Llsgr. *C hoewvat ryd*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, gan ddilyn D.W. Wiliam, 'Tair Cerdd Gynnar o Fôn', AAST, 1983, 39–40 a Bl B XIV 157. Deellir *madrydd* yn a. cyfansawdd o *mad* a *rhydd*; ni nodir y ffurf yn GPC 2302.
- 4 **cannaid gynnydd** Llsgr. *C gynnyd Gwyned*. Diwygir gan D.W. Wiliam, *l.c.* a Bl B XIV *l.c.*, gan ddilyn John Davies yn llsgr. E, er mwyn cynnal yr odl *-ydd*.
- 5 **ufydd—arfer** Llsgr. *C vuyd arber*. Derbynnir awgrym G 35 ynglŷn â'r diwygiad, ar sail ystyr. Noder mai 'ufydd' yw'r ynganiad gwreiddiol; cafwyd y ffurf ddiweddarach *ufudd* drwy gymathiad, gw. ChO 29, PKM 112–13. Ar *ufydd* yn golygu 'humble, obedient', gw. *ib.* 112.
- 9 **o'i** Cymerir mai 'i'w' yw ei ystyr yma yn hytrach nag 'o'i', gw. GMW 53.
- balchdud** Derbynnir awgrym petrus G 49 i'w ddeall i olygu 'pobl wych', ond gellid hefyd 'bro wych', cf. CGRG 388.
- 10 **praw aelaw** Llsgr. *C paraw aela6 sy'n peri i'r ll. fod yn rhy hir o sillaf*. Y tebyg yw mai *praw aela6* oedd y darlleniad gwreiddiol ac i lygaid y copiwr ddilyn patrwm y gair *parawd* islaw, ll. 12.
- 14 **cyrf** Dilynr G 164 a'i ddeall yn ffurf l. *corf*, sef 'cynheiliad', &c. Fe'i treiglir yma ar ôl yr e. genidol *nwyf*: 'cynheiliaid [llawn] nwyf'.
- nyf gorfynydd** Dilynr CGRG *l.c.*, gan ddiwygio *nyt* llsgr. *C yn nyf sy'n rhoi gwell ystyr yma*.
- 16 **deufyd** Sef y byd materol a'r byd ysbrydol.
- 20 **ymlefyrydd** Cymerir mai 'llefyrydd' yw ei ystyr yma, ond nid amhosibl nad yr ystyr 'siarad yn ffôl' sydd iddo a bod y bardd yn cyfeirio at ei iaith a'i awen fyrlymus ef ei hun ac yntau wedi ffoli ar y ferch; cf. *D Ymlyferydd, Delirare, voces incongruas sine sensu effutire, more aegrotantium* a GDG<sup>3</sup> 168 (63.47–8) *Ys mul arwydd am swydd serch, / Ymlefyrydd am loywferch*.
- 26 **llawr hefelydd** Llsgr. *C lla6r huvelyd*. Un awgrym yn CGRG 391 yw darllen *llawr ufelydd*, ond ni chredir y byddai *ufelydd* (ffurf l. *ufel* 'spark', gw. J. Lloyd-Jones, 'The Compounds of \*gar', *Celtica*, iii (1956), 207–8) yn rhoi ystyr addas yma fel 'fflachiadau'. Diwygir yn hytrach yn *llawr hefelydd* gyda Bl B XIV, a deall y cyfuniad yn gyfeiriad at Angharad yn gymar i ben-campwr. Ar *llawr* = 'arwr, ceimad', &c., gw. GPC 2118 d.g. *llawr*<sup>2</sup>.
- 27 **Gwenddydd—wybodau** Llsgr. *C llenn dyd wybodeu*. Diwygir gan ddilyn John Davies yn llsgr. E er mwyn yr ystyr a'r gynghanedd (cf. Bl B XIV *l.c.*). Cariad Myrddin Wyllt oedd Gwenddydd yn ôl un ffurf ar ei chwedl, ond chwaer iddo ydoedd yn ôl ffurf arall arni, gw. G 659,

- TYP<sup>2</sup> 470, *Arthurian Literature in the Middle Ages*, ed. R.S. Loomis (Oxford, 1974), 24. Awgrymir mewn rhai ffynonellau llenyddol fod ganddi hithau ddysg a galluoedd proffwydol, gw. A.O.H. Jarman, 'Chwedl Myrddin yn y canu cynnar' (M.A., Cymru [Bangor], 1936) a chrybwyllir yr agwedd hon yn CGRG 391.
- 28 **O'r môr bu golau mawr bwy gilydd** Awgrymir yma fod Angharad a'i chartref yn disgleirio o un pen o Fôn i'r llall. Rhydd y bardd bwyslais arbennig ar ei disgleirdeb yn y gerdd: sonnir amdani fel *gloywder gwledydd*, ll. 6, disgrifir hi fel eira gwyn, llau. 13–14 a *haul ysblennydd*, ll. 32, a sonnir am ei chartref gwyngalchog yn ll. 29.
- 29 **yng ngheyrydd—gwyngalch** Ar yr arfer gyffredin gynt o wyngalchu tai, gw. I.C. Peate, *The Welsh House: A Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 29.
- 32 **planiad** Sef 'y weithred o blannu, dodiad, rhoddiad'. Defnyddir y gair yn ffigurol yma (cf. GPC (i ymddangos)).

## 2

Ni nodir mai marwnad Iorwerth ab y Cyriog yw'r awdl hon yn Llyfr Coch Hergest, J 111, 1261–2, sef y copi hynaf ohoni. Ceir y pennawd MARWNAT IORWERTH ar frig y ffolio ac yn dilyn *am Iorwerth*, llinell 50, ceir y briflythyren C, am 'Cyriog', o bosibl. Wrth godi'r awdl i Pen 118, cymerodd Siôn Dafydd Rhys mai Iorwerth ab y Cyriog oedd y gwrthrych a dilynwyd ef gan gopiwyr y llawysgrifau diweddarach. Mae tystiolaeth fewnol y gerdd yn cadarnhau hyn i raddau: cesglir ynddi fod Iorwerth yn fardd o bwys ac yn hanfod o Fôn.<sup>1</sup> Er na chadwyd inni gerddi gan Iorwerth i noddwyr o Fôn, mae'n deg credu mai o'r ynys honno yr oedd yn hanfod—canodd ei dad, Gronw Gyriog, i Wenhwyfar o Goedana, a cheir tystiolaeth ddogfennol yn profi i Ronw fod yn ddeiliad tir ym Môn yn 1317.<sup>2</sup> Nid oes ychwaith unrhyw dystiolaeth am fardd arall o'r enw Iorwerth a drigai ym Môn yn y cyfnod hwnnw. Amcanodd Ifor Williams<sup>3</sup> fod Goronwy yn ei flodau tua 1330 a bod Iorwerth, felly, yn ei flodau tua 1360.

Mae parch Sefnyn at Iorwerth yn amlwg iawn yn y farwnad hon. Canmolir Iorwerth fel awdurdod ar ganu yn nhraddodiad barddoniaeth Aneirin (ll. 7) ac fel awdurdod cyffredinol ar y grefft farddol (e.e. llau. 28, 31, 48). Ond molir Iorwerth hefyd fel uchelwr ac fel noddwr i'r bardd—derbyniodd

<sup>1</sup> Gw. isod llau. 74–5 lle sonnir yn benodol am alar beirdd Môn yn sgil colli Iorwerth.

<sup>2</sup> Ymhellach ar Ronw Gyriog a'i fab Iorwerth ab y Cyriog, gw. GGrG cerddi 1–7, ac yn arbennig y Rhagymadroddion i weithiau'r ddau fardd hyn.

<sup>3</sup> Gw. IGE<sup>2</sup> lxxxiii; mae'n dra phosibl iddo hefyd ganu rai blynyddoedd cyn 1350, gw. y Rhagymadrodd i waith Iorwerth ab y Cyriog yn GGrG.

ganddo wisgoedd (ll. 6) a gwin (ll. 8)—yn ogystal ag fel noddwr ac amddiffynnwr y bobl (llau. 8, 71). Mae'n dra phosibl fod Iorwerth yn athro barddol i Sefnyn ac yn bencerdd. Soniodd yr Athro Dafydd Jenkins<sup>4</sup> am arfer y pencerdd o deithio gyda'i ddisgyblion gan roi nawdd iddynt—byddai cefndir o'r math hwn yn berffaith bosibl o gofio bod Sefnyn yn cyfeirio'n benodol at Iorwerth fel *ein bardd* yn llinell 49 ac fel un a oedd yn rhoi cynhaliath iddo.

Erys tair cerdd inni o waith Iorwerth ab y Cyriog, sef awdl grefyddol, awdl foliant i Efa o Feirionnydd, a chywydd i ddiolch am gae a dderbyniodd gan ei gariad.<sup>5</sup> Fel y nodwyd, molir Iorwerth yn helaeth gan Sefnyn am ei alluoedd barddol, ond ceir hefyd awgrym yn llinellau 43–4 iddo fod mewn urddau eglwysig yn ogystal:<sup>6</sup> cymharer hefyd linell 31 lle gelwir ef yn [*f*]rawd ffydd, yn [*b*]ab (a allai olygu 'tad, offeiriad') a [*ph*]riodawr a llinell 43 lle sonnir am ei [*d*]diau grefydd. Dichon fod arwyddocâd arbennig i'r iaith drosiadol hon.

Canwyd yr awdl hon ar ffurf cyfres o doddeidiau yn y caniad cyntaf, ac yna gadwyn o englynion unodl union am yn ail ag englynion proest dalgron.

- 2 **mae** Ceid dechreuad mwy dramatig i'r awdl o'i ddehongli yn 'b'le mae?' (gw. GMW 143): 'Dduw mawreddog a hardd, b'le mae[r] bardd gwych ei ffawd [a] dymunol? / [Ac yntau] mewn bedd, oherwydd [dull ei] fywyd, maddau ei bechod!'
- 3 **Moes rad ... ddigrifiath** Yr oedd yn gonfensiwn gan y beirdd ofyn i Dduw am awen wrth foli ac wrth farwnadu.
- 4 **Myrddin** Ymhellach ar Fyrddin, gw. R. Bromwich, 'Y Cynfeirdd a'r Traddodiad Cymraeg', B xxii (1966–8), 31–2, ac M.E. Owen, 'Chwedl a Hanes: y Cynfeirdd yng Ngwaith y Gogynfeirdd', YB xix (1993), 23–7. Awgrymir gan R. Bromwich, *l.c.*, fod dau draddodiad am Fyrddin: y naill yn ei gofio fel Cynfardd, y bardd hanesyddol o'r 6g. a chyfoeswr Taliesin, a'r llall fel y bardd darogan y tyfodd nifer o chwedlau a hanesion amdano erbyn y 12g. Yma, ar ddechrau ei farwnad, gofynna Sefnyn i Dduw am allu fel gallu Myrddin i ganu ei farwnad, ac mae hyn yn dwyn i gof eiriau enwog Dafydd Benfras wrth farwnadu Llywelyn ab Iorwerth, lle gofynna i Dduw am *awen awydd Fyrddin / I ganu moliant mal Aneirin—gynt / Dydd y cant 'Ododin'*, GDB 25.4–6. Mae'n amlwg fod Sefnyn yn gyfarwydd â'r traddodiadau am y Myrddin daroganol, fel y gwelir uchod l.27n.

<sup>4</sup> Gw. D. Jenkins, 'Pencerdd a Bardd Teilu', YB xiv (1988), 36–7, 42.

<sup>5</sup> Gw. GGrG cerddi 3–5; priodolwyd dau gywydd arall i Iorwerth yn ogystal, *ib.* cerddi 6 a 7, ond gwrthodwyd y rheini.

<sup>6</sup> Gw. y nodyn ar l. 44 isod.

- 6 **mwrrai wasgawd** Ar *mwrrai* ‘galarwisg (gochddu)’, gw. GPC 2512; ond, fel y gwelir yno, gan ei fod hefyd yn golygu ‘coch tywyll, porffor’ yn syml, nid amhosibl fod y bardd yma’n canmol mantell borffor a dderbyniodd gan Iorwerth yn rhodd. Gwelir mewn cyfeiriadau niferus o’r Hengerdd hyd farddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr ac mewn testunau rhyddiaith fod dillad porffor neu goch yn dynodi statws cymdeithasol aruchel y sawl a’u gwisgai: drwy gyflwyno mantell borffor i’r bardd mae’r noddwr yn cydnabod statws uchel y bardd hwnnw yn gyhoeddus.
- 7 **Medd cyhoedd milioedd molawd—Aneirin** Gwelir yma un o’r cyfeiriadau prin hynny sy’n enwi Aneirin, y Cynfardd o’r Hen Ogledd y priodolir ‘Y Gododdin’ iddo, gw. CA xiv–xvi, R. Bromwich, *art.cit.* 30–1 ac isod 6.75. Yma cysyllta Sefnyn Iorwerth â phrif ffrwd traddodiad mawl barddoniaeth Gymraeg.
- 8 **maer gwin, mur gwerin** Cydymffurfia’r delweddu hyn â’r darlun traddodiadol o’r noddwr hael yn cyflawni ei ddyletswyddau cymdeithasol.
- 12 **trillu ... drallawd** Mae’r tri llu yn rhan o ddelweddaeth boblogaidd Dydd y Farn yn yr Oesoedd Canol. Ar y dydd hwnnw credid bod y ddynolryw yn cael ei dosbarthu’n dri llu, sef y llu a âi i burdan, y llu condemniedig a âi i uffern a llu’r seintiau a âi’n syth i’r nefoedd. Am ymdriniaeth â’r syniad hwn ac enghreifftiau pellach ohono, gw. HG Cref 139–40, MWRL 103–5, GMB 28.7n a GCBM ii, 16.17n. Â’r ll. hon, cf. yn arbennig GBF 42.16 *Lle gbelo trillu, trallawt a wna* (Gruffudd ab yr Ynad Coch); GMB 28.7–8 *Pan del rac Yessu trillu trallaðd, / Pawb a dað atað, pobyl uraw, y’r Uraðd* (Einion ap Gwalchmai).
- 15 **diaing** Dilynir G 324 sy’n dosbarthu’r ffurf hon yn 3 un.pres.myn. *di-anc*; ond tybed a ellid ffurf ansoddeiriol yn yr ystyr ‘digynnwys’, yn gyfuniad o’r rhagddodiad negyddol *di-* + *geing* (bôn y f. *genni* = ‘cael ei gynnwys’, &c., *ib.* 528)?
- 18 **gwaedd-dost** Llsg. C *gðayfdost*. Diwygir er mwyn y gynghanedd gan ddilyn G 601 a GPC 1548.
- 21 **gloywdddefawd—pobloedd** Gellid diwygio’n *gloywdddefawd—bobloedd* a roddai’r ystyr ‘pobloedd disglair eu moesau’.
- 24 **medrawd** Ffurf amrywiol ar *meddrod/beddrod*, gw. GPC 2398. Dichon mai gwell hyn na chyfeiriad at Medrawd, nai Arthur. Arno ef, gw. TYP<sup>2</sup> 454–5.
- 34 **byddargudd bedd** Llsg. C *bydar kud bed*. Diwygir er mwyn aceniad y ll. Am gyfeiriadau pellach at fedd byddar, cf. R 1206.30 *kynn llaðr*

- bydar* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1333.15 *p6ll bydar. daear duoer* (eto).
- 35–6 **Gwell**, efallai, er gwaethaf yr aceniad, fyddai darllen *Llawr duoer yw* (*llai'r deall*) / *Llety Iorwerth ...*
- 38 **irbwynt** Derbynnir yr ystyr a roddir yn betrus yn GPC 2027.
- 41 **pawb a'i gwyl** Cymerir bod y rhagenw mewnol proleptig ‘*i* yn achub y blaen ar y gwrthrych *llid gynfyl lif*. Mae'r gystrawen hon yn nodweddiadol o farddoniaeth y Gogynfeirdd, gw. GMW 56–7.
- 44 **dwygrefft bardd** Yma gwelodd Ifor Williams, IGE<sup>2</sup> lxxxiii, awgrym fod Sefnyn mewn urddau eglwysig yn ogystal â'i fod yn fardd. Gw. ymhellach y nodyn cefndir uchod a cf. isod 8.11 *Dwygrefft mab* ac *ib.n.*
- 51–4 **Eurodd Iorwerth ... dyn** Yma gwelodd Ifor Williams gyfeiriad at ddigwyddiad penodol ym mywyd Iorwerth, sef cyfansoddi cywydd diolch am gae drudfawr a dderbyniodd gan ei gariad, cywydd a ddaeth yn destun dychan gan Ddafydd ap Gwilym, gw. I. Williams, ‘Cywydd gan Iorwerth ab y Cyriog’, B i (1921–3), 50–4, IGE<sup>2</sup> *l.c.*, GGrG cerdd 5.
- 60 **darllain gwawd** Mae'r cyfeiriad hwn at farddoniaeth yn cael ei darllen yn hynod o ddiddorol o gofio mai traddodiad llafar oedd y traddodiad barddol yn y cyfnod dan sylw, cf. 1.11 uchod [*I*]lafarwawd.
- 72 **gwyddiad** Ffurf gyfystyr â *gwyddai*, sef ffurf 3 un.amhff.myn. *gwybod*.
- Gwyddiad ffyrf amryson** Fel y noda Ifor Williams, IGE<sup>2</sup> lxxxiv, mae'n bosibl fod yma gyfeiriad at ymryson a ysgrifennwyd yn sgil canu cywydd ‘I ddiolch am gae’ gan Iorwerth, a bod yr ymryson bellach ar goll.
- 74–5 **tros Fôn. / Gwae ger Môn** Cadarnheir yma gyswllt Iorwerth â Môn, gw. IGE<sup>2</sup> lxxxiii.

Awdl foliant yw hon i Oronwy Fychan ap Tudur ap Goronwy ap Tudur Hen ac i Fyfanwy ei wraig.<sup>1</sup> Yr oedd Goronwy yn hanfod o linach Penmynydd,<sup>2</sup> un o'r prif deuluoedd a noddai feirdd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, beirdd y cadwyd llawer o'u gwaith yn Llyfr Coch Hergest. Yr oedd Myfanwy yn ferch i Iorwerth Ddu ab Ednyfed Gam ab Iorwerth Foel, o'r Pengwern yn

<sup>1</sup> Am gerdd Rhisieryd yn i Fyfanwy, gw. isod cerdd 5.

<sup>2</sup> P.C. Bartrum: WG1 ‘Marchudd’ 13; am ei yrfa, gw. AWH 199–201.



Llangollen, yng nghwmwd Nanheudwy.<sup>3</sup> Bu Goronwy yn ffyddlon ei wasanaeth i'r Tywysog Du a chyfeiria'r beirdd yn arbennig at ei frwydro glew yn Ffrainc.<sup>4</sup> Boddodd yng Nghaint yn 1382 ychydig ddyddiau ar ôl cael ei benodi yn gwnstabl Castell Biwmares a gwelir ei feddrod ef a Myfanwy bellach yng Nghapel y Tuduriaid yn eglwys Gredifael, Penmynydd, wedi iddo gael ei symud yno o Dŷ'r Brodyr Llwydion yn Llan-faes pan ddiddymwyd y mynachlogydd gan Harri VIII.<sup>5</sup>

Nid oes dim yn yr awdl a fyddai'n gymorth i'w dyddio. Y cyfan y gellir ei nodi yw fod cyfeiriadau yn y caniad cyntaf yn awgrymu bod Goronwy yn ŵr ifanc ac o bosibl newydd briodi Myfanwy (llau. 23–4 *I'r nêr, edmycer, oed macwy—o serch, / Union hoywdeg ferch o Nanheudwy*). Disgrifir beirdd o Wynedd a chyn belled â Thawe yn tyrru i Benmynydd i *gyfragod gwledd* (llau. 25–32); ai gwledd dathlu priodas Goronwy a Myfanwy oedd hon?

Adlewyrchir yn yr awdl nifer o'r elfennau confensiynol yn y traddodiad o foli uchelwyr. Canmolir Goronwy am ei degwch fel arweinydd, sonnir am ei haelioni, ei letygarwch a'i groeso arbennig i'r beirdd, yn ogystal â'i ddewrder ar faes y gad. Elfen arall yw'r mawl anuniongyrchol a gynigir i Oronwy drwy grybwyll rhinweddau ei wraig. Dyma hanfodion y darlun traddodiadol a gyflwynir gan y beirdd o'r noddwr fel gŵr sy'n cyflawni ei ddyletswyddau cymdeithasol i'r eithaf.

Canwyd caniad cyntaf yr awdl ar fesur gwawdodyn. Mae llinellau 3 a 21 sillaf yn fyr. Yr ail ganiad ceir cwpledi o gyhydedd fer am yn ail â thoddaid a chanwyd y trydydd ar fesur rhupunt hir.

- 1 **drumoedd dramwy** Llsgr. B *drumoed drimby*. Ceir tair enghraifft o'r gair *trimwy* yn slipiau Geiriadur Prifysgol Cymru gan gynnwys yr enghraifft hon. Yn y ddwy enghraifft arall ymddengys mai'r ystyr yw 'dair gwaith yn fwy': R 1205.17 *Trimby ybr gogleis tra mawr gogleu* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1205.28 *tr6m eryssyt yw trimbyreisseu* (eto). Ond ceir yma well ystyr trwy ddiwygio'r darlleniad. Gellid deall *tramwy* yn ferfol neu'n enwol yma, gyda'r ystyr 'yn tramwyo bryniau' neu 'taith dros fryniau', cf. GLIF 23.12 *garw dramwy drumein* (Seisyll Bryffwrch).
- 2 **myn Gwenfrewy** Yr oedd tyngu llw ar sant neu santes a chyfeirio at y seintiau yn arfer gyffredin ym marddoniaeth y cyfnod. Santes o'r 7g. oedd Gwenfrewi ac fe'i cysylltir yn benodol â Thegeingl er bod ei bri wedi cynyddu ac ymestyn erbyn yr Oesoedd Canol, fel y dengys y mynych gyfeiriadau ati gan y beirdd. Cyhoeddir ei buchedd yn VSB

<sup>3</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 13 ac AWH 200. Am y cysylltiad agos rhwng teulu Penmynydd a theulu'r Pengwern, gw. *ib.* 206 *et passim*.

<sup>4</sup> Am gyfeiriadau at frwydro Goronwy yn Ffrainc gan Risierdyn, Gruffudd ap Maredudd a Llywelyn Goch, gw. AWH 199–200 a gw. y nodiadau isod ar *Ffrainc*, ll. 16 ac *angwy*, ll. 37.

<sup>5</sup> Gw. AWH 200–1.

288–309 a cheir mydryddiad o'r fuchedd hon gan Dudur Aled, TA 523–6. Ymhellach, gw. LBS iii, 185–96 ac Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Bury St Edmunds, 1987), 141–51. Dichon fod arwyddocâd arbennig i'r cyfeiriad hwn o gofio am gyswllt Gwenfrewi â'r ffynnon sy'n gweddu i ddelweddaeth y llau. canlynol lle cymherir Myfanwy â dŵr llifeiriol.

- 4 **mynudrew** Fe'i deallir yn gyfansoddair o *mynud* a *rhew*. Derbynnir awgrym petrus GPC 2538 sy'n nodi bod 'briw' yn un o ystyron posibl *mynud*.

**Mynedwy** Trafodir yr enw gan R.J. Thomas yn 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -Wy', B viii (1935–7), 36. Ni wyddys ei leoliad.

- 6 **geir Deifrdir** Hen ffurf amrywiol ar yr ardd. *ger* yw *geir*, gw. GPC 1394. Derbynnir awgrym petrus G 310 ynglŷn â *Deifrdir* (llsgr. B *deyfyrdir*) a chymryd mai 'Lloegr' (o *Deifr* + *tir*) yw ei ystyr. Cyfeiria'r bardd o bosibl at y ffaith fod ardal Nanheudwy, sef cartref Myfanwy, yn agos i Loegr, cf. R 1195.11–12 *drôy vaôrdwy dyfyrdwy de[i]fyrdir eithaf* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1268.14–15 *llefir yr deifyrdir amgylch dyfyrdôy* (Madog Dwygraig).

**o lan Dyfrdwy** Hanoedd Myfanwy, wraig Goronwy ap Tudur, o'r Pengwern yn Llangollen, yn ardal Nanheudwy ar lan Afon Dyfrdwy; ymhellach arni, gw. y nodyn cefndir uchod.

- 8 **Eigr** Y wraig brydferthaf ym Mhrydain, yn ôl Sieffre o Fynwy, a mam y Brenin Arthur. Yn 'Brut y Brenhinedd' ceir hanes cenedlu'r arwr wedi i Uthr Bendragon ymweld â hi yn rhith ei gŵr, sef Gwrlais Iarll Cernyw y cyfeirir ato yn ll. 13 isod. Cyffelybir Myfanwy yma i Eigr ac estynnir y gymhariaeth wrth i'r bardd sôn isod ll. 13 yn drosiadol am Oronwy ei gŵr fel Gwrlais. Am Eigr, gw. TYP<sup>2</sup> lxxxi, 336, 414.

- 9 **y Drefwen** Cyfeiriad, mae'n debyg, at y Dre-wen, sef Whittington yn swydd Amwythig (gw. CLIH 215–16 ac EWSP 593) yn hytrach nag at Whitton 'treflan i'r gogledd o Gefn-llys ac ar lan Ieithon ym Maelienydd' (LGCD 155 d.g. 'Dre-wen'). Cyfeiria'r Gogynfeirdd yn gyffredin at y Dre-wen fel llys delfrydol o'r gorffennol, gw. GCBM i, 24.108n. Mae'r fformwla *o ... hyd* a welir yma yn awgrymu bod y bardd yn cyfeirio at y Dre-wen fel llys yn y dwyrain eithaf a bod Edrywy i'w leoli mewn pegwn arall. (Gwelir y fformwla hon ar waith yn ll. 18 ac yn llau. 25–8 wrth sôn am gyrion Gwynedd ac am rannau o Fôn, er enghraifft Gafrogwy yng nghanol yr ynys, Cornwy sydd yn y pegwn gogledd-orllewinol a Dinsylwy yn y dwyrain. Cf. hefyd isod 10.17–18n.)

**Edrywy** Man anhysbys erbyn heddiw ond am gyfeiriadau pellach ato, gw. G 442 a CLIH 166. Awgryma'r ôl-ddodiad -wy ei fod yn enw ar

afon neu'n enw lle, a chyfeiria R.J. Thomas, *art.cit.* 27, at Draeth Edrywy ac at Garreg Edrywy yn ardal Trefdraeth, Penfro (ar hwnnw, gw. B.G. Charles, *The Place-names of Pembrokeshire* (Aberystwyth, 1992), 149). Ceir cyfeiriad at draeth Edrywy yng ngwaith Gwalchmai, GMB 11.71 *Am draeth Edrywy adrywet brein*. Braf fyddai medru lleoli Edrywy ar arfordir gorllewinol Gwynedd, o'i gyferbynnu â lleoliad y Dre-wen yn y dwyrain (gw. y nodyn blaenorol).

- 13 **Gwrlais** Iarll Cernyw a gofir fel milwr dewr, arweinydd a chynghorwr doeth, gw. G 711, BD 122, 134, 136–40, TYP<sup>2</sup> lxxxii a cf. R 1246.15–16 *llit erdyrn kedyrn keidyað neu ßrleis* (Casnodyn), *ib.* 1315.10 *kedernyt gwrlais aergleis eurgled* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1359.10 *llyna gaðñ brynhaðñ yn hy wrleis* (Iocyn Ddu ab Ithel Grach). Ef oedd gŵr Eigr. Am arwyddocâd y cyfeiriad hwn, gw. ll. 8n.

- 16 **eiriol gerdd o Ffrainc** Llsg. B *eiryabl gerd ffreinc*. Diwygiad arall posibl a fyddai'n cryfhau'r gynghanedd fyddai *eiriol gerydd Ffrainc* a deall *eiriol* yn ffurf 3 un.pres.myn.: 'Mae'n eiriol am boen ar Ffrancwyr'.

**Ffrainc** Deallir yma e. lle, yn groes i G 510 sy'n dosbarthu'r enghraifft yn ll. *ffranc* = 'Norman' neu 'Ffrancwr'. Ar sail cyfeiriadau mewn marwnadau i Oronwy gan Risierdyn a Gruffudd ap Maredudd, awgryma Glyn Roberts, AWH 199–200, ei bod yn debygol fod Goronwy wedi ymladd yn Ffrainc, gw. isod 4.56 *Llawen orfod Ffrainc, llew yn arfau*; R 1323.5–6 *diriei ffreinc mywn derð aphrid* (Gruffudd ap Maredudd); cf. hefyd *ib.* 1307.8–10 *Peris ymharis amhured riduan gbaed yn narogan gbedwon wraged* (Llywelyn Goch); gw. hefyd isod ll. 37n. Efallai fod y bardd yn cyfeirio'n benodol yma at gerdd a glywodd yn llys Goronwy y daethpwyd â hi o Ffrainc pan oedd Goronwy a'i wŷr yn ymladd yno.

**Garwy** Yr oedd Garwy yn enwog fel milwr a charwr, gw. TYP<sup>2</sup> 354. Diben y cyfeiriad hwn yw canmol milwriaeth Goronwy, cf. isod ll. 42 a 6.41 *Garwy ar adwy, gwrol rediad—ffyrf*; cf. hefyd isod 4.126 lle mae'r cyfeiriad at Arwy yn y gerdd honno i Oronwy yn sôn amdano fel carwr, yn ôl pob tebyg. Am gyfeiriadau pellach at Arwy, gw. TYP<sup>2</sup> l.c.

- 18 **o glyd** Llsg. B *oglyt*, y gellid ohono ffurf dreigledig *goglyd*, sef 'amddiffyn' neu 'warchodaeth' a'i ddeall yn drosiad am Oronwy.

**Cawrnwy** Digwydd yr elfen hon yn yr enw Llanfair-yng-Nghornwy a thebyg mai cyfeiriad at y drefgordd honno yng ngogledd-orllewin Môn sydd yma, cf. R 1230.11–12 *O ... gby hyt gaðrnby uud rby arued ruaðñ* (Gwilym Ddu o Arfon). Gw. hefyd R.J. Thomas, 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -wy', B vii (1933–5), 118. O gyfosod Cernyw a Chornwy mae'r bardd yn cyfeirio at begynau daearyddol eithaf de a

gogledd, cf. yr enghraifft uchod gan Wilym Ddu sy'n crybwyll Gwy a Chornwy, pegynau eithaf Cymru.

- 21 **olwyn** Ceir lliaws o enghreifftiau o ddefnyddio *olwyn* yn ffigurol am farch, gw. GPC 2644, TYP<sup>2</sup> 98, CLIH 118 ac I. Williams, '*olwyn* am farch', B viii (1935–7), 236–7.

**difod** Llsgr. B *dyuot*. Diwygir yn betrus iawn er mwyn yr ystyr gan ddeall *difod* yn fe. â grym e. = 'dinistr[iwr]'; gw. G 339 lle rhoddir i'r f. yr ystyr 'dwyn ymaith, dileu, dinistrio' a hefyd HG Cref 162 (ond gthg. GPC 988 lle rhoddir yr ystyron 'bod o, perthyn i' yn unig iddi). Am drafodaeth bellach ar *difod*, gw. J.E.C. Williams, 'difod, diw, pyddiw', B xxiii (1968–70), 217. Cymerir mai cyfarch Goronwy Fychan yn rhethregol a wneir yma. Gan fod y ll. yn brin o sillaf, posibilrwydd pellach fyddai diwygio *dyuot* yn *dyuot* 'dyofod, dofod' (G 425, GPC 1072 d.g. *dofod*).

- 24 **Nanheudwy** Cwmwd yn swydd y Waun, gw. WATU 162.

- 25 **Mawddwy** Cwmwd ar gyrion deheuol Gwynedd.

- 26 **Uthr bwyll** Gellid deall *uthr* yn a. = 'aruthr, dychrynlyd', &c., ond cymerir mai cyfeiriad at Uthr Bendragon, tad y Brenin Arthur, ydyw; gw. TYP<sup>2</sup> 520–3 am gyfeiriadau pellach ato, ac yn arbennig *ib.* 522, 'From the fourteenth century onwards it is apparent that the poets knew of Uthyr's role in the *Brut*, and where any ambiguity exists, it becomes more probable that the personal name is intended'. Mae'r cyfeiriadau uchod at Gwrlais ac Eigr yn cadarnhau bod Sefnyn yn gyfarwydd â chymeriadau o 'Brut y Brenhinedd' a'r chwedlau Arthuraidd.

**Ardudwy** Cantref ym Meirionnydd, gw. WATU 7, PKM 162, 285.

- 27 **Tawy** Sef Afon Tawe, gw. G 5 ac isod 4.108 *Hyder diwyd hyd ar Dawy*, sef enghraifft bellach o gyfeirio at yr afon fel pegwn pell yn y de. Gw. hefyd 4.108n.

- 28 **Degannwy** Maerdref ar arfordir Gwynedd yng nghwmwd Creuddyn yng nghantref Rhos, gw. R.J. Thomas *art.cit.* 119, ELISG 4 a WATU 56. Mae'n debyg i'r bardd ddewis enwi Degannwy oherwydd y cof am lys Maelgwn Gwynedd ac amlygrwydd y lle yng ngwaith beirdd y 12g. a oedd yn trafod Degannwy fel un o brif lysoedd Gwynedd ynghyd ag Aberffraw, gw. GCBM ii, 4.2n.

- 29 **Penmynydd** Plwyf yng nghwmwd Dindaethwy ym Môn, ac enw cartref Goronwy Fychan, gw. WATU 174–5.

**ufydd** Gw. uchod 1.5n.

- 30 **Dinsylwy** Trefgordd yn nwyrain Môn, gw. WATU 59 ac R.J. Thomas *art.cit.* 119.

- 31 **dremynt** Cymerir mai 'taith' yw ei ystyr yma; *tremyn* oedd y ffurf wreiddiol, ond cymysgwyd hi â *dremynt* 'golygfa', &c., gw. G 389–90 am y ddwy ystyr bosibl i'r gair hwn ac ymhellach J. Lloyd-Jones, 'Amod, dirmyg, gomynaf, ac eraill', B ii (1923–5), 107, CA 309, CLIH 220.
- 32 **Gafrogwy** Maenor ym mhlwyf Llangwyllog yng nghwmwd Menai, Môn, gw. WATU 72 ac e. ar nant ac ar lyn ger Bodffordd; yr oedd yr eglwys yng Ngafrogwy. Ymhellach ar yr e., gw. R.J. Thomas, 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -Wy', B viii (1935–7), 31–2.
- 33 **bolchraidd** Topos wrth foli milwyr dewr oedd eu disgrifio'n brwydro gydag arfau tyllog; arwyddai hyn ddewrder diysgog, gw. CA 71.  
**balchrwy** Derbynnir awgrym petrus G 50 ynglŷn â'r ffurf a'i deall yn gyfuniad o *balch* a *rhwy* 'arglwydd' (amrywiad ar *rhwyf*).
- 34 **Dindaethwy** Cwmwd a chantref ym Môn lle yr oedd cartref Goronwy Fychan, gw. WATU 58.
- 35 **Cynfarwy** Llsgr. B *kynnarby*; derbynnir awgrym G 247 ynglŷn â'r diwygiad. Sant ydoedd yr honnir iddo fyw yn y 7g. ac y cysegrwyd eglwys plwyf Llechgynfarwy yng nghwmwd Llifton ym Môn iddo, gw. WATU 144, LBS ii, 243 a RCAHM (Anglesey) am fanylion pellach. Y tebyg yw fod y bardd yn cyfeirio at Oronwy yma fel un a ddeuai dan nawdd Cynfarwy.
- 36 **oesloyw** Cymerir bod grym cryfhaol i'r elfen *oes* yma, cf. GCBM i, 13.21n am fwy o enghreifftiau o hyn.  
**Berwy** Ffurf amrywiol ar Berw (cf. *Gronwy* > *Gronw*), sef trefgordd yng nghwmwd Menai ym Môn, gw. WATU 11 ac R.J. Thomas, 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -wy', B vii (1933–5), 120
- 37 **angad** Llsgr. B *yn gat*. Diwygir er mwyn y gynghanedd.  
**angwy** Derbynnir cynnig petrus G 19 i'w ddeall yn a. yma ac isod 4.18 *Prudd wst angwy nerth, praidd ostyngiad*; ychwanega GPC 69 y gall mai e. arwr ydyw (cf. isod 13.39). Ond tybed ai amrywiad ar Angyw, sef yr e. lle *Anjou*, sydd yma? (Cofier i Oronwy Fychan fod yn ymladd yn Ffrainc, gw. uchod ll. 16n.) Am drafodaeth ar wahanol ffurfiau'r e. lle hwnnw, gw. BD 212–13.
- 38 **Alaswy** Dilynir G 19 sy'n ei restru fel e.p., sef arwr anhysbys, cf. isod 4.104 *Anaw lysoedd, enw Alaswy*, a gw. GCBM i, 16.77n am gyfeiriadau pellach. Fodd bynnag, os ffurf ar *Anjou* yw *angwy*, ai rhy fentrus fyddai cynnig bod *Alaswy* yn gyfeiriad at *Alsace*?
- 40 **glydwr** Llsgr. B *gludwr*. Derbynnir awgrym G 149 i ddiwygio'n *glydwr* ar sail ystyr.

- 41 **Tudur** Sef Tudur ap Goronwy ap Tudur Hen, tad Goronwy Fychan, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 42 **Garwy** Gw. uchod ll. 16n.
- 45 **rhwyd ysgwyd** Gw. GCBM i, 16.221n ar y cyfuniad cyffredin hwn yng ngwaith y Gogynfeirdd am filwr sy'n rhwydo tarian. Gw. hefyd CLIH 119 a CA 74.
- cymaredd** Awgryma G 232 y gall fod cymysgu o ran ffurf yma rhwng *cymaredd* yn golygu 'dicter, llid, gwylltineb, creulondeb' a *cymyrredd* sy'n golygu 'rhwysg, bri, urddas; rhyfyg, balchder', *ib.* 242. Dichon mai'r ystyr gyntaf sy'n gweddu orau yma.
- 48 **o rhybarthwn** Llsgr. B *or rybarthŵn*. Diwygir ar sail ystyr a chystrawen.
- er rhoi berthedd** Mynegir yma hanfod perthynas y bardd a'i noddwr, sef bod y bardd yn canu mawl yn gyfnewid am anrhegion gan ei noddwr.
- 49 **rhod** Yn llythrennol 'olwyn, cylch, cylchdro', &c., ond yma fe'i deallir yn ffigurol am y byd.
- 52 **rhoid** Ffurf 3 un.grch. y f. *rhoddi*, sef amrywiad ar y ffurf *rhoed*.
- Rhi teyrnedd** Cyfuniad cyffredin am Dduw; cf. GMB 4.1 *Rex regum* (Meilyr Brydydd).
- 54 **Arlechwedd** Ceir tystiolaeth fod Goronwy wedi bod yn berchen ar diroedd yn Arlechwedd Uchaf, gw. AWH 208–9, a'r tebyg yw fod Sefnyn wedi canu iddo yno.
- 55 **fy ngran** Llsgr. B *vy guarn*. Wrth ddiwygio, cynhelir yr odl â'r gorwant yn y ll. ganlynol. Ceir enghreifftiau pellach o gyfosod *glasu* a *gran* yng nghanu'r beirdd, cf. GCBM ii, 16.220 *Kynn glasued, kynn glassu vyg grann*.
- 56 **Rhun** Cyfeiriad, mae'n debyg, at Run Hir, mab Maelgwn Gwynedd, cf. isod 4.73 a gw. TYP<sup>2</sup> 500–4 a GCBM i, 16.79n.
- godrosedd** Llsgr. B *o drossed* a derbynnir awgrym petrus G 542 i'w ddeall yn un gair, sef unig enghraifft yn golygu 'llwydd, goruchafiaeth' (ni nodir y ffurf yn GPC 1423). Noder hefyd awgrym pellach a phetrus G 9 i ddarllen *adrosedd* = 'gwrhydri', adffurfiad o bosibl o *adrysedd*.
- 58 **Mordaf** Un o'r Tri Hael y mae cyfeiriadau atynt yn frith yng ngwaith y beirdd, gw. TYP<sup>2</sup> 5–6, 463.
- 59 **Llŷr** Cyfeiriad, mae'n debyg, at Llŷr Llediaith, arwr o'r gorffennol y nodweddid ef gan ei lid a'i fawredd, cf. isod 4.125; R 1222.33 *llit llyr lletyeith* (Trahaearn Brydydd Mawr) a gw. TYP<sup>2</sup> 427–9 ac isod 4.125n.

- 63 **plymlwyd** Llsgr. B *vlymlwyt*. Ar *plymlwyd* (amrywiad ar *plymnwyd*), gw. CA 122–3.
- 65 **oesbar** Fe'i dehonglir yn air cyfansawdd o *oes* a *par*, sef bôn y f. *peri*, yn golygu 'yn peri bywyd' yn hytrach nag *oes* a *pâr* yn golygu 'gwaywffon' mewn ystyr ffigurol.
- 68 **hÿn** Llsgr. B *yn*. Diwygir er mwyn yr odl â *dyn* yn y gair cyrch yn ll. 67, a'i ddeall yn e. = 'hynafiaid', gw. GPC 1973–4.
- 69 **ceyrydd greigiau** Llsgr. B *keryd greigyeu* y gellid ei ddeall i olygu 'creigiau cosb', ond ceir gwell ystyr o dderbyn awgrym G 137 i ddiwygio'r darlleniad un ai'n *keryd kreigyeu* neu'n *keyryd greigyeu*.
- 70 **clarai** Math o win cymysg wedi ei wneud â mêl a pherlysiau, gw. G 143 a GPC 490.
- 75 **trwydded** Gw. J.E.C. Williams, 'Nodiadau Amrywiol', B xxvii (1976–8), 229–30, lle nodir i *trwydded* ddatblygu'r ystyr 'croeso' a hefyd 'cynhaliath' o'r ystyr 'caniatâd i ymweld â llys arglwydd ac i aros ynddo'.
- 78 **wyf argochiad** Gw. uchod 2.6n.
- 79 **y'u molestai** Llsgr. B *ymolestei*. Cymerir mai gwrthrych y f. yw'r mintoedd o feirdd a gâi eu haflonyddu a'u cymell o'u tai gan y cof am groeso cynnes Penmynydd.
- 84 **ar eu rhestri** Yn betrus cymerir bod i'r ymadrodd yma'r ystyr 'yn eu rhesi', a'i fod yn gyfeiriad un ai at lestri arian yn rhesi yn ffenestri llys Goronwy, neu ynteu'n ddisgrifiad o'r ffenestri eu hunain yn ffurfio rhesi ar hyd muriau ei lys.
- 86 **brith a garai** Gellid cymryd bod *brith* yn a. yn goleddfu *clarai* y ll. flaenorol, ond deallir hwn yn ymadrodd annibynnol gyda *brith* yn enwol am 'farch brith' neu o bosibl am 'ddillad brith'.
- 89 **ail Owain** Un o enwau traddodiadol barddoniaeth frud ar y mab darogan a ddeuai i achub y Cymry. Gall fod y bardd hefyd yn meddwl am arwyr megis Owain ab Urien ac Owain Gwynedd; o blaid Owain ab Urien mae'r ffaith fod y bardd yn cyfeirio at *frain*, uchod ll. 87. Ar gyswllt Owain ab Urien â brain, gw. TYP<sup>2</sup> 481.
- 91 **dyneillion** Derbynnir awgrym G 424 d.g. *dyn* i ddiwygio *dyneilyon* llsgr. B yn *dyneillion*.
- 93 **taladwy** Ar *tal* yn golygu 'haeddu', gw. CA 70 a CLIH 96.
- 96 **gwyrrdd** Sef dillaf gwyrrdd. Am gyfeiriad arall gan fardd cyfoes â Sefnyn at yr arfer o gyflwyno dillad gwyrrdd gan noddwr, cf. sylw Llywelyn Goch ap Meurig Hen wrth sôn am Hopgyn ap Thomas o Ynystawe, R 1307.38–9 *Gwyrrdlas ordinas daeoni goleu. gbin offiolleu gbynn aphali*.





## *Mynegai*

- a 3.86n a'i 2.41n  
aelaw 1.10n  
aerddur 3.41  
angad 3.37n, 96  
angwy 3.37n  
aig: eigliau 3.70  
ail 3.89n  
alaethruthr 2.63  
ar 3.84n  
araf 2.57  
arawd 2.29  
arfer 1.5n  
argochiad 3.78n  
balchdud 1.9n  
balchffawd 2.1  
balchrwy 3.33n  
bardd 2.44n  
barddawd 2.25  
bargawd 2.15  
bedd 2.34n  
berthedd 3.48n  
berwddawn 3.90  
bod: wyf 3.78n mae 2.1n bu 1.28n  
bolchraidd 3.33n  
brawd: brodiau (-dau) 1.22,  
3.51  
breiddilo 3.105  
brith 3.86n  
briwod 3.2  
bwrw: bwriau 1.20  
bwy gilydd 1.28n  
byddargudd 2.34n  
caer: ceirydd 3.69n  
cannaid 1.4n  
caru: carai 3.86n  
cathl 2.25  
cawad 3.90  
ceinferth 2.51  
cerddwr 2.70  
certh 2.33  
ceudawd 2.4  
clarai 3.70n, 85  
clêr: cleroedd 3.70  
clyd 3.18n  
clydwr 3.40n  
coelfain 1.11  
coethem 3.71  
corf: cyrf 1.14n  
craig: creigliau 3.69n  
croes 3.97  
crynfaen: crynfain 2.37  
cyfragod 3.32  
cyngerth 2.55  
cyhoedd 2.7n  
cymaredd 3.45n  
cynestai 3.79  
cynfyl 2.41  
cynnif 2.40  
cynnydd 1.4n  
cywraint 2.29  
darllain 2.60n  
darmerth 2.27  
dawnferth 2.36  
defni 2.66  
deigrghost 2.17  
deucanwledd 3.64  
deufyd 1.16n  
dianc: diaing 2.15n  
diefrydd 2.16  
difas 2.13  
difod 3.21n  
diffast 2.77  
digrifiaith 2.3n  
digwyp 3.68  
diletbai 2.25  
dinydr 2.65, 3.61

- dirwely** 2.14  
**diryfeddawd** 2.10  
**diwarnawd** 2.11  
**diwecry** 2.13  
**doethbwyll** 2.55  
**drum: drumoedd** 3.1n  
**dwygrefft** 2.44n  
**dwysgur** 2.9  
**dychi: dyarchaf** 3.77  
**dyfynt** 3.31  
**dygynnull** 3.28  
**dyn** 2.54n  
**dyneillion** 3.91n  
**dyrrwyf** 2.10  
**dysgu: dysgais** 2.9  
**eilewydd** 1.15  
**eiriol** 3.16n  
**enyriad** 3.102  
**er** 3.48n  
**eu** 3.84n  
**eurior** 3.66  
**eurlythr** 2.60  
**euro: eurodd** 2.51n  
**eurwas** 2.13  
**fy** 3.55n  
**ffyddfrawd** 2.30  
**gaeafrawd** 2.16  
**ger** 2.75n **geir** 3.6n  
**girad** 3.86  
**glan** 3.6n  
**glaswedd** 3.55  
**glewgain** 3.89  
**gloesiad** 3.88  
**gloywddefawd** 2.21n  
**glwysferth** 2.56  
**glwysiaith** 3.38  
**godrosedd** 3.56n  
**gofrwysg** 3.20  
**gofwy** 3.29  
**gogleisio** 3.71  
**golau** 1.28n  
**goleuwawd** 1.15  
**gorddawd** 2.23  
**gorddwy** 3.41  
**gorfynydd** 1.14n  
**gran** 3.55n  
**gwae** 2.75n  
**gwaedd-dost** 2.18n  
**gwasgawd** 2.6n  
**gwawd** 2.60n  
**gweilydd** 1.2  
**gweld: gwelaf** 1.2n **gwyl** 2.41n  
**gwerin** 2.8n  
**gwestai** 3.80  
**gwin** 2.8n  
**gwiwdaith** 2.4  
**gwybod: gwybodau** 1.27n  
**gwybod: gwyddiad** 2.72n  
**gwydrin** 1.23  
**gwylfalch** 1.30  
**gwynddaint** 1.27  
**gwyrandaw** 2.19  
**gwyrrd** 3.96n  
**gyrthio: gyrthiai** 3.11  
**haeddfraint** 2.30  
**hefelydd** 1.26n  
**henblaid** 1.4  
**hoen** 1.3n  
**hoewfrwysg** 3.57  
**hoewglod** 1.18  
**hwyrwar** 1.17  
**hylwys** 1.32  
**i: o'i** 1.9n  
**'i': a'i** 2.41n  
**'i': o'i** 1.9n  
**iesin** 1.24  
**irbwynt** 2.38n  
**llaeswr** 3.20  
**llasar** 3.20  
**llathrlen** 3.17  
**llawr** 1.26n  
**lle** 1.2n  
**lliwloyw** 3.8  
**lliwrudd** 2.34  
**madrydd** 1.3n  
**maer** 2.8n

- mawr** 1.28n  
**mawrair** 3.7  
**mawrdeg** 3.58  
**mawrddawn** 2.25  
**mawddodi: mawrddodaf** 1.1  
**mawrddwyn** 2.4  
**mawrenw** 2.49  
**mawrgaing** 2.15  
**medrawd** 2.24n  
**medd** 2.7n  
**merydd** 3.59  
**milioedd** 2.7n  
**moes** 2.3n  
**molawd** 2.7n  
**mold** 2.3  
**molestu: molestai** 3.79n  
**môr** 1.28n  
**mordwy** 2.5, 3.22  
**mur** 2.8n  
**mwrrai** 2.6n  
**mwynwawd** 2.74  
**myn** 3.2n  
**mynog** 3.68  
**mynudrew** 3.4 n  
**mywn** 2.2  
**nyf** 1.14n  
**o<sup>1</sup>** 3.6n, 18n **o'r** 1.28n  
**o<sup>2</sup>** 3.48n  
**o<sup>3</sup>** gw. **i**  
**oerbwll** 2.38  
**oesbar** 3.65n  
**oesloyw** 3.36n  
**olwyn** 3.21n  
**pariad** 2.3  
**pawb** 2.41n  
**pedeirawr** 2.32  
**perffeiddfod** 3.21  
**planiad** 1.32n  
**plymlwyd** 3.63n  
**pobl: pobloedd** 2.21n  
**praw** 1.10n  
**profadwy** 3.93  
**pwyl** 3.26n  
**pyllaid** 2.42  
**'r gw. yr**  
**rhaf** 2.3n  
**rhagorddawn** 2.70  
**rhagori: rhagores** 1.25  
**rhaniad** 3.98  
**rhediad** 3.94  
**rhelydd** 1.18  
**rhestr: rhestri** 3.84n  
**rhi** 3.52n  
**rhieddog** 1.30  
**rhod** 3.49n  
**rhoi** 3.48n **rhoid** 3.52n  
**rhwyd** 3.45n  
**rhybarthu: rhybarthwn** 3.48n  
**rhyfoli: rhyfolai** 1.26  
**solas** 3.30  
**sud** 1.10  
**taladwy** 3.39, 93n  
**teledi** 3.39  
**tëyrn: teyrnedd** 3.52n  
**trais** 2.57  
**trallawd** 2.12n  
**tramwy** 3.1n, 3.31  
**traws** 2.22  
**tremwalch** 1.30  
**tremynt** 3.31n  
**trillu** 2.12n  
**tros** 2.74n  
**trwsiad** 3.72  
**trwydded** 3.75n  
**'u: y'u** 3.79n  
**ufydd** 1.5n, 3.29  
**urddedigrodd** 2.44  
**y** 1.2n **y'u** 3.79n  
**ymarwain** 2.50  
**ymleferydd** 1.20n  
**yr: 'r** 1.28n  
**ysgawd** 2.9  
**ysgwyd** 3.45n  
**ystynnu** 3.81

*Enwau personol*

<b>Angharad</b> 1.29	<b>Gwrlais</b> 3.13n
<b>Alaswy</b> 3.38n	<b>Iorwerth</b> 2.28, 33, 36, 50, 51n, 56
<b>Aneirin</b> 2.7n	<b>Llŷr</b> 3.59n
<b>Cynfarwy</b> 3.35n	<b>Mair</b> 2.8
<b>Dafydd</b> 1.16	<b>Mordaf</b> 3.58n
<b>Dofydd</b> 1.12	<b>Myfanwy</b> 3.44
<b>Duw</b> 2.11, 3.52 <b>Mygrdduw</b> 2.1	<b>Myrddin</b> 2.4n
<b>Eigr</b> 3.8n	<b>Owain</b> 3.89n
<b>Garwy</b> 3.16n	<b>Rhun</b> 3.56n
<b>Goronwy</b> 3.43	<b>Tudur</b> 3.41n
<b>Gwenddydd</b> 1.27n	<b>Uthr</b> 3.26n
<b>Gwenfrewy</b> 3.2n	

*Enwau lleoedd*

<b>Ardudwy</b> 3.26n	<b>Edrywy</b> 3.9n
<b>Arllechwedd</b> 3.54n	<b>Ffrainc</b> 3.16n
<b>Berwy</b> 3.36n	<b>Gafrogwy</b> 3.32n
<b>Cawrnwy</b> 3.18n	<b>Gwynedd</b> 3.31, 53
<b>Cernyw</b> 3.18	<b>Llyn Mynedwy</b> 3.4n
<b>Degannwy</b> 3.28n	<b>Mawddwy</b> 3.25n
<b>Deifrdir</b> 3.6n	<b>Môn</b> 2.74n, 75n
<b>Dindaethwy</b> 3.34n	<b>Nanheudwy</b> 3.24n
<b>Dinsylwy</b> 3.30n	<b>Penmynydd</b> 3.29n
<b>Drefwen, y</b> 3.9no	<b>Tawy</b> 3.27n
<b>Dyfrdwy</b> 3.6n	





# GWAITH RHISIERDYN

golygwyd gan

NERYS ANN JONES





## Rhagymadrodd

### *Y bardd*

Ychydig iawn a wyddom am Risierdyn gan na chadwyd unrhyw dystiolaeth gyfoes amdano heblaw am yr hyn y gellir ei loffa o'i gerddi ac o gywydd gan Ruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed lle ceir ymddiddan rhyngddo a Rhisierdyn.<sup>1</sup> Nid ymddengys ei enw yn yr achau ac ni ddatgelir unrhyw wybodaeth am ei deulu na'i linach yn ei waith. Yn wir, ni ddywed y bardd unrhyw beth penodol amdano'i hun yn y pedair awdl a'r cywydd sydd ar glawr. Tystia'r cerddi hyn, fodd bynnag, iddo ganu i rai o noddwyr amlycaf y beirdd yng Ngwynedd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg. Molwyd Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd a'i wraig, Myfanwy, gan o leiaf bedwar bardd: Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd ap Maredudd a Llywelyn Goch ap Meurig Hen.<sup>2</sup> Ceir ar glawr dair cerdd i Syr Hywel ap Gruffudd 'Hywel y Fwyall' o Eifionydd o waith Rhisierdyn, Gruffudd ap Maredudd ac Iolo Goch.<sup>3</sup> Er nad oes gennym unrhyw gerddi eraill o fawl i Ieuan ap Rhys, abad Aberconwy, nac i Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed, mae'n sicr iddynt hwythau hefyd fod yn noddwyr i nifer helaeth o feirdd.<sup>4</sup> Awgryma cywydd Gruffudd Fychan i Risierdyn ganu hefyd i Risiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Emral ym Maelor Saesneg ac, o bosibl, i Leucu ferch Madog Foel o Eglwyseg, ei wraig.<sup>5</sup>

### *Ei fro a'i ddyddiadau*

Nid yw'n syndod fod William Salesbury yn cysylltu Rhisierdyn â Môn mewn rhestr o enwau beirdd a ysgrifennwyd ganddo tua 1574,<sup>6</sup> gan fod cysylltiad o ryw fath rhwng gwrthrychau y rhan fwyaf o gerddi'r bardd a'r ynys. Safai Penmynydd, cartref Goronwy Fychan a Myfanwy, yn Nindaethwy yn ne-ddwyrain Môn, a thrigai Hwlcyn ap Hywel ym mhlwyf Bodedern yn y gorllewin. Mae'n bosibl fod Ieuan ap Rhys, a elwir gan Risierdyn yn *Aur enaid yr ynys*,<sup>7</sup> yn ymwelydd cyson â Môn gan fod abaty

<sup>1</sup> Gw. cerdd 11 isod.

<sup>2</sup> Am awdl Sefnyn i Oronwy Fychan a Myfanwy, gw. cerdd 3 uchod. Am awdlau ac englynion mawl a marwnad Gruffudd ap Maredudd i Oronwy Fychan, gw. R 1219, 1230–1 (ac yn 1334), 1315–18, 1322–3, 1323–6. Am farwnad Llywelyn Goch ap Meurig Hen i Oronwy, gw. *ib.* 1230–1. Cyfeirir ato hefyd yng nghywyddau mawl a marwnad Iolo Goch i feibion Tudur ap Goronwy, gw. GIG 22–32.

<sup>3</sup> Gw. y nodyn cefndir i gerdd 6 isod.

<sup>4</sup> Ar y nifer helaeth o gerddi a ganwyd yn ystod y 15g. i olynwyr Ieuan ap Rhys yn Aberconwy ac i ddigynyddion Hwlcyn ap Hywel, gw. y nodiadau ar y cefndir i gerddi 7 ac 8 isod.

<sup>5</sup> Arnynt, gw. y nodyn cefndir i gerdd 11 isod.

<sup>6</sup> CM 3B, 186, *Rrisierdyn o Von*.

<sup>7</sup> Isod 7.42 ac ymhellach gw. *ib.n.*

Aberconwy yn berchen ar diroedd yng nghymydau Malltraeth, Talybolion, Dindaethwy a Menai a gall mai ym Môn y canwyd awdl fawl Rhisieryd iddo am y tro cyntaf. Tystia cywydd Gruffudd Fychan, fodd bynnag, nad ym Môn yn unig y bu Rhisieryd yn canu, ac awgryma'r term *rhodiwr* a ddefnyddir gan Ruffudd i'w ddisgrifio ei fod yn adnabyddus fel bardd crwydrol.<sup>8</sup>

Yn y saithdegau darganfu Dr A.D. Carr dystiolaeth sy'n awgrymu'n gryf mai Môn oedd cartref y bardd ac mai aelodau teulu Penmynydd oedd ei brif noddwyr. Mewn dogfen yng nghasgliad y Penrhyn mae cyfeiriad at wraig rhyw Risierdyn yn talu rhent o ddeunaw ceiniog yn 1413 am dir Madog Ddu ym Mhentraeth i Wilym ap Gruffudd o'r Penrhyn.<sup>9</sup> Gan fod yr enw Rhisieryd yn un eithriadol o anghyffredin,<sup>10</sup> mae'n debygol iawn mai sôn am wraig y bardd (neu, o bosibl, ei weddw)<sup>11</sup> mae'r cofnod hwn. Diddorol sylwi mai Gwilym ap Gruffudd, sef gŵr Morfudd ferch Goronwy Fychan, etifeddes tiroedd teulu Penmynydd, oedd yn derbyn y rhent,<sup>12</sup> a bod plwyf Pentraeth yn ffinio ar y plwyf y safai Penmynydd ynddo yng nghwmwd Dindaethwy. Os teg tybio bod gweddw Rhisieryd wedi etifeddu tenantiaeth ei gŵr, ymddengys fod teulu Penmynydd wedi darparu ar gyfer ei gynhaliaeth.

Awgryma'r cofnod hwn fod Rhisieryd wedi marw erbyn 1413, ac mae hyn yn cytuno â thystiolaeth anuniongyrchol ei waith mai bardd a ganai yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg ydoedd.<sup>13</sup> Yr unig gerdd o'i eiddo y gellir ei dyddio'n weddol bendant yw'r farwnad i Hywel y Fwyall a fu farw yn 1381. Ymddengys mai yn ystod chwedegau a saithdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg y lluniwyd y rhan fwyaf o'r cerddi eraill ac na chanwyd yr un ohonynt yn ddiweddarach na 1400.<sup>14</sup>

<sup>8</sup> Gw. 11.20 isod. Ar y term *rhodiwr* a ddefnyddir yn ddirmygus gan amlaf yng ngwaith y beirdd, gw. GPC (i ymddangos) a cf. y termau *rhodol* a *fforddol* a ddefnyddir am feirdd crwydrol.

<sup>9</sup> Gw. A.D. Carr, 'Rhai Beirdd ym Môn', B xxviii (1979–80), 599. Ni wyddom pwy oedd Madog Ddu, ond, yn ôl Dr A.D. Carr (gwybodaeth bersonol), mae cyfrif siedwyr Môn ar gyfer 1413–14 yn cynnwys y swm o 2s 6ch, sef yr incwm o diroedd Madog Ddu ym Mhentraeth (PRO SC 6/1152/5).

<sup>10</sup> Ni ddigwydd yr enw, sydd, yn ôl pob tebyg, yn ffurf fachigol ar Richard, yn yr achau o gwbl. Ymhellach, gw. W Surnames 186–7.

<sup>11</sup> Sylwer, fodd bynnag, mai *uxor* yw'r ffurf yn y cofnod yn hytrach na *vidua*.

<sup>12</sup> Arno, gw. MANG 203, AWH 209.

<sup>13</sup> Cf. ByCy 786–7, GMW xxix, CLC 518. Yn ei restr o feirdd Cymraeg ar ddiwedd D, rhoddodd John Davies y dyddiad 1400 gyferbyn ag enw Rhisieryd. Dilynwyd ef gan Edward Lhuyd yn *Archaeologia Britannica* (Oxford, 1707) ond y dyddiadau 1290–1340 a roddwyd i Risierdyn gan hynafiaethwyr y 19g. Ymhellach, gw. H. Lewis, 'Gruffudd ap Maredudd ab Dafydd a Rhisieryd', B i (1921–3), 132.

<sup>14</sup> Bu farw Goronwy Fychan yn 1382 a Hwlcyn ap Hywel tua 1409. Canwyd yr awdl i Fyfanwy yn ystod oes Goronwy, a gwyddom fod Ieuan ap Rhys yn fyw rhwng 1378 a 1398. Yr oedd Rhisiart ap Syr Rhosier Pilstwn yn ei flodau yng nghanol y 14g. a chredir iddo farw c. 1388. Ymhellach, gw. y nodiadau ar gefndir y cerddi unigol isod.

*Ei waith*

Mae ar glawr 412 llinell o waith Rhisieryd, yn bedair awdl ac un cywydd. Cadwyd dryll o gerdd arall o'r waith yn llawysgrif Bodley Welsh e 7 sy'n dyddio o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>15</sup> Yn anffodus, y tair llinell olaf a'r olnod yn unig y llwyddwyd i'w darllen am fod yr inc mor bŵl ac am fod pen y ddalen wedi ei dorri ymaith gan rwymer, ond mae'n amlwg mai englyn marwnad i Oronwy Fychan ydyw.<sup>16</sup> Cambriodolwyd i Rhisieryd awdl grefyddol o waith Bleddyn Ddu mewn nodyn gan rywun â'r enw talfyredig 'Jo : Ha' yn llawysgrif Peniarth 118<sup>17</sup> a thadogwyd awdl Rhisieryd i abad Aberconwy ar Gasnodyn mewn cofnod a ychwanegwyd gan law ddiweddarach yn llawysgrif LIGC 1984B [= Pant 15].<sup>18</sup>

Ar un olwg, anodd yw cyffredinoli ynglŷn â natur gwaith Rhisieryd oherwydd fod pob un o'r cerddi sydd ar glawr yn perthyn i ddsbarth gwahanol o ganu, yn awdl fawl, awdl farwnad a chywydd mawl i uchelwyr, awdlau mawl i wraig briod ac i ŵr eglwysig.<sup>19</sup> Eto i gyd, maent yn debyg iawn i'w gilydd o ran naws, yn gerddi defodol, urddasol, amheronol bron. Cyffredinol yw'r mawl ym mhob un ohonynt a thraddodiadol yw'r rhinweddau a ddyrchefir. Fel noddwyr hael i'r beirdd a chynheiliaid eu hardaloedd y molir Myfanwy a'r abad yn anad dim. Canmolir haelioni Goronwy, Hywel a Hwlcyn hefyd, ynghyd â'u ffyrnigrwydd a'u dewrder fel rhyfelwyr. Prin iawn yw'r cyfeiriadau penodol at droeon gyrfa yr un o'r noddwyr;<sup>20</sup> yn hytrach pentyrrir epithetau, delweddau a thopoi traddodiadol i gyfleu eu rhinweddau. Cyfeirir at waywffon waedlyd ac arfau toredig y noddwr dro ar ôl tro i gynrychioli dewrder ei filwriaeth, ac at ei fwrdd gwledd a'i gynr yfed llawn i gyfleu ei haelioni.

Nid oes i'r cerddi hyn adeiladwaith gywrain a phrin yw'r defnydd o ailadrodd fel dyfais rethregol ynddynt.<sup>21</sup> Sicrhaodd y bardd undod i'r ddwy awdl amlganiad hir drwy ddewis dwy thema ganolog: gwrthgyferbynnu ffyrnigrwydd a llareidd-dra'r noddwr yn yr awdl i Oronwy a chwarae gyda'r gwahaniaeth rhwng ysblander y noddwr yn fyw a'i drueni yn y bedd yn y farwnad i Hywel. Cyfosodir elfennau gwrthgyferbyniol y syniadau hyn yn

<sup>15</sup> Ymhellach ar y llsgr. hon, gw. isod td. 229.

<sup>16</sup> Ar frig f. 46<sup>v</sup> ceir [ ] llwy / [ ]n feddyss am foddii gironwy / Och pan aeth ior tindaythwy / och fyth ni welir och fwy / Rriseryd ai kant i ronw ap tudur aprono.

<sup>17</sup> Gw. ymhellach GBDD 11.

<sup>18</sup> Gw. ymhellach y nodyn ar y ffynonellau cerdd 7 isod.

<sup>19</sup> Awgryma cywydd Gruffudd Fychan, onid oes elfen gref o dynnu coes ynddo, fod Rhisieryd yn cael ei gyfrif yn arbenigwr ar y canu gofyn yn ogystal.

<sup>20</sup> Er enghraifft, sonnir i Hywel a Goronwy fod yn ymladd yn Ffrainc ond ni chyfeirir yn benodol at eu gorchestion yno nac am yr anrhydeddau a ddaeth i'w rhan wedi iddynt ddychwelyd i Gymru.

<sup>21</sup> Am yr unig ddefnydd estynedig o ailadrodd yng ngwaith Rhisieryd, gw. dechrau'r awdl i abad Aberconwy, cerdd 7 isod.

effeithiol mewn llinellau a chwpledi cofiadwy yn ôl arfer y Cynfeirdd a'r Gogynfeirdd.

I brif ffrwd y canu mawl y perthyn y rhan fwyaf o ddeunydd crai Rhisierdyn. Traddodiadol yw'r delweddu a ddefnyddia, megis baedd, blaidd, tarw, llew am ryfelwr, corf, llofr, gorsedd, magwyr am noddwr, a haul, eira, gem am wraig brydferth. Eithriadau yn ei ganu yw delweddu sy'n digwydd am y tro cyntaf yng ngwaith beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg, megis paun (4.24). Brithir ei waith gan hen drawiadau, yn barau o eiriau sy'n cyflythrennu neu'n odli, megis *ced ciried*, *Nudd neddair*, *llorf corf* a *llafn traf*, ac yn gyfuniadau o eiriau sy'n ffurfio patrwm cynghanedd sain, megis *rhwysg brwysg breisg-* a *llyw glyw glew-*. Tynnu ar waddol y gorffennol a wna yn bennaf hefyd wrth gyffelybu gwrthrychau ei fawl i enwogion megis Nudd, Morien, Cynon a Chlydno Eiddin o'r Hen Ogledd, a hen arwyr y Cymry, Eidol, Rhun, Murel, Alaswy, Llŷr, Garwy, Cynfyn, Rhyawd, Tryffin ac Unhwch. Geilw ei noddwyr yn *Einglgrwydr* (4.9) ac yn [*g*]ynnwr *Brynaich* (6.106), a chyfeiria at ddau o'r Cynfeirdd, gan gymharu huodled Hywel ap Gruffudd â huodled Aneirin (6.75) a'i alar ef ar ei ôl â thristwch Myrddin (6.86).

Er mai ailgylchu gwaith ei ragflaenwyr a wnâi Rhisierdyn yn bennaf, yr oedd i'w gerddi rywfaint o gyfoesedd a newydd-deb. Fel y dangosodd Dr Rachel Bromwich,<sup>22</sup> adlewyrcha cyfeiriadau mynych beirdd fel Rhisierdyn at gymeriadau'r chwedlau Arthuraidd a'r Rhamantau, megis Peredur, Erbin, Yniwl, Tristan, Llachau a Chai, ddiddordeb newydd uchelwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg mewn llenyddiaeth dramor. Awgryma ei gyfeiriadau at ffigurau megis Leon Gawr, Gweirydd ac Eigr, Amlyn, Olfifer a Dared, yn ei ganu i deulu Penmynydd, fod ei noddwyr yn gyfarwydd â chyfieithiadau o weithiau megis 'Historia Regum Britanniae' Sieffre o Fynwy, chwedl 'Cydymdeithas Amlyn ac Amig', chwedlau Siarlymaen a'r 'Historia Daretis Phrygii de Excidio Troiae'. Arwyddocaol yn y cyswllt hwn, efallai, yw cyfeiriadau Rhisierdyn at lythrennedd Myfanwy (5.13) ac at ddealltwriaeth Goronwy o grefft y canu mawl (4.7).<sup>23</sup>

Dewisodd Rhisierdyn ddefnyddio arddull wahanol ar gyfer ei awdlau a'i gywydd.<sup>24</sup> Arddull ei ragflaenwyr o Oes y Tywysogion sy'n nodweddu'r pedair awdl. Cân yn llinellol, gan raffu enwau ac ansoddeiriau a phentyrru geiriau cyfansawdd. Prin yw'r ffurfiau berfol a ddefnyddir ganddo ac, at ei gilydd, undonog a mecanyddol yw cyfansoddiad y cerddi. Yn y cywydd, ar y llaw arall, ceir llawer mwy o ganu brawddegol hyblyg ac o amrywio arddull yn ôl y gofyn.

<sup>22</sup> Gw. TYP<sup>2</sup> lxxxi–lxxxiii.

<sup>23</sup> Gw. ymhellach 4.7n.

<sup>24</sup> Am drafodaeth werthfawr ar arddull yr awdl yn y 14g., gw. Eurus Rolant, 'Arddull Canu Moliand y Bedwaredd Ganrif ar Ddeg', YB x (1977), 144–8.

*Mydryddiaeth*

Amrywiol yw defnydd Rhisierdyn o fesurau yn ei bedair awdl. Cyfuna fesurau'r awdl a'r englyn mewn dwy ohonynt. Egyr marwnad Hywel gyda chadwyn o englynion unodl union a phroest bob yn ail, yn cael ei dilyn gan gyfres o doddeidiau, rhupunt ac englyn proest i gloi. Cyfres o doddeidiau yn cael ei dilyn gan gadwyn fer o englynion unodl union a phroest yw'r awdl fawl i'r abad. Ar un mesur yn unig, sef gwawdodyn, y canwyd yr awdl i Fyfanwy, ac yn yr awdl i'w gŵr ceir tri chaniad yn cynnwys cyfres o doddeidiau, caniad ar fesur gwawdodyn, a rhupunt hir i gloi.

Tra unffurf yw defnydd y bardd o gymeriad i addurno dechrau llinellau ei awdlau. Cymeriad llythrennol sydd ganddo fel arfer, yn clymu'r llinellau yn unedau o bedair neu wyth llinell, ac eithriad yw ei ddefnydd effeithiol o gymeriad geiriol ar ddechrau'r awdl i'r abad. Gwahanol iawn yw'r cywydd lle defnyddir cymeriad llythrennol, cynganeddol, geiriol a synhwyrol i glymu'r llinellau fesul cwpled.

Addurnir pob llinell o waith Rhisierdyn gan batrwm cynganeddol. Cynganeddion croes, sain, traws ac ambell lusg sydd yn y cywydd tra ceir yn yr awdlau enghreifftiau o gynganeddion sain gadwynog, sain ddwbl, sain deir-odl a sain wreiddgoll yn ogystal. Mae yn yr awdlau hefyd rai llinellau sy'n afreolaidd o ran nifer sillafau.

*Llawysgrifau*

Cadwyd awdlau Rhisierdyn (cerddi 4–7) yn llaw Hywel Fychan yn Llyfr Coch Hergest.<sup>25</sup> Digwyddant mewn dau floc yng ngholofnau 1281–1284 a 1287–1291.<sup>26</sup> Mae pob testun arall o'r cerddi hyn naill ai'n gopi uniongyrchol neu anuniongyrchol o'r brif lawysgrif hon. Digwydd y cywydd (cerdd 8) mewn un ar ddeg o lawysgrifau yn dyddio o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg hyd y ddeunawfed ganrif.

<sup>25</sup> Gw. G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 255.

<sup>26</sup> Yn y bloc cyntaf mae ail ganiad marwnad Hywel (cerdd 6), awdl fawl Myfanwy (cerdd 5) ac awdl fawl yr abad (cerdd 7). Yn yr ail floc mae gweddill y farwnad ac awdl fawl Goronwy (cerdd 4).

*Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd*

- Llyw glyw glewnaws traws, trwsiad—cerddorion,  
 Leon arwyddion, llaw iawn roddiad,  
 Llorf corf, ced ciried, cariad—Gwyndodydd,  
 4 Llywydd mau hywlydd ym Môn hoywlad.  
 Llym rym reddf gynneddf gan gennad—Iesu,  
 Llesfeirdd awenllu llysfwrdd winllad,  
 8 Llwybr rwy Oronwy, air ynad—ieithfydr,  
 Llew ein haelfab hydr, llawen heiliad.  
 Tudyr yn ongyr enyngad—Einglgrwydr,  
 Trylew guriwr brwydr, traul egoriad,  
 Trydar aerlafar, erlifiad—gwaetffrau,  
 12 Trefnau clod olau clau adeiliad.  
 Tëyrn gwallawgyrn a llygad—Gwynedd,  
 Taerfur briwgyrff gledd, tyrfwr bragad,  
 Toredwynt luchynt twrf dilechiad—ffrawdd,  
 16 Trostan yng nghyrch blawdd, Trystan anghad.  
 Peleidr gwaed reidr, nid gwÿd ruad—serth,  
 Prudd wst angwy nerth, praidd ostyngiad,  
 Pâr trydar baniar, erbyniad—pob rhai,  
 20 Parchai bell westai o'i bwyll wastad.  
 Pennaf naf trechaf, trychiad—elyflu,  
 Prid â'i lewlaif fu, pryd Elywlad,  
 Pôr cyngor ragor, parau rwygiad—trin,  
 24 Paun gwirodion gwin, pen-gwarediad.  
 Cadr golofn diofn yn cadw dyad—balch,  
 Cain ddiwagiaith walch, cun ddiwygiad,  
 Cyfiawn gadarn farn, difurniad—gyngor,  
 28 Cadair glodrydd iôr, ced argleidirad.  
 Ceidw farant llwyddiant, lleiddiad—yng nghythrudd,  
 Carodd ellwng budd, ceir ei ddillad,  
 Cynneddfau Llachau, lluchiad—gwyarllafn,  
 32 Ceinddewr waig drafn caenddur wisgiad.  
 Rheg deg dâl ardal, rhyw eurdad—perffaith,  
 Rhethren aros caith rhuthr iawn irad,  
 Rhewin i fyddin gan feiddiad—yng ngawr,  
 36 Rhydaer ar aesawr, rhi dirusiad.  
 Rhwysg brwysg breisglud drud, neud rhad—ei fragawd,

- 40 Rhaidd a greinia rhawd, rhodd ddigroniad,  
Rhwydd iôn cerddorion, caer ddiriad—didarf,  
Rhudd aergamawn arf, rhyddewr geimiad.
- 44 Dâr ymleiddiad uthr, dôr ymladdau,  
Dewrair i giwdod, dâr ar gadau,  
Diagr Oronwy gair diau—aesawr,  
44 Dyry roddion mawr, dur ei reiddiau.  
Da fraisg gedol gorf difrwysg oedau,  
Dyfrys adwyth llu Dyfr osodau,
- 48 Dared angerddruthr wrth dyrau—gorllin,  
48 Da wrth holiwr trin, diwarth heiliau.  
Llew a chariad myrdd, llyw iach oriau,  
Llaw a chiried Môn, llewych eiriau,  
Lluchynt creulon frwydr, Llachau—gyhafal,  
52 Llydan wrol dâl, llid yn aerau.  
Llathrber eurgroyw iaith, llithr bâr irgrau,  
Lluniwn farddair naf llawnion fyrddau,
- 56 Llifeiriaint gwyar yw llafuriau—cainc,  
56 Llawen orfod Ffrainc, llew yn arfau.  
Cad wyw suddaer hydr, ceidw ei swyddau,  
Cymen farwn doeth camawn ferau,  
Canon cywirdeb yw cenau—Tudyr,
- 60 Cadarn gwympiwr gwŷr cedyrn gampau.  
60 Carodd falchedd trais caeroedd fylchau,  
Cariad tewglod aml, ciried hyglau;  
Cyfarwydd y gwnaeth cyfeiriau—dragon
- 64 Coetgwn olwythion catgaen lathau.  
64 Egyr ddidlawd law, nid garw ddadlau,  
Agwrdd adlam fawl, am gerdd odlau;  
Anian Eidol gynt, un anwydau—mael,
- 68 A raglwyddodd gael aur a gwleddau.  
68 O fwrw carchar gwŷd Efrog gyrchau,  
Ei fawr gerydd gryd, ef yw'r gorau;  
Ar fradruthr y gwnaeth eirf frwydrau—ymgnith
- 72 Aerferion lith ar foreau.  
72 Rhôn ar derfysg graid, Rhun aerdyrfau,  
Rhyddgled aelaw lys, rhwyddglod olau,  
Rhyfel ruddwr drud rhyw fawl raddau—Nudd,
- 76 Rhyddewr wawtffrawdd udd rhaidd ar waetffrau.  
76 Rhaid y bydoedd yw rhad wybodau  
Rhydeg emog lorf, rhi digamau,  
Rhygarodd wisgo, rhagorau—eglur,

- 80 Rhisg odidog dur, rhwysg ei deidau.  
Murel dilwfr fu mawr elw dalau,  
Mirain lewbraff fraich Morien lwybrau,  
Mordwyodd yn eirf, maerdyau—gwinllad,
- 84 Mur ar agwrdd gad, môr yr eigiau.  
Maen arwydd ei fod rhwng manerau,  
Mawlwrdd addfwyn gorff, milwr ddeddfau,  
Mynnodd dragorfod hyd ym manau—byd,
- 88 Mawredd ragor bryd muroedd ddreigau.
- Arfod uthrddraig wrth gastellgraig,  
Aer arynaig, aur Oronwy,  
Arfau cychwyrn, erfai dëyrn,
- 92 Eryl gedyrn arial Gadwy.  
Eryr Gwynedd, eryf gyfedd,  
Eirgras hoffedd, irgrau saffwy,  
Enau digabl anant fwrdd-dabl,
- 96 Yniwl barabl yn ael Berwy.  
Amlwg drwyddied Amlyn weithred  
Ym i yfed am ei ofwy.  
Wythrif drosedd uthraf lymgledd,
- 100 Aeth i fawredd iaith Afarwy.  
Annwyl Dudyr, einioes rysgyr,  
Eurged eryr, aergad aerwy,  
Iôn cenhedloedd, ynial wleddoedd,
- 104 Anaw lysoedd, enw Alaswy.  
Hydr galonddid, hydaer ddewrllid,  
Heiliau dibrid, hylud obrwy,  
Heirdd ei esbyd, hirddawn Gwyndyd,
- 108 Hyder diwyd hyd ar Dawy.  
Helm ddisegur, hylwm natur,  
Hael brif awdur, hwyl brofadwy,  
Hyrwydd farchog harddlaifn duriog,
- 112 Hirwayw trumiog, hwyrwyd dramwy.  
Corf trybelid, caeroedd gliffid,  
Cariad erlid, ciried arlwy,  
Camp Olifer, cwypiai'n yngder
- 116 Cant o'i lewder, cun taladwy.  
Ceimiad Gwynedd, cymorth gorsedd,  
Cyman ddewredd, camawn ddirwy,  
Croywles fedrus, creulaif dirus,
- 120 Ced eurgostus, cad argystwy.  
Lliwrdd lafnddur, llawrodd eglur,



- 124 Llawen awdur, llew yn adwy,  
Lluchynt Melwas, llawchfeirdd winblas,  
Llydan solas, llyw Dinsylwy.  
Llu angor fydd Llŷr Penmynydd  
Lle bwrw gerydd llwybrau Garwy,  
Llym dan hëyrn lle bai utgym,  
128 Lludded erddyrrn, lleiddiaid orddwy.  
Llon bendefig llinon ysig,  
Llun ffenedig, llin ffynadwy,  
Llwybr cad oddaith llafur drudlaith,  
132 Llwrff dawn doethiaith, llorff Dindaethwy.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 302<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 181<sup>v</sup> C—J 111, 1288 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 50<sup>r</sup> E—LIGC 4973B, 262<sup>r</sup> F Pen 118, 134

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*

21 trechyat. 22 vn pryt. 23 parhau. 27 kyfyiaón. 29 ynghytrud. 37 trut. 40 aer gammaón. 43 deu aessaór. 93 aryf. 111 hardlevyn. 120 kat ar gystóy. 125 llunangor vyd.

*Olnod*

Risserdyn a gant y teirawdyl uchof y ronwy uab tudur.

*Moliant Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd*

- [Yr] arweinydd [mewn] brwydr gwrol ei anian [a] chadarn,  
 [darparwr] dillad [i'w] feirdd,  
 [Yr un a chando] lumanau [megis eiddo] Lleon [Gawr], gwir  
 roddwr [â] llaw,  
 Cynheiliad cynhaliwr, haelioni haelfrydedd, anwylyd gwŷr  
 Gwynedd,
- 4 Arglwydd yw fy un hael yng ngwlad ffyniannus Môn.  
 [Un o] natur gadarn, rymus [a] ffyrnig drwy ewyllysiad Iesu,  
 [Un] yn heilio gwin [ar gyfer] bord [ei] lys [i] lu awenyddol o feirdd  
 sy'n derbyn budd,  
 Goronwy gorchestol [ei] hynt, llên-farnwr iaith barddoniaeth,
- 8 Llew yw ein mab ucheldras [a] gwrol, darparwr llawen [gwledd].  
 [Un megis] Tudur mewn ymosodiad â gwaywffyn [ym] mrwydr  
 danllyd disberod y Saeson,  
 Maeddwr tra dewr [mewn] brwydr, un sy'n dechrau dinistr,  
 [Un yn achosi] trwst croch mewn rhyfel, tywalltwr llifeiriant o  
 waed,
- 12 Adeiladydd enwog ystafelloedd disglair [eu] bri.  
 Arglwydd [y] cyn sy'n arllwys [diod] a llygad gwŷr Gwynedd,  
 Amddiffynnydd taer [a chando] gleddyf [sy'n achosi] cyrff briw,  
 cyffröwr byddin,  
 [Un a'i] ymosodiad sydyn [megis] corwynt [gyda] thrwst  
 ffyrnigrwydd na ellir llechu rhagddo,
- 16 [Un a chando] bicell mewn cyrch cyffrous [a] gafael [megis eiddo]  
 Tristan.  
 [Yr un a chando] waywffyn [sy'n achosi] rhaeadrau o waed, ni  
 [ddaw] llef ddrwg, front [o'i achos],  
 [Un yn achosi] artaith drist [i] fyddin arw, darostyngwr diadell,  
 Picell brwydr glodfawr, croesawr pob un,
- 20 Gofalai am ymwelydd o bell â'i natur ddigyfnwied.  
 [Yr] arglwydd gorau [a'r] mwyaf grymus, trychwr llu mawr,  
 Costus [i'w elyn] fu gyda'i bicell ddewr, [yr un o] ymddangosiad  
 Eliwlod,  
 [Y] pennaeth [a chando] ragoriaeth [o ran ei] gyngor, rhwygwr  
 gwaywffyn [mewn] brwydr,
- 24 Paun [y] diodydd gwin, [y] pen-gwarddwr.  
 [Y] cynheiliad grymus [a] dewr sy'n cynnal delwedd gŵr gwych,  
 Arwr hardd nad yw'n llefaru oferedd [a chando] wedd arglwydd,  
 [Un ac iddo] farn gyfiawn, gadarn [a] chyngor didwyll,
- 28 Arglwydd clodfawr [ei] orsedd, ceidwad haelioni.

- Mae'n gwarchod cyfoeth [a ddaeth yn sgil ei] lwyddiant, [y]  
 lladdwr yng nghynnwrf [brwydr],  
 Carodd rannu ysbail, derbynnir ei ddillad [yn rhodd],  
 [Yr un o] deithi Llachau, hyrddiwr llafn sy'n tynnu gwaed,  
 32 Arglwydd gwrolwych [a] hardd [mewn] gwisg [o] ddur gor-  
 chudd.  
 Llywodraethwr [sy'n rhoi] tâl o rodd deg, un o dylwyth tad  
 urddasol [a] pherffaith,  
 Picell yn gwrthsefyll gwŷr caeth [mewn] ymosodiad gwirion-  
 eddol ffyrnig,  
 [Daw] dinistr i fyddin gan [y] mentrwr [hwn] mewn brwydr,  
 36 [Un] taer iawn yn erbyn tarianau, [y] pennaeth dilestair.  
 [Yr un ar] hynt wyllt, nerthol, daer [a] beiddgar, rhodd yw ei  
 ddiod frag,  
 [Ei] waywffon a bair i fintai ymrwyfo, [un] digrintach [ei] rodd,  
 40 Arglwydd hael [y] beirdd, gorchfygwr diysgog castell,  
 Arf lladdfa ryfel waedlyd, [y] pen-campwr tra dewr.  
  
 Arweinydd [ac] ymladdwr brawychus, amddiffynnwr [mewn]  
 ymladdau,  
 [Yr un] dewr ei gyngor i fintai arfog, arweinydd mewn brwydrau,  
 Goronwy hardd, [un a chanddo] darian sicr [ei] chlodd,  
 44 Rhanna roddion mawr, dur yw ei waywffyn.  
 Cynheiliad hael, cryf [a] daionus [mewn] cyfarfodydd  
 heddychlon,  
 [Un yn achosi] dinistr buan [i] lu [mewn] ymosodiadau [megis  
 eiddo] Dyfr,  
 [Un a'i] ruthr chwyrm [megis eiddo] Dared yn erbyn tyrau  
 gorchestol,  
 48 Un da tuag at hawliwr [mewn] brwydr, [un yn darparu] gwledd-  
 oedd clodfawr.  
 Arwr ac anwylyd i fyrdd, arweinydd [yr] adegau llewyrchus,  
 [Un sy'n cynrychioli] awdurdod a haelioni [ym] Môn, disgrair  
 [ei] ymadroddion,  
 [Un a chanddo] ymosodiad melltennog [mewn] brwydr greulon,  
 [un] tebyg i Llachau,  
 52 [Un] gwrol [a] llydan [ei] dalcen, [un llawn] digofaint mewn  
 brwydrau.  
 [Un a chanddo] iaith lefn beraidd [a] choeth a phur, [un a  
 chanddo] waywffon lithrig [wedi ei throchi mewn] gwaed  
 ffres,  
 Boed i ni lunio cerdd o fawl [i'r] arglwydd [sy'n darparu] byrdd-  
 au llawn,

- Ffrydlifoedd o waed yw [canlyniad] gweithredoedd [ei]  
waywffon,
- 56 [Yr un sy'n] gorchfygu Ffrancwyr yn llawen, arwr mewn  
arfwisgoedd.  
[Yr un] cadarn [yn] lladdfa ddinistriol byddin ddi-rym, mae'n  
gwarchod ei swyddi,  
Medrus farwn doeth [a chanddo] waywffyn [ar] faes y gad,  
Safon teyrngarwch yw disgynnydd Tudur,
- 60 Dymchwelwr nerthol gwŷr nerthol [eu] gorchestion.  
Carodd ogoniant brwydr [yn erbyn] tyrau bylchog cestyll,  
[Y] gwrthrych cariad [ac iddo] foliant helaeth [a] lluosog [a]  
haelioni amlwg;  
Yn fedrus y paratôdd [yr un ar] hyntoedd ymladdwr
- 64 Olwythion [ar gyfer] bleiddiaid [â'i] waywffyn sy'n orchudd  
dros fyddin.  
Egyr llaw ddibrin, nid oes ymryson chwerw [ynglŷn â hyn],  
Testun moliant [ac iddo] gartref gwych, am awdlau cerdd;  
[Yr un o] anian Eidol gynt, [o'r] un cyneddfau [â] thywysog,
- 68 A achubodd y blaen ar gael aur a gwleddoedd.  
Am danseilio caethiwed drwg ymosodiadau [un megis] Efrog,  
[Sef] ei gosb fawr [ar ei elyn mewn] brwydr, ef yw'r gorau;  
Mewn ymosodiad cyfrwys darparodd ymdaro brwydrau [ag]  
arfau
- 72 Ymborth i adar ysglyfaethus maes y gad yn y boreau.  
Gwaywffon [yn gwastrodi] ar derfysg brwydr, [un megis] Rhun  
[yng] nghynryfiadau brwydr,  
[Un a chanddo] lys cyfoethog, croesawus a diddos, [yr] un  
amlwg [ei] glod parod,
- 76 Gwaedwr gorddewr [mewn] rhyfel o natur graddau mawl Nudd,  
Arglwydd tra dewr a folir yn eiddgar [a chanddo] waywffon yn  
[y] tywallt gwaed.  
Anghenraid y bydoedd yw moesau hael  
[Y] cynheiliad tra hardd sydd wedi ei addurno â gemau, [y]  
brenin cyfiawn,
- 80 Mae wedi caru gwisgo, [yr un] amlwg [ei] ragoriaethau,  
Dudded odidog o ddur, [yr un ac iddo] ysblander ei deidiau.  
[Un megis] Murel ddewr fu[r gŵr] mawr [a] buddiol [ei] dal-  
iadau,  
[Un â] braich ddewr, braff, firain [yn dilyn] llwybrau Morien,  
Mordwyodd mewn arfwisg, [yr un a chanddo] dai mawr [yn llawn  
o] ddiod win,
- 84 [Yr un sydd megis] mur yn amddiffyn byddin gadarn, fôr y  
minteioedd.

- Carreg arwydd [ffin] yw ei fod rhwng maenorau,  
 [Yr un a chanddo] gorff tyner, moliannus a chadarn, [yr un a  
 chanddo] briodoleddau milwr,  
 Mynnodd orchfygu hyd barthau [pellaf] y byd,  
 88 [Yr un o] ymddangosiad rhagorol [a llawn] ysblander milwyr  
 amddiffynfeydd.
- [Yr un o] ymosodiad arweinydd aruthr yn erbyn craig a chastell  
 arni,  
 [Yr un sy'n peri] arswyd [mewn] brwydr, Goronwy wych,  
 [Un a chanddo] arfau chwyrn, [y] pennaeth rhagorol,  
 92 [Un o] ffyrnigrwydd Gadwy [yn erbyn] ymlidiad gwŷr cadarn [y  
 gelyn].  
 Arwr gwŷr Gwynedd, cydymaith [mewn] cyfeddach,  
 [Un o] ymffrost uchel-gyffrous ei eiriau [a'i] waywffon [wedi ei  
 throchi mewn] gwaed ffres,  
 [Un] di-fai [ei] ymadrodd [sy'n darparu] bwrdd [gwledd i'r]  
 beirdd,  
 96 [Un megis] Yniwl [o ran ei] barabl yn myyl Berwy.  
 [Mae] croeso eglur [gan yr un a'i] weithred [megis eiddo] Amllyn  
 I mi i yfed oherwydd [i mi] ymweld ag ef.  
 [Yr un o] ragoriaeth wyth o nifer [â'i] gleddyf miniog mwyaf  
 aruthr,  
 100 Aeth yn destun clod [gan] genedl Afarwy.  
 [Un megis] Tudur annwyl, [un yn byw] bywyd ymosodwr,  
 Arwr gwych ei rodd, llyffetheiriwr byddin mewn brwydr,  
 Arglwydd cenhedloedd, [un yn darparu] gwleddoedd gwych,  
 104 [Un a chanddo] lysoedd [llawn] cyfoeth [ac] enwogrwydd Alaswy.  
 [Yr un o] gadernid gwrol [a] diclonedd dewr [a] thaer iawn,  
 [Un yn rhannu] diodydd heb gyfrif y gost, gwobr arhosol,  
 Hardd yw ei westeion, maith fendith pobl Gwynedd,  
 108 Ymddiried y ffyddlon mor bell ag [Afon] Tawe.  
 Un nad yw [ei] helm yn segur, [un] awchus [ei] natur,  
 [Y] prif arweinydd ucheldras, profedig [mewn] cyrch,  
 [Y] marchog tra hael [a chanddo] lafnau hardd o ddur,  
 112 [Un yn dwyn] picell hir gribog, [un] di-fai [ei] hynt.  
 [Y] cynheiliad disglair, ?dymchwelwr cestyll,  
 [Un sy'n] cyrchu cariad [ac yn] darparu haelioni,  
 [Un o] orchest Olifer, bwriai i lawr yng nghyfyngder [brwydr]  
 116 Gant drwy ei lewder, [y] pennaeth gwerthfawr.  
 Pen-campwr gwŷr Gwynedd, cynhaliwr llys,  
 [Un o] ddewrder perffaith, cosbwr [mewn] brwydr,

- [Un] galluog [i ddwyn] budd eglur, [un a chanddo] waywffon  
waedlyd ddi-feth,
- 120 [Un] gwych a chostfawr [ei] rodd, cystwywr byddin.  
[Yr un a chanddo] lafn dur cochliw, amlwg [ei] anrheg,  
Arweinydd llawen, [un megis] llew mewn bwlch,  
[Un a chanddo] ymosodiad melltennog [megis eiddo] Melwas,  
plas y gwin [a] nawdd i feirdd,
- 124 [Un yn darparu] diddanwch helaeth, arglwydd Dinsylwy.  
Angor [i] fintai fydd Llŷr Penmynydd  
Lle gwasgara'r gosb [â'i gyrch] lwybrau [megis eiddo] Garwy,  
Un awchlym mewn arfwisg haearn lle bynnag y byddai utgryn,
- 128 [Yr un a'i] ddyrnau [yn achosi] blinder [i'w elynion],  
gorthrechwr lleiddiaid.  
[Y] pendefig llawen [a chanddo] waywffon doredig,  
[Un] ffyrnig [ei] ymddangosiad [a] ffyniannus [ei] dras,  
[Yr un a'i] hynt [megis] coelcerth [mewn] brwydr [yn achosi]  
gwewyr marwolaeth greulon,
- 132 [Un ar] drywydd rhodd [o gerdd mewn] iaith synhwyrol, cyn-  
heiliad Dindaethwy.

*Moliant Myfanwy wraig Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd*

- Uniawn bill hirddawn o ball harddedd,  
 Enwog falch fynog o feilch fonedd,  
 Anwylgain firain o fawredd—didwyll,  
 4 Un ni fwrw ei phwyll yn oferedd.  
 Mawl i hirwen ddoeth, mil a'i harwedd,  
 Manon aur hoywdal mywn enrhydedd,  
 8 Myfanwy, lywy oleuwedd—briflwys,  
 Mygr hoywlamp Bowys, magwyr hywledd.  
 Gofynnai fawlderdd yn gyfannedd,  
 Gwenlwys eurswllt bobl, gwinllys orsedd,  
 Gwasgawd inseilwawd ansalwedd—arfer,  
 12 Gymar hy ener, gem rhianedd.  
 Llythr a ddysgodd bun llathraidd osgedd,  
 Lluniad diornair llin teyrnedd;  
 Lliw difrisg lluwchwisg eiry llechwedd—maenawl,  
 16 Llwyddai amod mawl, llaw ddiomedd.  
 Cerir ei mawrdwf nid er caredd,  
 Cadair i fawlair, ced orfoledd,  
 Cymhendod dafod, etifedd—lwyddiant,  
 20 Cwbl iawnwarded cant ceibl enwiredd.  
 Cu fynogwyp wawr, cyfiawn agwedd,  
 Cludodd ewybr ddawn clod o ddiwedd;  
 Coeth y gwnaeth eu maeth â medd—bueilsathr  
 24 (Claer aur freisg-gorff llathr) clêr ar frwysgedd.  
 Bid ar hyffawd hoedl, byd orhoffedd  
 (Bu flaen nodedd beirdd) byw flwynyddedd!  
 Bwriad gair difrad, bryd geirw dyfredd—glud,  
 28 Bylcheim ei golud, balch amgeledd.  
 Digloff ei moliant hyd wlad Ogledd,  
 Deg ymorol Môn, digymaredd,  
 Dyad Dyfr drwsiad difar drosedd—coeth,  
 32 Deall aelaw doeth, diell wyledd.  
 Goludog gyman, haelwar heulwedd,  
 Goronwy Fychan, gwron fuchedd,  
 Gwyp glod, dawn hynod, dianhunedd—ddeigr,  
 36 Gwiwryw eurgroyw Eigr, gwawr y gwragedd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 300<sup>r</sup> B—BL Add 15001, 181<sup>r</sup> C—J 111, 1282 D—LIGC 1984B [= Pant 15], 48<sup>v</sup> E—LIGC 4973B, 261<sup>v</sup> F—Pen 118, 133

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*

7 kywy. 13 llythyr ae dysga6d vun. 14 tiornair. 25 arhyffa6d. 28 *amhosibl penderfynu ai bylcheim ynteu bylchenn yw'r darlleniad.* 29 wlat gogled. 30 morof. 36 g6i6 ry6 groe6eigyr g6awr y g6raged.



*Moliant Myfanwy wraig Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd*

- [Y] ferch luniaidd, unionsyth, faith ei rhodd o[r] neuadd bryd-ferth,  
 [Yr] un bendefigaidd, urddasol [ac] enwog o dras gwŷr urddasol,  
 Un hardd, annwyl a phrydferth o wir fawredd,  
 4 Un nad yw'n cyfeirio ei meddwl at oferedd.  
 Moliant i[r] un ddoeth, dal a goleubryd, mae mil yn ei gludo [ar led],  
 [Y] rhiain wych [a] hardd ei thalcen mewn anrhydedd,  
 Myfanwy, yr harddaf, hyfryd [a] disglair ei gwedd,  
 8 Llusern hardd [a] gwych Powys, noddwraig sy'n darparu gwleddoedd moethus.  
 Gofynnai am gerdd foliant yn barhaus,  
 [Un] hardd a theg [y] bobl [sy'n derbyn] rhodd wych, penaethes y llys lle llifa'r gwin,  
 Noddwraig barddoniaeth ddilys [ac iddi] arfer [llawn] gwedd-eiddrwydd,  
 12 Cymhares arglwydd dewr, gem [ymhlith] merched.  
 Dysgodd [y] fun ddisglair [ei] llun lythrennau,  
 [Yr un] ddi-fai [ei] ffurf [o] linach brenhinoedd;  
 [Un o] liw disathr gwisg o luwch [yr] eira [ar] lechwedd dyffryn,  
 16 Hyrwyddai gytundeb moliant, [yr un] ddiwarafun [ei] llaw.  
 Cerir ei chorff lluniaidd [ond] nid er mwyn [cyflawni] pechod,  
 Crud i foliant, [un sy'n rhoi] gorfoledd rhodd,  
 [Un o] iaith huodledd, [achos] ffyniant [ei] disgynyddion,  
 20 [Un sy'n darparu] llwyr, wir waredigaeth [rhag] can pechod cablau.  
 Arglwyddes hardd, urddasol [ac] annwyl, [un] ddiduedd [ei] hagwedd,  
 Cludodd [yr un] parod [ei] ddawn glod [iddi] yn y diwedd;  
 Yn wych y cynhaliodd hwy â medd [a oedd] yn fwy na llond cynr yfed  
 24 ([Yr un a chanddi] gorff cryf, disglair, coeth [a] hyglod), [sef y] beirdd mewn medd-dod.  
 Boed, er mwyn bywyd dedwydd, [i'r un sy'n destun] edmygedd [i'r] byd [i gyd]  
 (Bu'n nodedd blaenllaw [i] feirdd) fyw [am] flynyddoedd!  
 Meddwl gair didwyll [o fawl], [o] ymddangosiad ewyn [y] dyfroedd di-saib,  
 28 Gemau wedi eu naddu yw ei chyfoeth, [yr un] wych [ei] gofal.  
 Bywiog yw ei moliant hyd at wlad [y] Gogledd,

?Gwrthrych cais teg Môn, [yr un] ddirodres,  
 [Un o] ymddangosiad gwisg Dyfr [a chanddi] ragoriaeth  
 addfwyn [a] choeth,

32 [Un a chanddi] feddwl rhwydd [a] doeth [a] gwyleidd-dra  
 perffraith.

Gymhares oludog, [un] hael, wâr [a] disglair fel yr haul,  
 Goronwy Fychan, [un ac iddo] ymarweddiad arwr,

[Un] rhagorol [ei] chlod, nodedig [ei] rhodd, [yn achosi] dagrau  
 [o ganlyniad i] ddiffyg cwsg ofnadwy,

36 [Un megis] Eigr fonheddig, gwych a phur, arglwyddes y  
 gwragedd.

*Marwnad Hywel ap Gruffudd o Eifionydd*

- 4 Rhy-gudd llew arfrudd, llyw eurfro—gwingost,  
Yng nghongl gwyngor Beuno,  
Rhwyf clodnerth rhyfyg Clydno,  
Rhyddewr grair, rhudd dderw a gro.
- 8 Cudd gro teilwng Gymro teg,  
Cyd-ddenwr brwydr, ced ddinag,  
Cael anhun yw'n celennig:  
Calonnus is Celynnog.
- 12 Llawr Celynnog Fawr a fedd—ei orchudd,  
Gwae eirchiaid o'r diwedd,  
Llifgrau aer, gwawtglaer, gwaetgledd,  
Llwybr dêr, trafyn bâr, is trefn bedd.
- 16 Caenfedd a gudd Nudd neddair,  
Cynfyn ail, neud cwynfan oer,  
Cytgam pryd, trillid trallwyr,  
Catgun oedd lith coetgwn aer.
- 20 Aer daer daradr cadr, delltwr coedydd—onn,  
Anwylddoeth fab Gruffydd;  
Addfwyn cyn no'i ddwyn i'w ddydd  
Oedd enaid pobl Eiddionydd.
- 24 Eiddionydd lorf, corf cariad,  
Oedd Hywel, grym Echel gryd;  
Aneirdd yw ei feirdd o'i fod  
Yng ngraen fedd, yng ngyro yn fud.
- 28 Os mud llew aerddrud, llaw urddreg—llithrwaed,  
Llathrwalch pobl Wyndodeg,  
Wysg rhwysg Rhyawd, wawd wiwdeg,  
Ys uwch ei gwyn no dwyn deg.
- Pob deg a'i cwyn, addfwyn oedd,  
Pâr durflaen, parod aerflaidd,

- 32 Prif ruthr yng ddurfyng ddewrfaedd,  
Pridwr serch Paredur swydd.
- Swydd rwydd roddiad fad! Suddai fedel—gyrf;  
Ni ddug arf na phensel  
36 Ar ysgwthr brad cad nid cêl  
Saer hoywach no Syr Hywel.
- Uchel, o ddwyn Hywel ddoe,  
Achwyn gwyllt, ochain a gwae,  
A chadarn oedd dyroedd dai  
40 A chydwr brwydr uwch adwy.
- Garwy ar adwy, gwrol rediad—ffyrf,  
Taer briwgyrf, tarw bragad,  
44 Gwÿs gwae o'i farw, arw irad,  
Gwysiwr cerdd, gwayw aesawr cad.
- Llithr am udd cad rhad rhydeg,  
Llawn wyllo llew un olwg,  
48 Llyw ar ddadl, llaw urddedig,  
Llwrff chwalu trin, llorf Chwilog.
- Chwilog ben a'i nen, i ninnau—y rhoed,  
Lle rhedant o'i eisiau  
(Chwÿl garw, clod fyddindarw clau)  
52 Chwyrn ddigruthr chwerwon ddaagrau.
- Dagrau tros faddau llyw traws fyddin—draw,  
Daw enw draig eurlaw yn dragorllin;  
56 Drud lud lafn hardd-drafn, dôr hirdrin—torfoedd,  
Dewr bôr gwawdlwydd oedd, durbar gwaedlin.  
Deddf reddf raen orflaen dydd aerflin—gymysg,  
Dewrffysg dug daerddysg dwygad orddin;  
60 Dyedd yw diwedd dewin—ymladd-dyrf,  
Drudlyrf dâl traffyrf, deulid Tryffin.  
O glywed myned ym meinin—argae,  
64 Amnaid gorwyllt wae ym neud gerwin,  
Arglwydd yr arwydd oreurin—lewych,  
Arddwys gythrudd gwych, aer ddisgethrin.  
Arf llithrau brwydrau, neud bradrin—cerddawr  
Yn llawr rhoi haelwawr a rhi heilwin,  
Och cwympiaw canllaw ach ceinllin—gwelydr,

- 68 Echel ddewrwaisg hydr uwch ael dderwin.  
Traws darw brwydr agarw, bradwr egin—Ffrainc,  
Taer feddylffyrf ainc, torfoedd Elffin,  
Trafyn llafn llwybrfryd gryd, di-grin—baladr,  
72 Taradr tŵr eurgadr hyd dir Ergin.  
Treulwledd cost annedd, Custennin—fynud,  
Tyrfaeu myfyr drud, torf ymefin,  
Tafawd un arawd Aneirin—gwawt glaer,  
76 Teg gyffrydiwr aer, tai cyffredin.  
Hywel gaen ufel, arf gynefin—blawdd,  
Hawdd y glud ddelffawdd gwladoedd Ddolffin,  
Hael heilgost eurbost Erbin—ysgwyd ddur,  
80 Hardd arfau fwlchfur hyrddarf fylchfin.  
Hydyn aerfathryn a feithrin—cleroedd,  
Hyder llawer oedd hyd orllewin,  
Hynt ni'm bydd llonydd heb allwynin—wedd  
84 Hepgor dôr dewredd hywledd hoywlin.  
Cad gur rwyf Arthur, ryfawrthin—deigrdwysg,  
Caf am urddol rwysg cofau Myrddin,  
Cudd prudd priddlawr gwawr, gwerin—bendefig,  
88 Clud ei aros dig clo daerin.  
Clwyf dyedd adwedd Edwin—ddigoniant,  
Clyw cant mawr rusiant am iôr iesin,  
Cain llwyr gariad rhad yn rhin—uchelbraw,  
92 Canllaw nef iddaw, ail naf Eiddin.

- |     |                     |                    |                     |
|-----|---------------------|--------------------|---------------------|
|     | Clydno Eiddin       | glod ar ddwydrin,  | glewdwr ddedryd,    |
|     | Cynllug durgorf,    | ceinllyw gwendorf, | canllaw Gwyndyd,    |
|     | Cwynau hepgor       | ar un elor,        | yr anwylyd,         |
| 96  | Colofn Gwynedd      | aur farannedd      | ar fyr ennyd.       |
|     | Coeth oedd Hywel    | cyn no'i ddirgel,  | cynnydd ergyd,      |
|     | Cadr fab Gruffydd,  | gwawr Eiddionydd   | Gweirydd unyd,      |
|     | Cymro addfwyn,      | caf o'i dreistwyn  | cof o dristyd,      |
| 100 | Cynfyl garthan,     | rhoddwiw gwawdlan, | rhuddwayw gwaedlyd. |
|     | Cyfrwydd galon,     | ochain tromfron,   | achwyn trymfryd     |
|     | (Clod urddolion     | am ei gofion)      | ym a gyfyd.         |
|     | Colli cyrchfa       | (honnaid udfa),    | hyn neud adfyd,     |
| 104 | Cartref digeirdd,   | doeth i wanfeirdd  | daith ddiwynfyd.    |
|     | Ceir o'i dramgwydd, | euraid arwydd,     | i'r a'i deiryd,     |
|     | Cynnwrf Brynaich    | Cynon hoywfraich,  | cwyn anhyfryd.      |
|     | Calon uchel         | oedd i Hywel,      | udd ddihewyd,       |
| 108 | Caith gyfymliw,     | dur ysgwydfriw,    | dâr esgudfryd.      |
|     | Crist, un Mab Mair, | rhadau nerthair,   | rhaid yn wrthyd,    |
|     | Cynnwys Hywel,      | Eurnaf uchel,      | ar nef iechyd!      |

112

Iachäed Mair, crair croywradd,  
 Enaid gwalch bwrddfalch, beirddfodd!  
 Och fyned uchaf fonedd  
 Iôr ym min côr, i mywn cudd!

Rhy-gudd llew arfrudd ...

*Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 288<sup>v</sup>–300<sup>r</sup> (llau. 1–92), 301<sup>r</sup>–302<sup>r</sup> (llau. 93–114) B—BL Add 15001, 179<sup>r-v</sup> (llau. 53–92), 179<sup>v</sup>–300<sup>r</sup> (llau. 1–52), 180<sup>r-v</sup> (llau. 93–114) C—J 111, 1281 (llau. 53–92), 1287–8 (llau. 1–53, 93–114) D—LIGC 1984B [= Pant 15], 46<sup>r</sup>–48<sup>v</sup> (llau. 1–92), 49<sup>v</sup>–50<sup>r</sup> (llau. 93–114) E—LIGC 4973B, 258<sup>v</sup>–260<sup>v</sup> (llau. 53–92, 1–52, 93–114) F—Pen 118, 128–9 (llau. 53–92); 130–1 (llau. 1–52, 93–114).

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*

25 lithyrwaet. 26 lathyrwalch. 27 widec. 44 assa6r. 45 redec. 57 rein or vlaen. 58 dewyrffysc. 65 lithareu *gydag e uwchlaw'r* a. 67 k6ympy6. 68 deuweisc. 73 treulwed. 77 gyntevin. 78 ha6d y glutdel ffa6d wyr g6latoed olffin. 79 [ddur]. 80 hyrdeiryf. 81 Hydyr aer vathyrn ae veithrin clerod. 87 Cud pridla6r. 90 cut. 91 y6chelbra6. 103 hyt.

*Penawdau*

*Uwchlaw ll. 1* Risserdyn ae cant rac lla6. *Uwchlaw ll. 53* llyma weithyon gerd Risserdyn. *Uwchlaw ll. 93* Risserdyn heuyt.

*Marwnad Hywel ap Gruffudd o Eifionydd*

Yn cuddio[’r] arwr coch ei arf, pennaeth [ar] wlad ardderchog  
sy’n darparu gwin,

Yng nghornel cangell fendigaid [eglwys] Beuno,  
[Yr] arweinydd enwog ei nerth [o] feiddgarwch Clydno,  
4 [Yr] anwylyd tra gwych, mae coed derw coch a gro.

Cuddfan [mewn] gro [y] Cymro hardd [a] theilwng,  
Cyd-dynnwr brwydr [am ei ben], dinacâd [ei] rodd,  
Cael diffyg cwsg yw’n calennig [bellach]:

8 [Mae’r] un calonnog o dan [lawr eglwys] Clynnog.

Llawr Clynnog Fawr piau ei orchudd,  
Gwae i eirchiaid oherwydd [ei] ddiwedd,  
[Yr un a barai] waed yn llif [mewn] brwydr, gloyw ei glod,  
gwaedlyd ei gledd,

12 [Mae] llwybr [yr] arwr, offeryn dicllonedd, [bellach] islaw cell  
[y] bedd.

Bedd gorchuddiol sy’n cuddio [yr un a chando] law [agored  
megis] Nudd,

Un tebyg i Gynfyn, mae griddfan trist [o’i gylch],  
[Un llawn] cellwair costus [a] digofaint mawr [a] chyfan gwbl,  
16 Llywydd mewn rhyfel oedd [y darparwr] ymborth i fleiddiaid  
[mewn] brwydr.

[Y] tyllwr grymus [a] thaer [mewn] brwydr, maluriwr  
gwaywffyn [o bren] onn,

Mab annwyl a doeth Gruffudd;  
Addfwyn cyn ei ddwyn ymaith i’w ddiwrnod olaf  
20 Oedd ysbrydoliaeth pobl Eifionydd.

Ceidwad Eifionydd, cynheiliad cariad,  
Oedd Hywel, [yr un o] nerth Echel [mewn] brwydr;  
Gwachul yw ei feirdd oherwydd ei fod  
24 Mewn bedd trist, yn [y] gro yn fud.

Os mud yw[’r] gwron gorddewr mewn brwydr, [yr un a chando]  
law gwobrwywr urddasol [y] llif gwaed,  
Arwr disgclair [y] bobl [sy]’n siarad iaith Gwynedd,  
[Un â] llwybr [ei] ruthr [megis eiddo] Rhahawd, [un] harddwych  
[ei] fawl,

28 Uwch yw'r galar amdano nag am ddwyn ymaith ddeg [gŵr].  
 Mae pob deg [gŵr] yn galaru amdano, addfwyn oedd,  
 Picell ddur ei blaen, blaidd brwydr parod,  
 32 Baedd dewr [a] dygn [ym] mhrif ymosodiad gwasgfa brwydr,  
 Hawliwr serch [a chanddo] awdurdod [megis eiddo] Peredur.

Swydd [yr] un da [a oedd yn] rhoddwr hael! Dymchwelai  
 gynheiliaid lladdwyr [mewn brwydr];  
 Ni ddug arf na lluman  
 Yn erbyn cymynwaith bradwrus byddin nad [oedd] ynghudd  
 36 Gerfiwr mwy egniol na Syr Hywel.

Uchel, oherwydd dwyn ymaith Hywel ddoe,  
 Yw galar gwallgof [ac] ochneidio a gwaie,  
 A chadarn oedd [yr] adeiladau tyrog  
 40 Tra oedd [y] cydymaith [mewn] brwydr dros [y] bwlch.

[Un megis] Garwy yn [y] bwlch [â] chwrs gwrol [a] grymus,  
 Un taer [yr] aelodau clwyfedig, tarw byddin,  
 Profir o'i farw drallod, tristwch creulon,  
 44 Gwysiw'r cerdd [a'i] waywffon [yn] nharianau byddin [y gelyn].

Llifeiriol o gwmpas arglwydd byddin oedd ffafrau teg iawn,  
 Mae wylo mawr [oherwydd marw yr un ac iddo] ymddangosiad  
 arwr,  
 Arweinydd ar gynulliad, [un ac iddo] awdurdod a anrhydeddir,  
 48 Un ar drywydd chwalu brwydr, cynheiliad Chwilog.

Pennaeth Chwilog a'i harglwydd, rhoddwyd i ninnau,  
 Lle rhedant oherwydd ei eisiau  
 (Ffawd arw, [y] tarw byddin clodfawr [a] chwim)  
 52 Chwerwon ddagrau [mewn] rhuthr dig [a] chwyrn.

[Mae] dagrau oherwydd colli arglwydd [y] fyddin nerthol draw,  
 Daw bri[r] arweinydd hael ei law yn dra gorchestol;  
 [Y] trefnwr gwych, ffyrnig [a] dyfal [ei] lafn, amddiffynnwr  
 torfoedd [mewn] ymdrech hir,  
 56 Arglwydd dewr a'i glod yn ffynnu ydoedd [a'i] waywffon ddur  
 [yn achosi] llifeiriant o waed.  
 Blaenwr aruthr, cadarn [ei] ddull [ar] ddydd tryblith brwydr dost,  
 Dygodd [yr] un taer a medrus ymosodiad dewr [mewn] ymladd-  
 fa [rhwng] dwy fyddin;  
 Rhyfel yw diwedd oes dewin [y] tyrfaoedd o ymladdwyr,



- 60 [Yr un a roddai] dâl tra grymus i amddiffynwyr dewr [y gelyn],  
 [yr un o] lid dwbl Tryffin.  
 O glywed am [ei] fyned i[r] caeadle o gerrig,  
 [Mae'r] arwydd [hwn] o adfyd creulon yn erchyll i mi,  
 Arglwydd y lluman o ddisgleirdeb ysblennydd,
- 64 [Y] cythryblwr llym [a] gwych, garw [mewn] brwydr.  
 Arf [y] ffrydiau [gwaed mewn] brwydrau, stori siomi bardd  
 ydyw  
 Rhoddi yn [y] pridd arglwydd hael a phennaeth [y] gwin  
 tywalltedig,  
 Gwae o syrthio[r] canllaw [o] ach llinach hardd o benaethiaid,
- 68 [Yr un megis] Echel ddewr, gwych [a] chadarn dros ymyl [arch]  
 o dderw.  
 Tarw nerthol [mewn] brwydr ffyrnig, twyllwr egin [y]  
 Ffrancwyr,  
 [Un a chando] awydd taer [a] phenderfynol [a] lluoedd [megis  
 eiddo] Elffin,  
 Defnyddiwr llafn a'i fryd ar gwrs [mewn] brwydr, gwaywffon  
 gadarn,
- 72 Tyllwr tŵr harddwych hyd dir Erging.  
 [Un yn cynnal] gwledd dreulfawr [mewn] preswylfan [lle  
 darperir] arlwy, [yr un o] gwrteisi Custennin,  
 [Yr un a chando] luoedd creulon [eu] meddwl, ?cythryblwr torf,  
 [Un a chando] ymadrodd tebyg i araith Aneirin disglair ei  
 gerdd,
- 76 Cynhyrfwr hardd [mewn] brwydr [a chando] dai rhydd i bawb.  
 Hywel [a'i] arfwisg yn gwreichioni, un cynefin â [chario] arf  
 [yng] nghynnwrf [brwydr],  
 Yn hawdd mwydrodd yn ddyfal [bobl] gwledydd [y] Dolffin,  
 [Y] cynheiliad gwych [a] bonheddig a ddarparai arlwy, [a  
 chando] darian gref [megis eiddo] Erbin,
- 80 [Un megis] mur castellog [mewn] arfwisg hardd [a chando] arf  
 danheddog ei fin a hyrddir.  
 [Y] sathrwr maith mewn brwydr a ymgeledda feirdd crwydrol,  
 Gobaith i lawer ydoedd hyd [y] gorllewin,  
 Ni fydd taith [glera] yn esmwyth i mi [bellach ac ni fyddaf] heb  
 wyneb trist
- 84 [Oherwydd] hepgor [yr] amddiffynnydd dewr, gwych ei linach  
 [ac] aml ei wledd.  
 Arweinydd [megis] Arthur [a roddai] gurfa i fyddin, ?un wedi ei  
 wisgo ar gyfer rhyfel [sydd bellach yn achosi] llif o ddagrau,  
 Caf feddyliau [trist megis eiddo] Myrddin am [yr un] urddasol  
 [ei] hynt,

- 88 Cuddfan drist yw llawr pridd [yr] arglwydd, pendefig [y] bobl,  
Baich [i mi] yw ei aros chwerw [yng] nghadernid [y] ddaear.  
[Mae arno] glwyf rhyfel marwol o waith [un megis] Edwin,  
Teimla cant o bobl siom enbyd oherwydd [colli'r] arglwydd  
hardd,  
Hardd gwbl gariad bendith yn [yr] uchelbrawf dirgel
- 92 [A] chynhaliath y nef [boed] iddo, [yr un] hafal i arglwydd  
Eiddin.
- [Un o] fri Clydno Eiddin mewn dwy frwydr, [un llawn] dewrder  
[ei] benderfyniad,  
Rhyfelwr [a] chynheiliad cadarn, arweinydd gwych harddlu,  
ceidwad gwŷr Gwynedd,  
[Mae'r sawl a arferai] gadw rhag cwynion ar un elor, yr anwyl-  
yd,
- 96 Colofn gwŷr Gwynedd [a chanddo] drysorau gwych am ysbaid  
fer [yn unig].  
Hardd oedd Hywel cyn ei guddio, ergyd [i] ffyniant [oedd hyn],  
Mab gwych Gruffudd, arglwydd Eifionydd, o'r un taldra â  
Gweirydd,  
[Y] Cymro addfwyn, oherwydd ei ddwyn ymaith drwy drais  
mae gennyf feddwl llawn tristwch,
- 100 [Yr un a oedd yn] ormes [ar] faes y gad, gwych ei rodd [a] phur  
ei glod [a chanddo] waywffon goch, waedlyd.  
[Am yr un] parod [ei] ddewrder mae ochenaid mynwes drist [a]  
galar meddwl trist  
(Gwrthrych clod gwŷr urddasol oherwydd [y] cofion amdano)  
yn dod i mi.  
Colli cyrchfan [i'r beirdd] ([mae] galaru cyhoeddus [amdano]),  
mae hyn yn [achos] gofid,
- 104 [Colli] cartref y rhai di-warth, daeth i ran beirdd gwan daith  
annedwydd.  
Daw o ganlyniad i'w gwymp, [yr un] gwych [ei] luman, i'r sawl  
a berthyn iddo,  
Gynhyrfwr [y] Saeson [a chanddo] awdurdod gwych Cynon,  
alar anhyfryd.
- 108 Dewrder aruchel oedd gan Hywel, [un â] thueddfryd arglwydd,  
[Un a achosai] edliw [ymhlith] gwŷr caeth, gŵr cadarn toredig  
ei darian, arweinydd chwim ei feddwl.  
Grist, unig Fab Mair [a chennyt] addewid nerthol [am] fendith-  
ion, rhaid i ni wrthyf,  
Boed i Ti groesawu Hywel, Arglwydd gwych [ac] aruchel, i  
iachawdwriaeth y nef!

112 Boed i Fair, [y] trysor o loyw radd, achub  
Enaid [yr] arwr gwych ei fwrdd [gwledd], llawenydd beirdd!  
Gwae [oherwydd] myned [yr] arglwydd uchaf [ei] dras  
Yn ymyl [y] gangell, i mewn i guddfa[’r bedd]!

[Ailadroddir llinell gyntaf y gerdd.]

*Moliant Ieuan ap Rhys, abad Aberconwy*

- Fy rhwy geir Conwy, gorau caniad—mydr,  
 Fy un enaid hydr, fy iawn ynad,  
 Fy nghed, fy nghired, fy nghariad—perffaith,  
 4 Fy maith fawr obaith, fy iôr abad,  
 Fy arglwydd moddlwydd meddlad—wallawgyrn,  
 Fy ngwiw roddion chwyrn, fy ngwareddiad,  
 8 Fy mrawd ffydd cynnydd, medd ceiniad—gerddawr,  
 Fy nghanhorthwy mawr, fy nghain neirthiad,  
 Fy nghartrefrwydd rhwydd, fy rhoddiad—diffael,  
 Fy ngwir gymorth hael, fy ngwawr geimiad,  
 Fy ngholofn diofn rhag dyad—lletbai,  
 12 Fy nghynnwys a wnâi gan fy nghennad.  
 Gwawr llawr Maenan fawr mywn iawn fyriad—haw!,  
 Gwedy heidio mawl gwawd ehediad,  
 Gweilging clod arfod, gwawl eurfad—heirdd-dai,  
 16 Gwyliai fudd gwestai gan fodd gwastad.  
 Bedaf y'i barnaf, wyf beirniad—cyfiawn,  
 Barn a'i trosa dawn, Berned drwsiad,  
 Beuno bwyll didwyll, dodiad—anrhydedd,  
 20 Balchedd berw fuddwledd y Berfeddwlad.  
 Rhydd ffydd ffawd draethawd, nid truthiad—gogan,  
 Rhwydd iawnllythr gân rydd ddianllad,  
 Rheg deg dâl arial rhwyf fyriad—ieithrym,  
 24 Rhyddiengis ym rhodd o'i angad.  
 Ieuan w'r difan ar dyfiad—canllaw,  
 Iôn a barchai draw wyneb eirchiad,  
 Ener yw'n hyder, ein hoywdad—crefydd  
 28 Â'r ddwysgannaid ffydd, aur ddisgyniad.  
 Llarieiddwyn ddillyn, llawn ddulliad—Moesen,  
 Llwyddai gyhoedd llên, llaw ddigaead,  
 Llyw byw berth mawrnerth, nid murniad—y'i gwneir,  
 32 Llathrgair lles barthair, lliaws borthiad.  
 Mawredd enrhydedd un rhediad—Machraith,  
 Maith mynaich obaith, mwyn achubiad,  
 Myrdd gyrdd gael ryael, medd ruad—beirdd-dorf,  
 36 Mawrgorf, mygr wynllorf, magwyr winllad.  
 Celfyddgoel Giriol, egoriad—ddyall,

40 Cofion Dyfrig call, cyfiawn difrad,  
Campau cain hwyliau, cynheiliad—ciwdod,  
Cymorth y Drindod fo i'm ceimiad.

44 Cad geimiad difrad, rhad dyfrys—eirchiaid,  
Aur enaid yr ynys,  
Rhwydd wenllaw, rhydd ei winllys,  
Rhwyf, pab, rhywiog ddoethfab Rhys.

48 Ysbys hil Rhys, heiliwr rhodd,  
Ys boed fyw barch, esbyd fudd;  
Amlwg yw, hoywlyw hywledd,  
O'i gannaid bais, ei gynnydd.

52 Cynnydd a'i dyfydd, cain dafawd—Bedaf,  
Aml wybodus geudawd,  
Cynnwys wŷr, cynnes wirawd,  
Cynnull ffydd, kannwyll y ffawd.

56 Cyflwydd ffawd salm dalm dylwyth,  
Cariadwawr byrddfawr beirddfaeth;  
Cedyrn dud cadarn a doeth  
Câr purffawd cywir perffaith.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14970, 291<sup>v</sup> B—BL Add 15001, 180<sup>v</sup> C—J 111, 1282 D—  
LIGC 1984B [= Pant 15], 64<sup>r</sup> E—LIGC 4973B, 260<sup>v</sup> F—Pen 118, 131

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif C, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. Sylwer bod yr awdl yn cael ei phriodoli i Gasnodyn mewn llaw ddiweddarach yn llawysgrif D ac yn llawysgrif A sy'n gopi ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

### *Darlleniadau'r llawysgrif*

1 r6yf. 2 enwa6c *gydag* eit *wedi ei ychwanegu uwchben llythrennau olaf y gair*. 9 rodyon. 16 rod. 29 moeseu. 30 lleu. 36 ma6rgorff. 37 egoret. 41 rit dyfrys eirchyeit. 46 vyd.

*Teitl* Risserdyn ae cant.

*Olnod* abat aber con6y.

*Moliant Ieuan ap Rhys, abad Aberconwy*

- Fy arglwydd ger [Afon] Conwy, [testun] gorau caniad [mewn]  
mydr,
- 4 Fy unig gyfaill cadarn, fy meirniad cyfiawn,  
Fy anrhegwr, fy haelioni, fy nghariad perffaith,  
Fy ngobaith mawr [a] hirbarhaol, fy arglwydd abad,  
Fy arglwydd sy'n peri llwyddiant [a chanddo] gyrn arllwys diod  
fedd,
- 8 Fy [rhoddwr] rhoddion gwych [a] pharod, fy arglwydd trugarog,  
Fy mrawd ffydd llwyddiannus [a chanddo] fedd i fardd-  
ddatganwr,
- 8 Fy nghynhorthwy mawr, fy nerthwr hardd,  
Fy hael gartrefolwr, fy rhoddwr di-feth,  
Fy ngwir gymorth hael, fy arglwydd ben-campwr,  
Fy nghynheiliad gwrol [i'm cadw] rhag ymddygiad gwyrgam,
- 12 Fy nghroesawu a wnaî gyda fy nghydsyniad.  
Arglwydd rhagorol Maenan fawr gyda bwriad cywir [cadw'i]  
hawl,  
Wedi tyrru moliant dyrchafiad cerdd,  
[Y] cynhaliwr a gofal [am ei] glod, llewyrch coeth [yr]  
adeiladau heirdd,
- 16 Gofalai am les [ei] westai gydag ewyllys da gwastadol.  
Fe'i hystyriaf yn [un megis] Beda, yr wyf yn feirniad teg,  
[Fy] meirniadaeth a ddyrchafa [ei] ddawn, [yr un o'r un] abid [â]  
Bened,
- 20 [Un] diffuant [ei] feddwl [megis] Beuno, cyflwynwr anrhydedd,  
Balchder gwledd lesol, gyffrous y Berfeddwlad.  
[Testun] cerdd [mewn] ffawd dda rydd [a] hyderus, nid twyllo  
cân ddychan,
- Cân rwydd, gywir ei seiniau, rydd [a] phur,  
Tâl hoenus o rodd hardd arglwydd grymusiaith [ei] bwrpas,
- 24 Mae wedi llithro ataf rodd o'i law.  
Ieuan, w'r di-fai ar gynnydd [fel] noddwr,  
Pennaeth a barchai o bell anrhydedd eirchiad,  
[Yr] arglwydd [hwn] yw [sail] ein hyder, ein gwych dad crefydd
- 28 A chanddo'r ffydd angerddol a phur, [y] disgynnydd gwych.  
[Yr] anwylyd tyner a sanctaidd, trefnwr llawn cystal â Moses,  
Parai i fintai o wÿr dysgedig lwyddo, [yr un] agored [ei] law,  
Arweinydd egniol, hardd [a] nerthol iawn, nid yn ffug y'i  
gwneir,
- 32 [Un megis] crair disglair [a'i] air o blaid lles, porthwr tyrfâ.

- [Yr un o] fawredd [ac] anrhydedd [sydd ar yr] un rhawd â  
Machraith,  
Mawr yw [gwrthrych] gobaith mynaich, [y] gwarcheidiad mwyn,  
Gŵr tra uchel ei dras sy'n derbyn llu o gerddi, [achos] bonllef  
torf o feirdd [uwchlaw eu] medd,  
36 Ceidwad mawr, cynheiliad gwych [a] hardd, noddwr sy'n  
tywallt diod win.  
[Un o] gred gywrain Girioel [Bab], agorwr [y] meddwl,  
[Un a chanddo] feddyliau [megis eiddo] Dyfrig doeth, cyfiawn  
[a] didwyll,  
[Un ac iddo] orchestion teithiau gwych, cynheiliad [ei] bobl,  
40 Deued cymorth y Drindod i'm pen-campwr.  
  
Pen-campwr didwyll llu, un cyflym [ei] rodd [i] eirchiaid,  
Enaid gwych yr ynys,  
[Yr un a chanddo] law rasol [a] hael, agored yw ei lys lle llifa'r  
gwin,  
44 Arglwydd [a] thad, mab doeth [a] bonheddig Rhys.  
  
[Yr] un enwog o hil Rhys, darparwr rhodd,  
Boed grymus [ei] anrhydedd, [yr un sy'n dwyn] budd [i'w]  
westeion;  
Amlwg, bywiog lywydd [y] wledd fawr,  
48 Oherwydd ei wisg wen, yw ei lwyddiant.  
  
Daw llwyddiant iddo, [yr un] cain [ei] fynegiant [megis] Beda,  
[Un a chanddo] feddwl gwybodus [a] helaeth,  
[Un a chanddo] wŷr yn croesawu [a] diod dwym,  
52 [A] chynulliad credinwyr, arweinydd [sy'n dwyn] ffawd dda.  
  
Llwyddwr ffawd [y] tylwyth [sy'n canu] cyfran o salmau,  
Arglwydd a gerir, helaeth ei fwrdd, yn cynnal beirdd;  
[I] wlad o wŷr cedyrn cadarn a doeth  
56 [Mae'n] gyfaill pur ei fendith, ffyddlon [a] pherffaith.

*Moliant Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed*

- Cad ddirwy, caid ei ddwyrodd,  
 Caraf fab cywir ei fodd,  
 4      Caer dreiddiad, ciried roddion,  
       Ceidwad berw mad, mab iôr Môn.  
       Hael ddurfing hylwydd orfod,  
       Hwlcyn claer, hyddysgyn clod,  
 8      Ap Hywel uchel iachoeodd,  
       Ab Iorwerth, nerth i ni oedd.  
       Yr hen gynneddf freisgreddf fry  
       Ar hwn, pawb a wŷr hynny.  
       Dwygrefft mab urddedigryw,  
 12     Didrai gost, da a drwg yw:  
       Sarrug weithiau a soriad,  
       Sorgrair caith, sorgarwr cad,  
       A blaengar ddâr i ddiraidd,  
 16     A blwng, haws ymwasg â blaidd!  
       Arf cenedl, frenhinchwedl fro,  
       Ar fy rhan fu'r awr honno.  
       Moesus ddiddigus ddigawn,  
 20     Masw fydd, hylonydd, hael iawn,  
       Diwladaidd ddoeth ddewr goeth gun,  
       Didostair, da didestun.  
       Ni wna (ni oeta ateb  
 24     Cymain' un ym) cam â neb.  
       Yntau a fyn, er hyn o hwyl,  
       A fynno, Hwlcyn f'annwyl.  
       Trais helcyd pobl traws Hwlcyn,  
 28     Trawsedd o'i fonedd a fyn.  
       Rhoi â'r naill law hyd awyr,  
       Y llall a gynnull yn llwyr.  
       Digiwr wrth ei gymdogion,  
 32     Da wrth ddiethriaid o dôn'.  
       Ni chwŷn gerbron holion hawl  
       Er swydd un gŵr gorseddawl.  
       Noddau lwybr, Nudd oleubwyll,  
 36     Ni thyng anudon na thwyll  
       Eithr ar air, uthr aur wryd,  
       Bach, braidd na ddifa y byd!



40           Diau nad elw, dielw dâl,  
               I gannyn orwlad gynnal.  
               Ni echwyn ef, Unhwch nod,  
               Oer dro syml, awr dros amod.  
 44           Parod ei fwyd, myn Peris,  
               Parod ei ddiod a'i ddis.  
               Nid eiddo rhoi, nid diddim,  
               Nid eirch gymhorthi na dim  
 48           Onid ar rai, hoyw Gai ged,  
               Bai'n ewybr, bwrw eniwed;  
               Yna y rhydd un anael  
               Rhodd yn ddaudbyblyg i'r hael.  
               Bwbach pob trwyadl ddadlau,  
 52           Budd myrdd, cyd haeddo'r bodd mau.

              Bu rhi gyda phadriarch  
               A bu yn cael yno barch.  
               Hen ddewin, hwn a ddywawd  
 56           Wrtho, er proffwydo ffawd:  
               'Ar awr dda, gyneddfa ged,  
               O'th ddawnus hynt, y'th aned;  
               Cael o'th waith, gyflawndaith lem,  
 60           Gwrs hylithr i Gaersalem;  
               Meddwl, perffaith ymaddef,  
               Myned ar neued i'r nef,  
               Drwy sadwaith, dy ras ydyw,  
 64           Diben dwys dy benyd yw.  
               Na ddal lesgedd i'th feddwl,  
               Na faddau barch, na fydd bwl.  
               Myn, unben, mae yn iawnbwynt,  
 68           Dy ran o'r byd gyd ag wynt.  
               Dwg erwin wg ar y naill,  
               Dyro i eirchiaid eraill.  
               Doeth orfod da o'th arfer,  
 72           Diddig lyw, dy dda i glêr.  
               O'r diwedd, frenhinwledd fry,  
               Nef dirion, Naf a'i dyry!'

*Ffynonellau*

A—Bangor (Penrhos) 1573, 158 B—Bodewryd 1, 436 C—Bodewryd 2,  
 104 D—Bodley Welsh e 7, 50<sup>v</sup> E—LlGC 2033B [= Pant 67], 15<sup>r</sup> F—Llst  
 123, 544 G—Llst 133, 38<sup>r</sup> H—Pen 90, 58 I—Pen 94, 236 J—Pen 100,  
 414 K—Pen 221, 143 (llau. 1–2)

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif I am fod ynddo linellau nas ceir yn y llawysgrifau eraill. Mae llawysgrifau B, G a J yn perthyn i'w gilydd (G yn gopi o J, a B yn rhannu yr un gynsail â J), ymddengys fod i D a F yr un gynsail a hefyd H, E a C. Sylwer bod J wedi cywiro ei destun, ar ôl ymgynghori â llawysgrif arall o bosibl. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

### *Amrywiadau*

1 *A–DFIK* ceidw dhwyrodd, *G* ceidw y ddwy rodd, *J* keidw ddwy rodd *wedi ei newid yn keidw y ddwy rodd*. 2 *CDF* kara. 3–74 [*K*]. 3 *B* kawr, *G* kâr, *J* kaer *wedi ei newid yn kar*; *A* driddied, *BGJ* drwydded, *C* dryddeied, *D* druddied, *F* dreiddied, *I* dreidhiodh; *A–EH* kvried, *F* cured, *J* kuried *wedi ei newid yn kiried*. 4 *BGJ* keidwad penn; *B* fu mad mab ior mon, *G* fu mad ior Mon, *J* fu mad mab ior mon *a mab wedi ei ddileu*. 5 *A–H* ddirfing, *I* dhirvin, *J* ddirung *wedi ei newid yn ddirfing*. 6 *A–CJ* addysg yn clod, *D* yddysg yn klod, *E* hyddysg yn clod (hyddysgyn), *F* hyddysc in clod, *G* addysg ein clod, *H* hyddysg klod, *I* ei dhyse a'n clod. 7 *AD* howel dw uchel iachoedd, *B* howel dwf uchel iachoedd *gyda'r ail air wedi ei ddileu*. 9 *ACDFI* gynnedh; *AC–FHI* vreisgedh. 11 *BGJ* dwygrefft gwr; *D* urddigryw, *EFH* odidawgryw. 13 *G* sarid, *I* sarrug *gyda'r u wedi ei newid yn a*; *I* sorraad *gyda'r ail a wedi ei newid yn i*. 14 *AC–EH* sorkrair, *BFGJ* serkrair, *I* sorcrair; *CF* kaeth; *A–DFGIJ* sorcarwr, *EH* sor curwr. 15 *C* a blaengar arw ddar; *AD* y ddiiaidd, *C* y ddaraidd, *E* ni ddwraidd, *F* a ddiiaidd, *H* ni ddiwraidd, *I* ei dhiaidh. 17 *EH* brenhinchwedl bro. 18 *EH* Arf hynod yw r arf honno. 19 *BGJ* moythys; *B* eiddigus *gyda dd wedi ei dileu ar ddechrau'r gair*, *GJ* eiddigus. 20 *B* hylenydd, *GI* hywlydd, *J* hywlydd *gyda hylenydd wedi ei ddileu*. 21 *I* anoeth vn. 22 *CEGHJ* da i destyn. 24 *A* gimin yn im, *BF* kimin yn nim, *C* Kymen yw un, *D* kaimin yn im, *E* cimin a nim, *G* cinin un ddim, *H* kimin a mîn, *I* cymein yn [ ] (nim), *J* kimin yn nim *gyda'r ddau air olaf wedi eu newid yn vn ddim*; *A* gam, *E* cân. 25 *EFHI* ynteû vynn er hyn, *GJ* ynteu a fynn hynn. 28 *AI* ai vonedh. 29–30 [*A–HJ*]. 31 *ACD* ar i, *B* wrth i *gyda'r i wedi ei dileu*, *E* ei, *FH* i, *I* ar ei, *GJ* wrth. 32 *ADI* a da, *B* a da *gyda'r a gyntaf wedi ei dileu*; *CD* i don, *I* ei dôn. 33 *BGJ* haelion hawl, *D* haylioni hawl. 35–8 [*A–HJ*]. 40 *D* i gamu, *E* i gaimyn, *H* i gamyn; *A–DFGIJ* or wlad, *EH* oi wlad. 41 *BD* nid, *J* nid *gyda'r d wedi ei dileu*; *A–I* yn vwch nod. 42 *BGJ* seml; *C* ar draws. 45–50 [*A–HJ*]. 45 *I* na didhim. 47 *I* eithyr ar rai hoew gai ged. 52 *BG* bydd, *J* bydd *gyda'r y wedi ei newid yn u*; *ADFI* cyd haedho, *BGJ* kyd haeddei. 53 *0* rif; *C* gida/r/ padriarch. 55 *EH* hyn. 57 *G* Gynedda, *J* gynneddfa *wedi ei ddileu a gunedda wedi ei ychwanegu*. 58 *D* othownus, *EH* ith ddawnus. 59 *AFI* cael oth iaith, *BGJ* gael o iaith, *D* kayl o iaith, *H* kael oth vaith; *A–DFGIJ* gyflowniaith. 60 *A* garw o salem. 61 *A* a moddef, *BEGHJ* am addef, *CI* a madhef, *DF* a madde. 62 *ABDFGIJ* myned ar nawed, *C* myned ar nawfed, *EH* mynd nid hawdd ar nawdd; *BCGJ* i nef, *DF* ir ne. 63 *G* adwaith; *A*

dyrras, *EFH* dyrys. 64 *F* da benyd. 65 *BGJ* na ddel llesgedd, *D* na ddel lesgedd. 68 *BDFG* gyda hwynt, *J* gyda hwnn *gyda'r ail air wedi ei ddileu a hwynt wedi ei ychwanegu*. 70 *AD* doru i eirchiaid i eraill, *CE* a dyro i eirchiaid eraill. 71 *CD* doeth arfod. 72 *A-DFIJ* liw, *G* yw. 73 *DF* frenhinwedd. 74 *ABDFGIJ* naf; *B* direw, *D* dvrieu, *G* diarw, *J* direw *wedi ei newid yn diarw*; *ABDFGIJ* nef; *A* ai dyryf.

### *Teitl*

*A* Cowydd i hwlcyn ap howel o Bresaddfed, *BGJ* k: i hwlcyn ap howel ap Ierwerth, *C* moliant i hwlcyn ap hol: ap Ier ddv: o presaddfed yn amser H:’r 5, *D* Kowydd hwlcyn ap howel, *E* Cowydd i hwlcyn ap hywel ab Iord o fon Risierdyn Cant, *F* Cyw: mol: Hwlcyn ap Howel ap Ierwerth, *H* Kywydd hwlcyn ap howel o Von, *I* Cywydh Hwlcyn ap Howel ap Ier dhû o Brysadhved ny vynnai gerdd amgen nag oedh ei voes ai arverae, [*K*].

### *Olnod*

*ABD-J* Risierdyn ai cant, *C* Risierdyn ai kant. ar gyfar 1400 *gyda'r tri gair olaf mewn llaw arall*.

*Moliant Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed*

- Cosbwr [mewn] brwydr, derbynid ei rodd ddwbl,  
 Caraf ŵr cywir ei ffafr,  
 Treiddiwr castell, [rhoddwr] rhoddion haelionus,  
 4 Noddwr ysbrydoliaeth farddol ffodus, mab arglwydd Môn.  
 [Yr] un llym, ucheldras sy'n gorchfygu'n llwyddiannus,  
 Hwlcyn ddisglair, gŵr dysgedig moliant,  
 Ap Hywel aruchel [ei] achau,  
 8 Ab Iorwerth, cynhaliaeth ydoedd i ni.  
 [Mae]'r hen gynneddf nerthol ei natur [ac] aruchel  
 Yn hwn, gŵyr pawb hynny.  
 Crefft ddwbl [y] gŵr anrhydeddus ei linach,  
 12 Darparwr dihybydd, da a drwg ydyw:  
 Sarrug weithiau a dicllon,  
 Amddiffyn dicllon gwŷr caeth, carwr dicllon brwydr,  
 Ac arweinydd blaengar i wŷr diamddiffyn,  
 16 A llidiog, haws fyddai ymafael â blaidd!  
 Amddiffyn tylwyth, [yn perthyn i] ardal [sydd â] hanes  
 brenhinol,  
 Fu ef i mi yr adeg honno.  
 Un digon cwrtais [a] bodlon,  
 20 Addfwyn ydyw, heddychlon [a] thra hael,  
 Pennaeth moesgar, doeth, dewr [a] hardd,  
 Un llawen ei air, da [a] diogan.  
 Ni wna (ni ohiria ateb  
 24 I bawb ar fy rhan) gam â neb.  
 Myn yntau, yn dâl am y wledd hon,  
 [Gael] yr hyn a ddymuna, Hwlcyn fy nghyfaill.  
 [Un yn] ymlid pobl [trwy] drais yw Hwlcyn gadarn,  
 28 Goruchafiaeth oherwydd ei fonedd a fyn.  
 Gwasgaru â'r naill law hyd yr awyr,  
 Y [llaw] arall a gasgla [gyfoeth] i'r eithaf.  
 Un sy'n digio wrth ei gymdogion,  
 32 Gŵr da tuag at ddieithriaid os dônt [ato].  
 Nid yw'n erlyn lle bo hawliau [am] gyfiawnder  
 Er gwaethaf awdurdod [yr] un gŵr a chadair ynad ganddo.  
 Cyrchfa [am] nawdd, [un ac iddo] feddwl golau [megis] Nudd,  
 36 Ni thynga lw celwyddog na thwyll  
 Ond o roi llw bychan, [yr un o] wroldeb dychrynlyd, gwych,  
 Bydd o fewn dim i ddifa'r byd!  
 Mae'n sicr nad buddiol, tâl di-fudd,  
 40 I gant o wŷr gynnal gwlad elynol.

Ni fenthycia ef, un a'i nod [megis] Unhweh,  
 Digwyddiad trist [a] ffol, [am hyd yn oed] awr oherwydd cytun-  
 deb.

- 44 Parod ei fwyd, myn Peris,  
 Parod ei ddiod a'i ddis.  
 Ni pherthyn iddo ef roi, nid tlawd mohono,  
 Nid yw'n hawlio treth na dim [tebyg]  
 48 Ond i rai, [myn] rodd [megis eiddo] Cai wych,  
 A'u camwedd yn chwim, mae'n achosi niwed;  
 Yna y rhydd [yr] un crintachlyd  
 Rodd ddwbl i'r gŵr hael.  
 Brawychwr ym mhob ymryson drwyadl,  
 52 [Un yn dwyn] lles i fyrdd, er ei fod yn rhyngu fy modd [i hefyd].

- Bu[r] arglwydd [hwn] yng nghwmni hynafgwr  
 A bu'n cael parch yno.  
 [Yr] hen broffwyd, dywedodd hwn  
 56 Wrtho, gan broffwydo ffawd [dda]:  
 'Ar awr dda, rhodd cynneddf dda [yw hon],  
 Oherwydd dy rawd fendithiol, y'th aned;  
 60 Bydded [yn rhan] o'th waith, taith faith a blin,  
 [Gymryd] siwrnai hwylus i Gaersalem;  
 Bydded iti feddwl, [drwy] gyffes berffaith,  
 Myned mewn hiraeth i'r nefoedd,  
 Drwy ddoethineb, gras i ti yw hyn,  
 64 Dyma amcan pwysfawr dy benyd.  
 Na chadw lesgedd yn dy feddwl,  
 Nac ymwrthod â pharch, na fydd wan.  
 Myn, unben, mae'n gyflwr perffaith,  
 68 Dy ran o'r byd gyda'r gweddill.  
 Cuchia'n gas ar rai ohonynt,  
 Rho i ddeisyfwyr eraill.  
 Daeth llwyddiant helaeth o'th ddefod,  
 72 Arweinydd hynaws, [yn rhoi] dy eiddo i feirdd.  
 Yn y diwedd, [y] wledd frenhinol fry,  
 [Y] nef dirion, [yr] Arglwydd a'i rhydd [iti]!



# Nodiadau

## 4

Awdl fawl i Oronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd (*ob.* 1382) yw hon.<sup>1</sup> Molir ef ynddi fel rhyfelwr, arglwydd hael a noddwr beirdd. Defnyddia'r bardd dopoi megis 'llithio brain' ac 'arfau toredig yr arwr' yn fynych ac effeithiol, a hefyd yr hen ddyfais o gyfosod y ddau rinwedd gwrthgyferbyniol, dewrder a haelioni. Cymherir Goronwy Fychan ag un ar hugain o arwyr, rhai ohonynt yn arwyr traddodiadol ac eraill yn perthyn i hanes Sieffre o Fynwy ac i fyd y rhamantau Arthuraidd.

Anodd yw dyddio'r gerdd yn fanwl am nad oes ynddi sôn am unrhyw ddigwyddiadau penodol yng ngyrfa ei gwrthrych. Awgryma'r ymadrodd *Llawen orfod Ffrainc* (ll. 56) fod Goronwy wedi bod yn ymladd yn rhyfel-oedd Brenin Lloegr yn Ffrainc cyn i'r gerdd gael ei llunio, a dengys y ffaith ei fod yn cael ei alw'n *llyw Dinsylwy* (ll. 124) ac yn *Llŷr Penmynydd* (ll. 125) ei fod eisoes wedi etifeddu cartref a rhai o diroedd ei deulu. Y tebyg yw, felly, mai rywbrdyr ar ôl marw ei dad, Tudur Fychan, yn 1367 y canwyd hi.

Mae i'r awdl dri chaniad, y cyntaf wedi ei gysylltu â'r ail ag odl gyrc, a'r ail wedi ei gysylltu â'r trydydd â chyrch-gymeriad. Clymir dechrau'r llinellau gan gymeriad llythrennol yn unedau o wyth llinell gan mwyaf. Un llinell afreolaidd o ran ei hyd sy'n y gerdd, sef llinell 32 sy'n rhy fyr o sillaf. Cyfres o doddeidiau yw'r caniad cyntaf wedi eu haddurno â chynghanedd draws a sain yn bennaf ond gyda rhai enghreifftiau o gynghanedd groes, sain deirodl a sain ddwbl. Ceir cynghanedd groes, sain a sain deirodl yn ogystal â chynghanedd draws yn ail linellau'r toddeidiau. Canwyd yr ail ganiad ar fesur gwawdodyn, sef cwpledi o gyhydedd naw ban a thoddeidiau bob yn ail. Cynghanedd draws sydd ym mhob llinell ond tair. Rhupunt hir yw mesur y caniad olaf. Yn ychwanegol at y patrwm sylfaenol o odl fewnol a chyflythreniad,<sup>2</sup> mae dechrau'r tri chymal cyntaf yn cyflythrennu a cheir yn y ddau gymal olaf gynghanedd groes gyflawn.

- 1 **Ilyw glyw glewnaws** Am enghreifftiau pellach o'r cyd-drawiad *Ilyw glyw glew-* yng ngwaith y Gogynfeirdd, gw. GLIF 2.39 (Llywelyn Fardd I), 16.7 (Llywarch Llaety); GCBM ii, 5.87; GDB 1.23 (Einion Wan); GBF 9.11 (Y Prydydd Bychan); R 1314.4 (Gruffudd ap Maredudd).

<sup>1</sup> Arno gw. cerdd 3 uchod a G 571–2 dan *Goronwy*<sup>11</sup>, AWH 199–201, 251, MAng 203.

<sup>2</sup> Gw. J. Morris-Jones: CD 332.

- 2 **Lleon arwyddion** Cymerir mai cyfeiriad at y cawr Lleon, sefydlydd Caerlleon yn ôl y traddodiad sy'n tarddu o 'Historia Regum Britanniae' Sieffre o Fynwy, sydd yma. Ymhellach arno, ac am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. GBF 22.12n.
- 3 **Ilorf corf** Gw. 6.21 isod am enghraifft arall o'r cyd-drawiad hwn yng ngwaith Rhisierdyn ac am enghreifftiau ohono yng ngwaith ei gyfoeswr, Gruffudd ap Maredudd, gw. R 1203.39, 1206.24, 1211.23–4, 1314.5 a 1327.36.
- ced ciried** Am enghreifftiau pellach o'r cyd-drawiad, gw., e.e., isod 7.3; R 1227.5 (Gwilym Ddu), 1254.15 (Gruffudd ap Dafydd ap Tudur), 1315.23 (Gruffudd ap Maredudd).
- 5 **Ilym rym reddf gynneddf** Cymerwyd mai grym ansoddeiriol sydd i *greddf* a *grym* yma a'u bod, ynghyd â *llym*, yn goleddfu *cynneddf*.
- 6 **Llesfeirdd awenllu llysfwrdd winllad** Mae'r aralleiriad yn gofyn treiglo cytsain flaen *llysfwrdd* ond cymerir bod y diffyg treiglo yn cael ei ganiatáu ar ôl y saib wedi'r bumed sillaf, gw. Treigladau 196.
- 7 **Llwybr rwy Oronwy, air ynad—ieithfydr** Cf. R 1229.33–4 *Doeth uab rby goronby geir unyabn syberb* (Gruffudd ap Maredudd i Oronwy).
- gair ynad—ieithfydr** Am y syniad o noddwr yn feirniad ar gampau ei fardd, gw. isod 7.2 *fy iawn ynad* a 10.77 *Tros anant neud traws ynad*.
- 9 **Tudyr** Cyfeiriad at dad Goronwy sydd yma, yn ôl pob tebyg, cf. ll. 59 isod, ond gw. hefyd ll. 101 isod a 3.41 uchod lle gall fod y bardd yn defnyddio'r enw Tudur i gyfeirio at Oronwy ei hun.
- enyngad—Einglgrwydr** Mae'n bosibl trafod y geiriau hyn hefyd yn ddau a. yn goleddfu *Tudyr* fel y gwneir yn GPC 1190, 1224.
- 10 **curiwr brwydr** Dilynir GPC 631 a deall *curiwr* yn e. a ffurfiwyd o fôn y f. *curo* 'maeddu'. Nid amhosibl awgrym G 187 i'w darddu o'r f. *curio* 'treulio, nychu', a deall yr ymadrodd 'un sy'n achosi nychdod [mewn] brwydr'.
- traul egoriad** Cymerwyd mai at ddinistr brwydr y cyfeiria *traul* yma, cf. LGC 192 (VII.34) *Egoriad rhyvel a gwayw eirias*; ond rhoddai *traul* 'darpariaeth' ystyr addas i'r ymadrodd hefyd.
- 12 **Trefnau clod olau clau adeiliad** Dilynir yn betrus G 8 sy'n awgrymu'r ystyr 'luniedydd, gwneuthurwr' i *adeiliad*, cf. R 1196.4–5 *praff adeilyat yeith proffbydolyon* (Gruffudd ap Maredudd). Cymerir y goddefir y diffyg treiglo ar ddechrau *clau* fel yn ll. 6 uchod.
- 13 **Ilygad—Gwynedd** Am enghreifftiau eraill o *llygad* yn ddelwedd am arglwydd, gw., e.e., GDB 18.98 *Mi ita6 yn lla6, yn llygad* (Einion ap Gwgon); R 1308.37–8 *llygat y haelwlat y6 h6nn* (Llywelyn Goch) a cf. yn arbennig isod 10.99 *llygad Gwynedd wlad*.



- 14 **taerfur** Llsgr. *C taeruwr* (*pace* R 1289.9 sy'n darllen *taernur*).
- 15 **twrf dilechiad—ffrawdd** Cymerir mai e. yw *ffrawdd* yma mewn perthynas enidol â *twrf*, ond ceid ystyr dderbyniol hefyd o ddilyn GPC 1311 a chymryd mai a. yw *ffrawdd*.
- 16 **Trystan** Am gyfeiriadau'r beirdd at y rhyfelwr a'r carwr enwog hwn, ac am weddillion y chwedlau amdano, gw. TYP<sup>2</sup> 329–33.
- 17 **peleidr gwaed reeidr** Am enghreifftiau eraill o'r cyd-drawiad, gw. GCBM i, 12.27 *O beleidyr reeidyr rutgreu*; GBF 54.29 *G6aed raeadyr baladyr, o lin Beli* (Bleddyn Fardd); R 1222.18 *g6aet ryeidyr beleidyr* (Trahaearn Brydydd Mawr).
- nid gwŷd ruad—serth** Deellir *gwŷd* yn betrus yn a. yma, ond o'i gymryd yn e. gellid ystyr megis 'nid pall rhuad garw'. Sylwer, fodd bynnag, y byddai hyn yn golygu ateb *r-* gyda *rh-*.
- serth** Am ystyron y gair, gw. GDG<sup>3</sup> 515.
- 18 **prudd wst angwy nerth** Cymerir mai'r ystyr 'byddin' sydd i *nerth* ac mai a. yw *angwy* yma. Ar *angwy*, gw. uchod 3.37n ac isod 13.44n. Sylwer nad amhosibl enw arwr yma fel yr awgrymir yn betrus yn GPC 69 ac o ddeall *nerth* yn ei ystyr arferol, gellid dehongli'r ymadrodd, '[Un o] nerth Angwy [yn achosi] artaith drist'.
- praidd ostyngiad** Deellir *praidd* yn llythrennol yma, gan ddehongli'r ymadrodd yn gyfeiriad at Oronwy y gwartheygydd, ond gellid cymryd mai'r ystyr ffigurol 'ysbail' sydd i'r gair ac aralleirio'r ymadrodd, 'darostyngwr [ei elyn er mwyn ennill] ysbail'.
- 21 **Pennaf naf trechaf, trychiad—elyflu** Llsgr. *C pennaf naf trechyat trychyat eliflu*. Sylwer bod y bai 'gormodd odlau' yn y ll. hon o dderbyn darlleniad y llsgr. O ddiwygio *trechyad* yn *trechaf* ceir ll. dderbyniol ac ynddi gynghanedd sain deirodl fel yn llau. 19 uchod a 23 isod.
- 21–2 **elyflu, / Prid â'i lewlaif fu, pryd Elywlad** Yn llsgr. *C vn* yw'r ffurf sydd ar y gorwant. Adferwyd y patrwm mydryddol drwy ei ddiwygio yn *fu*.
- 22 **Elywlad** Am restr o gyfeiriadau'r beirdd at Eliwlod ap Madog ab Uthr, nai i Arthur ac un o bedwar marchog ar hugain ei lys, gw. G 470 a TYP<sup>2</sup> 345.
- 23 **parau rwygiad—trin** Cf. R 1310.23 *Kefeis ior ragor r6ygyat aer dramwy* (Madog Dwygraig). Anodd cael ystyr i'r ymadrodd hwn o dderbyn darlleniad llsgr. *C*, sef *parhau*, a chymryd mai be. sydd yma.
- 24 **paun** Am enghraifft arall o'r ddelwedd hon am arglwydd sy'n ymddangos am y tro cyntaf yng nghanu mawl y 14g., gw. GDG<sup>3</sup> 53 (19.24).

- 25 **Cadr golofn diofn yn cadw dyad—balch** Cf. isod 7.11 *Fy ngholofn diofn rhag dyad—llelbai*.
- 29 **barant** Derbynnir cynnig petrus GPC 257 mai ffurf dreigledig ar naill ai *barant* neu *marant*, ffurfiau un. posibl ar *marannedd* ‘trysorau’, a geir yma. Sylwer bod G 51 yn deall *barant* yn fenthyciad o’r S. *warrant* ac yn ei gymharu â’r Wydd. *baránta*, *barántamail*, *barántus*.
- 31 **Llachau** Am gyfeiriadau’r beirdd at Lachau, mab y brenin Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 416. Sylwer bod yr e. yn cael ei ddefnyddio’n gyffredin iawn gan y beirdd i ateb geiriau yn cynnwys yr elfen *lluch-*.
- lluchiad—gwyarllafn** Dwy ystyr a roddir i *lluchiad* yn GPC 2217 (nad yw’n nodi’r enghraifft hon), sef ‘tafliad, hyrddiad, ergydiad’ a ‘disgleiriad, fflachiad, mellteniad; ?gwibiad’. Mae’r ail ystyr yn bosibl yma a gellid aralleirio’r ymadrodd, ‘[un sy’n achosi] gwibiad llafn sy’n tynnu gwaed’, ond ceid gwell ystyr o ddeall *lluchiad* yn gyfuniad o *lluch* ‘ergyd, hwrdd’ a therfyniad y gweithredydd.
- 32 **Ceinddewr waisg drafn caenddur wisgiad** Mae’r ll. hon yn fyr o sillaf. Gall fod gair unsill megis *aur* ar goll o flaen *gwaisg* neu bod sillaf yn eisiau o flaen *trafn*.
- 33 **ardal** Derbynnir cynnig petrus G 36 mai ‘arglwydd, llywodraethwr’ yw ystyr y gair hwn. Sylwer nad yw GPC 182 yn cydnabod yr ystyr hon i’r gair.
- 37 **rhwysg brwysg breisglud** Am enghraifft arall o’r cyd-drawiad, gw. R 1314.15 *R6ysc br6ysc breisc ann6yt* (Gruffudd ap Maredudd).
- drud ... rhad** Sylwer ar y gwrthgyferbynnu effeithiol rhwng *drud* a *rhad* yn y ll. hon. Am yr un ddyfais, gw. uchod llau. 29–30 *Ceidw farant llwyddiant ... / Carodd ellwng budd*.
- 38 **rhodd ddigroniad** Cf. MA<sup>2</sup> 317<sup>b</sup>40 *rhoddion ddigronniad* (Iorwerth Beli).
- 39 **caer ddiriad** Â’r ymadrodd hwn, cf. R 1377.1–2 *kaereu dirya6* (Dafydd y Coed).
- 40 **aergamawn** Fe’i deallir yn air cyfansawdd ar batrwm *aerfrwydr* ac *aergad* yn groes i ddarlleniad y llsg. ac i ddosbarthiad G 100 d.g. *camawn*.
- 42 **dewrair i giwdod** Mae’n bosibl darllen ‘dewrair ei giwdod’ yma a’i ddeall yn ymadrodd sy’n disgrifio gosgordd neu fyddin Goronwy.
- 43 **Diagr Oronwy gair diau—aesawr** Llsg. C *diagyr oronwy geyr deu aessa6r*. Diwygir *deu* yn *dieu* a deall *gair* yn e. ‘clod’; ond nid amhosibl yw cynnig G 131 d.g. *ker*, *geyr de[e]u aessa6r*, sy’n deall yma’r ardd. *geir* (‘ger’) a *deau* yn yr ystyr ‘deheug, celfydd’ (GPC 909).

- 45 **difrwysg oedau** Dilynir G 340 a GPC 986 a rydd i *difrwysg* yr ystyron ‘anfeddw, sobr; tawel, pwylllog’. Posibilrwydd arall efallai fyddai deall *difrwysg* yn gyfuniad o’r rhagddodiad cadarnhaol *di-* a *brwysg* a rhoi i *oedau* yr ystyr ‘cyfarfodydd i frwydro’.
- 46 **Dyfr** Cyfeiriad o bosibl at y cymeriad chwedlonol Dyfr ab Alun Dyfed. Am gyfeiriadau eraill ato yng ngwaith y beirdd ac yn y Mabinogi, gw. G 414 d.g. *Dyu(y)r<sup>1</sup>* a *Dyf(y)r<sup>2</sup>*, a cf. isod 10.47n.
- 47 **Dared** Sef, yn ôl pob tebyg, *Dared groec yr hwn a ysgriuenmwys ystoria gwyr troea* (RB 12.1–2), sef yr ‘Historia Daretis Phrygii de Excidio Troiae’ a gyfieithwyd i’r Gymraeg tua 1300. Am yr unig gyfeiriad arall ato yng ngwaith y beirdd, hyd y gwyddys, gw. LGC 229 (XIX.52).
- 49 **llyw iach oriau** Gellid hefyd yr ystyr ‘gweddiau, gwasanaethau’ i *oriau* yma, gw. GPC 242 (d.g. *awr<sup>1</sup>*).
- 51 **Lluchynt ... Llachau—gyhafal** Gw. uchod ll. 31n.
- 55 **cainc** Rhoddir iddo’n betrus yr ystyr ‘gwaywffon’ a gynigir yn betrus yn G 97 d.g. *cangen*. (Cf. y defnydd o *cangen* a *ceingiell* am waywffon yn ‘Y Gododdin’ a gw. CA 284 d.g. *cangen*.) Nid amhosibl, fodd bynnag, yr ystyr ‘cân, cerdd’ yma, gw. GPC 390.
- 56 **llawen orfod Ffrainc** Am gyfeiriadau eraill yng ngwaith y beirdd at Oronwy yn ymladd yn Ffrainc, gw. uchod 3.16n ac ymhellach A.D. Carr, ‘Anglesey and War in the later Middle Ages’, AAST, 1984, 32.
- 57 **suddaer** Deellir y gair hwn nad oes enghraifft arall ohono ar glawr, yn gyfuniad o fôn y f. *suddo* (fel yn *gosudd* a *disudd*) ac *aer* ‘brwydr’, a rhoddir iddo’n betrus yr ystyr ‘lladdfa ddinistriol’.
- 59 **Tudyr** Gw. uchod ll. 9n.
- 63–4 **Cyfarwydd y gwnaeth ... / Coetgwn olwythion ...** Cf. llau. 71–2 isod a R 1219.19–20 *Gōnaethost ynaer katcun eur uaer coetkōn irubyt* (Gruffudd ap Maredudd), ac am enghreifftiau pellach o’r syniad hwn o arwr yn paratoi bwyd ar gyfer bleiddiaid ar faes y gad, gw. T.J. Morgan, ‘Dadansoddi’r Gogynfeirdd (2)’, B xiv (1950–2), 5.
- 64 **catgaen** Cymerwyd mai ‘byddin’ yw ystyr yr elfen *cad-* yma, ond mae ‘gorchudd neu haen ar faes cad’ neu ‘yn gorchuddio maes cad’, sef yr ystyron a roddir yn G 88, yn addas hefyd.
- 67 **Eidol** Am gyfeiriadau’r beirdd at *Eidal*, *Eid(i)ol*, *Eiddoel* ac *Eiddol*, gw. G 453 d.g. *Eidal<sup>1,2</sup>* a 455 d.g. *Eiðoel*, *Eiðol*. Anodd penderfynu ai cyfeiriad sydd yma at Eiddol, yr arwr traddodiadol a enwir, o bosibl, ym ‘Mawl Cuhelyn Fardd’ (GMB 2.16), yr arwr Eidal y cysylltir ei enw ag Eiddew yn ‘Englynion y Beddau’ (T. Jones, ‘The Black Book of Carmarthen Stanzas of the Graves’, PBA liii (1967), 110, 126–7), ynteu’r cymeriad Eiddoel, Eiddiol y ceir hanes ei ryddhau o garchar yn

‘Culhwch ac Olwen’ (CO<sup>2</sup> 31). Gellid hefyd ei gysylltu ag *Eidol yarll Caer Gloew* a phersonau eraill o’r un enw (BD 123 *et passim*) a ymddengys yn ‘Brut y Brenhinedd’. Am ymdriniaethau â’r enw ac â pherthynas y ffigurau hyn â’i gilydd, gw. B.F. Roberts, ‘The Treatment of Personal Names in the Early Welsh Versions of *Historia Regum Britanniae*’, B xxv (1972–4), 279n5; D. Huws and B.F. Roberts, ‘Another manuscript of the Variant Version of the *Historia Regum Britanniae*’, BBIAS xxv (1973), 151; CO xlvi–xlix; CO<sup>2</sup> 133; GMB 2.16n; GCBM ii, 6.150n.

**mael** Dilynir GPC 2305 a’i ddeall yn e.c. ond digwydd yn e.p. a gall mai dyna ydyw yma. Am enghreifftiau o’r ffurf yng ngwaith y Gogynfeirdd diweddar, gw. R 1225.39 (Gwilym Ddu o Arfon), 1308.27 (Llywelyn Goch), 1317.22 (Gruffudd ap Maredudd), 1326.11 (eto), 1377.19 (Dafydd y Coed).

69 **Efrog** Sef, yn ôl pob tebyg, Efrog Iarll, tad Peredur, gw. TYP<sup>2</sup> 489–90. Am gyfeiriadau’r Gogynfeirdd diweddar a’r Cywyddwyr ato, gw. G 445.

72 **Aerferion lith ar foreau** Cf. R 1219.20–1 *llithyeist ath ron aerueryuon aruoreubyt* (Gruffudd ap Maredudd), ac am enghreifftiau pellach o’r syniad o ‘lithio’ adar ysglyfaethus, gw. T.J. Morgan, *art.cit.* 4.

73 **Rhun** Cf. 3.56 uchod *Rhun odrosedd* (Sefnyn i Oronwy). Y tebyg yw mai at Run ap Maelgwn, cyndad llinach frenhinol Gwynedd, y cyfeiria’r ddau fardd. Nid amhosibl, fodd bynnag, gyfeiriad at Run ap Beli. Ymhellach ar y ddau Run, gw. TYP<sup>2</sup> 500–3.

74 **rhyddgled** Deellir y ffurf yn gyfuniad o’r a. *rhydd* + *yled*, ffurf f. yr a. *chyd* ‘cysgodol, diddos’, &c., cf. DGG 47 (XXVIII.15) *harddyled*.

75 **Nudd** Sef Nudd Hael ap Senyllt y cyfeirir ato’n gyson fel patrwm o haelioni gan feirdd mawl y 14g., gw. TYP<sup>2</sup> 476–7.

76 **gwawtffrawdd** Mae’r ail ystyr a roddir yn G 635, sef ‘y clodforir ei angerdd’ (cf. GPC 1606), yn bosibl yma a gellid hefyd ‘eiddgar am foliant’.

81 **Murel** Deellir y ffurf yn e. ar arwr anhysbys o’r gorffennol, cf. PKM 44.26–7 *Grudyeu uab Muryel*, un o’r seithwyr a ddihangodd o Iwerddon yn ail gainc y Mabinogi.

82 **Morien** Digwydd yn e. arwr yn ‘Y Gododdin’ (gw. CA 168), yn ‘Englynion y Beddau’ (gw. LIDC 36 (18.6)) ac yn ‘Culhwch ac Olwen’ (gw. CO<sup>2</sup> 72). Am gyfeiriadau eraill ato yng ngwaith y Gogynfeirdd diweddar, gw. R 1227.4 (Gwilym Ddu o Arfon), 1242.1 (Casnodyn), 1268.1 (Madog Dwygraig) ac am gyfeiriadau’r Cywyddwyr ato, gw. D.G. Lewis, ‘Mynegai i’r Enwau Priod Storiol yng

Ngwaith Cyhoeddedig y Cywyddwyr' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1968), cxii–cxiv.

- 85 **manerau** Yn GPC 2340 cynigir ei dehongli yn ffurf l. *maner*, naill ai benthyciad o'r S. *manor* neu o'r S.C. *banEr(e)*.
- 92 **Gadwy** Cyfeiriad at fab Geraint ab Erbin a enwir yn un o filwyr Arthur yn 'Culhwch ac Olwen' a 'Breuddwyd Rhonabwy' ac ym mucheddau rhai o'r saint: ymhellach, gw. TYP<sup>2</sup> 297, CO<sup>2</sup> 71. *Cadwy* yw'r ffurf arferol ar ei e., ond digwydd y ffurf amrywiol *Gadwy* yn Nhrïoedd Ynys Prydain (TYP<sup>2</sup> 195) ac yn R 1268.29 (Madog Dwy-graig). Yma gall fod yn *Gadwy* neu'n dreigladd meddal o *Cadwy* gan fod y gair *arial* sy'n ei flaenori'n eg.b.
- 93 **eryf** Dilynir G 488 a GPC 1239 wrth ddiwygio darlleniad y llsgr., sef *aryf*, er mwyn cael ll. wythsill.
- 94 **Eirgras hoffedd, irgrau saffwy** Cf. R 1307.4–5 *goronby loeb saffby liabs hoffed* (Llywelyn Goch i Oronwy Fychan).
- 96 **Yniwl** Cyfeiriad at Niwl Iarll, tad Enid yn y rhamant 'Geraint'; cf. R 1322.13 *ynywl wryt* (Gruffudd ap Maredudd i Oronwy Fychan). Am gyfeiriadau eraill ato gan y beirdd a thrafodaeth ar ddatblygiad ei e., gw. TYP<sup>2</sup> 475–6.

**yn ael Berwy** Cf. uchod 3.36 *Oesloyw barabl balch islaw Berwy*. Nodir y ddwy enghraifft yn betrus fel e. lle anhysbys yn G 56 ond y tebyg yw mai ffurf amrywiol yw *Berwy* ar Berw, e. nant a threfgordd ym mhlwyf Llanfilhangel Ysgeifiog, Môn, gw. uchod 3.36n a hefyd G.T. Jones, *Afonydd Môn* (Bangor, 1989), 79. Cadarnheir hyn gan y ffurf *Berwe* sy'n digwydd mewn gweithred o Fôn wedi ei dyddio 1319 (Baron Hill 1646). Yr oedd Berw yn y plwyf nesaf at yr un y safai Penmynydd ynddo (gw. WATU 320) a'r tebyg yw mai at Benmynydd y cyfeirir yn y ddwy l.

- 97 **trwyddied** Gw. uchod 3.75n.

**Amlyn** Cymerir mai cyfeiriad yw at y cymeriad chwedlonol Amlyn, ond sylwer bod G 24 yn cynnig deall y ffurf yn a. i'w gysylltu ag *ymlyn-*, &c. Am gyfeiriadau cyfoeswyr Rhisierdyn at Amlyn ac Amig ac am y chwedl 'Cydymdeithas Amlyn ac Amig' a gyfieithwyd i'r Gymraeg ar ddechrau'r 14g., gw. GIG 311–12 a KAA<sup>2</sup> xxvii–xxviii.

- 100 **iaith Afarwy** Fe'i deallir yn betrus yn gyfeiriad at bobl Afarwy fab Lludd ap Beli, sef pobl Ynys Prydain. Mae'n bosibl fod Afarwy yn e. ar arwr traddodiadol anhysbys, ond nid oes ar glawr gyfeiriad ato yn gynharach na 'Brut y Brenhinedd' lle defnyddir ef i gyfieithu'r e. *Androgeus* a gymerwyd gan Sieffre o waith Beda, gw. B.F. Roberts, *art.cit.* 283 a TYP<sup>2</sup> 269–70, ac ar *afarwy* yn e.c., gw. G 14, GPC 41.
- 101 **Tudyr** Gw. uchod 9n.

- 102 **aergad aerwy** Deellir *aerwy* yn drosiad am Oronwy yn yr ystyr 'cadwyn, llyffethair' (cf., e.e., y defnydd ffigurol a wneir o *cadwyn*, *hual* a *rhwyd* yng ngwaith Cynddelw Brydydd Mawr, gw. geirfa GCBM ii d.g.), ond gellid hefyd aralleirio'r ymadrodd, '[un a chanddo] dorch neu gadwyn addurniedig [mewn] brwydr'.
- 104 **Alaswy** Cymeriad anhysbys o'r gorffennol arwrol. Ymhellach, gw. uchod 3.38n a GCBM i, 16.77n.
- 108 **hyd ar Dawy** Dyma'r ffurf fwyaf cyffredin ar e. Afon Tawe tan yr 16g., gw. R.J. Thomas, 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad -wy', B viii (1935-7), 39-41. Am enghraifft arall o gyfeirio at Afon Tawe fel rhywle pellennig, cf. uchod 3.27.
- 109 **helm ddisegur** Ar y posibilrwydd mai cyfeiriad at arfbais teulu Goronwy sydd yma, gw. DWH i, 75-6.
- 110 **profadwy** Gw. GBDd 4.21n.
- 111 **harddlaifn** Diwygiwyd darlenniad y llsg., sef *hardlevyn*, ar awgrym petrus G 766 d.g. *hardlavyn*. Deellir *harddlaifn* yn gyfuniad o'r a. *hardd* a *llaifn*, ffurf l. *llaifn* y ceir enghraifft arall ohoni yn GBF 4.6 (Y Prydydd Bychan). Posibilrwydd arall fyddai diwygio'n *harddlaifn*.
- 113 **cliffid** Am enghraifft arall bosibl o'r ffurf hon, gw. R 1278.34-5 *mae cloffi or cliffit bawaf* (Madog Dwygraig i'r llo sâl). Awgrymir yn G 533 d.g. *gliffit* gysylltu'r ffurf â'r gair tafodieithol S. *gliff* a ddaw o'r ffurfiau S.C. *gliffen*, *gluffen*. Ymhlith yr ystyron a roddir i'r ffurfiau hyn mae '*to slip or step to one side, ... to give a glancing look, to shine, dazzle ... to become startled or frightened*' (MED 164) ac yn e. '*a passing view, a glance, a glimpse ... a flash, glint ... a sudden fright, a scare*' (OED 218). Fe fyddai'r ystyr olaf yn addas yma a gellid aralleirio'r ymadrodd 'brawychwr cestyll', ond anodd egluro'r calediad a thwf y -d terfynol. Posibilrwydd arall yw deall y ffurf yn amrywiad ar *griff*, *griffi* 'griffwn' a ddefnyddir yn ffigurol am arglwydd mewn cerddi mawl, gw. GPC 1531. Symlach, fodd bynnag, fyddai ei ddeall yn fenthyciad o'r S.C. *clift*, *cleft*, '*a crack, fissure, rift, notch, cleft, slash*' (MED 326-7, OED 487-8) gyda'r ystyr 'holllwr, dymchwelwr'.
- 114 **cariad erlid** Cf. disgrifiad Sefnyn o Oronwy Fychan yn *oed macwy o serch* (3.23 uchod), ac am y syniad o 'erlid' cariad, cf. GDG<sup>3</sup> 115 (42.51-2) *Erlynais nwyf ar lannerch / Y Penrhyn ...*
- 115 **Olifer** Cyfeiriad at un o arwyr chwedlau Siarlymaen a droswyd i'r Gymraeg yn ystod y 13g. a'r 14g., gw. YCM<sup>2</sup> *passim*. Am gyfeiriadau Gruffudd ap Maredudd at Olifer, gw. R 1209.9, 1323.4, 1327.25-6, ac am gyfeiriadau'r Cywyddwyr ato, gw. D.G. Lewis, *op.cit.* cxxi-cxxii.

**yingder** Darllenir *yingber* yn R 1291.11 ac fe'i deellir yn G 667 yn air cyfansawdd yn cynnwys yr elfen *gwêr*. Nid oes amheuaeth, fodd bynnag, nad *yingder* sydd yn y llgr.

116 **taladwy** Gw. 3.93n uchod.

119 **croywles** Yma cymerir bod i'r elfen *lles* yr ystyr '[yn dwyn] budd' ond am bosibiliadau eraill y gair cyfansawdd hwn, gw. G 178.

120 **cad argystwy** Nid oes enghraifft arall ar glawr o'r ffurf *argystwy* ac fel ardd. ac e. y'i dehonglir yn G 269 a GPC 818 gan ddilyn darlleniad y llgr. Cf. GCBM i, 16.74 *rynn gestyll gystwy*; R 1315.15 *kystwy brwydyr* (Gruffudd ap Maredudd).

123 **Melwas** Arwr traddodiadol y cyfeirir ato mewn canu mawl o'r 14g. ymlaen, gw. GDG<sup>3</sup> 496–7 a D.G. Lewis, *op.cit.* cix–cxi. Am y traddodiadau amdano fel hudol ac fel cipiwr Gwenhwyfar, gwraig y brenin Arthur, gw. TYP<sup>2</sup> 382–5, EWSP 256–8 a P. Sims-Williams, 'The Early Welsh Arthurian Poems' yn *The Arthur of the Welsh*, ed. R. Bromwich *et al.* (Cardiff, 1991), 58–61.

124 **Llydan solas, llyw Dinsylwy** Cf. 3.30 *Dinas dan solas, a Dinsylwy*.

**Dinsylwy** Trefgordd ger Llaniestyn yng nghantref Dindaethwy, gw. WATU 59. Daeth rhan o'r drefgordd, Dinsylwy Rhys, i feddiant teulu Goronwy yn 1356 ar farwolaeth eu perthynas Rhys ap Gruffudd, gw. MAng 200.

125 **llu angor fydd** Llgr. C *llunangor vyd* (pace R 1291.19 *llinwigor vyd* a dderbynnir yn G 564 d.g. *goruot*).

**Llŷr** Fe'i deellir yn betrus yn gyfeiriad at Llŷr Llediaith, un o gyn-deidiau chwedlonol y Cymry y cyfeirir ato'n gyson yng ngwaith y Gogynfeirdd, gw. TYP<sup>2</sup> 427–9 a cf. uchod 3.59n.

**Penmynydd** Sef cartref Goronwy Fychan yng nghantref Dindaethwy, gw. WATU 174–5. Mae'n debyg iddo ddod i'w feddiant wedi marw ei dad yn 1367. Cysylltir Goronwy â Phenmynydd gan Sefnyn uchod (3.29) ac yng nghywydd Iolo Goch i feibion Tudur, GIG 23 (V.48).

126 **lle bwrw gerydd** Yn groes i farn G 84, cymerir mai ffurf 3 un. pres.myn. y f. *bwrw* sydd yma. Fel be. y dehonglir y ffurf yn G ond anodd egluro'r treigladd meddal felly i *cerydd*.

**Garwy** Cyfeiriad at Arwy Hir a oedd yn enwog fel arwr ac fel carwr, cf. isod 6.41 a gw. uchod 3.16n; TYP<sup>2</sup> 354–5.

131 **llwybr cad oddaith** Am enghreifftiau pellach o'r ddelwedd hon o arwr megis coelcerth mewn brwydr, gw. EWSP 576–7 a GCBM i, 7.9n.

**llafur drudlaith** Cf. GDB 10.63 *kyn llafur lleith* (Llywelyn Fardd II).

132 **llorf Dindaethwy** Cf. 3.34 uchod *Dragon ... yn Nindaethwy* a R 1322.25 *am golovyn dindaethŷy* (Gruffudd ap Maredudd i Oronwy

Fychan). Cwmwd a chantref yn ne-ddwyrain Môn oedd Dindaethwy, gw. WATU 58.



## 5

Nid oes teitl i'r awdl hon yn y brif lawysgrif, ond o'i darllen cesglir mai cerdd fawl ydyw i Fyfanwy, *Goludog gymar ... / Goronwy Fychan* (llau. 33–4), sef gwrthrych y gerdd flaenorol. Awgrymodd yr Athro Glyn Roberts<sup>1</sup> mai Myfanwy ferch Iorwerth Ddu ab Ednyfed Gam o'r Pengwern ger Llangollen ydoedd, ac ategir hyn gan y cyfeiriad ati fel *hoywlamp Bowys* (ll. 8) yn y gerdd hon. Fel gwraig briod y mola'r bardd Fyfanwy, gan sôn am ei chyfoeth, ei huchel dras, ei harddwch, ei doethineb a'i gwyleidd-dra. Unwaith yn unig y cyfeirir ati fel gwrthrych serch yn y gerdd (ll. 35); yn hytrach, molir ei gweddeidd-dra mewn llinellau megis *Cerir ei mawrdwf nid er caredd* (ll. 17). Ceir pwyslais arbennig yn y gerdd ar haelioni Myfanwy tuag at y beirdd ac ar ei swyddogaeth fel noddwraig. Sylwer ar ddelweddau megis *magwyr* (ll. 8), *gorsedd* (ll. 10) a *cadair* (ll. 18), a gysylltir fel arfer â dynion, yn gymysg â'r delweddau disgwylidig megis *haul* (ll. 33), *lamp* (ll. 8), *eira* (ll. 15), a *gem* (ll. 12). Anghyffredin yw'r cyfeiriad at lythrennedd Myfanwy yn llinell 13, ond, yn gyffredinol, tra chonfensiynol yw'r mawl. Amhosibl yw dyddio'r gerdd yn fanwl, ond y tebyg yw iddi gael ei chanu rywbryd cyn marw Goronwy Fychan yn 1382.

Canwyd yr awdl hon ar fesur gwawdodyn, sef cwpledi o gyhydedd naw ban a thoddeidiau bob yn ail. Cysylltir dechrau llinellau pob 'pennill' o wawdodyn gan gymeriad llythrennol. Cynganeddion sain, croes a thraws a geir fynychaf, ac mae ambell enghraifft o seingroes. Cynghaneddion traws a chroes sydd yn ail linell pob un o'r toddeidiau.

- 1 **pill** Ar ddatblygiad ystyr y gair hwn, gw. GDG<sup>3</sup> 494–5. Cymerir mai 'post, cangen, cainc' yw ei ystyr yma, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol am y ferch, cf., e.e., y defnydd o *gweilging* yn GMB 9.64, a GDG<sup>3</sup> 112 (41.5–6) *Nycha gangen ar y rhos / O forwyn i'm cyfaros*.

**hirddawn ... harddedd** Am enghreifftiau eraill o'r cyd-drawiad, gw., e.e., R 1207.34–5 *Vn da iabn hirdabn harded llewenyd* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1267.32–3 *ny russyei gamaon hirdabn harded* (Madog Dwygraig), *ib.* 1352.11–12 *Yn enb kyfyaon. nny hirdabn nny harded* (Mab y Clochyddyn).

**o ball** Ar ddatblygiad ystyr y gair *pall*, gw. GLIF 6.53n. Cymerir mai 'neuadd' yw ei ystyr yma, cf. *ib.* 6.53 *Eil y6'r llall o'r pall* (Hywel ab Owain Gwynedd). Nid amhosibl, fodd bynnag, yr ystyr 'mantell, clogyn' (cf. GCBM i, 16.134) gydag *o* 'yn gwisgo, yn cario' (GPC 2610) yn ei ragflaenu.

<sup>1</sup> AWH 200. Gw. hefyd P.C Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 13 ac A.D. Carr, 'The Making of the Mostyns: The Genesis of a Landed Family', THSC, 1979, 140.

- 2 **Enwog falch fynog o feilch fonedd** Cf. R 1352.3–4 *llathyrverch vadaŵc llun balch vynaŵc llin beilch voned* (Mab y Clochyddyn). Am dras Myfanwy, gw. y nodyn cefndir uchod a cf. 3.44 uchod *Difai fonedd yw da Fyfanwy*.
- 5 **mil a'i harwedd** Â defnydd y beirdd o *arwedd* yn ffigurol yng nghyswllt barddoniaeth, cf., e.e., R 1269.2 *Arwedeis uasswed om gbed am gwaŵt* (Madog Dwygraig), *ib.* 1334.36 *Kbŷn goleu ybŷrmeu mi aeharwed* (Gruffudd ap Maredudd).
- 6 **manon aur hoywdal** Gellir aralleirio'r ymadrodd hwn mewn sawl ffordd: 'arglwyddes [yn rhannu] tâl hardd o aur', gan gymryd mai *tâl* 'payment' yw ail elfen y gair *hoywdal*; 'arglwyddes [a chanddi] dalcen hardd [a] gwy' neu 'arglwyddes wych, hardd [ei] thalcen', gan gymryd mai 'talcen' yw ystyr yr elfen *tâl* (gyda GPC 1902) a deall *aur* yn ffigurol; 'arglwyddes euraid [a] hardd [ei] thalcen' o ddeall *aur* yn gyfeiriad at wallt Myfanwy (cf. GDG<sup>3</sup> 198 (72.42) *eurow hoywdal*).
- 7 **Myfanwy, lywy ...** Cf. DGG 123 (LXVII.1) *Myfanwy lywy liwod* (Madog Benfras).  
**priflwy** Dilynir CGRG 167 a deall treigladd meddal ar ddechrau'r gair hwn er nas ceir yn y llsg.
- 8 **hoywlamp** Am enghreifftiau pellach yng ngwaith y beirdd o ddefnyddio *lamp* yn ddelwedd am ferch, gw. Th.M. Chotzen: Rech 208.  
**Powys** Am gyswllt Myfanwy â Phowys, gw. y nodyn cefndir uchod a cf. disgrifiad Sefnyn ohoni fel *Union hoywdeg ferch o Nanheudwy* (3.24).  
**magwyr hywledd** Am enghraifft arall yng ngwaith Rhisieryd o ddefnyddio *magwyr* yn ffigurol i olygu 'cynheiliad, noddwr', cf. isod 7.36 *Mawrgorf, mygr wynllorf, magwyr winllad*.
- 10 **gwenlwys eurswllt bobl** Cymerir bod *gwenlwys* yn enwol ac *eurswllt* yn a. yn goleddfu *pobl*, ond, fel yr awgrymir yn CGRG 347, gellid deall *eurswllt* yn e. a ddefnyddir yma yn ffigurol am y ferch ac aralleirio'r ymadrodd, 'trysor gwy'ch, hardd a theg [y] bobl'.  
**gorsedd** Deallir y gair yn ffigurol am Fyfanwy, cf. GMB 11.37 *Gorset y luwet* (Gwalchmai), a defnydd y beirdd o'r gair *cadair* am 'arglwydd'.
- 12 **gem rhianedd** Defnyddir *gem* yn ffigurol am ddynion a gwagedd fel ei gilydd, gw. G 527 a GPC 1391 a cf. yn arbennig isod 10.28 *Em morynion fu â'i maranned*; R 1330.16 *Kadyrnenn syr em gbyr am gbylch* (Gruffudd ap Maredudd).
- 14 **diornair** Llsg. C *tiorneir* sy'n dangos y calediad i ddechrau'r gair ar ôl -d.

- 15 **Lliw difrisg lluwchwisg eiry llechwedd—maenawl** Â'r syniad hwn, cf. yn arbennig GDG<sup>3</sup> 93 (33.18) *hoen eiry di-frisg* a hefyd uchod 1.13 *Prif degwch dilwch eiry dolydd—cyn glaw*; R 1255.18 *lliw eiry diueis* (Gruffudd ap Dafydd ap Tudur); H 329.21 *lleuuer eiry didreul* (Llywelyn Brydydd Hoddnant).
- 16 **amod mawl** Sef y ddealltwriaeth rhwng bardd a noddwr, cf. GCBM i, 14.9 *Gosgortuaŵr keduawr, cadw amuod—ŵrthyf*.  
**llaw ddiomedd** Cf. R 1315.20 *Kedawl yŵ vy llyw llaw diomed* (Gruffudd ap Maredudd).
- 17 **mawrdwf** Cf. GCBM i, 5.43 *hirdwf*, a gw. y nodyn ar *hydwf* yn HGK 88.  
**caredd** Nid amhosibl yr ystyr 'trachwant, serch' yma, ond sylwer mai yn betrus y rhoddir yr ystyr honno i'r gair yn GPC 425.
- 19 **Cymhendod dafod, etifedd—lwyddiant** Dehonglir y ll. yn ddau epithet am Fyfanwy gan gymryd mai calediad sy'n gyfrifol am y diffyg treigladau ar ddechrau *tafod* yn llsg. C.
- 20 **ceibl** Deellir y gair yn betrus gyda G 88 yn ffurf l. yr e. *cabl*. Sylwer na nodir y ffurf hon yn GPC 372, 450.
- 21 **cyfiawn agwedd** Anodd penderfynu ai cyfeiriad sydd yma at ymddangosiad Myfanwy ynteu at ei hymddygiad. Gellid aralleirio'r ymadrodd 'cymesur [ei] ffurf' yn ogystal â 'diduedd [ei] hagwedd'.
- 22 **Cludodd ewybr ddawn clod o ddiwedd** Cymerir mai'r bardd yw'r *ewybr ddawn* yma, gan dehongli'r ll. ychydig yn wahanol i CGRG 349 sy'n cyfieithu, '*She took the swift gift of praise finally*'.
- 24 **claeur aur freisg-gorff llathr** Sylwer bod CGRG 349 yn cynnig darllen *eurfraisc gorff*, ond dilynir G 497 (d.g. *eurvreisc*) yma a darllen *freisg-gorff* er mwyn y gynghanedd.
- 25 **ar hyffawd** Cymerir mai'r ardd. *ar* a ddefnyddir i ddynodi pwrpas (GMW 187) a'r a. *hyffawd* (GPC 1962) sydd yma, yn groes i ddarlleniad y llsg., *arhyffaŵd*. Nid amhosibl, fodd bynnag, fyddai deall yr *ar*-yn rhagddodiad cadarnhaol, ond ni chafwyd enghraifft arall o'r ffurf *arhyffawd*.
- 25–6 **Bid ar hyffawd hoedl, byd orhoffedd / ... byw flwynyddedd!** Awgrymir yn CGRG 350 ddiwygio *byd* yn *bid* a deall *gorhoffedd* yn 'anwylyd' gan gymryd yr ymadrodd *bid orhoffedd* gyda *byw flwynyddedd* a chyfieithu '*let the dear one ... live for years*'. Am enghraifft arall o'r ffurf *blwynyddedd*, gw. BDe 1 (ll. 7) a gw. *ib.* 26.
- 27 **bwriad** Ymestynnir yr ystyr 'amcan, pwrpas, diben' yma i gyfeirio at wrthrych cerdd fawl gan ddilyn CGRG 350, ond nid amhosibl yr ystyr 'llefwrwr' a wrthodir yn G 84 wrth drafod yr enghraifft hon.

- 28 **bylcheim** Mae darlleniad llsgr. C yn aneglur: gall fod yn *bylchenn* neu'n *bylcheim*. Er mwyn y gynghanedd, yr olaf a ddarllenwyd yma ac fe'i deallwyd yn gyfuniad o *bwlch* ac unig enghraifft o *geim*, ffurf l. *gem* gan ddilyn G 84. O ddiwygio'r ffurf yn *bylchem* gellid deall 'gem wedi ei naddu' neu ffurf l ll.amhff.myn. y f. *bylchu* yn cael ei defnyddio mewn dull anghyffredin i gyfleu'r modd y byddai'r beirdd yn lleihau golud Myfanwy oherwydd ei haelioni tuag atynt.
- 29 **gwlad Ogledd** Llsgr. C *wlat gogledd*; mae'r gynghanedd yn gofyn am dreigladd i *Gogledd*. Ar y treigladd meddal mewn e.p. genidol ar ôl *gwlad*, gw. Treigladdau 111–12. Am enghreifftiau eraill o gyfeirio at glod noddwr yn lledu hyd y Gogledd, sef yr Hen Ogledd yn ôl pob tebyg, cf., e.e., R 1415.15 *hoewdec eglur. hyt ygogledd* (Ieuan Llwyd ab y Gargam).
- 30 **Deg ymorol Môn, digymaredd** Llsgr. C *dec morof mon di gymared*. Mae'r ll. hon fel y'i ceir yn y llsgr. yn fyr o sillaf ac nid oes enghraifft arall o'r ffurf *morof*. Awgrymir yn CGRG 351 mai'r adf. *mor* a geir yma a bod elfen gyntaf neu ail elfen y gair sy'n dilyn wedi'i cholli. Yma diwygir *morof* yn betrus yn *ymorol*.
- digymaredd** Ni chafwyd enghraifft arall o'r gair. Rhoddir yr ystyr 'diddig, diddan, llawen' i'r ffurf yn G 349 gan gymryd mai'r rhagddodiad negyddol *di-* a *cymaredd* 'dicter, llid, gwylltineb, creulondeb' (o *bâr*) ydyw. Yn GPC 1003 fe'i deallir yn betrus yn gyfuniad o'r rhagddodiad negyddol *di-* a *cymaredd* 'cyfoeth, rhodres, rhwysg', &c. (yn cynnwys yr elfen *maredd*). Dilynir GPC yma.
- 31 **Dyfr** Dilynir G 414 d.g. *Dyf(y)r<sup>A</sup>* a'i ddeall yn gyfeiriad at Dyfr (Deifr) Wallt Euraid yn groes i CGRG 351 sy'n cymryd mai ffurf l. yr e.c. *dwfr* ydyw. Am gyfeiriadau eraill y beirdd at *Ddyfr*, gw. TYP<sup>2</sup> 335.
- trosedd** Arno yn ei ystyr dda, 'rhagoriaeth', gw. DGG<sup>2</sup> 226 a cf. isod 10.37n.
- 34 **gwron fuchedd** Cf. CLIH 34 (XI.12a–b) *Kyndylan Powys ... bywyt ior*, a gw. *ib.* 199 ac EWSP 582.
- 35 **dianhunedd—ddeigr** Awgryma G 325 y dylid deall *dianhunedd* (nad oes enghraifft arall ohono ar glawr), yn gyfuniad o'r rhagddodiad negyddol *di-* ac *anhunedd* gyda'r ystyr 'heb goll cwsg'. Ni restrir y ffurf yn GPC 949. Efallai, fodd bynnag, y rhoddai *di-* cadarnhaol amgenach ystyr yn y cyd-destun, sef 'diffyg cwsg ofnadwy'. Cymerir mai at thema effeithiau cariad anghyffwrdd y cyfeirir yma a dehonglir y ll. yn dri epithet am Fyfanwy gan wrthod aralleiriad CGRG 352 'dawn hynod yw dagrau heb goll cwsg'.
- 36 **Gwiwryw eurgroyw Eigr, gwawr y gwragedd** Er yn gywir o ran cynghanedd, mae'r ll. fel y saif yn y llsgr. yn fyr o sillaf. Ceir enghreifftiau gan Ruffudd Hiraethog (GGH l–li) o gyfrif sillaf gadarnleddf

yn ddwy sillaf, ond er y byddai cymryd *Eigr* yn air deusill yn peri bod y naw sillaf angenrheidiol yn y ll., sylwer mai gair unsill yw *deigr* yn y cyrch (ll. 35). Derbynnir felly awgrym CGRG 352 i ddiwygio *groyw* yn *eurgroyw*.

**Eigr** Dyma'r enw a ddefnyddir yn fersiynau Cymraeg yr 'Historia Regum Britanniae' i gyfieithu *Ygera*, sef yr e. a roddwyd gan Sieffre o Fynwy ar fam y brenin Arthur, gw. WCD 228–9. Am gyfeiriadau'r Gogynfeirdd diweddar at *Eigr* fel safon o brydferthwch, gw. G 456 a TYP<sup>2</sup> 366n3. Sylwer bod Sefnyn yntau yn cyffelybu Myfanwy i Eigr, uchod 3.8.

## 6

Syr Hywel ap Gruffudd 'Hywel y Fwyall' oedd un o'r amlycaf o ryfelwyr Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>1</sup> Yr oedd yn aelod o deulu o uchelwyr tiriog a olrheiniai eu hachau i Gollwyn ap Tangno, arglwydd Eifionydd yn yr unfed ganrif ar ddeg. Enillodd Hywel fri am ei wrhydri yn rhyfeloedd Edward III yn Ffrainc ac fe'i gwobrwywyd yn hael gan y brenin am ei wasanaeth. Urddwyd ef yn farchog yn 1355 ac yn 1359 fe'i hapwyntiwyd yn gwnstabl Castell Cricieth. Bu farw yn 1381 a chladdwyd ef yn Eglwys Clynnog, Arfon. Mae ar glawr gywydd mawl iddo gan Iolo Goch<sup>2</sup> a dwy awdl farwnad, y naill gan Risierdyn a'r llall gan Ruffudd ap Maredudd.<sup>3</sup>

Prin yw'r wybodaeth y gellir ei chasglu o'r gerdd hon am fywyd a gyrfa Hywel. Galar y bardd a'i ymdeimlad o golled ar ôl ei noddwr yw'r thema ganolog a'r syniad fod Hywel bellach ynghudd yn y bedd yn cael ei ailadrodd droeon ac yn rhoi undod i'r awdl. Tra chyffredinol yw'r mawl iddo fel rhyfelwr ac fel arglwydd. Prin y cyfeirir at ei orchestion yn Ffrainc ac nid oes sôn am ei gyfnod yng Nghricieth heblaw am gyfeiriad cynnil yn llinellau 39–40, ond disgrifir ef fel *Eiddionydd lorff* (ll. 21) a *Chwilog ben* (ll. 49). Yn ôl Henry Lewis,<sup>4</sup> gall fod hyn yn arwyddocaol ac awgryma ef fod Hywel wedi ymadael â Chricieth ac ymsefydlu yn Chwilog, hen gartref y teulu, ychydig cyn iddo farw.

Mae pedair adran i'r awdl. Egyr gyda chadwyn o dri englyn ar ddeg, yn englynion unodl union a phroest bob yn ail. Cyfres o doddeidiau sy'n dilyn gyda chymeriad llythrennol yn cysylltu dechrau'r llinellau yn unedau o wyth llinell. Ar fesur rhupunt y canwyd y drydedd adran a chynhelir y cymeriad

<sup>1</sup> Arno, gw. ByCy 345; A.D. Carr, 'Welshmen and the Hundred Years' War', *Cylch HC v* (1968–9), 29.

<sup>2</sup> GIG 6–12.

<sup>3</sup> R 1327–8 (ond mae'r teitl yno yn anghywir).

<sup>4</sup> H. Lewis, 'Gruffudd ab Maredudd ab Dafydd a Rhisierdyn', *B i* (1921–3), 132.

llythrennol *c-* drwyddi. Englyn proest sy'n cloi'r awdl. Mae cyrch-gymeriad yn cydio diwedd pob adran wrth ddechrau'r un ddilynol ac mae gair olaf y gerdd yn cyrchu'r gair cyntaf. Cynganeddion sain a chroes a geir yn bennaf yn yr englynion gydag enghreifftiau hefyd o gynganeddion traws, sain ddwbl, sain gadwynog a sain wreiddgoll. Mae'n bosibl fod dwy o linellau'r ail adran yn afreolaidd: mae llinell 65 fel yr ymddengys yn y llawysgrif yn rhy hir o sillaf ac nid oes cyswllt rhwng y gair cyrch a'r gorwant yn llinellau 79–80. Cynganeddion sain sydd fwyaf cyffredin yn llinellau cyntaf y todd-ediau ond ceir ambell gynghanedd sain ddwbl hefyd. Ceir cynganeddion sain, sain ddwbl a chroes yn ogystal â thraws yn ail linellau'r toddediau. Mae'r rhupunt yn hollol reolaidd.

- 1–4 **Rhy-gudd ... / ... rhudd dderw a gro** Am enghreifftiau pellach yng ngwaith cyfoeswyr Rhisierdyn o'r syniad cyffredin hwn mewn canu marwnadol fod y bedd yn cuddio'r noddwr, gw., e.e., R 1206.16 (Gruffudd ap Maredudd), 1268.7 (Madog Dwygraig), 1350.2–3 (Gronw Gyriog), 1352.8 (Mab y Clochyddyn).
- 2 **Yng nghongl gwyngor Beuno** Cf. R 1327.17–18 *Gwisgabd bed eurglod aerglo lluryclas, yn llaβr eglβys ueuno* (Marwnad Gruffudd ap Maredudd i Hywel). Ar Feuno, sefydlydd a nawddsant eglwys Clynnog Fawr yn Arfon, gw. isod 7.19n.
- 3 **Clydno** Cyfeiriad at Glydno Eiddin, un o wŷr amlwg yr Hen Ogledd yn y 6g. a enwir yn 'Bonedd Gwŷr y Gogledd' (EWGT 73) ac yn 'Y Gododdin' (gw. AH 154). Y tebyg yw iddo ef, fel ei fab Cynon (a enwir o bosibl yn ll. 106 isod), ddatblygu'n gymeriad chwedlonol. Am y cyfeiriadau prin eraill ato gan y Gogynfeirdd, gw. TYP<sup>2</sup> 309–10. Sylwer yn arbennig ar R 1327.19 *gβr duryaβl rot clot clytno* (Marwnad Gruffudd ap Maredudd i Hywel).
- 4 **crair** Cymerir mai ystyr arferol *crair* yn y canu, sef 'gwrthrych edmygedd, anwylyd', sydd yma, yn cyfeirio at Hywel. Nid amhosibl, fodd bynnag, yw awgrym petrus G 172–3, sef 'cadernid amddiffynfa', neu hyd yn oed ystyr lythrennol y gair, o gofio bod beddau rhai o'r saint yn cael eu hystyried yn greiriau yn y cyfnod hwn (ymhellach, gw. H. Pryce, *Native Law and the Church in Medieval Wales* (Oxford, 1993), 43n28).
- 8 **Celynnog** Eglwys Clynnog Fawr yn Arfon, gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 235 a RCAHM (Caernarvonshire) ii, 36–42.
- 11 **gwawtgaer, gwaetgledd** Am enghreifftiau pellach o gyfosod geiriau cyfansawdd yn cynnwys yr elfennau *gawad-* a *gwaed-*, gw. isod ll. 56 a R 1313.22–3 *Gβna varglβyd gβaβtlβyd gβaetlin gβyarwlych* (Gruffudd ap Maredudd).

- 12 **dâr** Am y posibilrwydd mai cyfeiriad at Darius, Brenin Persia, sydd yma, gw. G 297 a M. Haycock, ‘“Some Talk of Alexander and Some of Hercules”’: Three Early Medieval Poems from the Book of Taliesin’, CMCS 13 (Summer 1987), 12n27.
- trafn** Ar ystyron y gair hwn, gw. I. Williams, ‘trefn’, B ii (1923–5), 310–11 a GDG<sup>3</sup> 546.
- 13 **Nudd neddair** Cf. isod 9.16 *Cydwedd Nudd, cedoedd neddair*; R 1206.33 *llawgreir nedeir nud* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1225.34 *am bost nedeirgost nud* (Gwilym Ddu o Arfon); GDG<sup>3</sup> 14 (5.26) *A Nudd oreugamp neddair agor*. Ar Nudd, gw. uchod 4.75n.
- 14 **Cynfyn** Sef Cynfyn ap Gwerystan, un o gyndeidiau llinach frenhinol Powys, gw. EWGT 95 *et passim*. Am gyfeiriadau'r Gogynfeirdd ato, gw. GLIF 14.32 (Owain Cyfeiliog) a GCBM i, 16.234.
- 16 **llith coetgwn aer** Am enghreifftiau pellach o thema'r arwr yn bwydo bleiddiaid ac adar ysglyfaethus mewn brwydr, cf. uchod 4.63–4 a 71–2, a gw. T.J. Morgan, ‘Dadansoddi'r Gogynfeirdd (2)’, B xiv (1950–2), 1–8 ac yn arbennig 4.
- 20 **Eiddionydd** Am yr amrywiad hwn ar *Eifionydd*, gw. IGE<sup>2</sup> 380. Am gysylltiad hir y teulu â'r ardal, gw. y nodyn cefndir uchod, ac ar dir-oedd Hywel a'i frawd Einion yn Eifionydd, gw. C.A. Gresham, *Eifionydd: A Study in Landownership from the Medieval Period to the Present Day* (Cardiff, 1973), *passim*.
- 22 **Echel** Cyfeiriad, yn ôl pob tebyg, at yr arwr clasurol Achilles. Am ddefnydd y beirdd o'i enw ac ar yr arwr brodorol Echel Forddwyd Twll, gw. TYP<sup>2</sup> 335–6, WCD 220–1.
- 23 **Aneirdd yw ei feirdd o'i fod** Am y cyd-drawiad, cf., e.e., isod 10.71 *O bai aneirdd beirdd y byd*.
- 27 **wysg** Ar *wysg* yn e. yn golygu ‘llwybr’, gw. J.E.C. Williams, ‘Wysg (river-name), wysg, hwysgynt, rhwysg’, *Celtica*, xxi (1990), 677 (ond sylwer mai darlleniad MA<sup>2</sup> 280<sup>a</sup>27 o'r ll. hon a ddilynir yno).
- Rhyawd** Cyfeiriad, o bosibl, at *Rahaut eil Morgant*, un o ‘Dri Oferfeirdd Ynys Prydain’ yn ôl y Trioedd (TYP<sup>2</sup> 21), ac arwr a enwir yn ‘Breuddwyd Rhonabwy’ (BRh 61). Am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. TYP<sup>2</sup> 497–8.
- gwiwdeg** Llsgr. C *widec*. Derbynnir awgrym G 687 a dilyn darlleniad MA<sup>2</sup> 280<sup>a</sup>27.
- 32 **Paredur** Sef Peredur fab Efrog, arwr un o'r Tair Rhamant. Am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. TYP<sup>2</sup> 491.

- 33–6 **Ni ddug ... / ... Syr Hywel** Sylwer mai rhediad ystyr y llau. hyn yw ‘ni ddug cerfiwr mwy egniol na Syr Hywel nac arf na lluman yn erbyn cymynwaith bradwrus byddin nad [oedd] ynghudd’.
- 34 **pensel** Am gyfeiriadau eraill at *bensel* neu luman bychan Syr Hywel ap Gruffudd, gw. GIG 7 (II.49), IGE<sup>2</sup> 126 (ll. 19) (Gruffudd Llwyd). Ar ei arfbais a ddisgrifir yn fanwl yng nghywydd mawl Iolo Goch iddo, gw. DWH i, 73, 212.
- 39–40 **A chadarn ... / ... uwch adwy** Ceir yma gyfeiriad efallai at gastell Cricieth y bu Hywel yn gwnstabl arno rhwng 1359 a 1381, gw. y nod-yn cefndir uchod.
- 41 **Garwy** Gw. uchod 3.16n.
- 45 **rhad rhydeg** Dehonglwyd *redec* y llsg. yn betrus fel yr a. *rhydeg*, cf. R 1202.25–6 y *ioseph dat rat redec* (Gruffudd ap Maredudd).
- 46 **wylio** Deallir y ffurf yn amrywiad ar y be. *wylo*, ond nid amhosibl mai ffurf dreigledig y be. *gwyllo* sydd yma.
- llew un olwg** Gellid hefyd gymryd bod *un olwg* yn goleddfu *llew* yma ac aralleirio ‘arwr unllygeidiog’ [*sc.* ‘unplyg’], ‘arwr unigryw [ei] fri’ neu ‘[ag] un golwg â llew’. Ar amrywiol ystyron *golwg*, gw. G 555, GPC 1453.
- 48 **Chwilog** Trefgordd yn Eifionydd a phrif gartref teulu Hywel ap Gruffudd. Ymhellach, gw. C.A. Gresham, *op.cit.* 241–7. Ar y posibilrwydd fod Hywel wedi ymsefydlu yno ychydig cyn ei farw, gw. y nod-yn cefndir uchod.
- 54 **tragorllin** Fe’i deallir yn betrus yn a. gyda’r ystyr ‘tra gorchestol’ yma, ond ar amrywiol ystyron *gorllin*, gw. GCBM ii, 5.10n.
- 55 **drud lud lafn hardd-drafn** Cf. GDG<sup>3</sup> 377 (143.3) *Ni ad dy lafn, hardd-drafn hy*.
- 60 **Tryffin** Cyfeiriad, o bosibl, at Dryffin fab Aedd, brenin yn Nyfed ar ddiwedd y 5g., gw. YMTh 27, EWGT 4, TYP<sup>2</sup> 515, WCD 617–19 a GMB 3.113n. Am gyfeiriadau posibl ato gan y beirdd, gw. T 41.16 (cerdd ddi-deitl), GMB 3.113 (Meilyr Brydydd), R 1313.15 (Gruffudd ap Maredudd), LlSt 40, 99.16 *tryffin varvog wyt ruffydd* (Thomas Fychan), *ib.* 136.10 *a dyrr saffwyaw ail dryffin* (Syr John Teg).
- 65 **Arf llithrau brwydrau ...** Llsg. C *aryf lithareu* (gydag *e* uwchlaw’r a) *brÿytreu*. Mae’r ll. fel yr ymddengys yn y llsg. yn rhy hir o sillaf a gall fod y ffurf *llithaerau* yn llwgr. O ran ffurf ac ystyr byddai naill ai *llithiau*, ffurf l. *llith* ‘bwyd’, neu *llithrau*, ffurf l. *llithr* ‘llithriad, llifiad, ffrwd’ yn taro’n iawn, ond nid oes ar glawr unrhyw enghraifft arall o’r naill na’r llall yng nghanu’r cyfnod hwn. Tra phetrus, felly, yw’r diwygiad a gynigir.



- bradrin** Sylwer mai fel a. gyda'r ystyron 'wedi ei dwyllo, siomedig' y trafodir y gair hwn yn G 71 a GPC 304.
- 68 **Echel** Gw. uchod ll. 22n.
- 69 **bradwr egin—Ffrainc** Am orchestion Syr Hywel yn rhyfeloedd Edward III yn Ffrainc, gw. A.D. Carr, 'Welshmen and the Hundred Years' War', Cylchg HC v (1968–9), 29.
- 70 **meddylffyrf** Fe'i dehonglwyd ar batrwm *meddylgryf*, GPC 1402, gan roi iddo'r ystyr 'penderfynol'.
- Elffin** Sef Elffin ap Gwyddno Garanhir, un o wŷr llys Maelgwn Gwynedd, gw. TYP<sup>2</sup> 510 ac WCD 237–8. Cf. R 1328.2 *debrder elphin* (Gruffudd ap Maredudd i Syr Hywel), ac am gyfeiriadau beirdd eraill at Elffin, gw. G 468.
- 71 **trafn llafn** Cf. R 1219.8 *llafyn trafyn treigylgat* (Gruffudd ap Maredudd), *ib.* 1230.23–4 *travyn llavyn lla6 vrodod* (eto).
- llwybrfryd** Deallwyd y ffurf yn a. cyfansawdd ar batrwm *hwylfryd* (G 80).
- 72 **Ergin** Ffurf amrywiol ar yr enw lle Erging (Archenfield) yn Swydd Henffordd. Arno gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 279–80 a WATU 269.
- 73 **treulwedd** Nid amhosibl yw darlleniad llsg. C, *treulwed*, er mai hon yw'r unig enghraifft o'r ffurf sydd ar glawr. Gellid cymryd mai 'treuliedig neu gystuddiol ei wedd' yw ei ystyr, ar batrwm GCBM i, 5.16 *treul attep*, 26.96 *treulgaut*.
- Custennin** Ar y cymysgu rhwng gwahanol ffigurau yn dwyn yr enw Custennin ac am gyfeiriadau'r beirdd atynt, gw. G 188, HGK 81–2. Awgryma G mai Cystennin Fawr, yr ymerawdr Cristnogol cyntaf (gw. ODCC 334–5) a enwir yma, ond mae cyfeiriad at Gustennin ap Macsen Wledig (gw. WCD 156–7) neu at Gustennin Fendigaid, taid y brenin Arthur yn ôl Sieffre o Fynwy (gw. TYP<sup>2</sup> 314–15 a WCD 157–8), yn bosibl hefyd.
- 74 **ymefin** Am yr unig enghraifft arall o'r gair hwn, gw. GDG<sup>3</sup> 310 (117.33) *Drycin yn ymefin môr*. Cynigia R. Bromwich, *Dafydd ap Gwilym. A Selection of Poems* (Llandysul, 1982), 120, mai be. ydyw gyda'r ystyr 'to agitate', ac yma fe'i deallir yn betrus yn ffurf amrywiol ar y f. *ymewinaf: ymewino*.
- 75 **Tafawd un arawd Aneirin—gwawt glaer** Dehonglir y ll. yn ddisgrifiad o Hywel yn hytrach nag yn ddymuniaid ar ran y bardd am ysbrydoliaeth i ganu fel Aneirin fel yr awgrymir yn TYP<sup>2</sup> 273. Cymerir felly mai'r ystyron 'araith, iaith, ymadrodd' sydd i *arawd* yma yn hytrach na 'cerdd grefyddol, mawl, arwyrain' fel yr awgrymir yn GPC 177.

**Aneirin** Gw. uchod 2.7n.

- 77 **caen ufel** Am y syniad hwn o arfwisg neu arfau arwr yn fflachio fel gwreichion, cf. GIG 29 (VI.70) *gwayw ufel fellt*.
- 78 **Hawdd y glud ddelffawdd gwladoedd Ddolffin** Cf. IGE<sup>2</sup> 306 (ll. 3) *delffu Dolffin* (Rhys Goch Eryri). Dilynir G 386 wrth ddiwygio *olffin* llsg. C yn *dolffin* a'i ddeall yn gyfeiriad at y *Dauphin*, edling brenin Ffrainc. Sylwer y bu'n rhaid hepgor y gair *wyr* sy'n digwydd o flaen *gwladoedd* yn y llsg. er mwyn cael ll. nawskill.
- 79 **Erbin** Cyfeiriad at dad yr arwr o dde-orllewin Lloegr, Geraint. Am y cyfeiriadau prin ato gan y beirdd, gw. G 482.
- 79 **ysgwyd ddur** Llsgr. C *ysgwyd*. Ar y diwygiad hwn sy'n adfer yr odl gyrch â'r gorwant yn ogystal ag adfer y nifer angenrheidiol o sillafau yn y ll. hon, gw. G 396.
- 80 **hyrddarf** Diwygiwyd ffurf y llsg., sef *hyrdeiryf*, er mwyn esbonio'r treigladd meddal ar ddechrau'r a. sy'n ei ddilyn.
- 81 **Hydyn aerfathryn a feithrin—cleroedd** Llsgr. C *Hydyr aer vathyrn ae veithrin cleroed*. Diwygiwyd y ll. er mwyn cael cynghanedd a'r nifer cywir o sillafau. Nid oes enghraifft arall o *aerfathryn* a ddeallir yn gyfuniad o *aer* + *mathr* 'sathr' (GPC 2377) + y terfyniad enwol *-yn*.
- 85 **Arthur** Am gyfeiriadau'r beirdd at Arthur a ddarlunnir yn bennaf ganddynt fel patrwm o ryfelwr, gw. TYP<sup>2</sup> 276–7.
- rhyfawrthin** Nid oes enghraifft arall ar glawr o'r gair hwn. Cymerir yma fod y brif elfen yn amrywiad ar *mawrthig* 'wedi ei hyfforddi neu ei wisgo ar gyfer rhyfel' (GPC 2386) a ddefnyddir fel arfer am feirch.
- 86 **Myrddin** Arno, gw. uchod 2.4n. Am gyfeiriadau'r Gogynfeirdd ato fel un o'r Cynfeirdd, gw. TYP<sup>2</sup> 471, a cf. yn arbennig 2.4 uchod lle cysylltir Myrddin unwaith eto â chanu marwnad.
- 87 **Cudd prudd priddlawr gwawr** Dilynir awgrym G 185 d.g. *cudyaw* i ddiwygio darlenniad y llsg., sef *Cud pridlawr gbawr*, er mwyn cael deg sillaf i'r ll. Mae G yn deall *cudd* yn ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cuddiaf: cuddio*, ond o ychwanegu'r a. *prudd*, rhaid treiglo *priddlawr* ac mae hyn yn gwanychu'r gynghanedd sain ddwbl sydd yn y ll. Yma deallir *cudd* yn e. 'cuddfan'.
- 89 **dyedd** Cymerir mai e. ydyw yma ond gellid ei ddeall yn a. 'gresynus, truenus' fel y gwneir yn G 420.
- Edwin** Brenin Northumbria yn y 7g. a gelyn Cadwallon. Am gyfeiriadau'r beirdd ato fel symbol o'r gelyn Seisnig, gw. TYP<sup>2</sup> 339.
- 92 **naf Eiddin** Cyfeiriad arall at Glydno Eiddin, gw. uchod ll. 3n. Am drafodaeth ar y ffurf *Eiddin*, gw. G 453 a CA xxxvii–viii.

- 94 **cynllug** Dilynir GPC 793 a'i ddeall yn e., ond sylwer mai fel a. y'i rhestrir yn betrus yn G 252. Awgrymir yno hefyd y gallai fod yn e. personol (gw. ymhellach CLIH 189 ac WCD 182).
- 96 **aur farannedd ar fyr ennyd** Cymerir mai cyfeiriad at barodrwydd Hywel i ddsbarthu rhoddion sydd yma, h.y. nad yw cyfoeth yn aros yn hir yn ei feddiant.
- 98 **Eiddionydd** Gw. uchod ll. 20n.
- Gweirydd** Am gyfeiriadau beirdd eraill ato, gw. G 650. Uniaethir ef yn betrus yma â Gweirydd Adarweinidog. Mae'n bosibl fod Gweirydd yn arwr traddodiadol anhysbys ond ni ddigwydd yr e. yn gynharach na 'Brut y Brenhinedd' lle y'i defnyddir i gyfieithu *Arviragus*, e. a fenthyciwyd gan Sieffre o Fynwy o waith Juvenal, gw. B.F. Roberts, 'The Treatment of Personal Names in the Early Welsh Versions of *Historia Regum Britanniae*', B xxv (1972-4), 283, WCD 309.
- 103 **udfa** Mae'n bosibl fod i'r elfen *-ma* rym 'lle' yn y gair hwn ac y dylid aralleirio 'lle'r ubain'.
- 105-6 **Ceir o'i dramgwydd ... / ... cwyn anhyfryd** Sylwer bod G 94 d.g. *keir* yn awgrymu mai *euraid arwydd* yw gwrthrych y f. *cael* yma.
- 106 **Brynaich** Enw ar drigolion talaith Bernicia yng ngogledd-ddwyrain Lloegr yn wreiddiol, ond fe'i defnyddir gan y Gogynfeirdd i gyfeirio at y Saeson yn gyffredinol. Am enghreifftiau pellach, gw. G 80 a cf. 10.21n ar *Deifr*.
- Cynon** Sef mab enwog Clydno Eiddin y cyfeirir ato yn llau. 3 a 92-3 uchod. Arno, gw. AH 151-64.

## 7

Dyma'r gynharaf o ryw ugain o gerddi sydd ar glawr i abadau Aberconwy, abaty Sistersaidd a sefydlwyd yn 1186. Ni wyddys dim am Ieuan ap Rhys, gwrthrych yr awdl hon ond uniaethwyd ef yn betrus â'r abad John a enwir mewn dogfennau a ddyddir 1378-9 a 1398.<sup>1</sup> Molir ef yn bennaf fel noddwr hael a phwysleisir y berthynas agos rhyngddo a'r bardd drwy'r defnydd o'r cymeriad *fy* yn y llinellau agoriadol. Portreedir ef hefyd fel arweinydd a chynheiliad nid yn unig i'r gymuned yr oedd yn ben arni ond i bobl yr ardal yn gyffredinol. Cymherir ef â thri sant Cymreig: Beuno, Machraith a Dyfrig, â Moses o'r Hen Destament ac â Beda (ddwywaith), Sant Bernard, abad Clairvaux a'r Pab Gregori.

Cyfres o doddeidiau a ddilynir gan gadwyn o bedwar englyn (dau englyn unodl union a dau englyn proest) yw'r gerdd hon. Cysylltir yr adran gyntaf

<sup>1</sup> Gw. HAA 128-9, CTC 294.

wrth yr ail â chyrch-gymeriad. Addurnir deuddeg llinell agoriadol yr awdl â chymeriad geiriol ac yna mae cymeriad llythrennol yn clymu gweddill y toddeidiau yn unedau o bedair llinell. Cymeriad llythrennol sydd hefyd yn cysylltu dechrau llinellau'r englynion. Un llinell yn unig, sef llinell 22, sy'n afreolaidd o ran nifer y sillafau. Yn y toddeidiau, cynghanedd sain a thraws sydd fwyaf cyffredin gydag ambell sain ddwbl a sain deirodl. Ceir cynganeddion sain yn ogystal â thraws yn ail linell y toddeidiau. Addurnir yr englynion â chynghanedd sain a chroes a cheir ambell enghraifft o gynganedd draws, sain deirodl, sain gadwynog ac un seingroes.

- 1 **rhwy** Diwygiwyd darlleniad llsg. C, *rbyf*, er mwyn cael odl fewnol â *Conwy* gan ddilyn CTC 47 ond yn groes i Bl B XIV 155. Deellir *rhwy* yn ffurf amrywiol ar *rhwyf* 'arglwydd'.
- 2 **enaid** Yn llsg. C ceir y gair *enwabc* gyda'r llythrennau *eit* wedi eu hychwanegu uwchben diwedd y gair. Gan fod *enaid* yn rhoi gwell ystyr nag *enwog*, fe'i mabwysiadwyd yma.  
**ynad** Gw. uchod 4.7n.
- 6 **gwareddiad** Er nad oes enghraifft arall ohono ar glawr, mae *gwareddiad* yn ateb *gwiw roddion* yn well na *gwarediad*, y ffurf a ddeallwyd gan G 621 a GPC 1582. Cymerir mai cyfuniad o *gwaredd* 'trugaredd' a therfyniad y gweithredydd ydyw.
- 7 **Fy mrawd ffydd cynnydd, medd ceiniad—gerddawr** Sylwer bod dehongliad Bl B XIV 155 a CTC 47 o'r ll. hon, sef *Fy mrawd ffydd, cynnydd medd ceiniad—gerddawr*, yn torri ar y patrwm arferol o gael y rhagwant ar ôl y bumed sillaf yn ll. gyntaf toddaid.
- 13 **llawr** Gellid hefyd yr ystyr 'ardal' yma, gw. GPC 2118.  
**Maenan** Symudwyd yr abaty lle yr oedd Ieuan yn abad i safle newydd ger Afon Conwy ym Maenan yn 1283–4 am fod ar y Brenin Edward angen y safle gwreiddiol yn Aberconwy ar gyfer ei gastell, gw. ymhellach HAA 61–77.  
**byriad** Cymerir mai amrywiad ar *bwriad* 'amcan' ydyw yma, gw. G 87, GPC 355.
- 15 **arfod** Gwrthodir cynnig petrus G 38 mai 'ergyd, dyrnod, ymosod' yw ystyr yr enghraifft hon o'r gair.
- 17 **Bedaf** Sef Beda, tad hanes Lloegr, a ystyridd gan feirdd Cymru yn ŵr o ddoethineb anghyffredin. Am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. G 53, TYP<sup>2</sup> 279 a M. Haycock "'Preiddeu Annwn" and the Figure of Taliesin', SC xviii/xix (1984), 56, 59n41. Sylwer yn arbennig ar yr enghreifftiau yng ngwaith Gutun Owain lle cyffelybir noddwyr eglwysig i Beda, fel yn y gerdd hon.

- 18 **Berned** Cyfeiriad at Sant Bernard, abad Clairvaux (1090–1153), gw. ODCC 160–1. Un o ganghennau Clairvaux oedd y Tŷ Gwyn yn ne Cymru a sefydlwyd yn 1140, ac oddi yno y lledaenodd y Sistersiaid dros y wlad, gan gyrraedd Aberconwy yn 1186, gw. HAA 1–5.
- 19 **Beuno** Beuno Sant a fu farw c. 642 ac a gysylltir yn bennaf â gogledd Cymru. Cyfieithwyd ei fuchedd i'r Gymraeg yn y 14g. gan ancr Llanddewibrefi a chanwyd cywyddau iddo gan Rys Goch Eryri a Syr Siôn Leiaf. Am ei fuchedd, gw. VSB 16–22, ac ymhellach gw. LBS ii, 208–21, E.G. Bowen, *Settlements of the Celtic Saints in Wales* (Cardiff, 1954), 81–6, ac am restr o gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. G 56.
- 20 **y Berfeddwlad** Dyma'r ardal a gynhwysai gantrefi Rhos, Rhufoniog, Dyffryn Clwyd a Thegeingl, gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 239–42. Safai abaty Maenan yng nghantref Rhos.
- 22 **Rhwydd iawnllythr gân rydd ddianllad** Mae'r ll. yn fyr o sillaf ac efallai fod gair unsill ar goll cyn *gân* neu rhwng *rhwydd* a *iawnllythr*. Awgryma Bl B XIV 189 y dylid ychwanegu ffurf fel *wr* cyn *rhydd*, ond byddai hynny'n amharu ar batrwm mydryddol yr awdl gan y disgwyliid i *gân* ddisgyn ar y bumed sillaf.
- 23 **rhwyf fyriad—ieithrym** Ar *byriad*, gw. uchod ll. 13n, ac ar y posibl-rwydd mai 'llefwrwr' yw'r ystyr, gw. uchod 5.27n.
- 29–30 **llawn ddulliad—Moesen, / Llwyddai gyhoedd llên** Llsg. C *lla6n dullyat moeseu ll6ydei gyhoed lleu*. Derbynnir darlleniad rhai o'r llsgrau. diweddar yma gyda CTC 47, yn groes i Bl B XIV 156 sy'n derbyn darlleniad llsg. C.
- 29 **Moesen** Moses, sylfaenydd Israel, gw. ODCC 928–9. Meddylid amdano gan Risierdyn a'i gyfoeswyr fel trefnydd ac arweinydd yn bennaf, gw. D.M. Lloyd, *Rhai Agweddau ar Ddysg y Gogynfeirdd* (Caerdydd, 1977), 22. Am gyfeiriadau'r Gogynfeirdd ato, gw., e.e., GMB 23.32 (Elidir Sais), GCBM i, 24.4, R 1195.29 (Gruffudd ap Maredudd), 1197.28 (eto), 1198.28 (eto), 1241.40 (Casnodyn).
- 30 **llên** Cymerir mai'r ystyr 'ysgolheigion, offeiriad, gwŷr llên, clerigwyr' sydd yma, gw. GPC 2152.
- 33 **Machraith** Cyfeiriad at sant y cysegrwyd dwy eglwys iddo, y naill yn Llanfachreth, Môn, a'r llall ym Meirionnydd, gw. LBS iii, 393.
- 35 **Myrdd gyrdd gael ryael, medd ruad—beirdd-dorf** Treiglir *rhyael* a *rhuad* yma'n groes i Bl B XIV 156 a CTC 47. Cymerir bod *myrdd gyrdd gael* yn goleddfu *rhyael* a bod *medd* yn goleddfu *rhuad*.
- 36 **magwyr winllad** Am *magwyr* yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol am noddwr, cf. uchod 5.8n. Sylwer bod y gair yn f. yma er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol am Ieuan.

- 37 **Girioel** Fe'i deallir yn ffurf ar e. Gregori Bab, sef Gregori Fawr (590–604), prif hyrwyddwr a noddwr y fynachaeth Fenedictaidd gynnar a gŵr y cyfeirir ato'n fynych gan y beirdd fel patrwm o ddysg a huodledd. Arno, gw. ODCC 583–4 ac am gyfeiriadau ato yng ngwaith y beirdd, gw. G 525 d.g. *Geiryoel* a GIG 287.
- 38 **Dyfrig** Sef un o'r cynharaf o seintiau Cymru (*ob.* 612). Cysylltir ef yn bur gadarn â de-ddwyrain Cymru, ond yn ôl ei fuchedd yn Llyfr Llandaf, enciliodd i Ynys Enlli yn ei hen ddyddiau ac yno y bu farw ac y claddwyd ef. Crewyd chwedlau niferus amdano gan Sieffre o Fynwy yn ei gysylltu ag Arthur ac Archesgobaeth Caerllion. Ymhellach, gw. ByCy 164, LBS ii, 359–82, J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 147–8 a LWS 56–87, ac am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. G 415.
- 41 **Cad geimiad difrad ... eirchiaid** Derbyniwyd awgrym G 415 i ddiwygio *rit* y llsgr. yn *rat*, cf. Bl B XIV 157.
- 42 **yr ynys** Gellid ei ddeall yn gyfeiriad at ynys Prydain, ond fe'i deallir, yn hytrach, yn gyfeiriad at Ynys Môn. Ar diroedd Abaty Aberconwy ym Môn, gw. HAA 17–19, 108–11 a C.A. Gresham, 'The Aberconwy Charter', Arch Camb xciv (1939), 141–4, *id.*, 'The Aberconwy Charter; Further consideration', B xxx (1982–3), 318–21, 330–2, MAng 271–2. Nid amhosibl, fodd bynnag, *ynys* yn golygu 'dôl' yma, yn cyfeirio at yr abaty a safai ar lan Afon Conwy. Am restr o enwau lleoedd yn sir Gaernarfon sy'n cynnwys yr elfen hon, gw. ELISG 117–18.
- 48 **cannaid bais** Deallir hwn yn gyfeiriad at abidau gwynion y Sistersiaid.
- 49 **Bedaf** Gw. uchod ll. 17n.
- 51–2 **Cynnwys wŷr ... / Cynnull ffydd** Dilynir G 258, 259 a GPC 797 wrth ddehongli *cynnwys* yn a. a *cynnull* yn e.; ond ceid ystyr addas hefyd o'u deall yn ffurfiau berfol 3 un.pres.myn.
- 54 **Cariadwawr byrddfawr beirddfaeth** Cf. R 1222.29–30 *llary llaôn-ffraeth bennaeth beirduaeth bôrdueith* (Trahaearn Brydydd Mawr).

Aelod o linach Hwfa ap Cynddelw, pennaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd a swyddog yn llys Owain Gwynedd, oedd Hwlcyn ap Hywel ab Iorwerth Ddu.<sup>1</sup> Bu disgynyddion Hwfa yn dal tiroedd yng nghwmwd Llifon ers cenedlaethau lawer a chysylltir Hwlcyn a'i wehelyth yn arbennig â phlas

<sup>1</sup> Am ach Hwlcyn, gw. D.W. Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedem, Môn', AAST, 1969–70, 78–9.

Prysaeddfed ym mhlwyf Bodedern.<sup>2</sup> Ychydig iawn a wyddom i sicrwydd am Hwlcyn ei hun heblaw iddo fod yn rhingyll Talybolion rhwng 1392 a 1395 a hefyd yn 1397–8.<sup>3</sup> Mae'n bosibl iddo, fel ei dad o'i flaen a'i fab ar ei ôl, ffermio trefgorddau Cleifiog a Llanllibio yn Llifon.<sup>4</sup> Tybir iddo farw yn ystod gwrthryfel Glyndŵr, rywbryd wedi'r flwyddyn 1408.<sup>5</sup> Enwir ef ymhlith gwrthryfelwyr Llifon mewn cofnod a luniwyd yn ystod y flwyddyn ddilynol, ond ni ddywedir yno ei fod wedi ei ladd yn y gwrthryfel.<sup>6</sup>

Yr oedd yn y teulu draddodiad o noddi beirdd: lluniodd Bleddyn Fardd farwnad i orhendaidd Hwlcyn, sef Gruffudd ab Iorwerth ap Maredudd,<sup>7</sup> canodd Gruffudd Gryg i saith mab hendaidd Hwlcyn, sef Iorwerth ap Gruffudd, gan gynnwys ei daid, Iorwerth Ddu,<sup>8</sup> a bu o leiaf dri bardd, Guto'r Glyn, Hywel Cilan a Rhys Goch Glyndyfrdwy, yn moli wyrion Hwlcyn yn ystod y bymthegfed ganrif.<sup>9</sup> Ar wahân i gerdd Gruffudd Gryg, y cywydd hwn o waith Rhisiertyn yw'r unig ganu i'r teulu sydd ar glawr o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Crynoir prif thema rhan gyntaf y cywydd gan y cwpled trawiadol, *Digiwr wrth ei gymdogion, / Da wrth ddieithriaid o dôn'* (llau. 31–2). Yr hen ddyfais o wrthgyferbynnu haelioni eithafol noddwr tuag at ei gyfeillion a'i ffyrnigrwydd eithafol tuag at ei elynion sydd yma, a honno yn cael ei datblygu i'r eithaf gan y bardd.<sup>10</sup> Sylwer sut y cyfosodir y ddau rinwedd gwrthgyferbyniol hyn dro ar ôl tro, mewn cwpledi syml cofiadwy yn ogystal ag mewn brawddegau hirion llawn torymadroddi. Adrodd proffwydoliaeth 'padriarch' dienw ynglŷn â Hwlcyn a wneir yn ail ran y cywydd.<sup>11</sup> Anogir Hwlcyn gan yr 'hen ddewin' hwn i ymddwyn ac i weithredu yn anrhydeddus bob amser, i fynd ar bererindod i Gaersalem ac i weddio am gael mynediad i'r nef ar ddiwedd ei oes.

Anodd yw lloffa gwybodaeth am Hwlcyn ap Hywel o'r gerdd. Rhoddir ei ach hyd at ei daid (llau. 6–8) a gelwir ef *mab iôr Môn* (ll. 4), sonnir amdano fel *Caer dreiddiad* (ll. 3) ac fel *hyddysgyn clod* (ll. 6), ond nid oes yr un cyfeiriad penodol at droeon ei yrfa ac, o ganlyniad, amhosibl yw dyddio'r gerdd yn bendant. Ceir yr argraff, fodd bynnag, mai cerdd o foliant ac o

<sup>2</sup> Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth gyfoes yn cysylltu Hwlcyn â Phrysaeddfed ond sylwer ar y teitlau sydd uwchlaw'r cywydd yn llsgrau. A, C ac I.

<sup>3</sup> Gw. MAng 215.

<sup>4</sup> Gw. *l.c.*

<sup>5</sup> Bu'n dyst i weithred yn 1408 (gw. *l.c.*). Gthg. awgrym D.W. Wiliam, *art.cit.* 51, ei fod wedi ei ladd cyn 1406.

<sup>6</sup> Gw. D.W. Wiliam, *l.c.*

<sup>7</sup> Gw. GBF cerdd 56 a D.W. Wiliam, *art.cit.* 44–6.

<sup>8</sup> Gw. DGG 150–2 (cerdd LXXX) a D.W. Wiliam, *art.cit.* 48–52.

<sup>9</sup> Gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 53–9.

<sup>10</sup> Cf., e.e., GCBM ii, 4.145–52 *G6lyt 6rth 6lyt 6rth 6lad gyuanhet, / Gar6 6rth ar6 6rth a6r gyminet ...*

<sup>11</sup> Ymhellach ar y traddodiad brud, gw. ll. 53n.

anogaeth i wŷr ifanc ydyw a'r tebyg yw iddi gael ei chanu rywbyrd yn ystod saithdegau neu wythdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>12</sup>

Clymir dechrau llinellau'r cywydd hwn, fesul cwpled gan amlaf, gan gymeriad llythrennol a chynganeddol yn bennaf, ond ceir rhai enghreifftiau o gymeriad geiriol a synhwyrol yn ogystal. Ceir ynddo nifer cyfartal o gynganeddion croes, sain a thraws ac ambell gynganedd lusz.

- 1 **cad ddirwy** Cf. uchod 4.118 *camawn ddirwy*.
- 6 **hyddysgyn** Cymerwyd mai cyfuniad o'r a. *hyddysg* (GPC 1958) a'r terfyniad enwol *-yn sydd yma*.
- 9 **Yr hen gynneddf freisgreddf fry** Ystyrir mai *breisgreddf* yw'r darlleniad gorau yma, ond ceir odl ac ystyr hefyd o ddewis *breisgedd*, sef darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. (Enghraifft o 'odl gudd' fyddai *cynneddf/freisgedd f-*, gw. J. Morris-Jones: CD 168, 252–3.)
- 11 **Dwygrefft mab urddedigryw** Ceir *gŵr* mewn rhai llsgrau. yn lle *mab* ac *odidowgryw* yn lle *urddedigryw* ac anodd yw dewis rhyngddynt, cf. uchod 2.43–4 *Digrifwch, diau grefydd, / Dwy grefft bardd urddedig rodd*, H. Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927–9), 322 (ll. 35) *Dwygrefft wŷr odidowgradd* (Dafydd Llwyd). Mae'n debygol fod copiwy'r y cywydd hwn wedi cymysgu rhwng y llau. hyn.
- 14 **sorgrair ... sorgarwr** Diwygiwyd y ffurfiau a geir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau., sef *sorcrair* a *sorcarwr*, am y disgwyliad treigladd meddal ar ôl *sor-*. Ar *crair* yn golygu 'amddiffyn', gw. uchod 6.4n.
- 15 **i ddiraidd** Deellir *diraidd*, nad oes enghraifft arall ohono ar glawr, yn gyfuniad o'r rhagddodiad negyddol *di-* a'r e. *rhaidd* 'gwaywffon' gan gymryd mai'r ystyr yw 'diamddiffyn'. Er ei fod yn 'ddarlleniad haws', mae *ni ddiwraidd* llsgr. H yn bosibl hefyd, cf. 10.8 uchod, *O'i ddiwraidd, gwae'r byd, yn ei ddewredd*, a hefyd Brogyntyn I.2, 406<sup>v</sup> *ni ddiwraidd mwy nar dderwen* (Hywel Dafydd ab Ieuan ap Rhys).
- 19 **moesus** Cymerwyd mai ffurf wedi ei chreu drwy ychwanegu'r terfyniad ansoddeiriol *-us* at *moes* 'cwrteisi' sydd yma.  
**diddigus** Dehonglir y ffurf fel yr a. *diddig* gyda'r terfyniad *-us* fel yn *moesus* uchod.
- 22 **didostair** Cymerir mai cyfuniad ydyw o *didost* 'diboen, llawen' (G 330) + *gair*, cf. R 1216.19 *didostryd*.
- 23 **Ni wna (ni oeta ateb** Cf. R 1254.20–1 *yr neb ryô atteb nam ry oetta* (Gruffudd ap Dafydd ap Tudur).

<sup>12</sup> Gthg. y geiriau *ar gyfar 1400* a ychwanegwyd at y priodoliad ar ddiwedd y cywydd mewn llaw arall yn llsgr. C, a hefyd y teitl yn llsgr. C sy'n gosod Hwleyn yn amser Harri V.



- 28 **trawsedd** Ar ystyron da a drwg *trawsedd/trosedd* a'r cymysgu rhyngddynt, gw. DGG<sup>2</sup> 226 a cf. uchod 10.37n ar *trosedd*.
- 29–30 ... **awyr** / ... **llwyr** Odlir *awyr/llwyr*, gw. J. Morris-Jones: CD 238, 241, 302.
- 35 **noddau lwybr** Deellir *noddau* yn betrus yn ffurf l. *nawdd* (GPC 2556), a'r ymadrodd yn epithet am Hwlcyn ar batrwm GCBM ii, 9.12 *llwybr moliant*.
- Nudd** Gw. 4.75n uchod.
- 36 **ni thyng anudon** Cf. IGE<sup>2</sup> 116 (ll. 18) *ni thwng anudon* (Gruffudd Llwyd).
- tyng** Ar y ffurf amrywiol hon ar *twng*, gw. GCBM i, 24.162n.
- 38 **braidd na ddifa** Ar y gystrawen hon, gw. GIG 326.
- 41 **ni echwyn ef** Ar y cymysgu rhwng *ni* a *nid*, *na* a *nag*, &c., o flaen llafariaid yn y cyfnod hwn, gw. Treigladau 361–2.
- Unhwch nod** Diwygiwyd darlleniad y llsgrau., sef *yn uwch nod*. Un o elynion Urien Rheged oedd Unhwch y cyfeirir ato o bosibl yng nghanu Taliesin (CT/P Tal 13 (IX.6)), yng nghanu Llywarch Hen (CLIH 11–12 (III.1–4)) ac yng ngwaith Cynddelw Brydydd Mawr (GCBM ii, 9.155). Ymhellach, gw. EWSP 110, ac ar *unhwch* yn e.c., gw. CLIH 112.
- 43 **Peris** Sef *cardinal o Ruuein* yn ôl 'Achau'r Saint' a 'Bonedd y Saint' (EWGT 60, 70) a nawddsant eglwysi Llanberis a Llangian yn Arfon. Ymhellach arno, gw. LBS iv, 91–4.
- 46 **cymhorthi** Ar y dreth hon, gw. W. Rees, *South Wales and the March 1284–1415: A Social and Agrarian Study* (Oxford, 1924), 229–33.
- 47 **Onid ar rai, hoyw Gai ged** Llsg. I *eithr ar rai hoyw gai ged*. Mae'r ll. fel yr ymddengys yn y llsg. yn fyr o sillaf ac, o bosibl, wedi ei diwygio gan gopïydd a gredai fod naill ai *eithr* neu *hoyw* yn ddeusill. Gw. hefyd 5.36 uchod.
- Cai** Am gyfeiriadau'r beirdd at y cymeriad Arthuraid hwn, gw. G 122–3 a TYP<sup>2</sup> 306.
- 48 Am enghraifft bellach o l. yn cynnwys *r wreiddgoll*, gw. T. Parry, 'Pynciau Cynghanedd', B x (1939–41), 2
- 53 **padriarch** Cymerir mai 'hynafgwr a oedd yn awdurdod ar yr hen ddaroganau' yw'r ystyr yma, cf. yr hanes am Owain Glyndŵr yn ymgyngori â Hopgyn ap Tomas 'as he huld maister of Brut, that he schuld do hym to understonde how and what maner hit schold be falle of hym' (H. Ellis, *Original Letters* (second series) i (London, 1827), 21–3), ac am Harri VII yn galw heibio i'r brudiwr Dafydd Llwyd o Fathafarn ar ei ffordd i Faes Bosworth (gw. E. Roberts, *Dafydd Llwyd*

*o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 5–6). Cf. hefyd anogaeth Iolo Goch i Edward III gyflawni'r ddarogan (GIG cerdd I), a hefyd, efallai, esboniad 'henuriad' ar 'freuddwyd' Iolo Goch yn y cywydd i Syr Hywel y Fwyall (*ib.* cerdd II). Ar y traddodiad brud, gw. G. Williams, 'Prophecy, Poetry and Politics in Medieval and Tudor Wales' yn *Religion, Language and Nationality in Wales* (Cardiff, 1979), 71–86.

57–8 **'Ar awr dda ... / O'th ddawnus hynt, y'th aned** Cf. GIG 2 (I.7–9) *Ar awr dda, arwraidd iôr ... / Y'th aned o'th ddaioni.*

57 **cyneddfa** Dehonglir y ffurf yn gywasgiad o *cynneddf-dda*.

60 **Caersalem** Am dystiolaeth ynglŷn â phererindota gan Gymry i'r Tir Sanctaidd yn ystod yr Oesoedd Canol, gw. GMB 27.39n (Einion ap Gwalchmai) a GDB cerdd 36 ('Cwyn y Pererin'). Am y cyfeiriadau at *palmer* a *palmeres* yng ngwaith Dafydd ap Gwilym a Lewis Glyn Cothi, gw. GDG<sup>3</sup> 525.

61 **ymaddef** Sylwer mai darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. yw *a maddef*. Yma diwygir yn betrus yn *ymaddef* (cf. *cyfaddef*).

62 **Myned ar neued i'r nef** Cymerir mai bai am *neued* (GPC 2576) yw'r ffurf *nawed* a ddigwydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. Sylwer, fodd bynnag, fod *nawed* yn digwydd fel amrywiad ar *nawfed* (cf. darlleniad llsgr. C) yng ngwaith Tudur Aled, gw. GPC 2557.

## *Mynegai*

- achubiad** 7.34  
**adeiliad** 4.12n  
**aerdrwf: aerdyrfau** 4.73  
**aerddrud** 6.25  
**aerfathryn** 6.81n  
**aerferyf: aerferïon** 4.72n  
**aerflaidd** 6.30  
**aerflin** 6.57  
**aergad** 4.102  
**aergamawn** 4.40n  
**aerlafar** 4.11  
**agwedd** 5.21n  
**angerddruthr** 4.47  
**anghad** 4.16  
**angor** 4.125n  
**angwy** 4.18  
**amgeledd** 5.28  
**amod** 5.16n  
**anardd: aneirdd** 6.23  
**ansalwedd** 5.11  
**anwylddoeth** 6.18  
**anwylgain** 5.3  
**ar** 4.36  
**arawd** 6.75n  
**ardal** 4.33n  
**arddwys** 6.64  
**arf: eirf** 4.71, 83  
**arfod** 7.15n  
**arfrudd** 6.1  
**argystwy** 4.120n  
**arial** 7.23  
**aros** 4.34  
**arwedd** 5.5n  
**arwydd: arwyddion** 4.2  
**awdur** 4.110, 122  
**awenllu** 4.6  
**awr: oriau** 4.49n  
**baniar** 4.19  
**barant** 4.29  
**barddair** 4.54  
**beirdd-dorf** 7.33  
**beirddfodd** 6.112  
**blwyddyn: blwynyddedd** 5.26n  
**bod: bydd** 4.125n  
**brad** 6.35  
**bradrin** 6.65n  
**bradruthr** 4.71  
**breisg-gorff** 5.24n  
**breisglud** 4.37  
**breisgreddf** 8.9n  
**brenhinchwedl** 8.17  
**brenhinwledd** 8.73  
**briwgorf: briwgyrf** 6.42  
**briwgorff: briwgyrff** 4.14  
**brwysg** 4.37  
**brwysgedd** 5.24  
**Brynaich** 6.106n  
**budd** 4.30  
**buddwledd** 7.20  
**bueilsathr** 5.23  
**bwbach** 8.51  
**bwlech: bylchau** 4.61  
**bwlechfur** 6.80n  
**bwrdd-dabl** 4.95  
**bwrddfalch** 6.112  
**bwriad** 5.27n  
**byddindarw** 6.51  
**bylchem: bylcheim** 5.28n  
**bylchfin** 6.80  
**byriad** 7.13n, 23  
**cabl: ceibl** 5.20n  
**cadair** 4.28, 5.18  
**caenddur** 4.32  
**caenfedd** 6.13  
**cainc** 4.55n  
**calonnus** 6.8

- camawn** 4.58  
**cannaid** 7.48n  
**cannyn** 8.40  
**canon** 4.59  
**caredd** 5.17  
**cartrefrwydd** 7.9  
**castellgraig** 4.89  
**catgaen** 4.64n  
**ceinddewr** 4.32  
**ceinllin** 6.67  
**ceinllyw** 6.94  
**celfyddgoel** 7.37  
**cenau** 4.59  
**clau** 4.12  
**clêr** 5.24 **cleroedd** 6.81  
**cliffid** 4.113n  
**clo** 6.88  
**clodnerth** 6.3  
**clud** 6.88, 114  
**coetgi: coetgwn** 4.64  
**crair** 6.4n, 111  
**creulaif** 4.119  
**croywles** 4.119n  
**croywradd** 6.111  
**cudd** 6.87n  
**curiwr** 4.10n  
**cychwyrn** 4.91  
**cyd-ddenwr** 6.6  
**cyfair: cyfeiriau** 4.63  
**cyfannedd** 5.9  
**cyfedd** 4.93n  
**cyflawndaith** 8.59  
**cyfymliw** 6.108  
**cyffrydiwr** 6.76  
**cymain'** 8.24  
**cymen** 4.58  
**cymhendod** 5.19  
**cymhorthi** 8.46n  
**cymysg** 6.57  
**cyneddfa** 8.57n  
**cynfyl** 6.100  
**cynllug** 6.94n  
**cynnydd** 7.7  
**cythrudd** 4.29  
**dadlau** 4.65  
**daeerin** 6.88  
**dâr** 6.12n  
**dauddyblyg** 8.50  
**dedryd** 6.93  
**deddf: deddfau** 4.86  
**deigrdwysg** 6.85  
**delltwr** 6.17  
**deulid** 6.60  
**dewrair** 4.42  
**dewrfaedd** 6.31  
**dewrffysg** 6.58  
**dewrllid** 4.105  
**dewrwaisg** 6.68  
**dianhunedd** 5.35n  
**dianllad** 7.22  
**diau** 4.43n  
**dibrid** 4.106  
**didestun** 8.22  
**didlawd** 4.65  
**didostair** 8.22n  
**diddigus** 8.19  
**difrisg** 5.15  
**difrwysg** 4.45n  
**difurniad** 4.27  
**digamau** 4.78  
**digardd: digeirdd** 6.104  
**digloff** 5.29  
**di-grin** 6.71  
**digruthr** 6.52  
**digymaredd** 5.30n  
**dilechiad** 4.15  
**dilwfr** 4.81  
**diomedd** 5.16  
**diornair** 5.14n  
**diraidd** 8.15n  
**dirusiad** 4.36  
**dirwy** 8.1  
**disegur** 4.109  
**disgyniad** 7.28  
**diwagiaith** 4.26  
**diwarth** 4.48

- diwladaidd** 8.21  
**diwyd** 4.108  
**diwynfyd** 6.104  
**doethfab** 7.44  
**doethiaith** 4.132  
**dôr** 4.41  
**drudlaith** 4.131  
**drudlorf: drudlyrf** 6.60  
**durbar** 6.56  
**durflaen** 6.30  
**durfyng** 6.31  
**durgorf** 6.94  
**dwydrin** 6.93  
**dwygrefft** 8.11  
**dwyrodd** 8.1  
**dwysgannaidd** 7.28  
**dyedd** 6.89n  
**dyfr: dyfredd** 5.27  
**Einglgrwydr** 4.9n  
**elw** 4.81  
**enaid** 6.20, 7.2n  
**eniwed** 8.48  
**enyngad** 4.9n  
**erddwrn: erddyryn** 4.128  
**erlifiad** 4.11  
**eryf** 4.93n  
**esgudfryd** 6.108  
**eurbost** 6.79  
**eurdad** 4.33  
**eurfad** 7.15  
**eurfro** 6.1  
**eurgadr** 6.72  
**eurged** 4.102  
**eurgostus** 4.120  
**eurgroyw** 4.53, 5.36n  
**eurllaw** 6.54  
**eurnaf** 6.110  
**eurswllt** 5.10n  
**Ffranc: Ffrainc** 4.56n, 6.69n  
**ffrawdd** 4.15n  
**gair** 4.7  
**geirgras** 4.94  
**geirw** 5.27  
**gellwng** 4.30  
**gem** 5.12n  
**glewbraff** 4.82  
**glewlaif** 4.22  
**glewnaws** 4.1  
**glud** 5.27  
**goddaith** 4.131n  
**goleubwyll** 8.35  
**goleuwedd** 5.7  
**gorflaen** 6.57  
**gorhoffedd** 5.25  
**gorsedd** 5.10n  
**gorseddol** 8.34  
**gorwlad** 8.40  
**gorwydd** 4.125n  
**gostyngiad** 4.18  
**greddf** 4.5n  
**grym** 4.5n  
**gwaedlin** 6.56  
**gwaetffrau** 4.11, 76  
**gwallawgorn: gwallawgyrn** 4.13, 7.5  
**gwanfardd: gwanfeirdd** 6.104  
**gwareddiad** 7.6n  
**gwasgod** 5.11  
**gawwdlan** 6.100  
**gawwdlwydd** 6.56  
**gawwtffrawdd** 4.76n  
**gawwtglaer** 6.11, 75  
**gawwtgledd** 6.11  
**gweilging** 7.15  
**gwendorf** 6.94  
**gwenlwys** 5.10n  
**gwenllaw** 7.43  
**gwinblas** 4.123  
**gwingost** 6.1  
**gwinllad** 4.6, 83, 7.36  
**gwinllys** 5.10, 7.43  
**gwisgiad** 4.32  
**gwiwdeg** 6.27n  
**gwiwryw** 5.36  
**gwyarllafn** 4.31  
**gwybod: gwybodau** 4.77

- gwyd** 4.17n, 69  
**Gwyndodeg** 6.26  
**Gwyndodydd** 4.3  
**Gwyndyd** 6.94  
**gwyngor** 6.2  
**gwynllorf** 7.36  
**haearn: hëyrn** 4.127  
**haelfab** 4.8  
**haelwar** 5.33  
**haelwawr** 6.67  
**hardd-drafn** 6.55  
**harddedd** 5.1  
**harddlaifn** 4.111n  
**hawl: holion** 8.33  
**heilgost** 6.79  
**heilwin** 6.67  
**heulwedd** 5.33  
**hirdrin** 6.55  
**hirddawn** 4.107, 5.1  
**hirwayw** 4.112  
**hirwen** 5.5  
**holiwr** 4.48  
**hoysdad** 7.27  
**hoysdal** 5.6n  
**hoysfraich** 6.106  
**hoyswad** 4.4  
**hoyswamp** 5.8n  
**hoyswlin** 6.84  
**hwyl** 4.110, 8.25  
**hydaer** 4.105  
**hyddysgyn** 7.6n  
**hyffawd** 5.25n  
**hyglau** 4.62  
**hylonydd** 7.20  
**hylud** 4.106  
**hylum** 4.109  
**hyrddarf** 6.80  
**hywledd** 5.8, 6.84  
**hywlydd** 4.4  
**iaith** 4.100n  
**iawnbwynt** 8.67  
**iawnllythr** 7.22  
**iawnward** 5.20  
**ieithfydr** 4.7  
**ieithrym** 7.23  
**inseilwawd** 5.11  
**irgrau** 4.53, 94  
**llafnddur** 4.121  
**llafur** 4.131  
**llareiddwyn** 7.29  
**llathrber** 4.53  
**llathrgrair** 7.32  
**llathrwalch** 6.26  
**llawchfeirdd** 4.123  
**llawr** 7.13n  
**llawrodd** 4.121  
**llên** 7.30n  
**llesfardd:llesfeirdd** 4.6  
**lletbai** 7.11  
**llifgrau** 6.11  
**llithr: llithrau** 6.65n  
**llithrwaed** 6,25  
**lliwrudd** 4.121  
**llu** 4.21n  
**lluchiad** 4.31  
**lluchynt** 4.15, 51  
**lluniad** 5.14  
**lluwchwisg** 5.15  
**llwrf** 4.132, 6.48  
**llwybrfryd** 6.71n  
**llygad** 4.13n  
**llymgledd** 4.99  
**llysfwrdd** 4.6  
**llythr** 5.13  
**llywydd** 4.4  
**mael** 4.67n  
**maenol** 5.15  
**maerdy: maerdyau** 4.83  
**magwyr** 5.8n, 7.36  
**maner: manerau** 4.85n  
**mawlair** 5.18  
**mawlderdd** 5.9  
**mawlwrdd** 4.86  
**mawrdwf** 5.17n  
**mawredd** 4.100  
**mawrgorf** 7.36

- mawrnerth** 7.31  
**meddlad** 7.5  
**meddylffyrf** 6.70n  
**moddlwydd** 7.5  
**moesus** 8.19n  
**murniad** 7.31  
**mynawgwyp** 5.21  
**nawdd: noddau** 8.35n  
**nerth** 4.18n  
**nerthair** 6.109  
**neued** 8.62  
**ongyr** 4.9  
**osb: esbyd** 4.107  
**padrïarch** 8.53  
**pais** 7.48n  
**pall** 5.1n  
**pâr: parau** 4.23n  
**parchu: parchai** 4.10  
**parthair** 7.32  
**paun** 4.24n  
**peleidr** 4.17  
**pell** 4.20  
**pensel** 6.34n  
**pill** 5.1n  
**praidd** 4.18n  
**pridwr** 6.32  
**priddlawr** 6.87n  
**priflwys** 5.7n  
**profadwy** 4.110  
**rhaglwyddo: rhaglwyddodd** 4.68  
**rhagor** 4.23, 79, 88  
**rheidr** 4.17  
**rhewin** 4.35  
**rhisg** 4.80  
**rhoddiw** 6.100  
**rhuad** 7.35  
**rhuddwayw** 6.100  
**rhuddwr** 4.75  
**rhwy** 4.7, 7.1n  
**rhwyddglod** 4.74  
**rhwygiad** 4.23  
**rhwysg** 4.37  
**rhyael** 7.35  
**rhydaer** 4.36  
**rhydeg** 4.78, 6.45n  
**rhyddewr** 4.40, 76, 6.4  
**rhyddglod** 4.74n  
**rhyfawrthin** 6.85n  
**rhyw** 4.33, 75  
**sadwaith** 8.63  
**saer** 6.36  
**serth** 4.17n  
**sorgarwr** 8.14n  
**sorghair** 8.14n  
**soriad** 8.13  
**suddaer** 4.57n  
**suddo: suddai** 6.33  
**syml** 8.42  
**taerddysg** 6.58  
**taerfur** 4.14n  
**taladwy** 4.116  
**taradr** 6.17, 72  
**tewglod** 4.62  
**toredwynt** 4.15  
**traethawd** 7.21  
**trafn** 6.12n, 71  
**traffyrf** 6.60  
**tragorfod** 4.87  
**tragorllin** 6.54n  
**trallwyr** 6.15  
**tramgwydd** 6.105  
**traul** 4.10n  
**trowsedd** 8.28n  
**trechaf** 4.21n  
**treiddiad** 8.3  
**treistwyn** 6.99  
**treulwledd** 6.73n  
**trillid** 6.15  
**tro** 8.42  
**tromfron** 6.101  
**trosedd** 4.99, 5.31n  
**trumiog** 4.112  
**trwsiad** 4.1  
**trwyddied** 4.97  
**trymfryd** 6.101  
**tyngu: tyng** 8.36n

- tyrfwr** 4.14  
**uchelbraw** 6.91  
**udfa** 6.103n  
**ufel** 6.77n  
**urddedig** 6.47  
**urddedigryw** 8.11  
**urddreg** 6.25  
**uthrddraig** 4.89  
**wylio** 6.46n  
**wysg** 6.27n  
**wythrif** 4.99  
**yng** 6.31  
**yngder** 4.115n
- ymaddef** 8.61n  
**ymefin** 6.74n  
**ymgnith** 4.71  
**ymladd-dorf: ymladd-dyrf** 6.59  
**ymleiddiad** 4.41  
**ymorol** 5.30n  
**ymwasg** 8.16  
**ynad** 4.7n, 7.2  
**ynial** 4.103  
**ynys** 7.42n  
**ysgwthr** 6.35  
**ysgwydfriw** 6.108



*Enwau personol*

- Afarwy** 4.100n  
**Alaswy** 4.104n  
**Amlyn** 4.97n  
**Aneirin** 6.75n  
**Arthur** 6.85n  
**Bedaf** 7.17n, 49  
**Berned** 7.18n  
**Beuno** 6.2n, 7.19n  
**Cai** 8.47n  
**Clydno** 6.3n **Clydno Eiddin** 6.93  
**Crist** 6.109  
**Custennin** 6.73n  
**Cynfyn** 6.14n  
**Cynon** 6.106n  
**Dared** 4.47n  
**Dolffin** 6.78n  
**Dyfr<sup>1</sup>** 4.46n  
**Dyfr<sup>2</sup>** 5.31n  
**Dyfrig** 7.38n  
**Echel** 6.22n, 68  
**Edwin** 6.89n  
**Efrog** 4.69n  
**Eidol** 4.67n  
**Eigr** 5.36n  
**Elffin** 6.70  
**Elywlad** 4.22n  
**Erbin** 6.79n  
**Gadwy** 4.92n  
**Garwy** 4.126n, 6.41  
**Girioel** 7.37n  
**Goronwy** 4.7, 43, 90 **Goronwy**  
**Fychan** 5.34  
**Gruffydd** 6.18, 98  
**Gweirydd** 6.98n  
**Hwlcyn** 8.6, 26, 27  
**Hywel<sup>1</sup>** 6.22, 37, 97, 107, 110  
**Syr Hywel** 6.37  
**Hywel<sup>2</sup>** 8.7  
**Iesu** 4.5  
**Ieuan** 7.25  
**Iorwerth** 8.8  
**Llachau** 4.31n, 51  
**Lleon** 4.2n  
**Llŷr** 4.125n  
**Machraith** 7.33n  
**Mair** 6.109, 111  
**Melwas** 4.123n  
**Moesen** 7.29n  
**Morien** 4.82n  
**Murel** 4.81n  
**Myfanwy** 5.7  
**Myrddin** 6.86n  
**Nudd** 4.75n, 6.13, 8.35  
**Olifer** 4.115n  
**Paredur** 6.32n  
**Peris** 8.43n  
**Rhun** 4.73n  
**Rhyawd** 6.27  
**Rhys** 7.44  
**Trindod** 7.40  
**Tryffin** 6.60n  
**Trystan** 4.16n  
**Tudyr** 4.9n, 59, 101  
**Unhwch** 8.41n  
**Yniwl** 4.96n

*Enwau lleoedd***Berwy** 4.96n**Caersalem** 8.60n**Celynnog** 6.8n, 9**Conwy** 7.1**Chwilog** 6.48n, 49**Dindaethwy** 4.132n**Dinsylwy** 4.124n**Eiddin** 6.92n**Eiddionydd** 6.20n, 21, 98**Ergin** 6.72n**gwlad Ogledd** 5.29n**Gwynedd** 4.13, 93, 107, 117,  
6.96**Maenan** 7.13n**Môn** 4.4, 50, 8.4, 5.30**Penmynydd** 4.125n**Perfeddwlad** 7.20n**Powys** 5.8**Tawy** 4.108n

GWAITH GRUFFUDD FYCHAN  
AP GRUFFUDD AB EDNYFED

golygwyd gan

ERWAIN HAF RHEINALLT



# Rhagymadrodd

## Y bardd

Ni chadwyd nemor ddim gwybodaeth am Ruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'r cerddi a phrin yw'r dystiolaeth uniongyrchol am y bardd yn y rheini. Ni sonnir amdano yn yr achau, ond mewn llawysgrif o'r ddeunawfed ganrif ceir dau nodyn yn llaw Evan Evans 'Ieuan Fardd' yn cyfeirio at Ruffudd Fychan fel gŵr o Farchwiail,<sup>1</sup> sef plwyf yng nghwmwd Maelor Gymraeg yng nghantref Bromfield.<sup>2</sup> Gwelir bod i Ruffudd Fychan gysylltiad arbennig ag ardal Maelor gan fod Rhisiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Emral ym Maelor Saesneg yn noddwr iddo.<sup>3</sup> Yn yr achau<sup>4</sup> rhestrir gŵr o'r enw Gruffudd ab Ednyfed o Sonlli, ardal ym mhlwyf Marchwiail,<sup>5</sup> ond un mab yn unig iddo a enwir, sef Llywelyn. Fodd bynnag, gosodir dyddiad geni'r Gruffudd ab Ednyfed hwn gan P.C. Bartrum c. 1330; gosodai hynny ddyddiad geni ei fab c. 1360–70, sydd braidd yn rhy ddiweddar ar gyfer y bardd yn ôl tystiolaeth y cerddi isod.

## Noddwyr a dyddiadau

Credai John Davies Mallwyd mai bardd o ganol y bymthegfed ganrif oedd Gruffudd Fychan,<sup>6</sup> ond mae hynny'n amlwg yn wallus. Canodd y bardd awdl foliant i Ddafydd Fychan ap Dafydd Llwyd (cerdd 9) y gwyddys hyd sicrwydd iddo fod yn fyw rhwng 1346 a 1377.<sup>7</sup> Credir i Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen, gwrthrych yr ail awdl fawl isod (cerdd 10), farw yn 1366.<sup>8</sup> Ni ellir dyddio'r gerdd yn fanylach na hynny, dim ond awgrymu iddi gael ei chanu ar ôl 1331, sef dyddiad marw tad Hywel, Goronwy ap Tudur Hen, oherwydd ymddengys ei fod wedi marw erbyn ei chanu.<sup>9</sup> Wrth gyfeirio at fam Hywel, Gwerful, dywed y bardd ei bod yn arferol iddo gael nawdd yn ei

<sup>1</sup> Gw. LIGC 21287B, 21', *Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed o Farchwiail a 33' Gruffudd Fychan o Farchwiail*.

<sup>2</sup> Gw. WATU 153.

<sup>3</sup> Gw. cerdd 11 isod ac am diriogaeth Maelor Saesneg, gw. WATU 148.

<sup>4</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Tudur Trefor' 42.

<sup>5</sup> Gw. WATU 178.

<sup>6</sup> Rhydd John Davies y dyddiad 1460 ar ei gyfer yn yr adran ar feirdd Cymraeg yn D; dilynyd ef gan Samuel Williams sy'n nodi, yn Llist 145D, 40' ... *Gr. Fychan (1460) ...; ib. 43' Gruffydd Fychan ab Gruffydd ab Ednyfed a'i cant floruit 1460*.

<sup>7</sup> Ymhellach ar Ddafydd Llwyd, gw. y nodiadau cefndir i gerddi 1, 9 a 13.

<sup>8</sup> Gw GIG 199–200 ac AWH 192–3.

<sup>9</sup> *O'i ddiwraidd, gwae'r byd, yn ei ddewredd* (10.8) meddir am dad Hywel, Goronwy ap Tudur Hen.

bro, a gallai hynny olygu ei fod wedi canu iddi hi a'i gŵr yn y gorffennol.<sup>10</sup> Yr oedd Rhisiart ap Syr Rhosier Pilstwn, y canwyd iddo'r unig gywydd o eiddo Gruffudd Fychan a orosodd (cerdd 11), yn ei flodau yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg a chredir iddo farw tua 1388.<sup>11</sup> Cesglir i'r cywydd gael ei ganu ar ôl i Risiart briodi, oherwydd enwir ynddo ei wraig Lleucu. Cyfeirir hefyd at Risierdyn, sef, yn ôl pob tebyg, y bardd y golygir ei waith uchod (cerddi 4–8), a chredir iddo ef ganu yn ystod chwedegau a saithdegau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.<sup>12</sup> Ni ellir, felly, ond amcanu bod Gruffudd Fychan wedi canu yn ystod trydydd chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg; ond mae'n bosibl ei fod wedi canu mor gynnar â thriedegau'r ganrif honno.

Diddorol yw'r cyfeiriad hwn at Risierdyn, gan ei fod yn awgrymu i'r ddau fardd gael eu noddi yn Emral ac, wrth gwrs, eu bod yn adnabod ei gilydd. Gwelir hefyd i'r ddau ganu i aelodau o deulu Penmynydd: Rhisiardyn i Oronwy Fychan a'i wraig Myfanwy, a Gruffudd Fychan i Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen, ewythr Goronwy Fychan.<sup>13</sup> Mae'n dra phosibl fod y ddau fardd wedi cyfarfod ym Môn yn un o lysoedd teulu Penmynydd, neu, a chofio bod Gruffudd Fychan yn hanfod o bosibl o Farchwiail, yn llys Rhisiart Pilstwn ym Maelor Saesneg.

### *Y cerddi*

Cadwyd inni 539 llinell o waith Gruffudd Fychan mewn tair awdl ac un cywydd. Mae un o'r awdlau (cerdd 12) yn gerdd grefyddol hirfaith i Grist a Mair a'r ddwy arall, a drafodwyd uchod, yn awdlau o fawl i Ddafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir (cerdd 9) ac i Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen (cerdd 10). Cywydd i Risiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Faelor Saesneg yn gofyn telyn yw'r bedwaredd gerdd (cerdd 11). Mae'n ddiddorol mai cywydd a ganodd Gruffudd Fychan i Risiart, yn hytrach nag awdl.<sup>14</sup> Yn sicr mae'r cywydd yn gweddu'n well na'r awdl i gerdd ofyn o'i math, ond gellid hwyrach gynnig rheswm arall. Yr oedd yr awdl wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn y traddodiad barddol, ac yr oedd ei hieithwedd gain ac astrus ar brydiau yn nwylo beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn sicr yn peri ei bod yn annealladwy i lawer. Byddai canu o'r fath yn sicr o gael gwell derbyniad mewn llys ac iddo hanes hir o noddi barddoniaeth lys yn hytrach

<sup>10</sup> Gw. isod 10.12 *Yn ei gwiwlys fro caem amgeledd*. Yr oedd Gwerful yn hanfod o'r Hendwr yn Edeirnion (gw. y nodyn cefndir i gerdd 10 isod), ac mae'n bosibl mai dweud y mae Gruffudd iddo ganu i'w theulu cyn iddi symud i Fôn.

<sup>11</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Puleston', R.A. Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', LICy xii (1972–3), 22 a gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 11 isod.

<sup>12</sup> Gw. y rhagymadrodd i waith Rhisiardyn, uchod.

<sup>13</sup> Gw. uchod cerddi 4, 5 ac isod cerdd 10.

<sup>14</sup> Er mai cywyddau gofyn sydd fwyaf cyffredin yn y ganrif hon a'r ganrif ddilynol, sylwer bod Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, yntau, wedi canu awdl i ofyn am fwa (R 1253).

na llys newydd fel Emral a'i arglwydd yn uchelwr o dras estron.<sup>15</sup>

Er mai peryglus yw cyffredinoli ar sail pedair cerdd, ymddengys fod yr englyn yn un o hoff fesurau Gruffudd Fychan a llwyddodd i'w feistrolï'n gelfydd yn yr awdl grefyddol. Egyr moliant Dafydd Fychan (cerdd 9) gyda gosteg o wyth englyn lleddfbroest<sup>16</sup> a gysylltir â chyrch-gymeriad; dilynir y rhain gan wyth pennill o wawdodyn byr ar yr odl *-wydd*. Ceir cymysgedd o fesurau yn awdl foliant Hywel ap Goronwy (cerdd 10): englyn proest dalgron i agor, yna deg toddaid ar hugain ar yr odl *-edd*, un englyn unodl union, pennill proest o chwe llinell<sup>17</sup> ac wyth englyn unodl union i gloi (y chwech cyntaf ar yr odl *-ad* a'r ddau olaf ar yr odl *-wyf*). Ceir yn 'Awdl i Grist a Mair' (cerdd 12) dri englyn a thrigain sy'n gymysgedd o englynion lleddfbroest, englynion proest dalgron, englynion proest estynedig ac englynion unodl union.<sup>18</sup> Fe'u dilynir, megis yng ngherdd 9, gan wyth pennill o wawdodyn byr, y tro hwn ar yr odl *-ad*.

Nodweddir cerddi Gruffudd Fychan gan geinder eu saerniaeth. Gwna ddefnydd helaeth a chywrair o gymeriadau o bob math ar ddechrau llinellau<sup>19</sup> a cheir ganddo gyrch-gymeriad yn cysylltu englynion a phenillion â'i gilydd; yng ngherdd 10 gwelir iddo ddefnyddio cyrch-gymeriad bob tro mae'n newid y mesur, neu yn achos 10.98–9, pan fo'n newid yr odl. Gwelir hefyd fod diwedd pob un o'r awdlau yn cyrchu ei dechrau.

Ni ddefnyddir cyrch-gymeriad ar raddfa mor eang yn yr awdl grefyddol ond gellir dadlau bod yr elfen storïol a fframwaith thematig myfyrdod y bardd yn rhoi undod i'r gerdd hon ac amlycach felly yw'r defnydd o gymeriad synhwyrol ynddi. Ond unwaith eto, defnyddir cyrch-gymeriad i gydio dau ganiad yr awdl ac mae ei diwedd yn cyrchu ei dechrau. Gwelir yn yr awdl hon ddefnydd celfydd o rethreg, ac yn arbennig o ailadrodd, gan chwarae â gwahanol ystyron geiriau.<sup>20</sup>

Prinnach yw'r defnydd o gymeriadau yn y cywydd (cerdd 11), er bod y defnydd o gymeriad llythrennol yn cynyddu tua'r diwedd. Fel yn awdl Dafydd Fychan (9.49–64), ailadroddir y gair *fy* i gyfleu dwyster y berthynas rhwng y bardd a'r sawl y cenir iddo.<sup>21</sup>

<sup>15</sup> Ymhellach ar deulu'r Pilstyniaid yn Emral, gw. y nodyn cefndir i gerdd 11 isod.

<sup>16</sup> Gw. J. Morris-Jones: CD 325.

<sup>17</sup> Cf. 12.83–8 a gw. J. Morris-Jones: CD 326–7 lle esbonnir, 'fe ddechreuwyd canu penillion proest o chwe llinell yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ... Fe geir aml un yn ddiweddarach ymysg englynion mewn awdlau ... Prin yr [sic] gellir galw pennill o 6 llinell yn englyn, onid edrychir arno fel englyn milwr dwbl.'

<sup>18</sup> Sylwer bod ll. olaf yr englyn unodl union yn llau. 169–72 yn eisiau yn yr holl lsgrau.

<sup>19</sup> Sylwer, e.e., fod pob ll. o gerdd 10 hyd at l. 74 yn dechrau â llafariad.

<sup>20</sup> Gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 12 isod a cf. 9.49–64 lle ailadroddir *fy* bedair gwaith ar hugain mewn 16 ll., gan gynyddu'r amledd o unwaith y ll. i deirgwaith y ll. erbyn y pedair ll. olaf, gan bwysleisio agosrwydd perthynas y bardd a'r noddwr.

<sup>21</sup> Ailadroddir y gair *fy* gyda'r un effaith uchod 7.1–12 a chan Lewys Glyn Cothi yn 'Marwnad Siôn y Glyn', gw. D. Johnston, *Galar y Beirdd* (Caerdydd, 1993), 104 (llau. 31–42).

Mae awdlau moliant Gruffudd Fychan yn dangos parhad ceidwadaeth canu'r Gogynfeirdd o ran themâu a delweddau. Molir Hywel a Dafydd, fel Rhisiart yn y cywydd gofyn, am eu milwriaeth, gan bentyrru geiriau cyfansawdd yn null y Gogynfeirdd. Ymdeimlir â grym milwrol y gwrthrych mewn cyfuniadau megis *rhisgddur rhwysgddawn* (11.38), *glyngur galongael* (11.39), *paladrfras pelydrfrwydr* (11.42), *diwreidd-dwr deurudddeg* (11.44) a *tromgad trymgawdd* (11.67). Fel y gwelir yn y nodiadau ar y cerddi isod, defnyddia'r bardd nifer o epithetau a chyfuniadau y ceir adleisiau ohonynt ym marddoniaeth y Gogynfeirdd, sy'n awgrymu bod ei grefft wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn nhraddodiad ei ragflaenwyr. Molir y noddwyr am eu milwriaeth danbaid ar faes y gad a'u haddfwynder a'u haelioni yn y llys, sef cynnwys moliant y Gogynfeirdd. Gwelir yma sawl topos sy'n gyffredin yng nghanu'r Gogynfeirdd, megis 'arwr yr arfau toredig' a'r 'llys hawdd ei gyrraedd'.<sup>22</sup> Mae'r bardd yn ymwybodol o'i swyddogaeth i daenu clod ei noddwr ar led yn gyfnewid am rodd; dywed wrth Risiart,

Anfoned merch [*sc.* telyn], arffed medd,  
I ganu i wŷr Gwynedd;  
Anfonaf, urddaf erddaw  
Ei glod hyd y rhywlych glaw (llau. 73–6).

Mae 'Awdl i Grist a Mair' (cerdd 12) yn adlewyrchu parhad traddodiad canu crefyddol y Gogynfeirdd o ran ei syniadaeth ac amlygir yma rai o'r paradocsau ynglŷn â genedigaeth Crist a fynegir yn gyffredin yn nhestunau crefyddol yr Oesoedd Canol.<sup>23</sup> Nid yw'n gerdd gymhleth o ran arddull a geirfa a cheir ynddi gynllun gweddol drefnus wrth i'r bardd symud o un thema neu hanes i'r nesaf. Er hynny, gellid edrych ar rai adrannau ohoni fel cerddi unigol neu annibynnol fel y gwnaed mewn rhai llawysgrifau.<sup>24</sup>

### *Y llawysgrifau*

Mae'r testun cynharaf o gerddi 9, 10 a 12 yn J 111, sef Llyfr Coch Hergest, yng ngholofnau 1292–6, 1298–1300, yn llaw Hywel Fychan.<sup>25</sup> Codwyd y testun gan Siôn Dafydd Rhys yn Pen 118 ac mae'n dra thebygol mai'r llawysgrif honno oedd ffynhonnell John Davies ar gyfer ei gopi ef o'r cerddi

<sup>22</sup> Gw. 9.31–2 *Hwylaw lle bo draw, poed rwydd, / Hoywgu orchwyl hygyrchaidd*. Cf. hefyd gywydd moliant Guto'r Glyn i dŷ newydd Hywel ab Ieuan o Foelyrch, GGI<sup>2</sup> 109 (XLI) lle datblygir y thema hon i'r eithaf.

<sup>23</sup> Gw. y nodyn cefndir i gerdd 12 isod.

<sup>24</sup> Gw. ffynonellau cerdd 12 isod.

<sup>25</sup> G. Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', Cylchg LIGC xxi (1979–80), 255.



yn LIGC 4973B.<sup>26</sup> Ategir hynny gan nodyn a geir gan John Davies uwchlaw ei destun o gerddi 10 a 12, *ex p ll C*, sy'n golygu iddo gymharu ei destun â thestun y cerddi yn y Llyfr Coch, gan awgrymu nad y Llyfr Coch oedd ei ffynhonnell uniongyrchol.<sup>27</sup> Gwelir i John Davies, yn arbennig yn achos cerdd 12 isod, ddiwygio nifer o ddarlleniadau o ran y mydr neu'r gyng-hanedd pan oedd angen gwneud hynny. Mae'r holl gopïau eraill o'r cerddi hyn wedi eu codi un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r Llyfr Coch.

Mwy cymhleth yw hanes llawysgrifol y cywydd (cerdd 11), ac er bod nifer o'r testunau yn perthyn yn weddol agos i'w gilydd, ni ellir dod i gasgliad pendant ynglŷn â'u perthynas â'i gilydd.

<sup>26</sup> Gw. J. Rowland, 'The Manuscript Tradition of the Red Book *Englynion*', SC xviii/xix (1983–4), 84 lle dadleuir ei bod yn bur debygol mai Pen 118, 29–282 oedd ffynhonnell LIGC 4973B, 196<sup>r</sup>–363<sup>v</sup>.

<sup>27</sup> Gw. G. Morgan, 'Nodiadau ar Destun Barddoniaeth y Tywysogion yn Llsgr. N.L.W. 4973', B xxi (1964–6), 150.



*Moliant Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir*

4 Rhwydd yw Dafydd rhodd difai,  
Rhugl iawn o'i lys ydd awn ddoe;  
Rhaith o'i gyfiaith a'i gofwy,  
Rhoddion enw Môn, yno y mae.

8 Y mae yfory ym oed  
I fyned lle mae f'enaïd;  
Ai trist ym lafurio'r traed  
I'r lle bo mab Dafydd Llwyd?

12 Llwyd fo tir a llydw a faeth,  
Llyrf plaid, lin brehyriaid lwyth,  
Llywiwr dawn llawir a doeth,  
Llorf (llu aesgorf) lleasgaith.

16 Caith a ddwg eu llaith yn llwyr,  
Câr hynod, eirfglod, arfglaer;  
Caraf, nid ymdaeraf, dioer,  
Cydweddd Nudd, cedoedd neddair.

20 Neddair eirf, nêr cyweirfoes,  
Naf Dafydd, dedwydd dadwys,  
(Nod am glod tafod difais)  
Nudd ddigam udd ddug y maes.

24 Y maes o gywirdeb mwyn  
A ddwg ef, mau ddigofain;  
Yn gâr yn rhaid, blaid o'r blaen,  
Eingl aros, angel oroen.

28 Gorhoendeg rudd fudd fuail  
Gorau câr, a gwir yw'r coel,  
Gwnelon' a fynnon', f'annwyl,  
Gŵr yw hwn, iawngywir hael.

Hael heilgar, cytbar coetbaedd,  
Heddiw ddydd gennyf hawdd oedd:

- 32                   Hwylaw lle bo draw, poed rwydd,  
                      Hoywgu orchwyl hygyrhaidd.
- 36                   Cyrchwn lle gwelwn llywy gulwydd,  
                      Cad rwyd, carw tryfrwyd, ein cartrefrwydd:  
Cyrchai bob iawnrhai, buanrhwyyd—ddarmerth  
                      Certh fardd enillwerth, feirddion allwydd.
- 40                   Coethfab Dafydd Llwyd, bu rhwyd rhodwydd,  
                      Cymwd Lliwan naf, alaf eilwydd;  
Cain Ddafydd hoedrydd, ehudrwydd—Mordaf,  
                      Cwplaf, hylithraf ehalaethrwydd.
- 44                   Ceidwad pym synnwyr lwyr oleurwydd,  
                      Cyngor ced egor, ciwdod ogwydd,  
Corf canwledd treisgledd, trawsglwydd—trafn aestalch,  
                      Corff balch, dewr reidwalch diwaradwydd.
- 48                   Caeth y'm daw hiraeth o'm diheurwydd:  
                      Cyd bwyf heb daw, canllaw ceinllwydd,  
Cynnif gair digrif, garedigrwydd—byd:  
                      Cyd gefn nos hyfryd gyfnesafrwydd.
- 52                   Fy mraisg waisg wasgdorf aesgorf ysgwydd,  
                      Fy mrwysg rwysg rhygyr, wŷr waranrwydd,  
Fy mrys naw dyfrys, nid afrwydd—adrodd,  
                      Fy modd beunyddrodd, unbeneiddrwydd.
- 56                   Fy mawl, mau eiriawl, mae ei arwydd?  
                      Fy mur dur dirad, tromgad dramgwydd,  
Fy myd aer wryd ar orwydd—erchlas,  
                      Fy mhlas, fy neidras, fy eneidrwydd.
- 60                   Fy Nudd fudd fuail, fy hail hylwydd,  
                      Fy naf, ei alaf a gaf i'm gŵydd;  
Fy mhen, fy mherchen, ymorchwydd—camawn,  
                      Fy nghwbl wahanddawn yn llawn a'm llwydd.
- 64                   Fy mryd, fy niwyd, fy un awydd,  
                      Fy mraint (neud gwir saint) neud gorau swydd,  
Fy mro, fy eurglo, f'arglwydd—gydymaith,  
                      Fy mrawd a'm gobaith a'm pen rhaith rhwydd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 223<sup>v</sup> B—J 111, 1300 C—LIGC 4973B, 320<sup>v</sup> D—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 33<sup>v</sup> E—Pen 118, 224

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*

19 tauot tiueis. 29 haeilgar. 31 h6ylo lle bo tro. 43 korff kanwled. 53 men eiryabl. 61 vyndiwyc. 62 nyt g6ir seint.

*Teitl*

Gruffud vychan

*Moliant Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir*

4 Hael yw Dafydd [ac iddo] anrheg ddi-fai,  
 Yn rhwydd iawn i'w lys yr awn ddoe;  
 [Gweinyddiad] cyfiawnder i'w gyd-wladwyr sy'n ymweld ag ef,  
 Enwogrwydd anrhegion Môn, yno y mae.

8 Yfory mae gennyf apwyntiad  
 I fynd lle mae f'anwlyd;  
 Ai trist im ydyw gweithio'r traed  
 I'r lle bynnag y bo mab Dafydd Llwyd?

12 Bendigaid fo[r d]daear a[r] llu a fagodd,  
 Cynheiliad mintai, tylwyth o linach uchelwyr,  
 Cyfarwyddwr [o] gynhysgaeth haelionus a doeth,  
 Cynheiliad (amddiffyn[nwr] fel tarian [i] lu) caethion angau.

16 Caethion sy'n dioddef eu hangau yn llwyr,  
 [Eu] cyfaill arbennig, clodfawr ei arfau [a] disglair ei arf;  
 Caraf, ni ffraeaf [ag ef] yn sicr,  
 Gymar Nudd [â'r] llaw anrhegion.

20 [Y] llaw arfau, [y] pennaeth perffaith [ei] fuchedd,  
 Arglwydd yw Dafydd, pen tylwyth llwyddiannus,  
 (Enwogrwydd am glod digymysg [fy] nhafod)  
 Arglwydd cyfiawn [megis] Nudd a ddug y fuddugoliaeth.

24 Y fuddugoliaeth trwy ffyddlondeb mwyn  
 A ddwg ef, fy nigofaint;  
 Yn gydymaith mewn cyni, [yn] gymorth ar y blaen,  
 Yn gwrthsefyll Saeson, [un o] ddisgleirdeb angel.

28 Cym yfed mawrles[ol o aur] coch disglair a harddwedd  
 Y cyfaill gorau, a sicr yw'r argoel,  
 Gwnelont a fynnont, f'anwlyd,  
 Gŵr yw hwn, gwir ffyddlon [a] hael.

32 Gŵr hael hoff o arlwyo, cymar [mewn dewrder i'r] baedd coed,  
 Y dydd heddiw oedd yn ddymunol gennyf:  
 Boed teithio draw lle bynnag y bo [ef] yn ddiymdrech,  
 [Dyna] orchwyl gwych a hoff [a] hawdd ymgymryd ag ef.

Cyrchwn [i'r man] lle gwelwn bennaeth hardd  
 [A] rhwydwr byddin, arglwydd [mewn] brwydr, ein cartrefoldeb:  
 36 Cyrchai'r rhai cymwys oll, darpariaeth sydyn a pharod  
 [I] wir fardd [sy]'n haeddu tâl, at gynhaliwr beirdd.

Mab gwych Dafydd Llwyd, bu'n rhwydwr [gelynion ar] glawdd  
 amddiffynnol,  
 Arglwydd cwmwd Llifon, oed [â] chyfoeth;  
 Dafydd hardd [sy'n] rhydd oddi wrth ofid, [un o] barodrwydd  
 40 Mordaf,  
 Y cyflawnafl [a'r] parotaf [ei] haelioni.

Ceidwad y pum synnwyr [o] berffaith eglurder,  
 Cynghorwr agored [ei] rodd, tueddfryd cenedl,  
 Cynheiliad can gwledd yw[r un] gorthrechol ei gleddyf, [dyna]  
 44 [Un sydd â] chorff cadarn, milwr gwrol [a] di-warth mewn  
 brwydr.

Yn gaethiwus y daw imi hiraeth am [un sy'n] ddiogelwch i mi:  
 Er fy mod heb daw [h.y. yn dal i ganu], [y] cynheiliad [ac iddo]  
 hardd lwyddiant,  
 Ymdrech yw [llefaru] gair diddan, [un sy'n] garedigrwydd [y]  
 48 byd:  
 Mor hir â chanol nos yw [ei] gyfeillgarwch hyfryd.

Fy nghynheiliad [sy'n] darian o amddiffyn[nwr] i fintai dynn [a]  
 bywiog gadarn,  
 Fy rhuthr ffyrnig [mewn] ymosod, sicrwydd [i'w] filwyr,  
 Fy ffrwst cyflym iawn, nid anodd yw canu [amdano],  
 52 Fy moddhad beunyddiol ei rodd, [fy] sofraniaeth.

Fy moliant, eiddof i yw ymbil, ymhle mae ei faner?  
 F'amddiffynfa ddu ddidrugaredd, dymchwelwr brwydr arw,  
 F'anwylyd [a] dewrder brwydr ar farch brithlwyd,  
 56 Fy mhlas, fy mendith o ffawd, gwraidd fy mod.

Fy Nudd llesol [ei] gyrn yfed, fy ngwasanaethwr [diodydd]  
 llwyddiannus,  
 F'arglwydd, ei gyfoeth a gaf yn fy mhresenoldeb;  
 Fy mhennaeth, fy mherchennog, ffyrnigrwydd [mewn] brwydr,  
 60 Fy nawn gwbl arbennig a bair lwyddiant yn gyflawn i mi.

Fy [holl] fryd, fy un ffyddlon, fy unig ddeisyfiad,  
Fy mraint (gwirionedd y saint yw hyn) y swydd orau ydyw,  
Fy nghynefin, fy nghadernid gwych, fy nghyfaill o arglwydd,  
64 Fy mrawd a'm gobaith a'm pennaeth cyfraith hael.



*Moliant Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd a Threacastell*

Ydwyf (a mi nid oedes  
 Arglwydd ceinllwydd deucanllys)  
 Iddo, mal ydoedd addas,  
 4 Ufydd yn nydd ac yn nos.

Y nos fad y'i cad o'r cydorwedd—balch,  
 Oronwy aerwalch orau rhinwedd,  
 8 Iôn amgylchion Môn mil flynyddedd—hyd,  
 (O'i ddiwraidd, gwae'r byd, yn ei ddewredd)  
 A hithau eiriau ddienwiredd—ddawn,  
 Y ddibechod iawn, dda ei buchedd,  
 12 Werful, glod hynod, hen ddihenedd—fo,  
 Yn ei gwiwlys fro caem amgeledd,  
 (Ys da Fair, neud gair gwirionedd,—arnun  
 Y tyfodd uddun aur etifedd)  
 16 Aer digel Hywel, hoywedd—bennaeth lyw,  
 Ein da garwr yw enw digaredd  
 O'r deau fannau, fen glawddyfredd—nod  
 A giglau ei glod, hyd y Gogledd.  
 20 O feirddion, cofion eich cyfedd—a'ch maeth,  
 A'ch urddol a'ch gwnaeth yn eich harddedd  
 A balch a difalch, Deifr ddigasedd—fan,  
 A chadarn a gwan dibechodedd.  
 24 I'n cam yr ydym, cymrodedd—a'n daw,  
 Yn rhyfalch arnaw, ac nid rhyfedd.  
 Awn ni yng ngweddi yng ngwedd—perffeithreg,  
 Y dyledog teg heb dlodedd,  
 28 Ar Fair wryw hoywair, wir hedd—bedyddlu,  
 Em morynion fu â'i marannedd,  
 A Christ Celi, Rhi rhag gwythlonedd—gwÿd,  
 A'i nawdd a geidw byd, i Nudd gydwedd,  
 32 Ar adael yn hael oes Heledd—grychrudd,  
 I bwyso aur rhudd ar ein bysedd.  
 Anant wir foliant, orfoledd—Gwyndyd,  
 Iôn bylcharf yng ngryd, yn ein balchedd;  
 36 Yni getych di rhag dyedd—galon  
 Ein rhyfyg, feirddion, am ein rheufedd,

- I'n trwsio yn heirdd i'n trosedd—gwinllad  
 A'n byw, rygarw mad heb orwagedd,  
 I barthu atam berthedd—goludog  
 40 A gwisgoedd graog da eu gosgedd,  
 Iawnwawd a ganwn, anwedd—yw ynyy,  
 Am ener Cymry un anmynedd.  
 A druain, lle ceir adrywedd—rhoddi,  
 44 A geimiaid, ewch chwi, ef nyw gomedd.  
 Eres yw ein gweled, oeredd—a'n dychryn,  
 Yno gwelir hyn heb enw gwyledd:  
 (Anfanol ei rodd, un fonedd—â Dyfr,  
 48 Ynad ganon lyfr, enaid Gwynedd)  
 A chyfuniol gerdd a chyfannedd—lys  
 Ac ymyrwyr, brys aur gymyrredd,  
 A neuadd yn llawn yn niwedd—cerddau  
 52 A hwyr farant gau a hir fawredd  
 (Aeth i arnun gabl) a theÿrnedd—heirdd  
 A chanto o feirdd yn ei chyntedd  
 A modd digrifwch a medd—gorchyfun  
 56 A rhy anaml hun a rhianedd  
 A gweilch yn gware amgylch gwyredd—pers,  
 A myfyrio wers am oferedd  
 A moeswomp deulu a maswedd—iawndda  
 60 A thracheinlwys ra a thrychanwledd,  
 Oni fai'n afraid, annedd—beirdd glydwr,  
 Un geirson am ŵr enwog orsedd.  
 Arglwydd ni weled, wedy eurgledd—nef,  
 64 Un rhediad ag ef o anrhydedd.
- Anrhydedd hywedd, Hywel,—rhi nefol,  
 Er un ofn nid ymgêl;  
 Erchwyn cyfoeth, doeth lle dêl,  
 68 Iechyd i'r galon uchel.
- Uchel air benrheithgrair bid,  
 Arglwydd a wnâi difai dud,  
 O bai aneirdd beirdd y byd,  
 72 Yn heirdd ddigeirdd ymddygiad  
 I'r fen y bo, pen clo clod,  
 Ar hwn treiddiwn, ein trwydded.
- Trwydded cynhaled cynheiliad—canwledd  
 76 Tir Gwynedd, taer guniad,

Tros anant neud traws ynad,  
 Trysorwr clêr mydrner mad.

80 Tŵr gwiwddeddf tra lleddf a lleiddiad—llwybr iawn  
 Lle bai rhaid digoniad,  
 Tarfai Eingl, taerfyw angad,  
 Traw bellaig, cadr benaig cad.

84 Teilwng cydostwng ced wastad—gyflwr,  
 Mil glydwr, mawl gludiad,  
 Teuluoedd ddinag fagiad,  
 Twysg draw o'i gedlaw a gad.

88 Trosed, em gired, ym gariad—Hywel  
 O'm dihewyd brydiad,  
 Troses feirdd yn eu trwsiad,  
 Traws nêr, ein treisio ni ad.

92 Tebyg i Ddyfrig ddifrad—archesgob  
 Eurwych aesgorff gwinllad,  
 Taer y'n rhydd, tÿm rhoddiad,  
 Trychan rheg, teg o fab tad.

96 Trefn hail bwrdd fuail, beirdd fwad—aerglo,  
 Arglwydd Gwynedd wenwlad,  
 Talm beunydd a'n rhydd yn rhad,  
 Tarian Loegr tirion lygad.

100 Llygad Gwynedd wlad a ganwyf—i'm byw,  
 Ef biau a brydwyf,  
 A phopeth a luniethwyf  
 I'm cof, mi a'i rhof i'm rhwyf.

104 Mewn byd arfeddyd, cyd arfeiddwyf—hoed,  
 Myn Duw, hyd y gwypwyf,  
 Ysbys dioer, neu'm gwÿs, od wyf,  
 Ydd adwaen iddo 'dd ydwyf.

Ydwyf, a mi nid oedes ...

*Ffynonellau*

A—BL Add 15001, 218<sup>v</sup> B—J 111, 1292 C—LIGC 1984B [= Pant 15], 54  
 D—LIGC 4973B, 313<sup>v</sup> E—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 21<sup>r</sup>  
 F—Pen 118, 218

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Darlleniadau'r llawysgrif*

17 deheu vana6. 19 veirdyon kyfyon. 23 anda6. 25 [yng ngweddi]. 26 deleda6c. 27 wyr hoeweir. 29 rac wythloned. 61 yny veyn<sup>l</sup>. 87–8 garyat hyw om. 98 taryn loegyr. 99 a gannwyf. 101 alunyeithwyf. 105 nevin g6ys.

*Teitl*

Gruffud vychan vab gruffud uab edynyuet.

*Moliant Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd a Thre Castell*

- Yr wyf (ac ni chadwodd  
 Arglwydd llwyddiannus a gwych dau can llys fi'n ôl)  
 Iddo, fel yr oedd yn addas,  
 4 Yn ufudd ddydd a nos.
- Y noson ffortunus y'i cafwyd o'r cydorwedd gwych,  
 Brwydr-walch Oronwy orau ei rinwedd,  
 Arglwydd amgylcheddau Môn fil o flynyddoedd [ei] pharhad,  
 8 (Gwae'r byd oherwydd ei ddymchwel [ef] yn ei braffter)  
 A hithau [â] geiriau dinam [eu] bendith,  
 Yr [un] ddi-fai [a] chywir, dda ei buchedd,  
 Gwerful, arbennig [ei] chlod, hen [a] dihenaint fo,  
 12 Yn ei hardal wych ei llys y caem ymgeledd,  
 (Mae Mair ddaionus, gair gwirionedd yw hyn, o'u plaid [hwy]  
 Y tyfodd iddynt etifedd gwych)  
 Hywel [yr] aer amlwg, arweinydd o dywysog sionc ei wedd,  
 16 Ein cyfaill daionus yw[<sup>r</sup> un a chanddo] glod di-nam  
 O'r parthau deheuol, lle [ac iddo] enwogrwydd [am ei]  
 ddyfroedd glaw  
 [Ac] a glywodd ei glod, hyd y Gogledd.  
 O feirdd, meddyliau am eich cydymaith [ar gân] a'ch cynhal-  
 iodd,  
 20 A'ch crefyddwr mewn urddau a barodd i chwi fod yn eich pryd-  
 ferthwch  
 Yn ddewr ac yn ostyngedig, man atgasedd y Saeson,  
 Yn gadarn ac yn wan [a] dibechod.  
 Yn ein bai yr ydym, beirniadaeth a ddaw i'n rhan,  
 24 Yn rhy drahaus o'i herwydd, ac nid rhyfedd [hynny].  
 Fe awn ni mewn gweddi yn null perffaith [ym]roddiad,  
 Y gŵr breintiedig hardd heb dlodi,  
 At Fair wryf hardd ei hymadrodd, heddwch perffaith llu  
 Cristnogol,  
 28 Gem [ymhlith] morynion fu â'i goludoedd,  
 Ac [at] Grist Arglwydd, Brenin [sy'n ein hamddiffyn] rhag [y]  
 digofaint [sy'n dilyn] pechod,  
 A'i nawdd a geidw [ein] byd, cymar i Nudd,  
 Ar [iddynt sc. Mair a Christ] adael yn hael einioes Heledd  
 grychiog ei grudd,  
 32 I bwyso aur coch ar ein bysedd.  
 Moliant sicr prydyddion, gorfoledd trigolion Gwynedd,  
 Arglwydd bylchog ei arf mewn brwydr, yn ein gogoniant;

- Fel y cedwi di [yn ddiogel] rhag rhyfel gelynion  
 36 Ein balchder, feirdd, am ein cyfoeth,  
 Er mwyn [i ti] ein gwisgo'n hardd yn ein rhagoriaeth [o] win yn  
 llifo  
 Ac [yn] ein hoes, arwr gwych daionus heb oferedd,  
 [Ac] er mwyn rhannu inni gyfoeth goludog  
 40 A gwisgoedd o ffwr da eu gwedd,  
 Barddoniaeth gywir a ganwn, digymar yw [ef] i ni,  
 Am arglwydd Cymry [o] ddyfalbarhad arbennig.  
 O drueiniaid, lle ceir llwybr rhoddi,  
 44 O gampwyr, ewch chwi, ni bydd ef yn (ei) wrthod [*sc.* rhoddi].  
 Rhyfedd yw ein gweld, tristwch sy'n ein dychryn,  
 Yno gwelir hyn heb anfri cywilydd:  
 ([Yr un] digrintach ei rodd, o'r un dras â Dyfr,  
 48 Safon perffeithrwydd [fel] barnwr, anwylyd Gwynedd)  
 (A) cherdd gytûn a llys cartrefol  
 Ac ymunwyr [yn y gyfeddach gyda] brys am wych dderbyniad,  
 A neuadd yn llawn ar ddiwedd cerddi  
 52 A chyfoeth oediog twyllodrus a godidowgrwydd maith  
 (Aeth edliw oddi wrthynt) a brenhinoedd hardd  
 A chan cenhedlaeth o feirdd yn ei chyntedd  
 Ac arfer llawenydd a medd hyfryd  
 56 A chwsg rhy anfynych a merched  
 A gweilch yn chwarae o amgylch gwyredd clwyd [adar],  
 Ac ystyried gwagedd ar dro  
 A gosgordd ragorol ei hymarweddiad a miri teg  
 60 A ffwr hynod o hardd a phrydferth a thri chan gwledd,  
 Hyd nes y byddai'n ddianghenraid, trigfan sy'n ddiddosrwydd i  
 feirdd,  
 [Llefaru'r] un ymadrodd yn sôn am wr enwog ei breswylfod.  
 Ni welwyd arglwydd, ar ôl [yr] un euraid ei gleddyf [o'r] nef,  
 64 O'r un yrfa ag ef o ran anrhydedd.  
  
 [Yr un] disgybledig [ei] anrhydedd, Hywel, pennaeth  
 paradwysaidd,  
 Nid ymgêl oherwydd unrhyw ofn;  
 Cynhaliwr cyfoeth, [un] dysgedig lle bynnag y daw,  
 68 [A] lles i'r galon aruchel.  
  
 Bydded yn anwylyd o bennaeth aruchel [ei] glod,  
 [Yn] arglwydd a barai wlad berffaith,  
 Pe bai beirdd y byd yn hagr,  
 72 Gydag ymddygiad rhai di-warth hardd

I'r fan lle bo, pennaf awdurdod enwogrwydd,  
Yr ymwelwn â hwn, ein croeso.

76 Cynhalied groeso, cynhaliwr canwledd  
Tiriogaeth Gwynedd, [yr] arglwydd dygn,  
Ar feirdd mae'n farnwr cadarn,  
Trysorydd beirdd yw[’r] pennaeth daionus ar farddoniaeth.

80 Cynhaliwr tra gostyngedig gwych ei ddefod a lloriwr sicr ei hynt  
Lle byddai anghenraid gwrhydri,  
Gwasgarai Eingl, gafael ddygnfyw [oedd iddo],  
[Yr un â] mintai bell draw, pennaeth grymus brwydr.

84 Haeddiannol yw cydymostwng [yr un mewn] cyflwr [o dderbyn]  
rhodd barhaus [*sc.* y bardd],  
Cysgod mil, cludydd mawl,  
Magwraeth ddinacâd i osgorddau,  
Cafwyd lliaws [o roddion] o'i law haelionus.

88 Troswyd i mi gariad Hywel, [yr] anwylyd ffymig,  
Oherwydd fy mhrydiad [llawn] ymroddiad,  
Dyrchafodd feirdd yn eu gwisg,  
Arglwydd cadarn, ni chaniatâ [i ni gael] ein gormesu.

92 Tebyg i Ddyfrig [yr] archesgob didwyll  
Yw[’r] noddwr gwych a rhagorol [sy]’n gweini gwin,  
Yn daer y rhydd inni, [y] brenhinol roddwr,  
Dri chan anrheg, [y] dyn hardd.

96 Trefn cyfeddach yw cyrn yfed [ar] fwrdd, gwynfyd beirdd yw'r  
pennaeth brwydr  
[Ac] arglwydd gwlad fendigaid Gwynedd,  
Cyfran [o roddion] a rydd inni beunydd yn hael,  
Tarian [yn erbyn] Lloegr [ac iddo] lygaid mwyn.

100 Am anwylyd tiriogaeth Gwynedd yr wyf am ganu yn ystod f'oes,  
Ef piau pa beth bynnag a brydyddwyf,  
A phopeth a saernïaf  
Yn fy meddwl, fe'i rhoddaf i'm harglwydd.

104 [Fy] mwriad yn y byd, er fy mod yn herio tristwch galar,  
Myn Duw, hyd y gallaf [wireddu'r bwriad],

Os wyf yn wir enwog, fe'm hadwaenir,  
Gwn mai iddo yr wyf.

[Ailadroddir yr englyn cyntaf.]



*Gofyn telyn i Risiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Emral*

- Prelad cyfarf braenarfaes,  
 Tew, byr, llwyd mewn tabar llaes,  
 Beth, lle bai, a dalai dalm  
 4 Yn absen llyfr wynebsalm?  
 Saer heb ddur fwyall ni saif,  
 O dda orchwyl ni ddyrchaif.  
 Eurych heb ddodrefn eraill,  
 8 Ni wŷr, ymward ni aill.  
 Gof o bwyth dof, beth a dâl  
 Heb ei einion, hoyw benial?  
 Cael cyfflybrwydd a wyddwn,  
 12 Cof rhwydd am y cyfryw hwn.  
 Beth, ddifyr felenbleth ddyn,  
 A dalai wawd heb delyn?  
 Ba ddelw gellir, wir warant,  
 16 Ganu'n deg onid gan dant?  
 Cenais, pan ryglyddais glod,  
 Cywydd sengl, cuddiais anglod.
- 'Rhisierdyn, fy nyn, ba wnafl?  
 20 Rhodiwr wyd, rhydaer adaf,  
 A wyddost, un bost i'n byw,  
 Llwybr cyfrwys lle bo'r cyfryw:  
 Iarlles ddigrif afrifed  
 24 Cerddau, crair telynu Cred?'
- 'Gwn, o chaf obr ac ennill,  
 (Gweddaï'n bur gwŷdd ywen bill)  
 28 Y mae gyda'r arglwydd mawr,  
 Milwr pedrydog Maelawr.'
- 'Taw, mi a'i hadwaen, raen rin,  
 Od adwaen wŷr diowdwin,  
 Y rhi mau, gorau o'r gwŷr,  
 32 Rhyswr taer, Rhisiart eryr,  
 Cwrs gwaedlew, carw esgudlym,  
 Cryfder Syr Rhosier a'i rym,

36 Fy maeth, ehelaeth hoywlyw,  
 Fy most erioed, fy meistr yw,  
 Fy mur draw a'r llaw yn llawn,  
 Fy modur rhisgddur rhwysgddawn,  
 40 Fy mur glyngur galongael,  
 Mab o faswedd, hoyw-wedd hael,  
 Gyr â'r gwst grydwst ar grwydr,  
 Gwas paladrfras pelydrfrwydr,  
 44 Gwrdd ei ras, gwehyrdd ei reg,  
 Gŵr diwreidd-dwr deurudd-deg.  
 Lledwog ydyw o llidir,  
 Llydan ei darian a'i dir.  
 Drythyll fûm yn ei drithai  
 48 Ar ddeg, llys deg llios dai.  
 Draw y mae iddaw, meddant,  
 A'i osgordd dug, oes, gerdd dant;  
 Telyn, ni bu a'i talai,  
 52 Deirtud, nid mud yn oed Mai,  
 Gorysgwr rhwng gŵr a'r gorf,  
 Gem ysgithrlem ysgythrlof,  
 Salm o hen gof llyfr Ofydd,  
 56 Sawtring uwch no gwyrddling gwŷdd.  
 Da y cân, dieuog gerdd,  
 Diau bynciau dau bencerdd.'

'Y ceisiad, gennad gynnwys,  
 60 Câr dy barch, cywir dy bwys,  
 Cyrch d'obr os ti a'i gobryn,  
 Canau aur dannau ar dynn.  
 Annerch, na wad, gennad gwawr,  
 64 Eurgledd mil, arglwydd Maelawr,  
 Brëyr gwingael yn ael nos,  
 Brenin hyddgannoedd brwynos,  
 Braisg fragad tromgad trymgawdd,  
 68 Rhisiart teg, rhoes ei aur tawdd.'

Gruffudd gynt, a'i hynt oedd hyn,  
 Maelor a rôl aur melyn.  
 Rhisiart, nid gwaed rhy isel,  
 72 Gwedy yntau, biau'r bel.  
 Anfoned merch, arffed medd,  
 I ganu i wŷr Gwynedd;  
 Anfonaf, urddaf erddaw

- 76 Ei glod hyd y rhywlych glaw.  
Enwi ei mawl, iawn ym oedd,  
Arglwyddes aur ei gwleddoedd,  
Annerch gennyf, nac annod,
- 80 Leucu deg, liw cawod ôd,  
Dedwydd wawr blygeinddydd wedd,  
Dewis gwraig, dwywes gwragedd.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14971, 113<sup>r</sup> B—LIGC 1971B [= Pant 2], 563 C—Pen 51, 134  
D—Pen 94, 238 E—Pen 112, 22 F—Pen 114, 197

Mae nifer o ddarllenïadau yn llawysgrif C, yr hynaf, yn aneglur oherwydd traul ar y dalennau. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

*Amrywiadau*

1 *ABCE* Prolyad; *D* cyfar llavarlaes. 3 *AB* Ba beth a, *D* bai beth, *E* By beth a; *ABDE* dalai ar dalm. 4 *AB* lyfr. 6 *ABE* Adda orchwyl, i dda orchwyl. 10 *AB* heb einion o hoyw, *E* heb einion hoyw, *F* heb einion i hoyw. 11 *AE* kyfflebyrwydd. 13 *C* beth ddyvr. 14 *E* dedyn. 15 *AE* ddelw y gellir. 16 *F* ond gen. 19 *D* ba wna. 20 *D* ada. 22 *ABEF* kofrwysec; *E* lle bv'r. 23 *ABDE* digrif. 25 *B* gofr. 27 *ABCDEF* gidac. 28 *ABCE* pedryddoc, *D* bedrydoc. 29 *A* Taw mi hadwaen, *B* taw nid adwaen, *C* T[ ]w ni (*neu* m) ai hadwaen; *D* vaen rhin, *E* faen rin. 33–4 [*ABCDE*]. 35 *ABDEF* o helaeth. 37 *C* drawaw ar; *E* am llaw'n. 38 *D* modhûr. 40 *ABDEF* hoiwedd. 41 *F* Gwr ar gwst. 42 *ABE* peleidr frwydr. 43 *AB* ras a; *ABE* gwyrdd i rec, *D* gwe rydh y reg. 44 *D* gwrth diwreidhiwr; *ADE* diwreiddiwr dev rvddec; *C* dev rvddec. 45 *ABD* Lledwg. 47 *C* y ny. 48 *A* ai ddeg; *ABF* lliaws. 52 *F* Teirtvd. 54 *D* gem ysgythrlem ysgithrlorf. 56 *ABC* gwyrddring, *E* gwyrddring, *D* gwrthling. 57 *ADEF* dievoc kerdd. 58 *AB* bynkïav o benkerdd. 61 *F* ddobr. 64 *E* avrgerdd. 65 *D* wingael. 68 *C* teg aros; *E* i awr tawdd. 69 *D* oedd hÿn. 70 *F* Maelor roes i avr. 72 *ABDE* biav y bel. 76 *D* rhygwlych, *E* rhiwlyd. 77 *ABEF* Enwi mawl; *ABF* ym a oedd. 79 *F* Gennyf annerch nac annod. 82 *D* dûwies.

*Teitl*

*A* I ofyn Telyn, *BD* Cywydh y ofyn Telyn, *E* Cowydd i Rissiart Vccelywr i erchi Telyn i Ruffydd fychan ap Gruffydd ap Edynyfed, *F* Kywydd i Richard ap Syrr Roger pilston i ovin Telyn.

*Trefn y llinellau*

*D* 1–32, 35–76, 79–80, 77–8, 81–2.

*Gofyn telyn i Risiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Emral*

- Prelad llawnarfog maes wedi ei fraenaru,  
 [Un] tew [a] byr, yn llwyd mewn gŵn hir,  
 Beth, pa le bynnag y byddai, a dyciai ysbaid  
 4 Yn niffyg llyfr a salm[au] ar ei dudalennau?  
 Ni phery saer [ddim] heb fwyall ddur,  
 Ni chyfyd drwy waith da.  
 Gof aur heb gelfi [gan] eraill,  
 8 Mae heb fedr, ni all ddod i ben.  
 Gof o wead hyfforddedig, beth a dycia  
 Heb ei einion, [y] pennaeth cymen?  
 Gwyddwn sut i gael cymhariaeth  
 12 [A] syniad rhwydd am y fath beth â hwn.  
 Beth, fun hyfryd [ac iddi] bleth felen,  
 Fyddai gwerth cân heb delyn?  
 Pa fodd y gellir, gwirionedd sicr,  
 16 Ganu'n iawn onid gyda thant?  
 Cenais, pan haeddais ganmoliaeth,  
 Gywydd digyfeiliant, cuddiais [y] gwarth.
- 'Rhisierdyn, fy ffebyn, pa beth a wna?  
 20 Rhodiwr ydwyt, eiddgar iawn dy law,  
 A wyt ti'n gwybod, un gynhaliaeth i'n bywyd,  
 Am lwybr cyfarwydd i'r lle bo'r cyfryw:  
 Iarlles ddiddan ancirif  
 24 [Ei] cherddi, anwylyd telynau'r byd Cristnogol?'
- 'Gwn, os caf wobr ac elw,  
 (Gweddai coed o gangen ywen yn berffaith)  
 Mae un gan arglwydd mawreddog,  
 28 [Sef] milwr nerthol Maelor.'
- 'Taw, adwaen i ef, aruthr [ei] rinwedd,  
 Os adwaen [i o gwbl] ŵr [sydd â] gwin [yn] ddiod [iddo],  
 Fy arglwydd i, y rhagoraf o'r gwŷr,  
 32 Rhyfelwr angerddol, Rhisiart [yr] eryr  
 [Sy'n dilyn] cwrs arwr gwaedlyd, [y] carw parod cyflym,  
 Cryfder Syr Rhosier a'i nerth,  
 Fy nawdd, arweinydd gwych hael,  
 36 [Testun] ymffrost gennyf erioed, fy meistr ydyw,  
 Fy amddiffynnydd draw a'r llaw [sydd] yn llawn,  
 Fy arglwydd mewn arfwisg o ddur, mawreddog ei allu,

40 Fy amddiffynnydd di-saib ei ergyd yn cyrraedd at ei elynion,  
 Mab llawn rhialtwch, [y] gŵr hael gwyh ei ymddangosiad,  
 Mae'n gyrru gyda'r ymdrech ysgydwad o boen ar grwydr,  
 Llencyn mawr ei bicell [mewn] brwydr bicellau,  
 44 [Un] gwrol ei ras, mae'n gomedd ei rodd [i'w elynion],  
 Gŵr [sy'n gadael ar ei ôl] dŵr wedi ei ddymchwel, hardd ei  
 ddeurudd.

Nerthol ydyw os cythruddir [ef],  
 Eang ei darian a'i diriogaeth.  
 Llamsachus fûm yn ei dri thŷ  
 48 Ar ddeg, llys hardd niferus ei dai [ydyw].  
 Draw acw y mae iddo [ef], meddant,  
 A'i osgordd [deilwng o] ddug, oes, gerdd dant;  
 Telyn deirtud, ni bu [un] a'i haeddai,  
 52 [Sef telyn] nad yw'n ddistaw yn ystod Mai,  
 Iau ych rhwng gŵr a'r corn cyfrwy,  
 Gem ifori lem [y] post cerfiedig,  
 [Mae ei] chân [yn tarddu] o hen feddylwaith llyfr Ofydd,  
 56 Saltring [sy'n] uwch na llwyni helyg Mair.  
 Yn dda y cân, cerdd ddi-fai,  
 Ganeuon sicr dau bencerdd.'

'Yr eirchiad [â] chroeso cennad,  
 60 Gwna [ef] yn fawr o'th anrhydedd, [yr un] cyfiawn dy  
 bwysigrwydd,  
 Dos i nôl dy wobr os ti a'i haedda,  
 [Sef] caneuon tannau rhagorol wedi eu tynhau.  
 Cyfarch, na wrthod, gennad arglwydd,  
 64 [Arwr] euraid ei gleddyf [i] fil, arglwydd Maelor,  
 Uchelwr sy'n derbyn gwin ym min nos,  
 Brenin ceirw tir brwynog  
 [A chanddo] lu cadarn byddin gref yn achosi niwed trist,  
 68 Rhisiart hardd, rhoddodd ei aur mâl.'

'Gruffudd Maelor gynt, a'i ffawd ydoedd hyn,  
 A roddai aur melyn.  
 Rhisiart, nid gwaedoliaeth ry isel,  
 72 Ar ei ôl yntau, biau'r gamp.  
 Anfoned merch [sc. y delyn], côi o awdurdod,  
 I ganu i wŷr Gwynedd;  
 Anfonaf [a] dyrchafaf er ei fwyn  
 76 Ei glod cyhyd ag y gwlych glaw.  
 Llefaru ei chlod oedd iawn i mi,

80 Arglwyddes odidog ei gwleddoedd,  
Annerch oddi wrthyf, paid â gohirio [hynny],  
Lleucu deg o liw cawod eira,  
Arglwyddes ffodus o wedd y bore bach,  
Gwraig ddethol, duwies [ymhlith] gwragedd.

*Awdl i Grist a Mair*

Anrheg wladaidd, nis traidd traed,  
 A ddoeth i annoeth enaid  
 O fwyllwr nen caethbren coed,  
 4 Afallen Efa foellwyd.

Rhythbla rus Efa roes ofal—i'r byd,  
     Gwae'r bydoedd o'r dial,  
 Rhannodd ag Addaf afal,  
 8 Rhyw barch i ennill rhaw bâl!

Pwyll druan (cwynfan nyw cêl)  
 Pallu bryd pum oesfyd pŵl,  
 Anfoes chwant anafus chwyl  
 12 O nifer yr un afal.

Gwedy gloes ar bymoes byd  
 Ac ofn uffern gwypm gofid,  
 Gair Gabriel angel yngod  
 16 Wrth Fair, a'r Gair fu'r gwared.

Pum oes byd i gyd o gaith—yn rhyddion,  
     A'n cofion yw'n cyfiaith:  
 Erom y gwnaeth Duw araith  
 20 Er ein dwyn o'r anoyw daith.

Ys Duw a'i gyrrodd, oes daer,  
 Ys da gwnaeth llateiaeth llwyr;  
 Ys aelaw y gwn pa sawl gair  
 24 A'n dug o gaethiwed oer.

*Ave* rhag mawrddrwg afal,  
*Maria*, Efa oful:  
 Geiriau gobrwyau Gabriel,  
 28 *Gratia*, lles a wna yn ôl.

*Plena* fu'r hynt dda pan ddoeth—yr angel  
 I ryngu bodd cyfoeth,

32 Gabriel ddiargel eirgoeth  
Gan Fawrdduw ar gain Feirddoeth.

*Dominus*, Duw gweddus, yw agwyddor—byd,  
Bid *tecum*, ein Cyngor,  
36 *Benedicta*, Ben-doctor,  
*Tu* yw'r Mab, y tir a'r môr.

*In*, bach a ddyly yn bwyth,  
*Mulieribus*, weddus waith,  
40 *Et* ail brif lythyren doeth,  
*Benedictus*, foethus faeth.

*Fructus* Gair o Fair, Ef weryd—ein rhaid  
O nerth rhad yr Ysbryd,  
44 Fuddfawr wawr wry gymhle gyd,  
*Ventris* a beris y byd.

*Tui* Un a Thri a'th rad—a'n erglyw,  
Arglwydd, rhan o'th gariad,  
48 Yn Fab morwyn fwyn fagiad,  
Yn deg, yn Ysbryd, yn Dad.

*Jesus* Fab a Phab a phob cynnydd—da,  
Un Mab Duw ni dderfydd;  
Dir nod cyn dyfod ein dydd,  
52 Dwg air ynn, Dy gerennydd.

Y Mab Rhad a gad, a gair—yr angel  
A ryngodd fodd i Fair;  
56 Arf ddwysglod, araf ddisglair,  
Euraid greaduriaid Grair.

Ganed Ef, gwn nad ofer,  
Ganedigaeth deg segur,  
60 O Fair ac un gair gan gân  
A Glân Ysbryd heb gyd gŵr.

Morwyn fu Fair fwyn o fywn hundy—gwydr,  
Yn gwiw ddal Mab Duw fry,  
64 Morwyn gyn no hyn gain hy,  
(Mirain wawd) morwyn wedy.



- 68 Cri geni Mab gogoned,  
Cyflun balch, cyflenwi byd;  
Crist Celi, cyfodi yn fud  
Claer seren o nen, ein nod;  
Cynyddu a rhannu yn rhad  
Coelfeinau, cael a fynnid.
- 72 Doeth tair anrheg deg, a dwyn—eu hunain  
Gan frenhinoedd addfwyn:  
Aur a myrr, a thus er mwyn  
Ein hawl fawr, ein hael forwyn.
- 76 Nid oedd ddrwg plaid mab eidion  
Ar ael y crudaidd hael hwn,  
Nid âi, eithr Crist o'i feithrin,  
Neb i breseb yr asen.
- 80 Uwch Ei law'n treiglaw (Arglwydd tragwlych—fôr)  
Ydd oedd Fair a'n gwledych,  
Is ei law, Iesu lewylch  
Iesin gorff, asen ac ych.
- 84 O arch (Iesu, barch Berchen,  
Saer oesoedd) y Sarasin  
Erod gaeth a'i rawd o gŵn,  
Eurwisc aml ŵr ysgymun,  
Ei fradog angau, frawdyn,  
88 A luniodd Ei elynion.
- Deholed Gwawr Cred (Mab Gŵr cryf—o nef)  
O anafoedd didryf:  
Dial pur deol Peryf,  
92 Dofn bwyll dros a drais a dyf.
- Honedd na weled ei waelach—rhag ffydd,  
Diffoddes cred haecach,  
Henw dyn fal hwn, a Duw'n fach,  
96 Hir yw'r deigr, herwr degach.
- Iesu, Iôr y llu ar llawr—yr Israel,  
Unben hael, Hylwyddwawr:  
Euraid enw a roed unawr,  
100 Yno y gwnaeth fabolaeth fawr.

Y prif werthfawr fain o'r pridd  
 A gwlan y ddaear o'r gwlydd;  
 Byw yn farw, buan oferedd,  
 104 A meirw yn fyw, mawr iawn fudd.

Seithrif llu gynnif lle y gennynt—i drais,  
 Dan ei draed y rhedynt,  
 Sef rhai o'i addef oeddynt  
 108 Seirff, llewod, gwiberod gwynt.

Tros Anghred, tros Gred, traws Grair—aml ydyw,  
 Ymlidiwyd un Mab Mair,  
 Trosom y gwnaeth pob trawsair,  
 112 Tri, Dau, Un, cyfun y'i cair.

Wedy anghyfraith wneithur  
 Ei frad Ef o fryd ofer,  
 Cam oedd i Iuddas, ein câr,  
 116 Cusanu Iesu, Oeswr.

Er deg ar hugaint, aur Dad,  
 O arian bath, aeron byd,  
 Anhwsboniaeth creiniaeth Cred  
 120 Fu Ei werthu a'i wrthod.

Gorchwyl Iuddas fu gwarchae  
 Gŵr o hil ddoeth balch noeth Noe:  
 Gwrthodes Naf gwerthadwy  
 124 Gwarth hydr a'i gwrthodai.

Diflas fu Suddas Swddan,  
 Dysgu dienyddu Dyn;  
 Dialodd Duw a'i Eilun,  
 128 Dial gorwyllt, dâl gwirion.

Rhoed wrth (ar ôl swrth serthair)  
 Rhyw faenbost mawrgost murgaer;  
 Rhoes Duw ras na'n llas yn llwyr,  
 132 Rhwymwyd, carcharwyd, cyrch oer.

Yn llaw bob un drwy lun drwg  
 (Oes ddarmerth Iesu ddirmyg)

- 136 Ysgwrs nid edewis gig  
Na gwaed yn y corff gwiwdeg.
- 140 Darfu ein drygwaith wneithur  
Brad cenedl fawrchwedl Ferchyr,  
Byw Dofydd, bu edifar,  
Bradychwyd Ef bryd ucher.
- 144 Cellweiriwyd ein call waredd,  
Crist o Fair, croes Duw fawrodd,  
Cyfenw Difiau, riniau radd,  
Cablwyd Ef, cwbl yw Dofydd.
- 148 Goddefwn, wyf gweddw oful  
Gofeddgar fyddar feddwl;  
Goddefawdd dros gawdd afal  
Gwenergwaith, gwayw annirgel.
- Aeth y Gŵr a'n gwnaeth o gnawd dyn—heb les  
(Blys Efa, fur cyndyn)  
152 Ar grog fferf i'w loes derfyn,  
O hynt ni bu iau na hŷn.
- 156 Rheidrudd ei ddwylo rhyddrwg  
Yn rhuddo cof o'n rhyddig;  
Rhoes aur Ei groes ar y grog,  
I brynu dyn, waed bron deg.
- 160 Rhodded (nid rhodd myged mygr)  
I'm Eurllyw Grist er mawrllwgr,  
Dduw teg! gwanddiod hagr,  
Gwenwyn a bustl a gwinegr.
- 164 Esgynnawdd dallfawdd dwyllfurn,  
Oes diagr Iesu Dëyrn,  
Ei gladdedigwaith, faith farn,  
O ras hydr ar Sadwrn.
- 168 O'i bridd wely brudd waelod  
Efô, Grist, a ofwy Gred  
Ar dduw Sul, urddas olud,  
Ar Dduw doeth, ar ddeau Ei Dad.



- 204 Arheilwn nerth yr hael Naf,  
Ar helw Duw y rhwolaf.
- Mae i'th was culas calon—addolol  
208 Ban ddeler geir dy fron,  
Mab Mair, Crair Cristonogion,  
Maddau hir feddyliau hon.
- Y tafod (dwnf bechadur  
Anwiw o feddwl enwir)  
212 A dyfawd, neud edifar,  
Dwyll a brad, dall a bryder.
- Y traed ffalsus nod rhedeg  
O dwyll i'th erbyn a'm dug;  
216 Mab Mair, aur Grair ar y grog,  
Maddau canys Ti yw'r Meddyg.
- Y drem a fu o drimodd  
Warant i bob enwiredd,  
220 Deisyfu maent, dwys hoywfudd,  
Digrynwr, Dy gerennydd.
- Naf o iawnllin nef wenllys,  
Nêr nef Nen, Perchen parchus;  
224 Y ddwyllaw ni'th addoles,  
Na ddilid pan fwyf ddulas.
- Clustau anoddau, anwiw eiddun—dwyll,  
Dillwng, Dduw credadun;  
228 Dewr Dy hynt, dyro Dy hun,  
Doniau ddeddf, Dy nawdd uddun.
- Duw, na ad ddeuwad ddiwarth,  
Dyn biau angau yngyrth,  
232 Da lwybr yw Dy oleubarth,  
Dybryd wŷr a'r deubrid werth.
- Er archollau Dy ddeudroed  
Na ad, ein Brenin ni wyd,  
236 (Anodd yw traethu'r enaid)  
Uffern goelcerth, werth Dy waed.

- Rhag unsom cythraul, rhag ansawdd—cethern,  
 Rhag uffern wern warthgawdd,  
 Duw nen o'r pren a'n prynawdd:  
 240 Dyn wyf yn erchi Dy nawdd.
- Trindawd eglurffawd Agla—a'm llywio,  
*I et O et Alpha;*  
 Tröed ym, lle nyw treia,  
 244 Trugaredd a diwedd da.
- Cymynnaf, iawnaf Ener,  
 Caf dystion cyfa' dostur,  
 Fy nghorff mau, y mae daear,  
 248 A'm da, amen, i'm damunwr.
- Cymynnaf fy enaid (nid cam ennyd—ym)  
 I deml Grist a'i leindyd,  
 A'r lludw gorff lle daw i gyd  
 252 I'r lludw arall lle deiryd.
- O'm pechod, Grist, trist y'm traidd,  
 Af i'th ras, chwedl addas oedd,  
 Aro wan, oer yw ei waedd,  
 256 Yng nghardod, eurglod Arglwydd.
- Arglwydd rhwydd rhywiog, nerthog neirthiad,  
 (Ofnog fydd digu yn cyrchu cad)  
 Erbyn fi, gwesti gwastad—ucheldir,  
 260 I'r lle y caiff cywir a gwir a gwad.  
 Arglwydd môr a thir, wir Warediad,  
 Arglwydd gwyll a dof, medrusgof mad,  
 I uffern geuwern â'r gawad—diefyl  
 264 A Sathan diwyl ni'm gŵyl, na'm gad.  
 Rhag tân llosgedig ddig ymddygiad,  
 Rhag dirmyg iawn blyg, rhag iäen blad,  
 Rhag drewiant coddiant, cuddiad—pum synnwyr,  
 268 Rhag ceubwll lledwyr, boenllwyr benllad,  
 Pwyllwn, ystyriwn ein oes duriad,  
 Pallu o'n camwedd a'n rheuedd rhad:  
 Pob peth, pob difeth dyfiad—a dderfydd  
 272 Eithr cerennydd ein dedwydd Dad.  
 Priddyn fydd pob dyn dan ei ddillad,  
 O'r pridd Duw a'i gwnaeth, hudoliaeth had,

- 276 Priddfedd ei gydwedd, geidwad—daeargnawd,  
Peryglus Ddydd Brawd ei nawd a'i nâd.  
Pan ballo'r ddeudroed, hoed ehediad,  
Pan fo dolur pen yn nen ein iad,
- 280 Pan ddêl sêl na sêl, inseiliad—angau,  
Prid i'r tafodau o'u brodiau brad.  
Hwyliaist a llywiaist haul a lleuad,  
Haelgrair, un Mab Mair, o'r gair a gad;
- 284 Hwnt, er gwaed y traed cyn treiad—archoll,  
Hynt ar gyfrgoll ni oll na ad.  
Hanbûm camweddol, rwydol rediad,  
Hanbwyf bwyll cwm pas o'th ras a'th rad;
- 288 Hanbych well, Lewych, Lywiad—tangnefedd,  
Hanbo fy niwedd i'th wledd a'th wlad. Amen.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 15001, f. 219<sup>v</sup> B—J 111, 1294–6 (llau. 1–164), 1298–9 (llau. 165–276) C—LIGC 4973B, 315<sup>v</sup> D—LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1], 24<sup>v</sup> E—Llst 133, 268<sup>f</sup> (llau. 173–276), 272<sup>v</sup>–273<sup>v</sup> (llau. 1–173) F—Llst 145, 40<sup>r</sup> (llau. 241–76), 42<sup>v</sup>–43<sup>r</sup> (llau. 1–173) G—Pen 118, 220

Seiliwyd y golygiad ar destun llawysgrif B, yr hynaf. Codwyd y gerdd i'r holl lawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ohoni.

Mae rhai llinellau yn llawysgrif B yn anghyflawn, a diwygiodd John Davies rai o'r darlenniadau hyn yn llawysgrif C, gan ddilyn gofynion y gynghanedd neu'r mydr. Derbynnir nifer o'r diwygiadau hyn yn y testun, gan nodi yn y 'Darlenniadau' isod y darlenniad a geir yn llawysgrif B. Ymhellach gweler y nodiadau ar y llinellau perthnasol ac uchod tt. 128–9. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

### *Darlenniadau'r llawysgrif*

34 bit tecôin. 43 uvudva6r. 53 [a gad]. 54 aranga6d bod. 62 gwy6. 68 nenn y not. 73 eur amyrr thus. 76 arael. 77 nyt ont crist oe veithrin. 90 anef anafoed. 92 adreis dyf. 93 [ei waelach]. 97 Jessu ior llu. 110 vn mal meir. 113 wneuthur. 118 bach. 127 ulun. 137 Daruvwyt; wneuthur. 141 waered. 150 vu r. 167 Ardu6. 168 deeu dat. 169 Du6 llun; gwreidya6d. 174 du6 spryt. 182 dwfyr ewffraeth. 190 yn hwyl awyr. 197 kynn kynvyl. 202 pridgorff gorff gorwackaf. 236 kelkerth. 248 amdamen.

### *Teitl*

Gruffud vychan hevyt.

*Awdl i Grist a Mair*

Saig wael, [bellach] ni ddaw traed o hyd iddi,  
 A ddaeth i enaid ffôl  
 O luniaeth brig pren gwaharddedig [y] coed,  
 4 Pren afalau Efa lom welw.

Glwth haint pang Efa a roddodd bryder i'r byd,  
 Gwae'r bydoedd o'r dial,  
 Rhannodd afal gydag Adda,  
 8 Y fath anrhydedd i ennill rhaw balu!

Syniad truenus (nid yw wylofain yn ei guddio)  
 Yw darfod gwedd pum oes bwl y byd,  
 Chwant di-foes oedd [achos] niweidiol ddymchweliad  
 12 Mintai'r un afal [*sc.* y byd].

Ar ôl dirboen ar bumoes byd  
 Ac ofn cwymp [llawn] trallod [i] uffern,  
 [Cafwyd] gair [yr] angel Gabriel yno  
 16 Wrth Fair, a'r Gair fu'r waredigaeth.

Pum oes byd oll o [fod yn] gaethion yn rhyddion,  
 A'n hatgofion yw'n iaith gyffredin:  
 Er ein mwyn y gwnaeth Duw ddatganiad  
 20 Er mwyn ein cipio o'r hynt wael.

Duw a'i gyrrodd [*sc.* Gabriel], [un] taer [ei] fywyd,  
 Yn ddaionus y gwnaeth gyflawn swydd negesydd;  
 Yn rhwydd y gwn pa sawl gair  
 24 A'n cludodd o gaethiwed drist.

*Ave* rhag niwed mawr afal,  
*Maria*, Efa wirion:  
 Geiriau doniau Gabriel,  
 28 *Gratia*, daioni a wna wedyn.

*Plena* fu'r siwrnai ddaionus pan ddaeth yr angel  
 I fodloni teyrnas,  
 [Sef] Gabriel eglur [a] gwych ei ymadrodd  
 32 Oddi wrth y mawr Dduw at hardd Fair ddoeth.



36 *Dominus*, [y] Duw gweddus, yw hanfod [y] byd,  
Bydded *tecum*, ein Cynghorwr,  
*Benedicta*, [y] Prif Ddoethur,  
*Tu* yw'r Mab, y tir a'r môr.

40 *In*, bychan a hawlia'n dâl,  
*Mulieribus*, gorchwyl teilwng,  
*Et* [yr] ail brif lythyren ddoeth,  
*Benedictus*, foethus gynhaliaeth.

44 *Fructus* yw[’r] Gair o Fair, Ef a symuda ein hangen  
Trwy rym gras yr Ysbryd,  
Arglwyddes fawrlesol [y] wryfol gymdeithas,  
*Ventris* a barodd y byd.

48 *Tui* Un a Thri a’th ras sy’n gwrando arnom,  
Arglwydd, rhanna [Di] o’th gariad,  
Yn Fab morwyn [o] fagwraeth dyner,  
Yn hardd, yn Ysbryd, yn Dad.

52 *Iesus* Fab ac Offeiriad a phob ffyniant daionus,  
Unig Fab Duw na fydd yn darfod;  
Sicr yw[’r] nod cyn dyfod ein dydd,  
Dwg air i ni, Dy gymod[lonedd].

56 Y Mab Gras a gafwyd, a gair yr angel  
A barodd fodlonrwydd i Fair;  
Arf angerddol Ei glod, tyner [a] disglair,  
Anwylyd gwych [i] greaduriaid.

60 Ganed Ef, gwn nad ofer [hynny],  
Genedigaeth hardd [a] diofal,  
O Fair ac un gair gan berthynas  
A[’r] Ysbryd Glân heb gytgnawd gŵr.

64 Morwyn fu Mair dyner o fewn ystafell wely ddisglair,  
Yn dal yn wych Fab Duw fry,  
Morwyn hardd sicr cyn hyn,  
([Un ac iddi] farddoniaeth deg) [a] morwyn wedyn.

Llef geni Mab [y] gogoniant,  
Delw wych, [yn] llenwi’r byd;  
Crist Arglwydd, cyfodi’n fud

68 [A wnâi] seren eglur o[’r] nen, ein harwydd;  
Amlhau a dosbarthu yn hael  
Roddion, cael [y cwbl] a fynnid.

72 Daeth tair anrheg hardd, a chludo eu hunain [a wneir]  
Gan frenhinoedd tyner:  
Aur a myrr a thus er mwyn  
Ein hiawnder aruchel, ein morwyn urddasol.

76 Nid drwg oedd cwmni epil gwartheg  
Ar bwys y llond crud hael hwn,  
Nid âi, ar wahân i Grist i’w feithrin,  
Neb i breseb yr asyn.

80 Uwchlaw iddo’n ymdroi (Arglwydd y môr [ac iddo] wlybanaeth  
mawr)  
Yr oedd Mair sy’n ein llywodraethu,  
Islaw iddo, Iesu disglair  
[A] hardd [Ei] gorff, [yr oedd] asyn ac ych.

84 Ar orchymyn ([O!]) Iesu [y] Perchen anrhydedd,  
[Y] lluniwr oesoedd) y Sarasin  
Herod gaeth [i bechod] a’i fintai o gŵn,  
Y gŵr ysgymun aml ei wisg wych,  
88 Ei farwolaeth fradwrus, druan,  
A gynlluniodd Ei elynion.

92 Alltudiwyd Arglwydd byd Cred ([y] Mab Arwr cryf o[’r] nef)  
Rhag anafiadau diffeithiol:  
Dial perffaith [Herod] yw deol Arglwydd,  
Barn ddofn a dyf dros y sawl a dreisia.

96 Honnwyd na welwyd ei waelach o ran ffyddlondeb,  
Bu bron iddo ddiddymu crefydd,  
[Ac na welwyd drwg] enw dyn fel hwn, a Duw’n warant,  
Maith yw’r dagrau, [nac ychwaith] reibiwr gwychach.

100 Iesu, Iôr y llu ar dir yr Israel,  
Unben haelionus, Llywydd ffyniannus:  
Clod gwych a roed [iddo] un awr,  
Yno y gwnaeth gampau ieuencid mawr.

- 104 [Fel] y mawr werthfawr feini o'r pridd  
 [A] gwlan y ddaear o blith y gwrysg,  
 [Fel y] byw yn farw, oferedd sydyn,  
 [A'r] meirw'n fyw, budd mawr iawn.
- 108 Ymrysonfa seithrif llu lle caent eu cynnwys drwy orfodaeth,  
 Dan ei draed [*sc.* Herod] y rhedent,  
 Sef rhai o'i drigfan oedd yn  
 Seirff, llewod [a] gwiberod [y] gwynt.
- 112 Tros y byd Anghredadun [a] thros fyd Cred, cadarn Amddiffynfa  
 helaeth yw,  
 Erlidiwyd unig Fab Mair,  
 Er ein mwyn y lluniodd bob addewid cadarn,  
 Tri, Dau, Un, yn unedig y'i ceir.
- 116 Wedi gwneud yn anghyfreithlon  
 Ei frad Ef o fwriad gwacsaw,  
 Bai ydoedd i Jwdas, ein perthynas,  
 Gusanu Iesu, Rhoddwr bywyd.
- 120 Er mwyn deg ar hugain, [O] Dad ardderchog,  
 O arian bath, ffrwythau[r] byd,  
 Afradlonedd taeogrwydd byd Cred  
 Fu Ei werthu a'i wrthod.
- 124 Gwaith Jwdas fu darostwng  
 Gŵr o hiliogaeth ddoeth arch lom Noa:  
 Gomeddodd [yr] Arglwydd wedi ei fradychu  
 Gywilydd beiddgar y sawl a'i gwrthodai.
- 128 Ffôl fu Jwdas [yr] ?Iddew  
 [Yn] meistrolï dienyddio Dyn;  
 Dialodd Duw a'i Ddelw  
 [Â] dial sydyn iawn, [y] taliad [am yr] Un di-fai.
- 132 Rhoed ar ôl (yn dilyn lleferydd aflan difeddwl)  
 Rhyw bost o faen tra chostus [mewn] caer o fur;  
 Rhoddodd Duw ras fel na'n lladdwyd yn gyfan gwbl,  
 Rhwymwyd [a] chaethiwyd [Ef, dyna] ymosodiad trist.
- Yn llaw pob un drwy gyfrwng drygioni  
 (Darpariaeth oes [o] ddirmyg [yn erbyn yr] Iesu)

136 Fflangell na adawodd gnawd  
Na gwaed yn y corff rhagorol hardd.

140 Parodd ein llafur drwg  
Frad cenedl ar ddydd Mercher gwyech ei hanes,  
Byw yw Duw, bu edifeirwch,  
Bradychwyd Ef gyda'r hwyr.

144 Gwatwarwyd [yr Hwn sydd inni'n] drugaredd ddoeth,  
Crist o Fair, croes Duw helaeth Ei rodd,  
Y dydd Iau cyfatebol, ystad rhinweddau,  
Cafodd Ef ei ddifenwi, perffaith yw Duw.

148 Dioddefwn, yr wyf yn ŵr amddifad ffôl  
[A chennyf] feddwl gŵr byddar diotgar;  
Dioddefodd [Ef] dros dramgwydd afal  
Boen amlwg ar ddydd Gwener.

152 Fe aeth y Gŵr a'n lluniodd o gnawd dynol heb les  
(Chwant Efa [sy'n] fur ystyfnig)  
Ar grog gadarn i'w ddiwedd ingol,  
O ran gyrfa ni bu [gyffelyb] iau na hŷn.

156 Coch gan waywffyn oedd ei ddwylo drwg iawn  
Yn llosgi cof oherwydd ein hatgasedd;  
Rhoddodd drysor Ei groes ar y crocbren,  
Gwaed [Ei] fron deg i brynu dyn.

160 Rhoddwyd (nid anrheg anrhydeddus [ac] ysblennydd)  
I Grist f'Arglwydd coeth er mawr niwed,  
Dduw hardd! wan ddiod wrthun  
[Sef] gwenwyn a bustl a finegr.

164 Goresgynnodd gynllwyn twyllodrus [Ei] gladdu dall,  
Iesu Frenin hardd [Ei] fywyd,  
Achlysur Ei gladdu, barn helaeth,  
Ar ddydd Sadwrn trwy ras cadarn.

168 O waelod trist Ei wely pridd  
Efô, Grist, a ymwêl â'r byd Cristnogol  
Ar ddydd Sul, cyfoeth [o] urddas,  
At Dduw medrus, ar ddeheulaw Ei Dad.

Ar ddydd Llun, yn ddymuniad gŵr y sylfaenodd [Ef] y nef,  
 Arglwydd daear a moroedd;  
 Mae'n deall hynt y dyddiau

172 ...

Duw Iesu, Duw a fu, Duw a fydd, prydferth [Ei] wedd arbennig,  
 Duw[’r] Ysbryd [yn dwyn] bedydd [i’r] byd;  
 Duw[’r] Tad, Duw[’r] Mab, [y] Rhoddwr parod,  
 Duw’n farw, Duw’n Arglwydd anfarwol.

176

Dwyfolwraig ddisglair yw’n man dethol,  
 Dyn sydd piau dewisiadau daionus;  
 Dewisodd [yr] Arglwydd, prynodd ni,  
 Dewiswn [ninnau] Fab Duw, Iesu.

180

Dewisaf fy Arglwydd a wnaeth (Iôr perffaith)  
 Win o’r dŵr yn fywiog sydyn,  
 Ddwyfoldeb hyderus ddydd Sul  
 Arweiniodd y byd Cristnogol o gaethiwed gaeth.

184

Dewisaf fy Arglwydd, yr wyf o’r un hil ag Ef,  
 Yn gofyn ynghylch fy nghamwedd;  
 Boed imi ddyfod [yn rhydd] trwy bob anobaith,  
 Dduw[’r] Arglwydd, yn fy ngorchwyl olaf.

188

Dewisaf fy Arglwydd a wnaeth gylchdro[’r] haul  
 [Sy]’n hwylio [drwy’r] awyr las;  
 [Un] di-fai Ei deyrnas,  
 Duw’r byd Cristnogol, boed iddo [Ef] ddewis Ei was.

192

Dewisaf fy Arglwydd, fy amddiffyn rhag niweidiau,  
 Duw[’r] mydrau, da y rheolodd [hwy],  
 Dewised [Ef] y sawl a’i dewisodd [yntau]  
 Ar ddydd pan saif dau ddewis rhwydd.

196

Os bydd i mi ddwyn cwyn cweryl  
 [Bydd] poen wrth wyllo oherwydd helynt chwerw,  
 Ar Dduw y rhoddaf fy ngofal  
 A Mair inni [y rhai â] meddwl byddariaid.

200

Yr enaid llwm a greodd [yr] Arglwydd doeth  
 A’r corff gwacaf o’r pridd,

- 204 Coleddwn rym yr Arglwydd tirion,  
Dan nawdd Duw y rheolaf.
- 208 Mae i'th wasanaethwr gwachul galon addolgar,  
Pan ddeler ger dy fron,  
Mab Mair, Anwylyd Cristnogion,  
Maddau [Di] amcanion maith hon [*sc.* y galon].
- 212 Y tafod (pechadur mawr  
Annheilwng [llawn] bwriad drwg)  
A fydd yn cynhyrchu, edifar ydyw,  
Ystryw a brad, gofid dall.
- 216 Y traed twyllodrus [*gydag*] amcan rhedeg  
Trwy dwyll a'm cludodd yn dy erbyn;  
Mab Mair, Anwylyd gwych ar y grog,  
Maddau [Di] canys Ti yw'r Meddyg.
- 220 Y llygad a fu mewn tair ffordd  
Yn sicrwydd i bob pechod,  
Ceisio maent [*sc.* y llygaid], lles hyfryd [a] thaer,  
Dy gymod, [O] <sup>a</sup>r bonheddig.
- 224 Arglwydd o linach gywir llys sanctaidd [y] nefoedd,  
Pennaeth [sy'n] Arglwydd [y] nefoedd, Perchennog mawr ei an-  
rhydedd;  
Y ddwy law na'th addolodd,  
Paid â'u herlid pan fwyf yn ddu a glas [yn y bedd].
- 228 Clustiau heb amcan, [o] dwyll dymunedig annheilwng,  
Gwared [hwy], Dduw cywir;  
[Yr Un] gwrol Dy hynt, dyro Dy hun  
Dy amddiffyn iddynt, [Ti sy'n] drefn doniau.
- 232 Dduw, na chaniatâ ddau wadiad digywilydd,  
Dyn [meidrol] piau angau disymwth,  
Cwrs daionus yw Dy drigfan ddisglair,  
Gwŷr enbyd [ein sefyllfa ydym] gyda'r pris drudfawr.
- 236 Ar gyfrif clwyfau Dy ddwy droed  
Paid â chaniatáu, ein Brenin ni ydwyt,  
(Anodd yw mynegiant yr enaid)  
Goelcerth uffern [oherwydd] pris Dy waed.

Rhag twyll arbennig [y] cythraul, rhag sefyllfa ciwed [uffern],  
 Rhag cors uffern [a'i] phoen o gywilydd,  
 Duw'r nef a'n prynodd oddi ar y pren:  
 240 Dyn ydwyf yn gofyn am Dy nawdd.

Boed i Drindod eglur Ei ffawd Duw fy arwain,  
*Iesus et Omega et Alpha;*  
 244 Boed iddo gyfeirio ataf, lle nad yw'n eu lleihau,  
 Drugaredd a diwedd daionus.

Cyflwynaf, [yr] Arglwydd cywiraf,  
 Caf dystion o dosturi cyflawn,  
 Fy nghorff i, mae daear [yn fy nisgwyl],  
 248 A'm heiddo (Amen) i'r sawl yr wyf yn ei ddewis.

Cyflwynaf fy enaid (nid cam ennyd imi [mohono])  
 I deml Crist a'i burdeb,  
 A'r corff pridd lle daw ynghyd  
 252 I'r pridd arall lle mae'n perthyn.

Oddi wrth y mhechod, Crist, yn drist y daw ataf,  
 Fe af i'th raslonrwydd, hanes teilwng ydoedd,  
 Disgwyl un gwan, ingol yw ei waedd,  
 256 Mewn trugaredd, [yr] Arglwydd uchel ei foliant.

Arglwydd hael addfwyn, cynhaliwr grymus,  
 (Llawn ofn fydd y truenus yn mynd i frwydr)  
 Derbyn fi, orffwysfa ddianwadal yr uchelfan [*sc.* y nefoedd],  
 260 I'r lle caiff y ffyddlon gyfiawnder ynghyd â'r hawl i'w amddiffyn  
 ei hun,

Arglwydd môr a thir, Gwardwr sicr,  
 Arglwydd y gwyllt a'r dof, cywrain Ei synnwyr [a] daionus,  
 Paid â'm gadael [i fynd] i wern wag uffern yng nghwmni haid o  
 ddiawliaid

264 A Satan creulon nad yw yn fy ngwarchod.  
 Rhag gweithgaredd chwerw tân eirias,  
 Rhag sarhad gwir ddarostyngiad, rhag [yr] haenen o rew,  
 Rhag drewdod digofaint, tywylliad pum synnwyr,  
 268 Rhag pwll agored gwyrddroëdig, eithafedd [o] lwyr boen,  
 Ymbwyllwn, ystyriwn ein hoes [o] ystyfnigrwydd  
 [Bydd] ein pechod a'n cyfoeth rhad yn darfod:  
 [Bydd] pob peth, pob tyfiad cywrain yn darfod

- 272 Ac eithrio cyfeillgarwch ein Tad bendigaidd.  
 Daearbridd fydd pob dyn dan ei ddillad,  
 O'r pridd y gwnaeth Duw ef, had hudoliaeth,  
 Bedd o bridd fydd ei gydymaith, gwarchodwr cnawd o'r ddaear,
- 276 Enbydus ar Ddydd y Farn fydd ei natur a'i gwynfan.  
 Pan ddiffygia'r ddeudroed, ehediad gofid,  
 Pan fo cur pen ym mhen ein corun,  
 Pan ddêl sêl nad yw'n sêl, seiliad angau,
- 280 [Bydd yn] gostus i'r tafodau oherwydd eu barnau brad[wrus].  
 Cyfeiriaist a llywiaist [yr] haul a[r] lleuad,  
 Anwylyd haelionus, unig Fab Mair, a gafwyd o'r gair;  
 Draw, oherwydd [aberth] gwaed y traed cyn treio o'r archoll,
- 284 [Ar] ffordd colledigaeth, paid â chaniatáu i ni oll [fynd].  
 Bûm yn bechadurus [a] maglog [fy] ngyrfa,  
 Boed i mi [dderbyn] synnwyr cylch [y nefoedd] trwy dy ras a'th  
 fendith;  
 Henffych well, Oleuni, Arglwydd heddwch,
- 288 Byddo fy niwedd yn dy wledd a'th wlad. Amen.



# Nodiadau

## 9

Ymhellach ar yrfa Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir, gweler y nodyn cefndir i gerdd 1 uchod a'r rhagymadrodd i waith Llywarch Bentwrch isod.

Cyfeiria'r bardd yma at Ddafydd Fychan fel *Cymwd Lliwan naf* (ll. 38) sydd o bosibl yn gyfeiriad at y ffaith ei fod yn rhingyll yng nghwmwd Llifon rhwng 1350 a 1364.<sup>1</sup> Yng nghwydd moliant Llywarch Bentwrch i Ddafydd isod (cerdd 13) cyfeirir ato fel perchennog plasty Trehwfa ym mhlwyf Bod-edern yng nghwmwd Llifon.<sup>2</sup> Ni sonnir yn yr awdl hon am Drefeilir yng nghwmwd Malltraeth, felly mae'n bosibl iddi gael ei chanu cyn diwedd chwedegau'r ganrif, pan ymsefydlodd Dafydd o bosibl yn Nhrefeilir.<sup>3</sup>

Cerdd foliant draddodiadol yw hon, yn moli Dafydd am ei haelioni yn y llys a'i filwriaeth danbaid ar faes y gad. Gelwir Dafydd yn bennaeth ar wŷr dewr sy'n barod i roi eu heinioes dros eu pennaeth yn ôl y delfryd arwrol, *Llorf (llu aesgorf) lleasgaith. / Caith a ddwg eu llaith yn llwyr* (llau. 12–13). Canmolir yn arbennig y cyrn yfed euraid a llesol a rydd Dafydd (ll. 25, *Gorhoendeg rudd fudd fuail*), sy'n dangos parhad y delfryd o'r arglwydd yn gweini diod i'w ddeiliaid a'i westeion.<sup>4</sup>

Mae peth ansicrwydd ynglŷn ag union achlysur y canu. Dywed y bardd yn y ddau englyn cyntaf ei fod wedi ymweld â Dafydd y diwrnod blaenorol a'i fod wedi trefnu oed i ddychwelyd ato drannoeth. Cadarnheir y ffaith ei fod yntau a'i noddwr ar wahân yn llinellau 45–6, *Caeth y'm daw hiraeth o'm diheurwydd: / Cyd bwyf heb daw, canllaw ceinllwydd*. Mae'n bosibl mai canu clodydd y noddwr a'i osgordd a wna wrth ddisgwyl iddynt ddychwelyd o gyrch llwyddiannus ar faes y gad: gweler llinellau 17–24 ac yn arbennig llinell 53, *Fy mawl, mau eiriawl, mae ei arwydd?* Ymddengys, fodd bynnag, fod dathliad yn yr arfaeth (llau. 25–8) ac ymdeimlir â gorfoledd cynyddol y bardd, yn enwedig wrth iddo ailadrodd y rhagenw *fy* ym mhedwar gwawdodyn olaf y gerdd.

<sup>1</sup> Gw. MAng 229 ac am y ffurf *Lliwan*, y credir ei bod yn amrywiad ar *Llifon*, gw. y nodyn ar y ll. isod.

<sup>2</sup> Gw. isod 13.31, 34 ac ymhellach y rhagymadrodd i waith Llywarch Bentwrch.

<sup>3</sup> Yn ôl dogfennau hanesyddol, yn 1368/9 y ceir y cyfeiriadau cynharaf at gyswllt rhwng Dafydd Fychan a Threfeilir. Diolchir i Dr A.D. Carr am yr wybodaeth hon. Cf. hefyd y rhagymadrodd i waith Llywarch Bentwrch isod.

<sup>4</sup> Mae'n bosibl fod gwreiddiau'r syniadaeth hon yn y ddefod o 'dal medd', syniad sy'n ganolog i gerdd Aneurin, 'Y Gododdin', ac sydd hefyd i'w weld yng nghanu'r Gogynfeirdd, e.e. GLIF 14.37 *Talyssant eu med mal gŷr Belyn—gynt* ('Hirlas Owain', Owain Cyfeiliog).

Egyr y gerdd gyda chyfres o wyth englyn lleddfbroest a ddilynir gan wyth gwawdodyn byr. Mae llinell 4 yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi, ac mae llinell 46 yn rhy fyr o sillaf (ond gw. y nodyn ar y ll.). O ran ei chynganeddiad mae'r awdl eto'n ymrannu'n ddwy ran: yn yr englynion (llau. 1–32) ceir cynghanedd sain yn 50% o'r llinellau, gyda chynganeddion croes a thraws yn weddol gyfartal yn y gweddill, ar wahân i linell 17 lle ceir cynghanedd lusz. Ceir cynghanedd sain ym mhob un llinell yn ail ran y gerdd (llau. 33–64), gyda thair enghraifft o sain ddwbl.

- 2 **o'i lys** Gw. GMW 56 am enghreifftiau pellach o *o'i* yn golygu 'to his, to her', sef amrywiad ar *i'w*; cf. hefyd *o'i gyfiaith*, ll. 3 a 12.77 isod.
- 3 **rhaith** Ymhellach ar yr e. hwn yn golygu 'cyfraith, cyfiawnder', &c., gw. WLW 64.  
**o'i gyfiaith** Gw. uchod ll. 2n.
- 8 **mab Dafydd Llwyd** Yr oedd Dafydd Fychan yn fab i Ddafydd Llwyd ap Cynwrig ap Goronwy o Gonysiog, cwmwd Llifon, Môn (*fl.* 1343–52), P.C. Bartrum: WG1 'Hwfa' 3.
- 10 **llyrf** Ll. yr e. *llorf* (cf. ll. 12) yn golygu 'post, piler' yn llythrennol, ond fe'i defnyddir yn gyffredin yn y farddoniaeth yn ffigurol am 'gynheiliad, amddiffynnwr', gw. GPC 2209, ac am drosiadau cyffelyb yn y farddoniaeth, gw. T.J. Morgan, 'Trosiad y Golofn', YB x (1977), 94–105.  
**plaid** Am ei wahanol ystyron, 'plaid, llu, mintai' neu 'carfan o bobl sy'n dilyn yr un gred neu yn ymladd ar yr un ochr', gw. DN 140–1 a PKM 184.
- 12 **lleasgaith** Derbynnir awgrym petrus GPC 2123 sy'n rhestru'r ffurf hon yn unig enghraifft dan *lleasgaeth* '?un sy'n ddarostyngedig i farwolaeth, dyn meidrol'.
- 16 **Nudd** Sef Nudd Hael fab Senyllt, un o'r Tri Hael yr oedd yn arferiad gan feirdd gyfeirio atynt fel safon haelioni; am gyfeiriadau pellach ato, gw. TYP<sup>2</sup> 5–6, 463 a cf. uchod 4.75n.
- 18 **tadwys** Am *tadwys* 'tad', gw. GDG<sup>3</sup> 602, ac am y ffurf, cf. *mamwys*, GPC 2336. Fe'i deellir yma'n ffigurol am 'benteulu'.
- 20 **Nudd** Gw. ll. 16n uchod.  
**dug y maes** Am yr ymadrodd *dwyn y maes* yn golygu 'to win the field', sef 'dwyn y fuddugoliaeth', gw. GPC 1130.
- 23 **yn rhaid** Llsg. B yn, a ddehonglir yma fel yr ardd. yn golygu 'mewn', ond gellid hefyd ei ddeall yn gyfuniad 'i'n' yn golygu 'yn ein'. Ar *rhaid* yn golygu 'angen, cyni; brwydr', gw. CA 164. Er gwaethaf orgraff arferol llsg. B, gellid hefyd gynnig darllen *ein rhaidd, blaidd*

*o'r blaen* a chymryd *rhaidd* 'gwaywffon' yn drosiadol am Ddafydd: 'ein trywanwr, milwr glew ar y blaen'.

**o'r blaen** Ar y cyfuniad hwn yn golygu '*ahead, in front*', gw. GPC 2610.

25 **rhudd** Dylid o bosibl ddarllen *Nudd* gan ddilyn diwygiad John Davies yn llsgr. C; cf. hefyd isod ll. 57, *Fy Nudd fudd fuail*. Gellid wedyn aralleirio 'Cyrn yfed bendith[iol] Nudd disglair a pherffaith'.

29 **heilgar** Dilynir G 774 a diwygio darlleniad llsgr. B *haeilgar* yn *heilgar*.

31 **hwylaw lle bo draw** Llsgr. B *hbylo lle bo tro poet rbyd*. Diwygir er mwyn yr ystyr.

33 **llywy gulwydd** Anghytunir â G 186 (d.g. *cuhwyd*) sy'n nodi bod y ll. yn fyr o sillaf; sylwer mai deusill yw *llywy* yn rheolaidd yn y farddoniaeth, cf. GMB 9.41 (Gwalchmai) a GDG<sup>3</sup> 288 (108.37–8) *Pobl wrthrych, llewych llywy, / Pefr feinwyr, pawb a wyr pwy*. Fodd bynnag, bernir, gyda G *l.c.*, fod *culwydd* 'arglwydd' yma'n cyfeirio at Ddafydd, er mai at Dduw neu Grist y cyfeiria'r holl enghreifftiau eraill o'r ffurf yn y farddoniaeth gynnar.

34 **cad rwyd** 'Rhwydwr byddin' neu 'frwydr'. Mae'r ddelwedd hon yn gyffredin yng ngherddi'r Gogynfeirdd a'r Cynfeirdd o'u blaenau, gw. CA 74, CLIH 119 a GCBM i, 16.221n am ragor o enghreifftiau ohoni. Cf. hefyd uchod 4.102n.

**carw tryfrwyd** Trafodir *tryfrwyd* gan I. Williams yn 'Vocabularium Cornicum', B xi (1941–4), 94–6, lle cynigir mai ei ystyr yw 'brwyd iawn', sef cyfystyr â *tryfrith*. Digwydd hefyd yn gyffredin yn yr hen ganu am 'frwydr', gw. CA 294 a GCBM i, 26.87n. Byddai'r naill ystyr neu'r llall yn addas yma ar ôl *carw*: 'carw [mewn] brwydr' neu 'carw brith'. Ar ddefnydd ffigurol *carw* am 'arglwydd', gw. 10.38n ar *rhygarw*.

35 **buanhwydd** Fe'i dehonglir yn a. cyfansawdd o *bu*an a *rhwydd* ac yn golygu 'cyflym [a] hwylus', yn hytrach nag yn e. haniaethol *buanhwydd* yn golygu 'cyflymder, buanhwydd, esgudrwydd'. Ar y calediad yn yr ail elfen, gw. Treigladau 27–8.

36 **beirddion allwydd** Rhestrir *allwydd* yn GPC 79 yn amrywiad ar *allwedd* a derbynnir hynny yma. Dichon y gallai fod yn drosiad yn cyfeirio at berchentyaeth a chroeso'r noddwr i feirdd. Gwrthodir felly awgrym J. Lloyd-Jones yn G 20 sy'n dehongli'r gair yn darddair o *llwydd*.

37 **rhwyd rhodwydd** Am *rhwyd*, gw. ll. 34n uchod. E. yw *rhodwydd* yn golygu 'un ai'r rhyd ai'r clawdd i amddiffyn y rhyd', gw. CLIH 160 lle sonnir hefyd am arwyddocâd y rhyd fel 'lle y dylid ei wyllo, a lle y

ceid y brwydro ffyrnicaf'; ymhellach ar y ffurf, gw. *ib.* 217, TYP<sup>2</sup> 66 ac EWSP 512–13. Mae'r trosiad hwn felly yn pwysleisio dewrder y gwrthrych.

- 38 **Cymwd Lliwan** Ymhellach ar diriogaethau Dafydd ym Môn, gw. y nodyn cefndir uchod. Ffurf hŷn ar *cwmwd* yw *cymwd*, gw. G 241, GPC 643, a chymerir mai ffurf amrywiol ar *Llifon* yw *Lliwan*, sef cwmwd yng nghantref Aberffraw, Môn, gw. WATU 145. Yr oedd *w a f* rhwng llafariad yn debyg iawn eu hynganiad yn y cyfnod hwn, gyda *f* yn wefusol yn hytrach nag yn wefusol-ddeintiol fel heddiw, ac yn aml ceir y ddwy sain yn ymgyfnewid (gw. J. Morris-Jones: CD 199–200).
- 39 **ehudrwydd—Mordaf** Yr oedd Mordaf yn un o'r Tri Hael; arno, gw. uchod 3.58n. Cymerir bod *ehudrwydd* yn cyfeirio at ei barodrwydd i roi rhoddion yn hytrach na'i gyflymder ar droed.
- 40 **hylithraf** Gradd eithaf yr a. *hylithr* sydd yma yn hytrach na ffurf 1 un.pres.myn. y f. *hylithro*.
- 43 **corf** Derbynnir awgrym G 165 a diwygio *korff* llsgr. B yn *kor(y)f*, sef e. yn golygu 'colofn, post, cynheiliad, ceidwad', gw. *ib.* 164. Mae'n debygol i'r dryswch godi gan fod y gair *corff* yn digwydd yn y ll. ganlynol.
- canwledd** Yma golyga 'nifer mawr o wleddau' yn hytrach na 'chan gwledd' yn llythrennol, cf. 10.2n isod.
- trawsglwydd** Am y ffurf hon, gw. PKM 256–7 a cf. GMB 32.29 *Credadun y6 Ef, credaf—y'6 dra6sgl6yd* (Meilyr ap Gwalchmai) lle cymerir bod iddi'r ystyr 'bwriad', a GLIF 2.34 *Treth trauot tros gлот, tra6sgl6yd u6yhaf* (Llywelyn Fardd I) lle cymerir mai 'ymgymeriad' yw'r ystyr.
- trafn** Gw. GDG<sup>3</sup> 546 am yr ystyron 'ffynhonnell, trigfa, arweinydd'; gw. hefyd uchod 6.12n.
- 46 **cyd bwyf** Mae'r ll. yn fyr o sillaf a gellid cynnig darllen *cyd byddwyf* yma.
- heb daw** Dweud a wna'r bardd ei fod yn hiraethu am Ddafydd, er nad yw *heb daw*, hynny yw, er ei fod yn parhau i ganu i noddwyr eraill. Eto i gyd, 'ymdrech' yw llefaru geiriau o wir ddiddanwch heb bresenoldeb Dafydd (ll. 47).
- 49 **gwasgdorf** Cymerir mai 'mintai dynn' yw ei ystyr, cf. G 627 d.g. *gwasc* lle cynigir yr ystyron 'torf fawr, torf yn ymsang' neu 'a thorf yn ymwasgu ato'.
- 51 **naw dyfrys** Yma mae'r rhif *naw* yn cyflawni swyddogaeth gryfhaol a'r hyn a olygir ydyw 'brysiog iawn' neu 'hynod o frysiog'.

- 53 **mau** Llsgr. B *men*; derbyn timer awgrym petrus J. Lloyd-Jones, G 461, ynglŷn â'r diwygiad, a rydd well cynghanedd. Pe derbyn timer *men* yn ddarlleniad dilys, gellid aralleirio, 'Fy moliant, yn y fan lle mae ymbil mae ei faner', sef bod y noddwr yn barod i ymladd pan fo cyni.
- 54 **mur dur** Dyma drosiad sy'n pwysleisio galluoedd amddiffynnol y noddwr.
- 56 **neidras** Ni chofnodir y gair hwn yn GPC 2565. Fe'i deallir yn gyfuniad o *naid* a *tras*, er y gellid hefyd yma gyfuniad o *nai* a *tras* yn golygu 'nai o fonedd [arbennig]' (noder y gall *nai* ddigwydd yn ffigurol, gw. *ib.* 2549).
- 57 **Nudd** Gw. uchod ll. 16n.
- 59 **ymorchwydd** E. yn golygu 'cynddaredd, ffyrnigrwydd' a ddefnyddir yn gyffredin yn yr hen ganu fel un o gyfystyron 'brwydr', gw. CA xxvii, 229, GCBM ii, 4.55 a cf. G 558 a GPC 1476 d.g. *gorchwydd*.
- 61 **fy niwyd** Llsgr. B *vyndiwyc*. Derbyn timer awgrym J. Lloyd-Jones, G 379, ynglŷn â'r diwygiad, a deall *diwyd* yn e. yn golygu 'gŵr neu was ffyddlon' yma.
- 62 **Fy mraint ... neud gorau swydd** Cymerir bod *neud* yma'n gweithredu fel cyplad (gw. y nodyn blaenorol) a bod *fy mraint* yn oddrych a *gorau swydd* yn ddibeniad, 'y swydd orau yw fy mraint'.  
**neud gwir saint** Llsgr. B *nyt gŋir seint* a ddiwygir er mwyn hwyluso'r ystyr. Cyffredin yn y llsgrau. yw camddarllen *nyt* am *neut*; am eng-hreffitiau pellach o hyn, gw. J.E.C. Williams, 'MIW *neu, neut* as copula', *Celtica*, xi (1976), 282, a cf. GMB 25.14n. O ran cystrawen, cymerir bod *gwir saint* yn ddibeniad a bod *neud* yn gyplad (+ goddrych yma): 'gwirionedd y saint yw hyn'. Ymhellach ar bosibiliadau cystrawennol *neu, neut*, gw. J.E.C. Williams, *art.cit.* 278–85.
- 64 **pen rhaith** Ei ystyr lythrennol yw 'pen y gyfraith' neu 'pennaeth ar wŷr cyfraith', ond digwydd hefyd yn y farddoniaeth am 'bennaeth, arglwydd'.

## 10

Nid oes teitl i'r gerdd hon yn Llyfr Coch Hergest, ond cadarnheir ar ei dechrau mai awdl o fawl ydyw i Hywel sy'n fab i Oronwy a Gwerful (llau 5–16). Er bod yr awdl yn un weddol faith, prin iawn yw'r wybodaeth a roddir inni am ei gwrthrych. Gelwir ei dad yn *Iŋn amgylchion Mŋn* (ll. 7), a chyfeirir at elyniaeth Hywel at y Saeson (llau. 21, 81, 98); gelwir Hywel yn *enaid Gwynedd* (ll. 48) *Arglwydd Gwynedd* (ll. 96) a *Llygad Gwynedd* (ll. 99), a neilltuir cyfran helaeth o'r awdl i foli croeso ei lys—heb ei enwi. Ni nodir yma unrhyw gysylltiad rhwng y gwrthrych a Mŋn.

Gellir bod yn weddol hyderus mai awdl ydyw i Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen, a fu farw cyn 1366;<sup>1</sup> ei fam oedd Gwerful ferch Madog o'r Hendwr yn Llandrillo yn Edeirnion.<sup>2</sup> Ychydig a wyddys am Oronwy ap Tudur Hen, ei dad: bu farw yn 1331 ar ôl gyrfa dra llwyddiannus, yn ffyddlon yn ei wasanaeth gyda Syr Gruffudd Llwyd i'r Brenin Edward II.<sup>3</sup> Tudur, brawd Hywel, oedd tad Goronwy Fychan y canodd Sefnyn a Rhisierdyn iddo ef a'i wraig.<sup>4</sup> Er bod traddodiad yn awgrymu mai Tudur oedd y brawd hynaf, mae tystiolaeth gyfoes yn awgrymu mai Hywel oedd yr hynaf mewn gwirionedd<sup>5</sup> ac ategir hynny i raddau yn y gerdd hon lle gelwir ef yn *aur etifedd* (ll. 14) ac yn *Aer digel* (ll. 15). Yn llinellau 17–18 dywed y bardd fod clod Hywel i'w glywed *O'r deau fannau ... / ... hyd y Gogledd*. Os cyfeiriad at barthau deheuol Cymru sydd yma, gellid nodi bod tad Hywel, Goronwy ap Tudur Hen, wedi bod yn berchen ar diroedd yng Ngheredigion a bod y tiroedd hynny wedi cael eu rhannu rhwng ei feibion pan fu farw.<sup>6</sup>

Mae'n debygol iawn mai clerigwr oedd Hywel, ond anodd yw canfod unrhyw ffeithiau pendant ynglŷn â'i yrfa. Cyfeirir ato fel clerigwr mewn dogfennau cyfreithiol yn ystod pedwardegau'r ganrif,<sup>7</sup> a'r tebyg yw iddo fod yn Ganon ac yn Archddiacon Môn yn 1357.<sup>8</sup> Credir iddo farw yn 1366 yn ddi-blant.<sup>9</sup> Yr oedd Hywel a'i frawd Tudur yn berchen ar Benmynydd a Thre Castell a hefyd ar ran o Erddreiniog yn Nindaethwy,<sup>10</sup> ond ni rydd y bardd awgrym o gwbl yn y gerdd hon ym mha le mae'r llys a folir ganddo mor wych. Canodd Iolo Goch gywydd marwnad i'w frawd Tudur a fu farw ychydig ar ei ôl, gan ddatgan, *Dygn ymchwel dwyn Hywel hardd / Ys gwaeth dwyn brawdfaeth brudfardd*.<sup>11</sup>

Mae'r disgrifiad a geir o foethusrwydd llys Hywel yn un nodedig iawn: ceir yno feirdd wedi eu gwisgo'n hardd mewn gwisgoedd ffwr yn mwynhau gwleddoedd o win (llau. 36–40); neuadd lawn hyd ddiwedd y noson gyda *chanto o feirdd yn ei chyntedd* (llau. 51–4), a chyfeddach lawn miri lle ceir *rhy anaml hun a rhianedd* (ll. 56). Diddorol nodi bod Gruffudd ap

<sup>1</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 12, AWH 198.

<sup>2</sup> Yr oedd Gwerful yn ferch i Fadog ap Gruffudd ap Dafydd ap Gruffudd ab Owain Brogyntyn, gw. A.D. Carr, 'The Barons of Edeyrnion', Cylchg CHSFeir iv (1964), 289–90, a P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 12, 'Bleddyn ap Cynfyn' 26, 30. Yr oedd hefyd, yn ôl pob tebyg, yn chwaer i Wenhwylfer wraig Hywel ap Tudur o Goedana ym Môn y canodd Gronw Gyriog a Mab y Clochyddyn ei marwnad, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 26 a GGrG cerddi 2 a 11.

<sup>3</sup> AWH 188–9.

<sup>4</sup> Gw. uchod cerddi 1, 4, 5.

<sup>5</sup> Gw. AWH 193.

<sup>6</sup> Gw. *ib.* 190.

<sup>7</sup> *Ib.* 192.

<sup>8</sup> *Ib.* 192–3.

<sup>9</sup> *Ib.* 192–3, 198 *et passim*.

<sup>10</sup> MAng 72, 174, 203 *et passim*.

<sup>11</sup> Gw. GIG 16 (IV.31–2).

Maredudd yntau'n cyfeirio at foethusrwydd arbennig llys Hywel wrth ganu ei farwnad iddo.<sup>12</sup>

Ceir ambell awgrym yn y gerdd hon mai clerigwr oedd Hywel. Yn llinellau 25–32 gofynnir am nawdd Mair a Christ ar Hywel er mwyn sicrhau hirhoedledd a pharhad iddo fel noddwr a chynheiliad. Anghyffredin yw cael cyfeiriad crefyddol estynedig o'r fath yng nghorff cerdd. Yn gyffredinol, dim ond ar ddechrau neu ar ddiwedd cerdd y byddai'r Gogynfeirdd yn galw am nawdd Duw ar eu noddwyr. At hyn, ceir yng nghanol y disgrifiad o foethusrwydd a rhialtwch llys Hywel ymwybyddiaeth o ddarfodedigrwydd y cyfoeth a'r golud, a hwyrach fod geiriau'r bardd yn adlewyrchu gofid ysbrydol y cwmni ynglŷn â thrachwant, glythineb a medd-dod a gyfrifid yn bechodau sylweddol, ... *hwyr farant gau a hir fawredd ... / A myfyrio wers am oferedd*.<sup>13</sup> Ond, yn fwyaf arwyddocaol efallai, cyffelyba'r bardd Hywel i *Ddyfrig ddifrad—archesgob*, sy'n gyffelybiaeth addas iawn o ystyried statws clerigol y ddau.<sup>14</sup>

Mae'r bardd yn amrywio tipyn ar ei fesurau yn yr awdl hon: ceir englyn proest dalgron i ddechrau a ddilynir gan ddeg toddaid ar hugain ar yr odl *-edd* (llau. 5–64), englyn unodl union (llau. 65–8), pennill proest o 6 llinell (llau. 69–74),<sup>15</sup> ac wyth englyn unodl union i gloi (llau. 75–106) gyda'r chwe chynaf ar yr odl *-ad* a'r ddau olaf ar yr odl *-wyf*. Mae llinell 45 yn rhy hir o sillaf oni chywesgir hi. O ran ei chynganeddiad, y gynghanedd draws a geir amlaf (mewn tua 42% o'r llinellau), gydag ychydig llai o gynghanedd sain, cynghanedd groes mewn tua 13% llinell ac un llinell o gynghanedd lusc. Yn llinell 87 ceir enghraifft ddiddorol o'r gwant a'r rhagwant yn odli.<sup>16</sup>

2 **deucanllys** Dyma enghraifft o ormodiaith fformwlaig y beirdd. Yr hyn a olygir yma yw 'nifer mawr o lysoedd' yn hytrach na 'dau gan llys' yn llythrennol.

4 **ufydd** Ffurf hŷn ar *ufudd*, gw. uchod l.5n.

<sup>12</sup> Gw. R 1204–5 a cf. disgrifiad D.M. Lloyd o'r gerdd honno yn *A Guide to Welsh Literature*, ii (Swansea, 1979), 50, 'Here is found a fuller description than usual of a "gathering of poets, of lovely rhymes, proud young men and their sports, the admirable winning of fame in the true feats of Nudd ... fine red gems, streams of wine in gold and glass, soaring songs and harp music in the fine hall ..."'.

<sup>13</sup> Llau. 52, 58 a cf. llau. 23–4 *I'n cam yr ydym, cymrodedd—a'n daw, / Yn rhyfalch arnaw, ac nid rhyfedd* ac eto llau. 36–7, 45–6.

<sup>14</sup> Gw. ll. 91 ac *ib.n.*

<sup>15</sup> J. Morris-Jones: CD 326–7 lle esbonnir, 'fe ddechreuwyd canu penillion proest o chwe llinell yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ... Fe geir aml un yn ddiweddarach ymysg englynion mewn awdlau ... Prin yr [*sic*] gellir galw pennill o chwe llinell yn englyn, onid edrychir arno fel englyn milwr dwbl'

<sup>16</sup> Ond gw. J. Morris-Jones: CD 300–1, 314 a Rh.M. Andrews, 'Amrywiad ar Doddaid Byr a Thraeanog', B xxxv (1988), 16. Efallai fod yma wall, fodd bynnag, gan nad oes yma gynghanedd gyflawn fel yn y llau. cyfatebol yn yr englynion eraill.

- 5 **cad** Llsgr. B *kaat*. Cymerir mai orgraffyddol yw'r -*aa*- yn narlleniad y llsgr., cf. G 94 ac am enghreifftiau pellach o ddyblu llafariad mewn hen orgraff, gw. GMB 3. In ar y gair unsill *Reen*.
- 5–14 **Y nos fad ...** Mae'r gystrawen yma'n gymhleth iawn, gyda'r bardd yn pentyrru nifer o sangiadau, ond mae'r brif frawddeg, er hynny, yn syml: *Y nos fad y'i cad o'r cydorwedd—balch, / [G]oronwy ... A hithau ... Werful ... Aer digel Hywel ...* 'Y noson ffortunus y'i cafwyd o'r cydorwedd gwych / [Rhwing] Goronwy ... A hithau ... Gwerful ... Hywel [yr] etifedd amlwg ...'.
- 6 **Goronwy** Tad Hywel, sef Goronwy ap Tudur Hen ap Goronwy ab Ednyfed Fychan (*ob.* 1331), gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 12. Canodd Bleddyn Ddu awdl farwnad fer iddo, gw. GBDd cerdd 6.
- 7 **iôn amgylchion Môn** Yr oedd cartref Goronwy yn Nhre Castell ym mhlwyf Llangoed yn Nindaethwy, Môn, gw. WATU 205. Bu'n rhaglaw cantref Aberffraw yn 1311–12 a bu'n ffyddlon ei wasanaeth i Edward II, gw. MAng 202 *et passim*.
- 11 **Gwerful** Sef gwraig Goronwy, mam Hywel, a merch i Fadog o'r Hendwr (ab Iorwerth ap Madog ap Gruffudd ab Owain Brogyntyn), gw. G 50 a P.C. Bartrum: WG1 'Bleddyn ap Cynfyn' 26.  
**dihenedd** Nid amhosibl fyddai dilyn G 350 sy'n rhestru'r ffurf a'r enghraifft hon fel amrywiad ar *dihenydd* 'tynged, collfarn, marwol-aeth'; eithr cymerir mai a. yn golygu 'dihenaint, heb henaint' ydyw yma, er cydnabod nad oes tystiolaeth gynnar i'r e. *henedd* yn yr ystyr honno yn GPC 1851.
- 13 **arnun** Cymerir mai hen ffurf yr ardd.rhed. *ar* ydyw (gw. GMW 58–9 a cf. *iddun*, ll. 14 isod); cofier, fodd bynnag, am *ar-n-un* 'ynghyd' neu 'i gyd' y ceir enghreifftiau ohono yng ngweithiau'r Gogynfeirdd, gw. GCBM i, 8.4n ac *ib.* 16.213.
- 15 **pennaeth** Nid yw'n amhosibl fod iddo yma'r ystyr 'arglwyddiaeth, tywysogaeth', gw. GPC (i ymddangos) a cf. Arm P 9–10, 'heddiw am bendefig neu arglwydd, ond gynt am arglwyddiaeth hefyd'; cf. GCBM ii, 4.256–7 ... *hyd Aeron yt aeth / Y bennaeth o Bennmon*. Felly, gallai *pennaeth* *hyw* olygu 'arweinydd [dros] dywysogaeth'.
- 17–18 **O'r deau fannau ... / ... hyd y Gogledd** Llsgr. B *Or deheu vana6* ...; diwygir er mwyn yr ystyr a'r gynghanedd. Gwelir yn y nodyn cefndir uchod ei bod yn dra thebygol fod Hywel wedi dal tir yng Ngheredigion yn ne Cymru. Cyffredin yn y canu yw disgrifio clod arwr yn ymestyn *o* un pwynt daearyddol *hyd* at un arall, a cheir enghreifftiau pellach o hyn, uchod 3.9n. Gallai *y Gogledd* gyfeirio at yr Hen Ogledd (cf. uchod 5.29n a sylwer ar y cyfeiriad at *Deifr*, isod ll. 21), neu, yn fwy tebygol yn y cyswllt hwn efallai, at ogledd Cymru.



- 19 **cofion** Derbynnir awgrym petrus J. Lloyd-Jones yn G 209 i ddiwygio *kyfyon* llsg. B yn *kofyon*, gan roi'r ystyr 'meddyliau am eich cydymaith' yn hytrach na 'cyfiawn eich cydymaith'.
- a'ch maeth** Gall *maeth* hefyd fod yn e. yma'n golygu 'cynhaliath' yn hytrach nag yn ffurf 3 un.grff.myn. y f. *magu*.
- 20 **urddol** Gellid tybio mai defnydd enwol o'r a. yn golygu 'urddasol' sydd yma, gw. GIG 403; ond, o ystyried swyddogaethau Hywel fel Canon Eglwys Gadeiriol Bangor ac fel Archddiacon Môn o 1357, gwell derbyn yr ail ystyr a gynnig GIG *l.c.*, sef 'crefyddwr mewn urddau'. (Ar yrfa Hywel, gw. ymhellach y nodyn cefndir uchod.) Mae'n debyg mai ystyr llau. 19–20 yw i gofion y beirdd ar gân greu eu gwychder oherwydd iddynt gael eu gwobrwyo am eu geiriau hael o foliant.
- 21 **a ... a** Ar ailadrodd y cysylltair *a* i gyfleu'r S. 'both ... and', gw. GMW 231 a cf. ll. 22.
- Deifr** Sef yn wreiddiol teyrnas neu drigolion Deira yn yr Hen Ogledd, a'r gelyn traddodiadol yn yr Hengerdd, gw. CA 82. Erbyn cyfnod y Gogynfeirdd, fe'i defnyddid i gyfeirio at y Saeson yn gyffredinol, a hynny ymhell wedi i'r deyrnas wreiddiol gael ei chwalu.
- 24 **yn rhyfalch arnaw** Sef 'yn rhy drahaus o'i herwydd', gan gymryd bod i'r ardd. *ar* yma rym 'trwy, trwy gyfrwng, ar sail', gw. GPC 173
- 25 **awn ni yng ngweddi** Ni cheir *yng ngweddi* yn llsg. B ac mae'r ll. yno o'r herwydd dair sillaf yn fyr. Mae llsg. E yn cyflenwi'r geiriau *yng ngweddi* a ychwanegwyd uwchben man lle'r oedd bwllch yn y ll. yn wreiddiol, a rhydd hynny ystyr dderbyniol. Byddai'n hawdd i gopïydd hepgor y geiriau *yng ngweddi* wrth i'w lygad redeg ymlaen at y geiriau *yng ngwedd* sy'n dilyn.
- 26 **Y dyledog teg heb dlodedd** Llsg. B y *deleda6c tec heb dyloded*. Er mwyn hyd y ll., diwygir *deleda6c* a darllen *dyledog* (ffurf bedair sillaf), sef ffurf arferol y gair mewn Cym.C., gw. G 422. Cymerir mai y ymwithiol sydd yn *dyloded* ac y ceir yma ffurf dreigledig yr e. haniaethol *tlodedd* 'tlodi'. Am y ffurf honno, cf. GDB 36.39 *Paham nat edrych tla6t yn y dloded* (dienw).
- 27 **ar Fair wry** Diwygir *wyr* llsg. B yn *wry*—diflannodd yr -y olaf o bosibl am ei bod yn ansillafog. Cymerir bod yr ardd. *ar* i'w gystrawennu gyda *gweddi* yn ll. 25.
- 29 **gwŷd** Fe'i deallir yma'n e.; gthg. G 728 sy'n ei restru'n betrus yn a. yn golygu 'drwg, beius, gwallus; niweidiol, anfad, creulon'.
- 30 **Nudd** Gw. uchod 9.16n.
- 31 **Heledd—grychrud** Am hanes Heledd, gw. TYP<sup>2</sup> 321, 405–6, CLIH xi–xii, lxi–lxvi ac EWSP *passim*. Cyfeirir at Heledd ferch Cyndrwyn, a

drigai ym Mhowys yn ystod y 6g. neu'r 7g., sef prif gymeriad 'Cylch Heledd' y mae ei galar o golli ei theulu a'i chartref yn treiddio trwy'r englynion: cymerir mai dyna yw ergyd *crychrudd* y ll. hon. Yn draddodiadol fe'i cysylltir â Llys Pengwern lle teyrmasai ei thad. Mae'n bosibl mai ergyd y ll. yw fod y bardd yn dymuno gweld ei noddwr yn goroesi pawb arall yn ei lys.

- 37 **trwsio** Am y f. hon yn golygu 'addurno, gwisgo', cf. *trwsiad* 'gwisg', isod ll. 89n.
- trosedd** Cymerir mai 'rhagoriaeth, gormodedd, balchder, llwydd, buddugoliaeth, goruchafiaeth' yw ei ystyr yma; cf. y ffurf *trawsedd*. Ar ystyron gwrthgyferbyniol *trosedd*, gw. DGG<sup>2</sup> 226 a hefyd R. Geraint Gruffydd, 'Cyntefin Ceinaf Amser o Lyfr Du Caerfyrddin', YB iv (1969), 21.
- 38 **rhygarw** Ar *rhygarw* 'carw gwyach, arwr', gw. IGE<sup>2</sup> 422 a GIG 201. Gellid hefyd gymryd *byw* yma'n a. i oleddfu *rhygarw* a deall, 'A'n carw gwyach bywiog, daionus heb oferedd'.
- 41 **yyny** Am y ffurf (yn golygu 'i ni'), cf. *ymy* (yn odli â *fry*) yn GDG<sup>3</sup> 163 (61.49–50). Posibilrwydd arall fyddai darllen *hynny*.
- 42 **un anmynedd** Cymerir bod i *un* yma'r ystyr 'arbennig, unigryw'.
- 45 **yw ein** Mae'r ll. fel y saif sillaf yn rhy hir a gellid cywasgu *yw ein* yn *yw'n* neu ddileu *yw* er mwyn arbed sillaf; gellid hefyd dderbyn y diwygiad a gynigir yn llsgr. D, *Eres yw yyny oeredd—ein dychryn*.
- 47 **Dyfr** Fe'i rhestrir yn betrus yn G 414 dan *Dyfr*<sup>2</sup>, yn gyfeiriad posibl at Ddyfr ab Alun; gw. ymhellach uchod 4.46n.
- 48 **ynad** Sef 'barnwr' yma, yn ôl pob tebyg, ond digwydd hefyd yn ei ystyr sylfaenol 'dyn gwybodus, doeth', gw. GCBM ii, 16.155n. Cf. hefyd uchod 4.7n.
- canon lyfr** Sef 'llyfr canon', a dosberthir yr enghraifft hon dan yr ystyr '*paragon, model of excellence, standard of perfection*' yn GPC 2256; ond o gofio mai clerigwr oedd Hywel, tybed a ellid deall *canon* yn ei ystyr wreiddiol yma, sef 'cyfraith Eglwysig'?
- 50 **ymyrwyr** Am drafodaeth ar y f. *ymyrru*, gw. PKM 114–15 lle nodir bod ystyron lled wahanol i'r f. mewn Cym.C., sef '*to mingle, to join oneself, trouble oneself about, interfere, take part in, engage in, touch, handle*' yn hytrach nag '*interfere, meddle with*' fel mewn Cym.Diw. Cymerir bod *ymyrwyr* yma'n cyfeirio at y rhai sy'n ymuno neu'n cymryd rhan yn y gwleddoedd yn llys Hywel.
- 53 **aeth i arnun gabl** Deallir hwn yn sangiad yn golygu 'nid oedd unrhyw feio arnynt'.

- 54 **yn ei chyntedd** Cymerir bod *ei* yma'n cyfeirio'n ôl at *neuadd*, uchod ll. 51. Yn ôl diffiniad GPC 801 y *cyntedd* oedd 'rhan anrhydeddusaf y neuadd yn yr Oesoedd Canol, sef y rhan lle'r eisteddai'r brenin'. Mae'r beirdd yn aml yn ymffrostio iddynt ganu i'w noddwyr yn y cyntedd, cf. geiriau Cynddelw Brydydd Mawr yn GCBM ii, 6.238–9 *Rydyrllid uyg kert ... / Yg kyntet Teyrnon*.
- 57 **pers** 'Man i adar glwydo', sef benthyciad o'r S. *perch*, gw. G 750 a GPC (i ymddangos). Nid yw'n amhosibl fod i *gweilch* yma'r ystyr ffigurol 'milwyr' fel sy'n gyffredin iawn yn y farddoniaeth, a bod y ll. yn cyfeirio at filwyr yn chwarae rhwng clwydydd wedi eu gwyro. Sylwer bod Gruffudd ap Maredudd yntau'n cyfeirio at filwyr yn chwarae yn llys Hywel, R 1204.26–7 *A gŵyr ieueing beilch a gŵaryeu*.
- 60 **trychanwledd** Am yr ormodiaith, cf. uchod ll. 2n. Sylwer ar y ffurf *try-* a gymer y rhifol *tri* yma mewn cyfansoddair, a cf. *trychan*, isod ll. 94, a *tryser* yn GIG 167 (XXXVII.52) yn golygu 'tair seren', *ib.* 403.
- 61 **oni fai'n** Llsg. B *yny veyn'*. Derbynnir awgrym G 68 a darllen yma *yny veyn*.
- 62 **geirson** Mae G 525 yn cofnodi'r ffurf ond nis rhestrir yn GPC 1388. Fe'i dehonglir yn gyfansoddair o *gair* a'r f. *sôn*, yn golygu 'sôn ar lafar' neu 'ymadrodd yn sôn am'.
- 63 **gweled** Ffurf amhrs.grff.myn. y f. *gweld*.  
**eurgledd—nef** Deellir *eurgledd* yma'n ffigurol am arglwydd sy'n amddiffyn yn wych. Tybed ai cyfeiriad ydyw at Fihangel yn ei swyddogaeth draddodiadol yn brwydro dros Grist, gw. ODCC 897.
- 67 **erchwyn** Ar ddefnydd ffigurol yr e. yn yr ystyr 'nawdd, noddwr', gw. G 483 a GPC 1229.
- 69 **penrheithgrair** Ar *penrhaith*, gw. uchod 9.64n. Cymerir ei fod yma'n llunio cyfansoddair â *crair* a ddefnyddir yn ffigurol am wrthrych a brisir neu am anwylyd.
- 73 **clo** Am yr ystyron ffigurol 'uchafbwynt, awdurdod, pinacl' i *clo*, gw. G 147 a GPC 501.
- 74 **treiddiwn** Ffurf l ll.amhff.myn. y f. *treiddio* 'ymweld â'. Am ystyron amrywiol y f. mewn Cym.C., gw. I. Williams, 'Moliant Dinbych Penfro', THSC, 1940, 81 a CLIH 210–11.  
**trwydded** E. yn golygu 'trwydded, lletywriaeth, cynhaliaeth, croeso', gw. uchod 3.75n.
- 77 **traws** Am yr ystyr 'cadarn, nerthol', gw. CA 296.
- 78 **trysorer** Benthyciad o'r S. *tresorer*, gw. GDG<sup>3</sup> 473, EEW 115 a thrafodaeth lawn D. Johnston yn GIG 208. Anos yma fyddai cystrawennu *trysorer* yn ffurf amhff.grch. y f. *trysori*. Gyda'r ll. hon,

- cf. yn arbennig *ib.* 90 (XXI.31) *A thrysorer clêr a'u clod* (am Ddafydd ap Gwilym).
- mydrner** Nis rhestrir yn GPC 2526 ond cymerir ei fod yn gyfansoddair o *mydr* a *nêr* yn golygu 'arglwydd [y ceir sôn amdano] ar gân' neu 'arglwydd prydyddiaeth'.
- 79 **tŵr** Defnyddir yr e. yn drosiadol am y noddwr fel 'amddiffynnwr, cynhaliwr'.
- 80 **rhaid** Gw. 9.23n uchod.
- 82 **traw pellaig** Derbynnir awgrym J. Lloyd-Jones ar slip a godwyd o'i law yn archif Geiriadur Prifysgol Cymru, a deall *pellaig* i olygu 'torf bell' neu 'torf o bell'. (Am enghraifft bellach o'r ffurf, cf. IGE<sup>2</sup> 315 *Wrth lwydfaradd draig, bellaig ball, / Caf roddged cyfarwyddgall* (Rhys Goch Eryri); nis cynhwysir yn GPC 2724.) Gellid hefyd ddeall *trawbell* yn gyfuniad ansoddeiriol gyda'r ystyr 'pell ei ergyd', gyda *traw* yn e. o'r f. *taro*: *trawbell aig* 'mintai bell ei hergyd'.
- penaig** Daw'r acen ar y sillaf olaf. Ei ystyr lythrennol yw 'arweinydd llu', gw. GPC 2731.
- 85 **Teuluoedd ddinag fagiad** Gellid hefyd ddarllen *Teuluoedd dinag fagiad* 'Gosgorddau dinacâd [eu] magwraeth'.
- 86 **twysg** Rhydd John Davies iddo'r ystyron '*Pars, portio ... acervulus, cumulus*' yn D (cf. GDG<sup>3</sup> 604 *twysg* 'swm, cyfran'), a cheir gan J. Lloyd-Jones yr ystyron 'llif, llifeiriant, rhuthr' yn 'Olion Sein-dawdd Cyntefig yn Gymraeg', B ii (1923–5), 295. Ymhellach arno, gw. CA 282–3.
- 87 **trosed** Ffurf amhrs.grff. neu amhff. y ferf *trosi*. Cymerir mai'r gystrawen yma yw *trosed ... ym gariad Hywel*, a bod [g]em *gired* yn sangiad sy'n disgrifio Hywel.
- 89 **troses** Ffurf 3 un.grff.myn. y f. *trosi* yma'n golygu 'dyrchafu'.
- trwsiad** E. yn golygu 'gwisg', gw. GDG<sup>3</sup> 435 a cf. y f. *trwsio* uchod ll. 37n.
- 90 **traws** Gw. ll. 77n uchod.
- 91 **Tebyg i Ddyfrig ddifrad—archesgob** Ar Ddyfrig, gw. G 415, J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 147–8, LBS ii, 359–82, E.R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987), 99–103, WCD 215–17 a cf. 7.38n uchod. Fe'i disgrifir yn Esgob Llandaf ym muchedd Illtud, yn esgob drachefn ym mucheddau Gwynllyw a Leonorius, ac yn yr 'Annales Cambriae' cyfeirir ato fel *Dibric episcopi*. Mae hon yn gyffelybiaeth addas o ystyried bod Hywel yn glerigwr pwysig, gw. y nodyn cefndir uchod.

- 93 **tëyrn rhoddiad** Deellir y cyfuniad ar lun *arglwydd frenin*, &c.; am galediad *r-* yn *rh-* yn dilyn *-n*, gw. Treigladau 27–8 a cf. uchod 9.34n d.g. *buarnhwydd*.
- 94 **trychan** Gw. ll. 2n uchod, ac am yr elfen *try-* ‘tri’ yma, gw. uchod ll. 60n.
- 95 **trefn** Yma e. ydyw yn golygu ‘order’, gw. I. Williams, ‘trefn’, B ii (1923–5), 310–11.
- 97 **talm** E. yn golygu ‘swm, cyfran’, gw. GDG<sup>3</sup> 602 a cf. isod 11.3.
- 98 **tarian Loegr** Defnyddir *tarian* yn drosiadol yma i olygu ‘amddiffynnwr [rhag/yn erbyn]’ y Saeson.
- 99 **llygad Gwynedd wlad** Byddai’r ystyron ‘arweinydd, llyw’ neu ‘anwylyd’ a roddir i’r e. yn GPC 2261 yn gweddu yma. Cf. uchod 4.13n.
- a ganwyf** Llsgr. B *a gannwyf*. Fe’i rhestrir yn ffurf 1 un.pres.dib. y f. *kannu* ‘?cynnal, cadw, dal, casglu, meddiannu’ yn G 107, ond tra ansicr yw’r enghreifftiau eraill o’r ffurf a roddir yno, e.e., GLIL1 5.54 *Dyn ymyb o’r meint ryganhes* a ddehonglir, *ib.* 59, yn ffurf ar y f. *geni* er cydnabod bod anawsterau seinogol wrth wneud hynny; GMB 8.19–20 *Ardwyreaf hael o hil Yago / A gennis dra chas dra Chors Vochno* (Gwalchmai) a ddehonglir yn ffurf ar y f. *cannu* ‘taro’ (yr un f. â *cannu* ‘gwynnu’, esbonnir ‘[c]ofier mai un ffordd o *gannu* dillad yw eu curo neu eu pwyo’, *ib.n*). Ni chredir bod y naill ystyr na’r llall yn addas yn y ll. hon a chymerir yn hytrach mai darllen *ganwyf*, 1 un.pres.dib. y f. *canu*, sydd orau yma, gan gymryd bod y sawl y cenir iddo’n wrthrych uniongyrchol i’r f. (yn hytrach na than reolaeth ardd. megis *i* neu *am*). Cymerir bod y modd dibynnol yma’n cyfleu ystyr ddyfodol ond gallai hefyd gyfleu gorchymyn, ‘boed imi ganu’, gw. GMW 113.
- 101 **lluniethwyf** Llsgr. B [*l*]unyeithwyf. Diwygir er mwyn y gynghanedd lusz. Ar *llun(i)ethu* fel amrywiad ar *lluniaethu*, gw. GPC 2225.
- 105 **ysbys** Ffurf amrywiol ar *hysbys*, gw. GPC 1983; ei ystyr yma yw ‘enwog’.
- 106 **adwaen** Dilynir G 8 a’i ddeall yn ffurf 1 un.pres.myn. y f. *adnabod*; ond nid amhosibl fyddai ei ddeall yn ffurf 3 un.pres.myn. yr un f. (gw. GMW 148), ‘Gŵyr [ef] mai iddo yr wyf’.

Cywydd i ofyn telyn yw hwn wedi ei ganu i Risiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Emral ym Maelor Saesneg. Ef oedd y noddwr beirdd cyntaf yn Emral, yn orwyr i Syr Roger de Puleston a ddaeth o swydd Amwythig i Gymru ar

ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg.<sup>1</sup> Yr oedd Rhisiart yn ei flodau yng nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg, a chredir iddo farw tua 1388.<sup>2</sup> Ar ddiwedd y gerdd (llau. 77–82) molir Lleucu ei wraig, sef merch Madog Foel o Eglwyseg ym Maelor Gymraeg. Wrth droed y gerdd yn Pen 114, ceir nodyn yn llaw Simwnt Fychan yn disgrifio ei hach, *Gwraic Rissart ap Syrr Roessier oedd lleuku vz mad voel ap Jeuaf ap Hn [ap] kyn evell ap mad ap m'ed ap bleddyn ap kynuyn tywyssawc pywys*. Hynny yw, yn ôl Simwnt Fychan, yr oedd Lleucu'n ddisgynydd uniongyrchol, ar ochr ei thad, i Fadog ap Maredudd, tywysog Powys yn y ddeuddegfed ganrif y canodd Cynndelw Brydydd Mawr ac eraill iddo. Dylid nodi hefyd fod y bardd yn cyffelybu Rhisiart i Ruffudd Maelor o ran ei haelioni a bod y Gruffudd hwnnw yn fab i Fadog ap Maredudd, ac felly'n perthyn i'r un llinach â Lleucu. Tybed ai rhy ryfygus fyddai gofyn ai trwy ei wraig y magodd Rhisiart ddiddordeb mewn barddoniaeth Gymraeg?

Mae fframwaith y cywydd yn ddiddorol. Egyr â chyfres o gymariaethau sy'n dangos mai ofer yw ymhél â chreffft heb yr offer angenrheidiol: cyffelybir bardd heb delyn i brelad heb lyfr salmau, i saer heb fwyall, i of aur heb gelfi ac i of heb einion. Yna ceir ffugymddiddan rhwng Gruffudd a'r bardd Rhisiardyn, a Gruffudd yn gofyn ym mhle y caiff delyn. Disgrifir y delyn yn drosiadol fel *Iarlles* (ll. 23) a *merch* (ll. 73). Yna molir Rhisiart, gan gyfeirio at ei filwriaeth a'i fonedd (llau. 32–46). Disgrifir y delyn, drwy gyfrwng trosiad a thechneg dyfalu, yng ngenau Rhisiardyn, cyn i Ruffudd foli Rhisiart am ei haelioni ac addo taenu ei glod yn eang yn gyfnewid am iddo anfon telyn at Ruffudd i Wynedd—sef yr hen dopos 'rhodd am rodd'.

1 **prelad** Benthyciad o'r S.C. *prelate*, sef person o statws uchel yn yr eglwys, gw. GIG 246.

**braenarfaes** Sef 'maes wedi ei fraenaru'; ystyr ffigurol sydd iddo yma.

2 **llwyd** Gellid dehongli *llwyd* yn a. yn golygu 'sanctaidd', ond dichon fod y prelad yn perthyn i Urdd y Brodyr Llwydion, sef y Ffransisgiaid.

**tabar** Benthyciad o'r S.C. *tabard*, gw. EEW 64, 251, sef '*A garment of coarse material ... formerly worn out of doors by the lower classes, also by monks and foot-soldiers*', OED<sup>2</sup> d.g. *tabard*. Yma cyfeirir at ŵn neu diwnig laes clerigwr.

3 **talai** Ar *talu* yn golygu 'bod o werth', gw. CA 70 a CLIH 96.

**talm** Gw. uchod 10.97n.

<sup>1</sup> Am ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Puleston' ac ymhellach ar y Pilstyniaid yn Emral, gw. R. Alun Charles, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir y Fflint', LICy xii (1972–3), 22–6, 43.

<sup>2</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG1 *l.c.* ac R. Alun Charles, *art.cit.* 22.

- 9 **pwyth** E. yn golygu ‘y weithred o dalu’n ôl, y weithred o ddial’ (cf. *talur pwyth*), neu yn drosiadol ‘ergyd’.
- 10 **penial** Sef ‘pennaeth’ yma, gw. GPC (i ymddangos); cymerir mai’r ystyr yw bod yn ‘feistr’ ar y grefft.
- 13 **melenbleth ddyn** Sef y delyn, cf. isod ll. 23n lle’i gelwir yn *iarlles*.
- 18 **sengl** Derbynnir yr ystyr ‘digyfeiliant’ a rydd D. Johnston, Bl B XIV 189, iddo yn y cyswllt hwn. Dywed y bardd yma iddo guddio’r gwarth neu’r anghymeradwyaeth o ganu heb gyfeiliant telyn gyda’i ganu canmoliaethus.
- 19 **Rhisierdyn** Cyfeiriad, yn ôl pob tebyg, at y bardd y trafodir ei waith uchod, cerddi 4–8.
- 20 **adaf** Ystyr arferol y gair yw ‘llaw; crafac’ (gw. GPC 11 a G 7), ond tybir bod iddo yma ystyr ffigurol ‘awdurdod ... meddiant’ (cf. yr ystyron ffigurol a roddir i *llaw*, GPC 2104).
- 23 **iarlles** Cymerir mai cyfeirio at y delyn a wneir yma; cf. isod ll. 73 lle cyfeirir ati fel *merch*. Noder hefyd gyfeiriadau Dafydd Benwyn at yr un offeryn fel *Engyles ber* a *Duwies ber* yn ei gywydd i erchi telyn oddi wrth Hywel ap Gwilym o Lanfihangel Nant Brân, D.H. Evans, ‘The life and work of Dafydd Benwyn’ (D.Phil., Oxford, 1981), 71, 95.
- 26 **pill** E. yn golygu ‘boncyff, cangen’. Am enghreifftiau pellach a thrafodaeth ar y gair, gw. GDG<sup>3</sup> 494–5 lle cyfeirir at sawl nodyn gan I. Williams arno. Cf. hefyd 5.1n uchod.
- 28 **pedrydog** Gair cyffredin yng nghanu’r Gogynfeirdd yn golygu ‘perffaith ... nerthol’, &c., gw. GPC 2709.
- 32 **rhyswr** E. yn golygu ‘rhyfelwr, pen-campwr, arwr’, gw. CA 352 a cf. GDB 8.25 (Llywelyn Fardd II), 20.65 (dienw).
- 34 **Syr Rhosier** Cyfeiriad at dad y gwrthrych, sef Syr Rhosier Pilstwn (*fl.* 1311, *ob.* 1339), gw. P.C. Bartrum: WG1 ‘Puleston’.
- 38 **rhisgddur** A. cyfansawdd yn golygu’n llythrennol ‘dur ei blisgyn’ ond cymerir mai ystyr ffigurol sydd iddo yma, ‘wedi ei wisgo mewn arfwisg ddu’.
- 39 **glyngur** Ni chofnodir y ffurf yn GPC 1414; fe’i deallir yma’n a. cyfansawdd *glŷn* (o’r f. *glynu*) a *cur* (yn yr ystyr ‘ergyd, curfa’, gw. GPC 630).
- galongael** Ni restrir y ffurf yn GPC 1375; fe’i deallir yn gyfuniad o *galon* a’r f. *cael*, yma’n goleddfu *glyngur* ac yn golygu ‘yn cyrraedd ei elynion’.
- 40 **hoiw-wedd** Ceir y darlleniad amrywiol *hoiwedd* mewn nifer o’r llsgrau. Gellid ei ddeall yn e. haniaethol yn golygu ‘hoiwder, tirdfra, llonder, hoen’, &c., gw. GPC 1903 d.g. *hoiwedd*<sup>1</sup>.

- 41 **crydwst** Sef cyfansoddair o *cryd* a *gwst*, yn yr ystyr ‘cryndod, ysgryd’, gw. GPC d.g. *crydwst*<sup>1</sup> a cf. G 723 lle rhestrir y ffurf dan *cryd*. Rhy ddiweddar o bosibl yw *grydwst* ‘murmur, cwynfan, griddfan, cynnwrf’, &c., gw. GPC 1539 lle daw’r enghraifft gynharaf o’r 16g.
- 43 **gwehyrdd ei reg** Dewisir y darlleniad hwn yn hytrach na *Gwrdd ei ras a gwyrdd ei reg* a geir mewn rhai llsgrau gan mai hwn yw’r darlleniad anhawsaf, er bod cyfeirio at feirdd yn derbyn *gwyrdd*, sef dillad o’r cyfryw liw, yn gyffredin yn y farddoniaeth, cf. GCBM ii, 9.223 *Gwyrth wasgar o wisgoet keinmyn*. Cymerir yn hytrach fod y bardd yn dweud ei fod yn gwahardd ei rodd (ac felly ei haelioni) i’w elynion.
- 44 **deurudd-deg** Gellid deall *deurudd* yma hefyd yn yr ystyr ‘anrhydedd’, gw. GPC 940.
- 45 **lledwog** Dyma’n sicr yw’r darlleniad anhawsaf yma (gw. yr amrywiadau uchod) ac fe’i deallir yn a. = ‘braisg, nerthol’ o *lledw* (gw. GPC 2138) a’r terfyniad a. -og; ni restrir y ffurf yn GPC *l.c.*
- 47 **drythyll** Ar wahanol ystyron yr a. hwn, gw. PKM 127–8. Cyfeirir yma at stad lamsachus neu foethus y bardd yn llys ei noddwr.
- 47–8 **trithai / Ar ddeg ... llios dai** Yr oedd y llys yn yr Oesoedd Canol yn cynnwys nifer o adeiladau neu ystafelloedd a gelwid y rhain yn *dai*, gw. CA 73–4 d.g. *mordei*. Cyfeiria Llywarch Bentwrch yntau at *drithai ar ddeg* ei noddwr, gw. isod 13.35–6 ‘*Y mendith yn dy drithai / Ar ddeg, caer deg cyfor dai*. Gw. ymhellach *ib.n.* Ar *tŷ* yn golygu ‘ystafell’, cf. *hundy* isod 12.61 a gw. GPC 1923.
- 51–2 **telyn ... / deirtud** Mewn marwnad i’r telynor Siôn Eos dywed Dafydd ab Edmwnd amdano, *Ef aeth ei gymar yn fud, / Yn dortwll delyn Deirtud* (OBWV 140 (llau. 17–18)). Dichon mai’r un yw’r *delyn Deirtu* y ceir cyfeiriad ati yn y rhestr o anoethau a rydd Ysbaddaden Bencawr i’r arwr i’w cyflawni yn y chwedl ‘Culhwch ac Olwen’, gw. CO 23 (llau. 627–9) lle dywedir, *Telyn Teirtu ... Pan uo da gan dyn, canu a wna e hunan; pan uynher idi, tewi a wna*. Am drafodaeth bellach ar yr e., gw. CO<sup>2</sup> 126 lle awgrymir mai camgymeriad am *teirtud* ‘three peoples’ yw’r ff. *teirtu*. Rhaid gwrthod yr ystyr ‘teires’ a roddir i *teirtud* yn Bl B XIV 195, oherwydd, er bod Edward Jones ‘Bardd y Brenin’ yn y 18g. wedi credu mai’r un ydoedd y *delyn deirtud* a’r *delyn deires*, gwyddys bellach nad oes sail i hyn oherwydd cynlluniwyd y *delyn deires* yn yr Eidal yn niwedd yr 16g., gw. A. Rosser, *Telyn a Thelynor: Hanes y Delyn yng Nghymru 1700–1900* (Caerdydd, 1981), 7–8.
- 53 **Gorysgwr rhwng gŵr a’r gorf** Dichon fod y bardd yn disgrifio’r *delyn* yma gyda throsiad o faes aredig. *Gorysgwr* yw’r e. am ‘iau, gwarrog, darn pren canol iau’r ychen wrth aredig’, GPC 1509, a deallir ef yma i gyfeirio at ran o’r *delyn*.



- 54 **ysgythrlorf** Sef postyn cerfiedig y delyn. Ar *llorf*, sef ‘post (yn enw. y post unionsyth yn ffrâm y delyn)’, gw. GPC 2209 ac ymhellach A. Rosser, *op.cit.* 15.
- 55 **salm** Deellir *salm* yn yr ystyr ehangach ‘cerdd foliant’, yn hytrach na cherdd o foliant i Dduw yn benodol.
- llyfr Ofydd** Cyfeiriad, mae’n debyg, at ‘Ars Amatoria’ (‘Y Gelfyddyd o Garu’) gan Ofydd. Yr hyn a olygir felly wrth *Salm o hen gof llyfr Ofydd* yw cerdd serch, cf. GDG<sup>3</sup> 134 (50.1) *Salm yw ‘nghof o lyfr Ofydd* ac *ib.* 81 (28.21–2) *Prydydd cerdd Ofydd ddifai, / Primas mwyn prif urddas Mai.*
- 56 **sawtring** Ffurf amrywiol ar *saltring* sy’n fenthyciad o’r S.C. *salteriun ‘psaltery’* (gw. MED d.g.), sef offeryn cerdd canoloesol tebyg i ddwsmel (ar hwnnw gw. GPC 1107), a chwaraeir drwy dynnu’r tannau. Am enghreifftiau pellach o’r ffurf, gw. GDG<sup>3</sup> 375 (142.28, a’r nodyn *ib.* 545) a IGE<sup>2</sup> 209 (llau. 27–8).
- gwyrddling** Sef ‘helyg Mair’, gw. G 704 a GPC 1783. Uchder y llwyn hwnnw yn ei lawm dwf fel rheol yw tua dwy droedfedd. Mae’n debyg y byddai enw’r llwyn yn hysbys i gynulleidfa’r bardd yn yr Oesoedd Canol.
- 58 **dau bencerdd** Cyfeirir at y bardd sydd wedi ennill gradd farddol a’r telynor sydd wedi ennill gradd gerddorol gyfwerth.
- 63 **gwawr** Cymerir mai ‘arglwydd’ yw ei ystyr yma, er nad amhosibl mai ‘gwawr, codiad haul’ a olygir, a bod y neges yn un sy’n cael ei hanfon ‘gyda’r wawr’.
- 65 **gwingael** Ni ddigwydd y ffurf yn G 680–2 nac yn GPC 1664. Fe’i dehonglir yn a. gyda’r ystyr ‘sy’n derbyn gwin’.
- 69–70 **Gruffudd ... / Maelor** Sef, yn ôl pob tebyg, Gruffudd ap Madog a oedd yn fab i Fadog ap Maredudd, tywysog Powys yn y 12g.: arno, gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> *passim* ac yn enwedig td. 566 lle cyfeirir yn benodol at ei haelioni, ‘As a prince, Gruffydd (who died in 1191) was renowned for his profuse liberality’. Fel y gwelir yn y nodyn cefndir uchod, yr oedd Gruffudd Maelor yn perthyn i’r un llinach â Lleucu, gwraig Rhisiart. Gallai’r bardd hefyd fod yn cyfeirio at Ruffudd ap Madog (*ob.* 1269), un o noddwyr y Gogynfeirdd, arno gw. R.R. Davies, *Conquest, Coexistence, and Change: Wales 1063–1415* (Oxford & Cardiff, 1987), 234 a GBF (cerddi 24–8) am ganu Llygad Gŵr iddo.
- 71–2 **Rhisiart ... / Gwedy yntau** Hynny yw, ar ei ôl yntau, sef Gruffudd Maelor, y daw Rhisiart.
- biau’r bel** Cymerir yn betrus mai *bel* ‘cloch’ sydd yma ac nid ffurf dreigledig *pêl* ac mae’r odl yn sicr o blaid hynny. Gyda’r ymadrodd hwn, cf. *dwyn y bel*, a gw. yn arbennig GDG<sup>3</sup> 475–6 lle dyfynnir diffiniadau’r OED o’r ymadrodd S. *To bear the bell ‘to take the first*

*place* a to bear or carry away the bell 'to carry off the prize'. Ymhellach ar hyn, gw. A. Breeze yn *Notes and Queries*, cxxxxvii (1992), 441–2. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod yn ochelgar, ac mae'n dra phosibl mai 'pêl' a geir yn nifer yr enghreifftiau o'r ymadrodd; cf. GPC 1130 d.g. *d. y bêl*.

73 **merch** Sef y delyn, cf. uchod ll. 23n ar *iarlles*.

**arffed medd** Fe'i deallir yn sangiad yn disgrifio'r delyn sy'n cymryd ei lle yn awdurdodol yng nghôl y sawl sy'n ei chanu. Ond o gofio bod i'r ffurf *arffedog* yr ystyron 'ceidwad, amddiffynnwr', &c., GPC 196, gellid deall y cyfuniad i olygu 'cynheiliad medd' yn ddisgrifiad o Risiart.

75–6 **Anfonaf ... / Ei glod hyd y rhywlych glaw** Am yr un syniad, cf. GDG<sup>3</sup> 20 (7.30, 36) *A hyd y gwlych hoywdeg wlith / ... hëir dy glod*.

80 **Lleucu** Sef gwraig Rhisiart, gw. y nodyn cefndir uchod.

## 12

Cwmpasir yn yr awdl faith hon nifer o hanesion o'r Beibl ynghyd â themâu sy'n gyffredin ym marddoniaeth grefyddol y cyfnod. Cyfeirir at ddigwyddiadau a groniclir yn Llyfr Genesis yn yr Hen Destament ac at fywyd Crist. At ei gilydd, mae'n fwy disgrifiadol na cherddi crefyddol y Gogynfeirdd, sy'n tueddu i fod yn fyfyrdodau ar bechod, moesoldeb, diwedd oes a phenyd.<sup>1</sup> Anodd dychmygu beth fyddai amgylchiadau canu awdl fel hon, ond mae'n bosibl ei bod yn adlewyrchu'r math o ddeunydd yr oedd offeiriadaid yn ei ddefnyddio i addysgu gwŷr lleyg.<sup>2</sup> Tybed felly nad cynnyrch llys Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen ydoedd, sef gwrthrych yr awdl foliant uchod (cerdd 10)?

Egyr y gerdd drwy gyfeirio at ganlyniad gweithred Adda ac Efa yng Ngardd Eden. Anufudd-dod Efa yn cymryd y ffrwyth o'r goeden waharddedig (*caethbren*, ll. 3) oedd hanfod y drwg, ac wrth iddo dderbyn y ffrwyth bu i Adda dynghedu dyn i oes o waith caled, *Rhannodd ag Addaf afal, / Rhyw barch i ennill rhaw bâl!*<sup>3</sup> Cyfeirir at un o themâu amlycaf canu crefyddol y cyfnod, sef Crist yn achub pum oes y byd o gaethiwed uffern.<sup>4</sup> Credid bod drysau'r nefoedd wedi eu cau ar bum oes y ddynoliaeth ar ôl i Adda ac Efa droseddu, a chawsant eu hanfon i uffern i'w caethiwo yno. Ond ar ôl marw ar y groes disgynnodd Crist i uffern ac arwain allan yr holl bobl

<sup>1</sup> Cf., e.e., GMB cerdd 14 (Gwalchmai) a GCBM ii, cerddi 16 a 17.

<sup>2</sup> Gw. Enid Roberts, 'Uchelwyr y Beirdd', TCHSDd xxv (1976), 59.

<sup>3</sup> Gw. isod llau. 7–8.

<sup>4</sup> Ymhellach ar y *pum oes byd*, gw. isod ll. 10n ac ar ddisgyniad Crist i uffern ar ôl y croeshoelio, gw. J.E.C. Williams, 'Efengyl Nicodemus yn Gymraeg', B xiv (1950–2), 108–12.

hynny a oedd yn haeddu achubiaeth, *Pum oes byd i gyd o gaith—yn rhyddion* (ll. 17).

Cyfeirir yn helaeth at neges Gabriel i Fair a arweiniodd at waredigaeth y ddnoliaeth a mydryddir y geiriau hynny'n gelfydd dros saith englyn yn llinellau 25–49:<sup>5</sup>

*Ave Maria, gratia plena, Dominus tecum, benedicta tu in mulieribus, benedictus fructus ventris tui, Iesus.*

Henffych well, Fair, gyflawn o ras, mae'r Arglwydd gyda thi, bendigaid wyt ymhlith merched, bendigaid yw ffrwyth dy groth, Iesu.<sup>6</sup>

Yn ôl syniadaeth y cyfnod mae'r gair *Ave* yn gyfrwng gwardigaeth gan ei fod yn wyrdroad o 'Efa', sy'n cynrychioli'r pechod gwreiddiol.<sup>7</sup> Chwaraeir ar wahanol ystyron 'gair', sef i ddechrau neges yr angel (*Gair Gabriel*, ll. 15, ... *gair—yr angel*, ll. 53) ac yna'r Gair, sef Crist, yng nghroth Mair, a'r Gair ganedig (... *a'r Gair fu'r gwarded*, ll. 16, *Gair o Fair*, ll. 41).<sup>8</sup>

Cyfunir yr elfen storiol ag elfen o fyfyrdod wrth ddisgrifio amgylchiadau'r geni ac mae'r rhan amlwg a roddir i Fair yma'n adlewyrchu ei phwysigrwydd yng nghrefydd y cyfnod. Myfyfir ar y berthynas baradocs-aidd rhyngddi a'i Mab, sydd hefyd yn Dad iddi, *Yn Fab morwyn fwyn fagiad, / Yn deg, yn Ysbryd, yn Dad* (llau. 47–8), a hefyd ar natur baradocs-aidd yr enedigaelth wyrthiol ei hun:<sup>9</sup>

Morwyn fu Fair fwyn o fywn hundy—gwydr,  
Yn gwiw ddal Mab Duw fry,  
Morwyn gyn no hyn gain hy,  
(Mirain wawd) morwyn wedy (llau. 61–4).

Cyfeirir at elfennau arbennig yn hanes y geni—sonnir am y seren yn codi ar ôl y geni (llau. 67–8), y Doethion yn dod â'u hanrhegion (llau. 71–2),<sup>10</sup> ac amgylchiadau'r geni yn y stabl ymysg gwartheg (llau. 75–8). Dychwelir at

<sup>5</sup> Gweddol gyffredin yng nghanu crefyddol y cyfnod yw mydryddu gweddïau neu adnodau penodol o'r Ysgrhythur, naill ai yn Llad. neu yn y Gym., cf. 'Englynion yr Offeren' gan Ddafydd ap Gwilym, GDG<sup>3</sup> 6–7 a gw. ymhellach Enid Roberts, *art.cit.* 61, 65–6.

<sup>6</sup> Ymhellach ar y weddi hon, gw. ODCC 603 d.g. 'Hail Mary' lle nodir bod defnydd defosiynol y weddi hon yn mynd yn ôl i'r 11g., ac iddi ddod yn boblogaidd yn y 12g.

<sup>7</sup> Gw. Enid Roberts, *art.cit.* 63.

<sup>8</sup> Cf. IGE<sup>2</sup> 151 (llau. 21–8) *Gabriel o radd gyfaddef / A wnaeth drwy arch Duw o nef / Anfon i Fair Air arab, / A'r Gair aeth i Fair yn Fab: / A'r Gair oedd hawdd ei garu, / A'r Gair mab i Fair a fu: / Gair o nef yn gâr i ni, / Gwir fu gael, gorfu Geli* (Gruffudd Llwyd).

<sup>9</sup> Gw. ymhellach A. Breeze, 'The Virgin Mary, daughter of her son', *Études* xxvii (1990), 267–83 lle trafodir y themâu hyn mewn ieithoedd eraill yn ogystal â'r Gym.; gw. hefyd Bl BGCC 113–20.

<sup>10</sup> Cf. GDG<sup>3</sup> 3 (1.9–12) *Diddan dri brenin anrhydeddus—coeth / A ddoeth i'r cyfoeth yn wŷr cofus; / Dugant dair anrheg, diwgu—roddi, / O rym Mair a Thi, aur, myrr a thus.*

thema sylfaenol drygioni dyn drwy sôn am Grist yn faban yn gorfod ffoi i'r Aifft rhag *Erod gaeth a'i rawd o gŵn* (ll. 85). Gwrthgyferbynnir drygioni Herod a daioni Crist (llau. 93–112).

Neilltuir y pymtheg englyn nesaf (llau. 113–72) i drafod amgylchiadau bradychu a dal Crist a'i groeshoelio. Pwysleisir drygioni dyn drachefn a sonnir yn benodol am Jwdas yn cusanu Crist yng Ngardd Gethsemane (ll. 116) ac yn ei werthu *Er deg ar hugaint ... / O arian bath* (llau. 117–18). Disgrifir Ei rwymo a'i garcharu a'i osod ar *faenbost* a'i chwipio (llau. 129–36). Â'r bardd rhagddo i enwi dyddiau Wythnos y Dioddefaint fesul un o'r dydd Mercher hyd at y dydd Llun, gan drafod digwyddiadau pob dydd yn ei drefn.<sup>11</sup> Ceir myfyrdod ar ddiodeffaint Crist ar y groes sy'n nodweddiadol o gerddi crefyddol y cyfnod, oherwydd fel y dywed Dr Enid Roberts, '... credid y gallai amgyffred yn bersonol arteithiau'r goron ddrain, y fflangellu, y croeshoelio a'r pum archoll leihau rhyw gymaint ar boenau'r purdan'.<sup>12</sup> Ymdeimlir â gorfoledd y bardd yn dilyn yr atgyfodiad yn llinellau 173–6 lle crybwyllir enw *Duw* wyth gwaith.

Yna daw'r elfen storiol i ben a thry'r gerdd yn fyfyr personol. Yn llinellau 177–96 mae'r bardd yn chwarae ar y gair *dewis*: rhoddwyd i ddyn allu i ddewis, ac fel y dewisodd Duw farw drosto ef, dewis dyn yw derbyn Iesu (llau. 177–80). Ategir hyn yn y pedwar englyn nesaf sy'n dechrau gyda'r geiriau *Dewisaf fy Naf ...*; cloir gyda'r dymuniad i Grist ei ddewis ef pan fydd dau ddewis (sef derbyn neu wrthod) yn Ei wynebu yntau: *Dewised a'i dewisawdd / Dydd y saif dau ddewis hawdd* (llau. 195–6).

Rhestrir yn llinellau 205–28 rannau o'r corff sydd, yn ogystal â bod yn fodd i bechod, yn fodd i faddeuant. Yn wyneb holl ffaeiddau ei gorff mae'r bardd yn ymbil ar Dduw am faddeuant a derbyniad gan ei gyflwyno'i hun, gorff ac enaid.

Mae'r gerdd yn ymdebygu fwyfwy i farwysgafn yn y caniad olaf sy'n apêl uniongyrchol am drugaredd Duw. Darlunnir arteithiau uffern yn ddychrynlyd ac yn fyw, gan bortreadu dyn yn noeth ac yn ddi-rym yn wyneb angau. Unir y prif themâu yng nghwpledi olaf y gerdd—y waredigaeth gan Dduw drwy Grist Fab Mair fel cyfryngwr, a'i aberth ar y groes er mwyn achub dyn o'i hynt gyfeiliornus. Bellach ymwrthododd y bardd â'i holl bechodau drwy gyfrwng myfyrdod dwys, a daw'r gerdd i ben drwy fynegi'r deisyfiad am gael cyfranogi o'r bywyd nefol.

O ran mydryddiaeth mae'r awdl yn ymrannu'n ddwy ran: ceir englynion yn llinellau 1–256 a chyfres o wyth gwawdodyn byr i gloi (llau. 257–88). Fel yn achos cerdd 10 isod, ceir amrywiaeth o englynion: englynion unodl

<sup>11</sup> Cf. awdl gan Elidir Sais, GMB cerdd 24, ac yn arbennig *ib.* llau. 9–14, 17–22, *Am du6 Merchyr Brat dybu bryt—Idas, / Bredychu yn Yspryt, / A Difyeu y'n dyfu leturyt, / Daly Iessu managu mbygnglyt. / Du6 Gwener, bu crei, bu creulyt / Croc an Tat: an treis y gyt ... / Du6 Sad6rn ys aeth, ys eithyt—ym med, / Madeueint anhyuryt. / Trannoeth y goreu eil g6ryt, / G6ir Uab Du6, dangos y vrywt. / Du6 Sul (d6yssaaf cof) a6r y kyuyt—heul, / Kyuodes o'e weryt.*

<sup>12</sup> E. Roberts, *art.cit.* 73.

union, lleddfbroest, proest dalgron a dau bennill proest o chwe llinell yr un.<sup>13</sup> Mae'r awdl yn ymrannu'n ddwy o ran ei chynganeddiad. Yn yr englynon (llau. 1–265), ceir cynganedd sain mewn tua 40% o'r llinellau, gyda chynganeddion traws a chroes mewn tua 45%, a chynghanedd lusc mewn tua 4%. Diddorol nodi, fel yn achos cerdd 9 uchod, fod pob llinell yn y caniad olaf, sydd ar fesur gwawdodyn byr, yn cynnwys cynghanedd sain, gydag enghreifftiau o sain ddwbl a sain gadwynog.

- 3 **bwyllwr** Fe'i deellir yn ffurf amrywiol ar *bwyllwrw*, sef cyfuniad o *bwyd* a *llwrw*, gw. GPC 358; ni restrir y ffurf yn G 85.
- 4 **afallen Efa** Cyfeiriad at hanes drygioni Efa yng Ngardd Eden pan rybuddiwyd Adda ac Efa rhag bwyta ffrwyth yr afallen, gw. Gen ii.17; temtiwyd Efa gan y sarff, Gen iii.6, a dyna oedd y pechod gwreiddiol a ddielir yn ll. 6 isod.
- 5 **rhus** Ar amryfal ystyron y gair hwn, gw. PKM 103–4.
- 8 **i ennill rhaw bâl** Cf. geiriau Duw wrth Adda ar ôl iddo fwyta'r ffrwyth, Gen iii.19 *Trwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta bara hyd oni ddychweli i'r pridd ...*
- 10 **pum oesfyd** Arferid rhannu oes y byd yn rhagflaenu dyfodiad Crist yn bum cyfnod fel a ganlyn: o Adda hyd y Dilyw, o'r Dilyw hyd Abraham, o Abraham hyd Ddafydd, o Ddafydd hyd y Gaethglud ym Mabilon, ac o'r Gaethglud hyd ddyfodiad Crist a'r Ymgnawdoliad. Ymhellach, gw. GDG<sup>3</sup> 434 a HG Cref 214–15.
- 13 **pymoes** Ar *pym*, ffurf hŷn ar y rhifol *pump* sy'n gyffredin mewn Cym.C., gw. GMW 45 a cf. y ffurf *pymtheg* mewn Cym.Diw.
- 15–16 **Gair Gabriel ... / ... a'r Gair fu'r gwared** Ymhellach ar y chwarae sydd yma ar *gair/Gair*, sef 'gair' yr angel Gabriel wrth Fair, a'r 'Gair' yn ei chroth, ac yna am y 'Gair' ganedig, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 17 **Pum oes byd i gyd o gaith—yn rhyddion** Cyffredin ym marddoniaeth grefyddol y cyfnod yw'r cyfeiriadau at Grist yn achub trigolion pum oes y byd rhag caethiwed pechod, trwy ddod i'r byd a marw ar y groes, cf. GCBM ii, 17.109 *Can duc pymwan Crist pymoes o gaeth; GDB 10.73–4 A warabd pymoes byd o geithiwed—uffern, / O blith y gethern gaeth efrued* (Llywelyn Fardd II); R 1330.10–12 *efo an pryabd ... ac angbnaeth fraeth frblythlabngel. o geith yn rydyon ygyt* (Gruffudd ap Maredudd). Ymhellach ar y thema hon, gw. y nodyn cefndir uchod.
- 18 **cyfiaith** Dilynir awgrym petrus G 209 sy'n rhoi iddo'r ystyr 'iaith, lleferydd, ymadrodd' yma.

<sup>13</sup> Cf. 10.69–74 a gw. ymhellach y nodyn cefndir i gerdd 10 uchod.

- 22 **llateiaeth** Defnyddir y gair yn drosiadol am ‘genhadaeth [o gariad]’. Cyfeiriad sydd yma at Gabriel yn dod at Fair i’w hysbysu am ei beichiogrwydd.
- 23 **aelaw** Yn betrus iawn, derbynir yr ystyr ‘parod, rhwydd’ a roddir yn G 11, er cydnabod mai yn yr ystyr ‘cyfoeth, golud, amllder’ a ‘lluosog, aml’ (GPC 36) y digwydd fynychaf yn y farddoniaeth. Ceir 8 sillaf yn hytrach na 7 yn y ll. hon oni bai fod cywasgiad ynddi.
- 27 **gobrwiau Gabriel** Ceir yma enghraifft o’r bai ‘crych a llyfn’, gw. J. Morris-Jones: CD 146. Efallai y dylid diwygio’r ll. a darllen *Geiriau a gobrau Gabriel*.
- 33 **Dominus** Darllener *Dom’nus* er mwyn hyd y ll., cf. GDG<sup>3</sup> 1 (1.8) *Y’th alwant o’r lle, Dom’ne Dom’nus*.
- 34 **tecum** Llsg. B *tecōin* a ddiwygir yn unol â geiriad y weddi (gw. y nodyn cefndir uchod). Mae’n amlwg i’r copïydd ddarllen *ōin* yn lle *um*.
- 35 **Pen-doctor** Gan fod *benedicta* yn a.b., rhoddir coma ar ei ôl yn hytrach na chymryd ei fod yn goleddfu *Pen-doctor*. Ond mae’n bosibl mai’n a. + e. gyda’i gilydd y bwriadodd y bardd inni eu deall.
- 37 **in** Gwrthodir awgrym G 423 i ddiwygio hwn yn *un*, gan mai’r ardd. Llad. *in* sydd ei angen yn y weddi (gw. y nodyn cefndir uchod).
- pwyth** Am yr ystyron ‘tâl, gwobr’ a hefyd ‘dialedd’, gw. CA 158, CLIH 166 a GDG<sup>3</sup> 598.
- 39 **Et ail brif llythyren doeth** Cymerir mai cynghanedd draws fantach sydd yn y ll. hon, gydag *et* yn cael ei ynganu ‘ed’. Gan mai eb. yw *llythyren*, disgwylir i’r a. *doeth* dreiglo ar ei ôl, ond am galediad *-n dd- > -n d-*, gw. Treigladau 26–7.
- 43 **buddfawr** Llsg. B *uvudvaōr*. Diwygir gyda G 82 gan ddilyn John Davies yn llsg. C sy’n rhoi *fuddfawr*, gan fod y ll. fel y saif yn y llsg. yn rhy hir o sillaf. Mae’r cymeriad hefyd o blaid y diwygiad.
- cymhlegyd** Dilynir yma awgrym petrus GPC 765 sy’n rhoi’r ystyr ‘cwmni, cymdeithas’ iddo, cf. HG Cref 282 a GDG<sup>3</sup> 572. Am enghreifftiau pellach o’r ffurf yn yr ystyr hon, cf. GMB 20.5 (Elidir Sais, lle mae’r odl eto’n hawlio’r terfyniad *-yd*), 32.2 (Meilyr ap Gwalchmai), 33.74 (eto). Ond nid amhosibl ychwaith fyddai’r ystyron ‘plaid, plegid, bodd, herwydd’ a roddir yn G 235, a chymryd *wryr gymhlegyd* un ai’n ddisgrifiad o Fair fel un sydd o ‘blaid’ eneidiau, yn ôl ei swyddogaeth arferol fel eiriolwraig ar Ddydd y Farn, neu’n gyfeiriad cyffredinol at ei natur wryfol.
- 45 **Un a Thri** Cyfeirir at y Drindod, sef y Tad, y Mab a’r Ysbryd Glân.
- 51 **dyfod ein dydd** Am enghraifft bellach o *dydd* yn yr ystyr ‘dydd marwolaeth’, cf. Bledodyn Fardd yn ei farwnad i Ddafydd Benfras,

GBF 44.8 *Oet coeth gŵr a doeth y dyt* a gw. J.E.C. Williams, ‘Cymraeg “dydd”: Gwyddeleg “lá”: Lladin “dies” = “dies mortis”’, B xxiv (1970–2), 477–81.

- 53 **y Mab Rhad a gad** Ni cheir *a gad* yn llsgr. B a dilynir llsgrau. C a G (?cywiriad yn llaw John Davies) sy'n eu hychwanegu, gan roi ll. reolaidd o ran hyd a chynghanedd sain. Cyffredin yn y farddoniaeth yw'r cyfuniad *Mab Rhad* am Grist, cf. GBF 39.1 *Nabd y Tat a'r Mab Rat rof a'm galon* (Gruffudd ab yr Ynad Coch), *ib.* 40.64 *Yd archaf y'm Tat, Yspryt a Mab Rat* (eto).
- 55 **Arf** Fe'i defnyddir yn drosiadol i gyfleu nerth Crist.
- 58 **segur** Ei ystyr yma yw ‘diofal, cysurus, tawel’, gw. PKM 110, lle esbonnir y gair yn fenthyciad o'r Llad. *securus* ‘“unconcerned, quiet, untroubled, serene” yna “safe”’.
- 61 **hundy—gwydr** Ar *gwydr* ‘disglair, gloyw’, gw. G 729 (cf. GPC 1751); efallai mai cyfeirio'n drosiadol at burdeb yr *hundy* a wneir yma. Ond mae'n bosibl fod arwyddocâd arbennig i *gwydr* yma, cf. y garol S. gan James Ryman, c. 1492, ‘As the sonne beame goth thurgh the glas, / Thurgh thy bodie so did he pas, / Taking nature, as his wille was, / *Dei genitrix [pia]*’, gw. R.L. Greene, *The Early English Carols* (Oxford, 1935), 144 (192.[9]). Cf. hefyd GIG 140 (XXXI.31) a gw. ymhellach, A. Breeze, ‘The Blessed Virgin and the Sunbeam through Glass’ yn *Celtica*, xxiii (1994) (i ymddangos), a'r dyfyniad canlynol o waith Dafydd Benwyn, *Di-bechod vy'r nôd a wnaeth, / digabl vy'r genedigaeth: / yr vnwedd, mi a wranaf, / a'r haül drwy loew wydr yr haf*, D.H. Evans, ‘The life and work of Dafydd Benwyn’ (D.Phil., Oxford, 1981), 624 (llau. 19–22).
- 62 **gwiw** Llsgr. B *gwyŵ*; dilynir G 687 ynglŷn â'r ynganiad.
- 68 **ein nod** Llsgr. B *y not*. Awgrymir i gamrannu geiriol ddigwydd yma ac y dylid darllen *yn nod*, sef ‘yn nod’ neu ‘ein nod’ yma.
- 71–2 **a dwyn—eu hunain / Gan frenhinoedd addfwyn** Cyfeirir yma at y tri gŵr doeth yn dod at Grist gyda'u hanrhegion. Amwys braidd yw'r gystrawen a chymerir mai dweud a wneir bod y brenhinoedd yn dwyn eu hunain at Grist, yn hytrach na bod yr anrhegion yn cael eu dwyn *gan* y brenhinoedd. Gellid hefyd ddeall *a dwyn—eu hunain* yn sangiad.
- 73 **a thus** Llsgr. B *thus*. Diwygir er mwyn hyd y ll.
- 75 **mab eidion** Sef yn llythrennol ‘epil eidion’, gw. GPC 2293 d.g. *mab* (b).
- 76 **ar ael** Llsgr. B *arael* a restrir yn betrus yn G 35 yn f. anghyflawn yn golygu ‘?derbyn, cynnwys, croesawu; gwarchod’; yn GPC rhestrir *arael* yn a. (o *hael*) ‘hyfryd, tirion, mwyn’, gydag enghreifftiau o'r 15g. Fodd bynnag, gwelir yma, gyda John Davies yn llsgr. C, gyfuniad

aroddodiadol *ar ael* yn golygu ‘ar bwys’. Deellir *crudaidd* yn gyfeiriad at Grist.

- 77 **Nid âi, eithr Crist o’i feithrin** Llsg. B *nyt ont crist oe veithrin*. Derbynnir y diwygiad a gynigir gan John Davies yn llsg. C sy’n adfer y gynghanedd lusg ac yn cyflenwi’r sillaf goll yn y ll.; gthg. G 35 (d.g. *arael*) ac *ib*. 466 (d.g. *eith(y)r<sup>l</sup>*, sy’n cynnig diwygio’n *Nid aeth eithr Crist o’i feithrin*. Cymerir bod *o’i* yma’n golygu ‘i’w’, cf. uchod 9.2n.
- 78 **asen** Ffurf amrywiol ar *asyn*, gw. GPC 219.
- 79 **treiglaw** Ar y f. yn yr ystyr ‘troi, mynd am dro, teithio’, gw. Arm P 23 a ChO 33–4. Cymerir ei fod yma’n disgrifio Mair yn ymdroi uwchben crud yr Iesu.
- tragwlych** Fe’i dehonglir yn e. ‘gwlybanaeth mawr’, cf. G 693 sy’n ei restru fel cyfuniad dan yr e. *gwlych* ‘gwlybanaeth’, &c.
- 83–8 **O arch ... / ... elynion** Cymerir mai’r gystrawen yma yw *O arch ... y Sarasin / Erod ... / Ei fradog angau ... / A luniodd Ei elynion*.
- 84–5y **Sarasin / Erod** Am *Erod*, un o’r amryfal ffurfiau ar yr e. *Herod*, gw. G 482 (d.g. *Erawt*). O ran crefydd, Iddew ydoedd Herod, er bod ei dad yn Idwmead, sef Arab, o ran tras. Roedd y Saraseniaid yn Foslemiaid yng nghyfnod y Croesgadau, ac felly gallai unrhyw Arab fod yn Sarasen i fardd o Gymro.
- 86 **Eurwisg aml ŵr ysgymun** Deellir hwn yn ddisgrifiad dirmygus pellach o Herod, sydd â’i ddillad crand yn arwydd o’i falchder arwynebol.
- 87 **brawdyn** Unig enghraifft a ddiffinnir yn betrus yn G 73 yn e. ‘adyn, truan’, ond gan gyfeirio at eiriadur Thomas Wiliems sy’n rhoi i *brawdyn* yr ystyr ‘*fraterculus*’ (‘brawd bychan’); cf. GPC 313. Byddai’r naill ystyr neu’r llall yn addas yma.
- 89–90 **Deholed Gwawr Cred ... / O anafoedd didryf** Cymerir hwn yn gyfeiriad at Grist yn cael ei alltudio i’r Aifft yn faban er mwyn dianc rhag gorchymyn Herod i ladd pob plentyn dan ddwyflwydd oed yn ei deyrnas, gw. Math ii.13–16. Derbynnir felly ddisbarthiad petrus J. Lloyd-Jones o *anafoedd* fel ffurf l. petrus *anaf* (er na restrir y ll. hwnn yn GPC 106).
- 90 **O anafoedd didryf** Llsg. B *anef anafoed didryf*, sy’n peri i’r ll. fod yn rhy hir. Derbynnir felly y diwygiad a gynigir gan John Davies yn llsg. C.
- 92 **a drais a dyf** Llsg. B *adreis dyf*, sy’n peri i’r ll. fod un sillaf yn brin. Er mwyn hyd y ll., cynigiodd John Davies yn llsg. C ddarllen *dros dofn bwyll dros a drais dyf*.



- 93 **ei waelach—rhag ffydd** Ni cheir *ei waelach* yn llsg. B, ac er mwyn y mydr derbynnir y diwygiad a gynigir yn llsg. C.
- 93–6 **na weled ... / ... herwr degach** Am y treigladd meddal i'r a. cymharol *tegach* ar ôl e. mewn gosodiad negyddol, gw. Treigladau 66–7. Deallir y llau. hyn yn ddisgrifiad o Herod.
- 95 **a Duw'n fach** Dehonglir *fach* yma'n ffurf dreigledig *mach* 'gwarantwr ... gwytl', &c. (gw. GPC 2299), yn hytrach na'r a. *bach*. Cf. R 1229.9–10 *du6 yn uach morach mabred*, GDG<sup>3</sup> 138 (51.40), 143 (53.14) ac *ib.* 487, a GIG 55 (XII.2).
- 97 **Iesu, Iôr y llu** Ni cheir y fannod yn llsg. B ac mae'r ll. o'r herwydd sillaf yn brin. Dilynir, felly, lsg. C sy'n rhoi *ior y llu*.
- 102 **gwlan y ddaear** Am y cyfuniad *gwlan y ddaear*, cf. Pen 67 128 (XXXVI.44) *gleiniav dieith[r] gwlan dayar* (Hywel Dafi). Anodd gwybod ai cyfeiriad Beiblaidd sydd yma—meddir yn *Geiriadur Beiblaidd*, gol. T. Rees *et al.* (cyf. 1, Wrecsam, 1926), 637 'cyfrifir y gwlan [sef gwlan dafad fel rheol] yn rhan o flaenffrwyth cynnyrch y tir'. Noder hefyd fod GPC 1680 yn rhoi i *gwlan* yr ystyr drosiadol 'glaswellt, llyisiau'r ddaear'. Beth bynnag yw ei union ystyr yma, cymerir mai cyfeirio a wneir at ryw gnwd gwerthfawr a geir o'r ddaear: fel y mae meini gwerthfawr i'w cael yn y pridd (ll. 101), felly mae *gwlan daear* i'w gael yng nghanol y gwrysg neu chwyn. Mae'n dra thebygol fod cyswllt syniadol rhwng llau. 101–2 a 103–4, ond bod y cyswllt hwnnw braidd yn niwlog.
- 103–4 Cymerir bod yma gyfeiriad at Grist yn marw ac at y meirw, sydd, trwyddo Ef, yn ennill bywyd tragwyddol.
- 105 **seithrif llu** Yr oedd y beirdd yn dra hoff o rifo fesul saith, gw. YMTh 11n2.
- lle y gennynt** Cywesgir er mwyn hyd y ll.
- i drais** Am yr ystyr '*by force*', gw. GMW 201.
- 110 **un Mab Mair** Llsg. B *vn mal meir*, derbynnir y diwygiad a gynigir gan John Davies yn llsg. C er mwyn yr ystyr.
- 112 **Tri, Dau, Un, cyfun y'i cair** Cyfeiriad pellach at y Drindod.
- 113 **gwneithur** Llsg. B *wneithur*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, cf. ll. 137n.
- 116 **Cusanu Iesu, Oeswr** Cyfeiriad at y modd y bradychodd Jwdas Grist yng Ngardd Gethsemane. Ymhelaethir ar y stori yn yr englyn canlynol.
- 117 **Er deg ar hugaint ... / O arian bath** Llsg. B *bach*; derbynnir y diwygiad *bath* a geir yn llsg. C. Cyfeirir at Jwdas yn derbyn deg darn ar hugain o arian am fradychu Crist, gw. Math xxvi.14–16.

- 120 **Ei werthu a'i wrthod** Cyfeiriad at Jwdas yn derbyn arian am fradychu Crist (gw. ll. 117n uchod) ac at Bedr yn gwadu Crist cyn i'r ceiliog ganu deirgwaith, Math xxvi.69–75.
- 122 **balch ... Noe** Sef 'arch Noa', gw. G 49 am enghreifftiau pellach o'r cyfuniad yn y farddoniaeth. Ar *Noe*, hen ffurf ar Noa, sef y patriarch o'r Hen Destament yr ailboblogwyd y ddaear yn sgil y Dilyw, gw. yn arbennig J. Vendryes, 'Gallois Noe, Neuwy, Nouguy', *Bulletin de la Société de Linguistique de Paris*, xliii (1947), 32–7 a J.E.C. Williams, 'Balchnoe', Traeth cxxxiv (1979), 139–41.
- 124 **gwarth hydr** Mae'r ll. sillaf yn fyr onid yw *hydr* yn ddeusill—cf. llau. 159, 164 a 272, a gw. 5.36n uchod. Sylwer hefyd, fodd bynnag, mai unsill yw *mygr*, ll. 157, a *bustl*, ll. 160.
- 125 **Suddas Swddan** Llsg. B *sudas swdan*. Am *Suddas*, ffurf amrywiol ar *Iuddas*, sef Jwdas, cf. GDG<sup>3</sup> 3 (1.17) ac RWM ii, 575. Tybed ai o ffurf S. debyg i *Judaeen* y tarddodd *Suddan*? Am gyswllt Jwdas â Jwdea, gw. ODCC 750 (d.g. 'Judas, Iscariot'), lle esbonnir, 'It is noteworthy that whereas nearly all the other Apostles were Galileans, the epithet 'Iscariot' (Heb., 'man of Kerioth', a place in S. Palestine) implies that Judas was from Judaea'. Dylid nodi hefyd fod EEW 168 yn deall *swdan* = '*sultan*', hynny yw '*saracen*, *anghrediniwr*', ond byddai'n rhaid wedyn ddeall *Sudas* = '*Sudas*', ac ni chafwyd enghraifft bellach o'r ffurf honno.
- 127 **a'i Eilun** Llsg. B *ulun*; derbynnir awgrym John Davies sy'n darllen *a'i eilun* (cf. G 458 sy'n cynnig *a'i eulun*). Fe'i deellir yn betrus yn gyfeiriad at bersonau'r Drindod, sydd ar ddelw Duw.
- 129 **ar ôl** Llsg. B *arol*. Petrus yw'r dehongliad o'r ll. gan fod cael toriad ar ôl *wrth* yn peri iddi ymddangos braidd yn drwsogl. Am y cyfuniad, gw. GPC 2640 (lle digwydd o'r 14g. ymlaen yn ôl y dystiolaeth).  
**swrth** Estynnir beth ar yr ystyr 'sydyn' a roddir yn CLIH 190 a GIG 216.
- 130 **maenbost** Ni chofnodir y ffurf yn GPC 2309.
- 135 **ysgwrs** Sef '*scourge*', gw. EEW 162, 245. Sylwer bod yr acen ar y sillaf olaf.
- 137 **darfu** Llsg. B *Daruvwyt*. Diwygir er mwyn arbed sillaf gan ddilyn John Davies yn llsg. C (cf. G 299).  
**gwneithur** Llsg. B *wneuthur*. Diwygir er mwyn y gynghanedd, cf. uchod ll. 113n.
- 138 **Merchyr** Bradychwyd Crist ar ddydd Mercher cyn y croeshoelio, sef 'Dydd Mercher Brad', gw. HG Cref 226–7, lle esbonnir y ffurf *Merchyr* fel hen ffurf ar *Mercher*, o'r Llad. *Mercurius*, a hefyd GPC 2433.

- 140 **pryd ucher** Am y ffurf, cf. *pryd nawn*, ac am yr ystyr, cf. *gwrthucher* ‘min nos, yr hwyr’, GPC 1735.
- 141 **gwaredd** Llsg. B *waered*. Derbynnir awgrym G 621 ynglŷn â’r diwygiad, gan ddeall y gair yn gyfeiriad at Grist.
- 143 **cyfenw Difiau** Ar *Difiau* ‘dydd Iau’, gw. GPC 982. Am *cyfenw* yn yr ystyr ‘dydd cyfatebol’, cf. LIDC 131 ar gyfer *ib.* 35 (17.195) *Ac y kywenv dyw iev divod iti*, a gw. GPC 691 lle rhestrir yr enghraifft hon dan yr ystyr ‘pen blwyddyn ... anniversary’.
- 146 **byddar feddwl** Deellir hwn yn gyfeiriad ffigurol at y rhai hynny sy’n gaeedig eu meddyliau i neges Crist; cf. isod ll. 200 a GCBM ii, 16.11.
- 148 **Gwenergwaith** Cyfeiriad at y croeshoelio a gysylltir yma â’r pechod gwreiddiol.
- 151 **fferf** Ffurf f. yr a. *ffyrf*.
- 153 **rheiddudd** Fe’i deellir yn a. ‘coch ei waywffon’ (cf. GCBM i, 20.44 a GMB 8.48), yn ddisgrifiad o’r sawl sy’n poenydio Crist.
- 159–60 **gwanddioid hagr, / ... gwinegr** Cyfeiriad at y gwin sur a roddwyd i Grist ar y goes, gw. Luc xxiii.36. Sylwer bod ll. 159 sillaf yn fyr, onid yw *hagr* i’w ddeall yn ddeusill, gw. uchod ll. 124n.
- 161–3 **Esgynnawdd ... / Oes diagr Iesu ... / Ei gladdedigwaith** Deellir *esgyn* yma’n f. anghyflawn yn golygu ‘codi yn erbyn, goresgyn’, &c. (cf. GPC 1247), gydag *Oes diagr Iesu* yn oddrych ac *Ei gladdedigwaith* yn wrthrych.
- 161 **dallfawdd dwyllfurn** Rhestrir *dallfawdd* yn G 292 yn gyfuniad o *dall* a *bawdd*, sef e. ‘boddi, boddiaid’, *ib.* 53 (gyda GPC 265 yn ychwanegu’r ystyr ‘soddiaid’). Deellir *murn* yn y cyfansoddair *twyllfurn* yn e. ‘gweithred gudd, cynllwyn ... dynladdiad, llofruddiaeth (gudd), bradlofruddiaeth’, gw. GPC 2504 lle rhoddir iddo hefyd ystyron a. megis ‘twyllodrus, dichellgar, ?cudd’.
- 163–4 **Ei gladdedigwaith ... / ... ar Sadwrn** Cyfeiriad at Joseff o Arimathea a Nicodemus yn claddu Crist mewn bedd ar ddydd Sadwrn, gw. Luc xxiii.54 *Dydd y Paratoad oedd hi, ac yr oedd y Saboth ar ddechrau*. Sylwer bod ll. 164 sillaf yn fyr onid yw *hydr* yn air deusill yma, gw. uchod ll. 124n.
- 168 **ar ddeau Ei Dad** Llsg. B *ar deeu dat* a ddiwygir, gan ddilyn llsg. C, am fod y ll. yn fyr o sillaf. Wedi esgyn i’r nefoedd eisteddai Crist ar ddeheulaw Duw, gw. Marc xvi.19.
- 169 **gwreiddioedd** Llsg. B *gwreidya6d*. Rhestrir y ffurf yn G 706–7 yn 3 un.grff.myn. y f. *gwreiddio*, sef bf. anghyflawn ‘seilio, gosod ar sail, sicrhau’. A chymryd bod yma englyn unodl union y mae ei ll. olaf ar goll, mae’r odl yma’n gofyn am air i odli â *moroedd* (ll. 170) a

- dieuoedd* (ll. 171). Diwygir felly yn *gwreiddioedd*; am y terfyniad 3 un.grff.myn. *-oedd*, a geir yn amrywiad ar *-odd*, gw. T. Jones, ‘Ystori Alexander a Lodwig’, SC x/xi (1975–6), 289n1 (ni restrir y terfyniad hwn yn GMW 123). Gellid hefyd ddeall *gwreiddioedd* yn ffurf l. *gwraidd* ar lun *byddinoedd*, &c., er na restrir y ffurf l. honno yn G 706 na GPC 1697; ond beth fyddai ystyr hynny?
- 177 **dwywslathr** Deellir hwn yn gyfeiriad at Fair, ac yn benodol ati yn ei swyddogaeth draddodiadol fel un sy’n eiriol dros eneidiau ar Ddydd y Farn.
- 178 **Dyn biau dewisau da** Trafodir yn yr englyn hwn ac yn y pedwar englyn sy’n dilyn y rhyddid a roddodd Duw i ddyn i ddewis rhwng y da a’r drwg, cf. LIA 11 (llau. 21–2) *kannys duw arodes rydit vdunt* [*sc. dynion*] *ydethol yda. athal mawr owrthot ydr6c* (‘Hystoria Lucidar’). Mae’n bosibl, fodd bynnag, y dylid cymryd mai ‘merch’ yw ystyr *dyn* yma, a’i fod yn gyfeiriad at Fair.
- 179 **Nen** Fe’i deellir yma’n ffigurol am ‘Arglwydd’, gw. GPC 2569, a gthg. isod ll. 239 *Duw nen o’r pren a’n prynawdd lle y’i ceir yn yr ystyr ‘nefoedd’*.
- 181 **dewisaf fy Naf** Gellid hefyd ddeall *dewisaf* yn radd eithaf yr a. *dewis* (GPC 941), ‘y mwyaf detholedig’.
- 182 **Win o’r dwfr yn hoywffraeth** Llsg. B *win or dwfyr ewffraeth* sy’n peri bod y ll. yn fyr o sillaf. Derbynnir cynnig cyntaf J. Lloyd-Jones, G 500, i ddiwygio *ewffraeth* yn *yn hoywffraeth*. Cymerir bod yma gyfeiriad at wyrth Crist yn troi dŵr yn win mewn priodas yng Nghana, gw. Ioan ii.1–11.
- 186 **fy anghyfraith** Gellir cywasgu’n *f anghyfraith* er mwyn hyd y ll.
- 188 **diwaethaf** Ffurf amrywiol ar *diweddaf*, sef gradd eithaf *diwedd* (dan ddylanwad *gwaethaf*); am enghreifftiau pellach o’r ffurf, gw. G 377 a GPC 1059.
- 190 **hwylo** Llsg. B *hwyl*, sy’n peri i’r ll. fod yn brin o sillaf. Credir i derfyniad y ferf (*hwylaw*) gael ei amlyncu gan sillaf gyntaf y gair canlynol, *awyr*, am eu bod yn cynnwys yr un llythrennau. (Gthg. John Davies yn llsg. C sy’n cynnig darllen *sy yn hwyl awyr glas*.)
- 194 **medrawdd** Am *medru* ‘rheoli’, &c., gw. GPC 2393.
- 197 **osid** Sef ‘os oes’ neu ‘os bydd’, gw. GPC 2659.
- cwyn cynfyl** Llsg. B *kynn kynvyl* a ddiwygir gan ddilyn G 248 a GPC 190 (d.g. *areilboen*), gan adfer y gynghanedd sain.
- 198 **arheilboen** Dilynir GPC 190 (d.g. *areilboen*) sy’n cynnig yn betrus yma’r ystyr ‘?poen wrth wyllo’, cf. ystyron y f. *areilio*, l.c. Ond nid

amhosibl ychwaith fyddai'r ystyr 'poen yn canlyn' a roddir yn betrus yn G 37.

- 200 **byddair feddwl** Cf. uchod ll. 146 *fyddar feddwl*, a gw. *ib.n.* Fe'i deallir yma'n gyfeiriad at y ddynoliaeth y mae'r bardd yn ei uniaethu ei hun â hi. Posibilrwydd arall fyddai diwygio yn *fuddair feddwl* 'yn fwriad adduned elw'.
- 201 **Yr enaid noeth ... pruddgar** Mae'r ll. yn fyr o sillaf, gyda sillaf yn eisiau o flaen y rhagwant; gellid cynnig darllen *Yr enaid noethaf a wnaeth Naf—pruddgar*.
- 204 **ar helw** Ar y cyfuniad hwn, gw. GPC 1208 (d.g. *elw*) lle rhoddir iddo'r ystyron '*in the possession of, in my (his, &c.) possession; under the protection of*' a cf. GCBM ii, 18.62–3 *Neud wyf fardd ... / Ar helw fy Nghreawdr*.
- rhwolaf** Ffurf ar y f. *rhwoli*, sef amrywiad ar *rheoli*.
- 205 **mae i'th was culas calon** Cymerir *culas* yn a. yn goleddfu *gwas*, a *calon* yn oddrych y f.; disgwylid i'r goddrych dreiglo yma, ond ar galediad *c-* ar ôl *-s*, gw. Treigladau 22.
- 206 **geir** Hen ffurf ar yr ardd. *ger*, cf. uchod 3.6n.
- 211 **tyfawd** Ffurf 3 un.pres.myn. (gydag ystyr ddyfodol) y f. *tyfu* a gymerir yma i olygu 'cynhyrchu'.
- 212 **dall a bryder** Gwelir yma'r gystrawen a. + *a* ('o') + e.: 'dall o bryder'.
- 216 **canys** Mae'r ll. yn hir o sillaf felly cywasger yn *cans*.
- Meddyg** Fe'i defnyddir yn ffigurol am Dduw neu Grist, fel yr Un sydd â'r gallu i iacháu dyn o'i bechod, cf. GMB 14.99 *Ac yssyn-ni vetyc a uet gôared—an geu* (Gwalchmai) a gw. GPC 2400 d.g. *meddyg* (b) am enghreifftiau pellach o'r ystyr ffigurol.
- 217 **trimodd** A chymryd bod y bardd yn trafod Dydd y Farn yma, tybed ai cyfeirio a wna at y 'tri llu' a ddaw gerbron Duw i'w barnu ar y dydd hwnnw? Arnynt, gw. uchod 2.12n.
- 220 **Digrynwr** Dilynir GPC 1001 (cf. G 349) o ran yr ystyr, a'i ddeall yn gyfuniad o'r rhagddodiad negyddol *di-* a'r e. *cryn(n)wr* 'dyn bach', *ib.* 624. Posibilrwydd arall yw cyfuniad o *di-* + *cryn* (bôn y f. *crynu*) + *-wr*, felly 'gŵr diysgog'.
- 222 **Perchen parchus** Cyffredin yn y farddoniaeth yw cyfosod *perchen* a *parch-*, cf. GCBM i, 3.154 ... *barch y berchenn*, 21.64 *Un perchen parchus ar y deithi*, *ib.*, 26.43 *parch ... berchen*; GCBM ii, 7.7 *Perchennaβc parchus lumynn*.
- 236 **gwerth Dy waed** Ar *gwerth gwaed* 'worth of blood; price of blood', gw. GPC 1647, ac ymhellach G 670 lle ceir enghreifftiau eraill o'r farddoniaeth.

- 239 **pren** Sef y groes.
- 241 **Agla** Sef e. a ddefnyddir am Dduw, o'r Groeg *aglaos* 'disglair', gw. G 15 a GPC 47.
- 242 ***I et O et Alpha*** Sef yn llawn, *Iesus et Omega et Alpha* 'Iesu sy'n Ddiwedd ac yn Ddechrau' (mae'r mydr yn mynnu'r talfyriadau); cf. Dat i.8 '*Myfi yw Alfa ac Omega*', *medd yr Arglwydd Dduw*.
- 248 **a'm da, amen** Llgr. B *amdamen*; fe'i diwygir gan ddilyn John Davies yn llgr. C. Amlyncwyd y llythren *a* oherwydd ceseilio.
- 249 **fy enaid** Gellir cywasgu'n *f'enaid* er mwyn hyd y ll.
- 251–2 **A'r lludw gorff ... / I'r lludw arall lle deiryd** Cf. Gen iii.19 ... [*d*]ychweli *i'r pridd, oherwydd ohono y'th gymerwyd; llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli*.
- 259 **gwesti gwastad** Cymerir mai 'croeso, derbyniad, cynhaliaeth' yw ystyr *gwesti* yma (gw. G 674 a GPC 1651), a'i fod yn gyfeiriad at Dduw. Am enghreifftiau pellach o'r cyfuniad cyffredin hwn yng nghanu'r Gogynfeirdd, cf. GLILI 1.4 *Y voli kedwesti wastad*; GBF 46.6. *Tyrrnwyr lochi gbesti gbastat* (Bleddyn Fardd), *ib.* 54.43 *Ym plwyf mad gwastad, gwesti—kyrreifeint* (eto) a cf. GCBM ii, 4.60 *Gbreit ri, gwesti gwastadrwyd*.
- ucheldir** Cyfeirir yma at y nefoedd.
- 260 **lle y** Gellir ei gywasgu er mwyn hyd y ll.
- gwir a gwad** Deallir *gwad* 'nacâd, negyddiad, gwrthddyweddiad', &c. (GPC 1542) yn y cyswllt hwn yn gyfeiriad at hawl dyn i'w amddiffyn ei hun. Gyda'r cyfuniad *gwir a gwad*, cf. *iawn a gwad* yn TA 269 (LXVI.147–8) *Anodwch eniweidiaid, / A chynnyg iwch iawn a gwad*.
- 262 **gwyll a dof** Am *gwyll*, amrywiad ar 'gwyllt', gw. G 738 a GPC 1766. Am enghraifft bellach o'r cyfuniad hwn yn y canu crefyddol, gw. GBF 41.12 *y wyllt a dof y dab angheu* (Gruffudd ab yr Ynad Coch).
- medrusgof** Ni restrir y cyfuniad hwn yn GPC 2393. Fe'i deallir yma'n a. 'cywrain Ei synnwyr' (am Dduw), er y gellid ystyr enwol iddo hefyd 'synnwyr cywrain' neu ynteu 'Un cywrain Ei synnwyr'.
- 263 **diefyl** Mae'r ll. sillaf yn hir, oni bai fod *diefyl* i'w gyfri'n unsill (sylwer nad yw'n odli â *diwyl* ('diwyl') y ll. ganlynol).
- 266 **plyg** Ar ei ddefnydd am ddarostyngiad i uffern, cf. geiriau Cynddelw yn ei farwysgafn, GCBM ii, 18.93 *Na'm gwellyg ym mhlyg ym mhlaiddirad*, a gw. *ib.n.* Ymhellach ar *plygu* yn yr ystyr 'darostwng', gw. GDG<sup>3</sup> 551.
- 268 **lledwyr** Dilynir GPC 2139 sy'n ei ddeall yn a. gyda'r ystyr 'heb fod yn hollol union ... gwyrddoedig', &c., o *lled* + *gwyr*, er mwyn yr odl fewnol â *llwyr*.

- poenllwyr benllad** Diffinnir *penllad* yn GPC (i ymddangos) yn e. yn golygu ‘y ddiod orau; y rhodd fwyaf, y rhad mwyaf, y daioni neu’r lles pennaf; hefyd yn ffig.’. Fodd bynnag, mae’n bosibl iddo fod wedi magu ystyr ehangach ‘eithafedd’, ac felly’n betrus cynigir aralleirio yma ‘eithafedd [o] lwyr boen’.
- 270 **rheuedd** Ffurf amrywiol ar *rheufedd* ‘cyfoeth’, gw. CT 44 a cf. GCBM ii, 4.151.
- 272 **eithr** Mae’r ll. hon sillaf yn fyr, oni chyfrifir *eithr* yn ddeusill, cf. uchod ll. 124n. Fodd bynnag, cyffredin yn nhoddeidiau Beirdd y Tywysogion yw cael ail linell o 8 yn lle 9 sillaf, gw. H. Lewis, ‘Toddaid a Chyhydedd Hir’, B v (1929–31), 96–7.
- 279 **sêl na sêl** Am y gystrawen, gw. yn arbennig CA 205–6 a cf. LIDC 35 (17.216–17) *A mi dysgoganaw e gvydi henri. / breenhin na breenhin ...*; gw. hefyd GPC 2545 (d.g. *na*<sup>2</sup>(5)) lle rhoddir i’r geiryn negyddol *na* mewn ymadroddion cyffelyb yr ystyr ‘p’un ai (a) ... ai peidio; ac (eto) nid’.
- 283 **gwaed y traed** Cyfeiriad at y croeshoelio. Mae myfyrio ar ddioddefaint Crist ar y groes yn nodwedd gyffredin ar gerddi crefyddol yr Oesoedd Canol, gw. yn arbennig MWRL 87–8 *et passim*.
- 284 **Hynt ar gyfrgoll ... na ad** Mae’r ll. fel y mae sillaf yn fyr, ac awgryma J. Lloyd-Jones yn G 216 ddarllen *hynt argyfrgoll goll ni oll na ad* a deall *argyfrgoll* yn un gair (er nad oes tystiolaeth bellach i’r ffurf honno yn G 41 na GPC 210).
- 285 **rhwydol** A. o’r e. *rhwyd*; cymerir mai ‘maglog’ yw ei ystyr yma.





## *Mynegai*

- a**<sup>1</sup> 10.99n, 12.53n, 92(2)n, 212n  
**a'ch** 10.19n  
**a**<sup>2</sup> 12.45n, 71n, 95n, 262n **a'm**  
12.248n **a'i** 12.120n, 127n **a'r**  
11.53n, 12.16n, 251n **a ... a**  
10.21n  
**absen** 11.4  
**adaf** 11.20n  
**adnabod: adwaen** 10.106n  
**adrywedd** 10.43  
**addfwyn** 12.72n  
**addolol** 12.205  
**ael gw. ar ael**  
**aelaw** 12.23n  
**aerglo** 10.95  
**aerwalch** 10.6  
**aesgorf** 9.12, 49  
**aesgorff** 10.92  
**aestalc** 9.43  
**afallen** 12.4n  
**agwyddor** 12.33  
**anghyfraith** 12.186n  
*Alpha* 12.242n  
**allwydd** 9.36n  
**amen** 12.248n  
**amgylch** 10.57  
**amgylchion** 10.7n  
**aml** 12.86n  
**anaf: anafodd** 12.90n  
**anant** 10.33  
**anfanol** 10.47  
**anfon: anfonaf** 11.75n  
**anhwsboniaeth** 12.119  
**anmynedd** 10.42n  
**annodi: annod** 11.79  
**anoddau** 12.225  
**anwedd** 10.41  
**ar** 10.27n, 12.164n, 168n, 284n  
**arnaw** 10.24n (gw. hefyd **i ar**)  
**arnun** 10.13n  
**ar ael** 12.76n  
**arall** 12.252n  
**arch** 12.83n  
**archesgob** 10.91n  
**ar dynn** 11.62  
**areilio: arheilwn** 12.203  
**arf** 12.55n  
**arfeddyd** 10.103  
**arfeiddio: arfeiddwyf** 10.103  
**arfglær** 9.14  
**arffed** 11.73n  
**arheilboen** 12.198n  
**ar helw** 12.204n  
**arian** 12.118n  
**ar ôl** 12.129n  
**asen** 12.78n  
**balch** 12.122n  
**bardd: beirddion** 9.36n  
**bath** 12.118n  
**bel** 11.72n  
**berthedd** 10.39  
**beunyddrodd** 9.52  
**blaen gw. o'r blaen**  
**blynedd: blynyddedd** 10.7  
**bod: yw** 10.45n **mae** 12.205n **bai**  
10.61n **bu** 12.16n **bwyf** 9.46n  
**bo** 9.31n  
**bost** 11.21  
**braenarfaes** 11.1n  
**bragad** 11.67  
**braint** 9.62n  
**brawdyn** 12.87n  
**brenin: brenhinoedd** 12.72n  
**brëyr** 11.65 **brehyriaid** 9.10  
**brwynos** 11.66  
**bual: buail** 9.25, 57, 10.95

- buarnhwydd** 9.35n  
**buddfawr** 12.43n  
**bwad** 10.95  
**bwyllwr** 12.3n  
**byd** 12.17n  
**byddar** 12.146n **byddair**  
 12.200n  
**bylcharf** 10.34  
**cabl** 10.53n  
**cad** 9.34n  
**cael: cad** 10.5n, 12.53n **cair**  
 12.112n  
**caeth: caith** 12.17n  
**caethbren** 12.3  
**calon** 12.205n  
**canon lyfr** 10.48n  
**canys** 12.216n  
**canto** 10.54  
**canu: canwyf** 10.99n  
**canwledd** 9.43n  
**cartrefrwydd** 9.34  
**carw** 9.34n  
**cedlaw** 10.86  
**ceinllwydd** 9.46, 10.2  
**cethern** 12.237  
**ceuwern** 12.263  
**cired** 10.87  
**claddedigwaith** 12.163n  
**clo** 10.73n  
**clod** 11.76n  
**clydwr** 10.61, 84  
**clywed: ciglau** 10.18  
**coddiant** 12.267  
**coelfain: coelfeiniau** 12.70  
**coetbaedd** 9.29  
**coethfab** 9.37  
**cof: cofion** 10.19n  
**corf** 9.43n, 11.53n  
**corff** 12.251n  
**Cred** 12.89n  
**creiniaeth** 12.119  
**crudaidd** 12.76  
**crychrudd** 10.31n  
**crydwst** 11.41n  
**cuddiad** 12.267  
**culas** 12.205n  
**culwydd** 9.33n  
**cuniad** 10.76  
**cusanu** 12.116n  
**cywyn** 12.197n  
**cyd** 9.46n (gw. **hefyd i gyd**)  
**cyfarf** 11.1  
**cyfenw** 12.143n  
**cyfiaith** 9.3n, 12.18n  
**cyfnesafwrwydd** 9.48  
**cyfrgoll** 12.284n  
**cyfun** 12.112n  
**cyfuniol** 10.49  
**cyngor** 12.34  
**cymhlegyd** 12.43n  
**cymwd gw. Cymwd Lliwan**  
 9.38n  
**cymyrredd** 10.50  
**cynfyl** 12.197n  
**cyntedd** 10.54n  
**cytbar** 9.29  
**cyweirfoes** 9.17  
**da** 12.178n, 248  
**daear** 12.102n  
**dall** 12.212n  
**dallfawdd** 12.161n  
**damunwr** 12.248  
**darfod: darfu** 12.137n  
**darmerth** 9.35, 12.134  
**dau** 11.58n, 12.112n  
**deall: dyail** 12.171  
**deau** 10.17n, 12.168n  
**deg ar hugaint** 12.117n  
**Deifr** 10.21n  
**deirydu: deiryd** 12.252n  
**deol: deholed** 12.89n  
**deubrid** 12.232  
**deucanllys** 10.2n  
**deurudd-deg** 11.44n  
**deuwad** 12.229  
**dewis<sup>1</sup>: dewisaf** 12.181n  
**dewis<sup>2</sup>: dewisau** 12.178n  
**dewisle** 12.177

- diagr** 12.162n  
**diargel** 12.31  
**diawl: diefyl** 12.263n  
**dibechoddedd** 10.22  
**didryf** 12.90n  
**dienwiredd** 10.9  
**difais** 9.19  
**Difiau** 12.143n  
**difrad** 10.91n  
**di-ful** 12.183  
**digoniad** 10.80  
**digrynwr** 12.220n  
**digu** 12.258  
**dihenedd** 10.11n  
**dihewyd** 10.88  
**dinag** 10.85n  
**diornair** 12.191  
**diowdwin** 11.30  
**diwedd: diwaethaf** 12.188n  
**diwraidd** 10.8  
**diwreidd-dwr** 11.44  
**diwyd** 9.61n  
**diwyl** 12.264  
**dof** 12.262n  
***Dominus*** 12.33n  
**draw gw. traw**  
**drewiant** 12.267  
**drygwaith** 12.137  
**drythyll** 11.47n  
**dur** 9.54n  
**duriad** 12.269  
**dwfr** 12.182n  
**dwyfoliaeth** 12.183  
**dwyn** 12.71–2n  
**dwyn y maes: dug y maes** 9.20n  
**dwywes** 11.82  
**dwyweslathr** 12.177n  
**dy** 12.236n  
**dydd** 12.51n  
**dyedd** 10.35  
**dyfod** 12.51n  
**dyfrys** 9.51n  
**dylyedog** 10.26n  
**dylyu: dyly** 12.37  
**dyn ll.13n** 12.178n  
**eglurffawd** 12.241  
**ehalaethrwydd** 9.40  
**ehudrwydd** 9.39n  
**ei** 10.54n, 11.43n, 76n, 12.93n,  
 120n, 163n, 168n  
**eidion** 12.75n  
**eiddun** 12.169, 225  
**eilun** 12.127n  
**eilwydd** 9.38  
**ein** 10.45n, 12.51n, 68n  
**eirfglod** 9.14  
**eithr** 12.77n, 272n  
**enaid** 12.201n, 249n  
**eneidrwydd** 9.56  
**ener** 10.42  
**enillwerth** 9.36  
**ennill** 12.8n  
**er** 12.117n  
**erchlas** 9.55  
**erchwyn** 10.67n  
**erglywed: erglyw** 12.45  
**esgudlym** 11.33  
**esgyn: esgynnawdd** 12.161n  
**et** 12.242(2)n  
**eu** 12.71n  
**eurgledd** 10.63n  
**eurglo** 9.63  
**eurwisg** 12.86n  
**eurwych** 10.92  
**eurych** 11.7  
**fy** 9.61n, 62n, 12.181n, 186n,  
 249n  
**ffydd** 12.93n  
**ffyrf: fferf** 12.151n  
**gadael: gad** 12.284n **getych**  
 10.35  
**gaeafrawd** 2.16  
**gair** 12.15n **Gair** 12.16n  
**galongael** 11.39n  
**gan** 12.72n  
**ganedigaeth** 12.58  
**geir** 12.206n

- geirgoeth** 12.31  
**geirson** 10.62n  
**gelyn: gelynion** 12.88n  
**genni: gennynt** 12.105  
**glaw** 11.76n  
**glawddyfredd** 10.17  
**gleindyd** 12.250  
**glyngur** 11.39n  
**gobrwy: gobrwyau** 12.27n  
**gofeddgar** 12.146  
**goful** 12.26, 145  
**gogoned** 12.65  
**goleubarth** 12.231  
**gorau** 9.62n  
**gorchyfun** 10.55  
**gorhoendeg** 9.25  
**gorysgwr** 11.53n  
**gra** 10.60  
**graog** 10.40  
**gwad** 12.260n  
**gwaed** 12.236n, 283n  
**gwaedlew** 11.33  
**gwael: gwaelach** 12.93n  
**gwahardd: gwehyrdd** 11.43n  
**gwanddiod** 12.159n  
**gwaranrwydd** 9.50  
**gwared** 12.16n  
**gwaredd** 12.141n  
**gwarth** 12.124n  
**gwarthgawdd** 12.238  
**gwas** 12.205n  
**gwasgdorf** 9.49n  
**gwastad** 12.259n  
**gwawr** 11.63n, 12.89n  
**gwedy** 11.72n  
**gweddi** 10.25n  
**gweld: gweled** 10.63n, 12.93n  
**Gwenergwaith** 12.148n  
**gwenwlad** 10.96  
**gwerth** 12.236n  
**gwerthadwy** 12.123  
**gwerthu** 12.120n  
**gwesti** 12.259n  
**gwiber: gwiberod** 12.108  
**gwin** 12.182n  
**gwinegr** 12.160n  
**gwingael** 11.65n  
**gwinllad** 10.37, 92  
**gwir** 9.62n, 12.260n  
**gwiw** 12.62n  
**gwiwdeg** 12.136  
**gwiwddeddf** 10.79  
**gwiwlys** 10.12  
**gwlad** 10.99n  
**gwladaidd** 12.1  
**gwlan** 12.102n  
**gwneithur** 12.113n, 137n  
**gwnaeth** 12.201n  
**gŵr** 11.53n, 12.86n  
**gwreiddio: gwreiddioedd**  
 12.169n  
**gwrthod** 12.120n  
**gwst** 11.41  
**gwŷd** 10.29n  
**gwydr** 12.61n  
**gwylio: gwyl** 12.264n  
**gwyll** 12.262n  
**Gwyndyd** 10.33  
**gwyrdling** 11.56n  
**gwyredd** 10.57  
**gwyry** 10.27n  
**haeach** 12.94  
**haelgrair** 12.282  
**hagr** 12.159n  
**hail** 9.57, 10.95  
**harddedd** 10.20  
**heb** 9.46n, 10.26n  
**heilgar** 9.29n  
**helw gw. ar helw**  
**henw** 12.95  
**herwr** 12.96n  
**hoedrydd** 9.39  
**hoywffraeth** 12.182n  
**hoywlyw** 11.35  
**hoywair** 10.27  
**hoywgu** 9.32

- hoiw-wedd** 11.40n  
**hunain** 12.71n  
**hundy** 12.61n  
**hwylaw (-o)** 9.31n, 12.190n  
**hyd** 10.18n, 11.76n  
**hydr** 12.124n  
**hyddgant: hyddgannoedd** 11.66  
**hygyrchaidd** 9.32  
**hylithr: hylithraf** 9.40n  
**hylwyddwawr** 12.98  
**hynt** 12.284n  
**i<sup>1</sup>** 10.91n, 12.8n **ynny** 10.41n  
**uddun** 10.14, 12.228 **i<sup>r</sup>**  
 12.252n **i<sup>th</sup>** 12.205n **o<sup>i</sup>** 9.2n,  
 3n, 12.77n  
**i<sup>2</sup>: i<sup>th</sup>** 12.288  
**i<sup>1</sup>: a<sup>i</sup>** 12.120n, 127n **o<sup>i</sup>** 12.77n  
**i<sup>2</sup>: y<sup>i</sup>** 12.112n  
**i ar: i arnun** 10.53n  
**iarlles** 11.23n  
**iawnwawd** 10.41  
**i drais** 12.105n  
**i gyd** 12.17n  
**in** 12.37n  
**inseiliad** 12.279  
**iôn** 10.7n  
**iôr** 12.97n  
**llaith** 9.13  
**llateiaeth** 12.22n  
**lle** 9.31n, 12.252n  
**lleasgeith** 9.12n  
**lledwog** 11.45n  
**lledwyr** 12.268n  
**llewych** 12.81, 287  
**llios** 11.48n  
**llorf: llyrf** 9.10n  
**llu** 12.97n, 105n  
**ludw** 12.251n, 252n  
**luniethu: lluniethwyf** 10.101n  
**llwyd** 11.2n  
**llydw** 9.9  
**llyfr gw. canon lyfr**  
**llyfr Ofydd** 11.55n  
**llygad** 10.99n  
**llys** 9.2n  
**llywy** 9.33n  
**'m: a'm** 12.248n  
**mab** 9.8n, 12.75n, 110n (gw.  
 hefyd **Mab Rhad, y**)  
**mach** 12.95n  
**mad** 10.5n  
**maenbost** 12.130n  
**maes gw. dwyn y maes**  
**magiad** 10.85n, 12.47  
**magu: maeth** 9.9, 10.19n  
**man: manau** 10.17n  
**marannedd** 10.28  
**maswedd** 10.59, 11.40  
**mau** 9.53n  
**mawrchwedl** 12.138  
**mawrgost** 12.130  
**mawrllwgr** 12.158  
**medru: medrawdd** 12.194n  
**medrusgof** 12.262n  
**medd** 11.73n  
**meddwl** 12.146n, 200n  
**meddyg** 12.216n  
**meithrin** 12.77n  
**melenbleth** 11.13n  
**men** 10.17, 73  
**merch** 11.73n  
**Merchyr** 12.138n  
**modur** 11.38  
**moellwyd** 12.4  
**moeswyp** 10.59  
**mur** 9.54n  
**murgaer** 12.130  
**mydrner** 10.78n  
**mynd: awn** 10.25n **âi** 12.77n  
**aeth** 10.53n  
**myrr** 12.73  
**'n gw. yn<sup>1</sup>**  
**na<sup>1</sup>** 12.93n,  
**na<sup>2</sup>** 12.279n, 284n  
**naf** 12.181n, 201n  
**naw** 9.51n  
**neddair** 9.16, 17

- nef** 10.63n  
**neidras** 9.56n  
**neirthiad** 12.257  
**nen** 12.179n, 278  
**neud** 9.62(2)n  
**ni<sup>1</sup>** 10.25n  
**ni<sup>2</sup>: nid** 12.77n  
**nod** 9.19n, 12.68  
**nos** 10.5n  
**o<sup>1</sup>** 12.17n, 90n **o'r** 10.17n, 12.83n,  
 117n, 182n (gw. hefyd **o'r blaen**)  
**o<sup>2</sup>** gw. **i**  
**O[mega]** 12.242n  
**oes** 12.17n, 162n  
**oesfyd** 12.10n  
**oeswr** 12.116n  
**ôl** gw. **ar ôl**  
**oni** 10.61n  
**o'r blaen** 9.23n  
**osid** 12.197n  
**pâl** 12.8n  
**paladrfras** 11.42  
**pallu** 12.270  
**parchus** 12.222n  
**pedrydog** 11.28n  
**pelydrfrwydr** 11.42  
**pellaig** 10.82n  
**pen** 9.64n  
**penaig** 10.82n  
**pencerdd** 11.58n  
**pen-doctor** 12.35n  
**penial** 11.10n  
**penllad** 12.268n  
**pennaeth** 10.15n  
**penrheithgrair** 10.69n  
**perchen** 12.222n  
**perffeithreg** 10.25  
**pers** 10.57n  
**peryf** 12.91  
**piau** 11.72n, 12.178n  
**pill** 11.26n  
**plaid** 9.10n, 23  
**plyg** 12.266n  
**plygeinddydd** 11.81  
**poenllwyr** 12.268n  
**popeth** 10.101n  
**prelad** 11.1n  
**pren** 12.239n  
**priddgorff** 12.202  
**pruddgar** 12.201n  
**pryd** 12.140n  
**pryderu: pryder** 12.212n  
**prydiad** 10.88  
**pum** 12.10n, 17n  
**pwyth** 11.9n, 12.37n  
**pymoes** 12.13n  
**'r** gw. **y<sup>1</sup>**  
**rhad** gw. **Mab Rhad, y**  
**rhag** 12.93n  
**rhaid** 9.23n, 10.80n  
**rhaith** 9.3n, 64n  
**rhaw** 12.8n  
**rhediad** 10.64  
**rhag** 11.43n  
**rheidwalch** 9.44  
**rheidrudd** 12.153n  
**rheuffedd** 10.36 **rheuedd**  
 12.270n  
**rhisgddur** 11.38n  
**rhodwydd** 9.37n  
**rhoddiad** 10.93n, 12.175  
**rhudd** 9.25n  
**rhus** 12.5n  
**rhwng** 11.53n  
**rhwoli: rhwolaf** 12.204n  
**rhwyd** 9.34n, 37n  
**rhwydol** 12.285n  
**rhwysgddawn** 11.38  
**rhydaer** 11.20  
**rhydd: rhyddion** 12.17n  
**rhyddig** 12.154  
**rhyddrwyg** 12.153  
**rhyfalch** 10.24n  
**rhygarw** 10.38n  
**rhyglyddu: rhyglyddais** 11.17  
**rhygyr** 9.50

- rhyswr** 11.32n  
**rhythbla** 12.5  
**rhywlychu: rhywlych** 11.76n  
**Sadwrn** 12.164n  
**salm** 11.55n  
**sant: saint** 9.62n  
**Sarasin** 12.84n  
**sawtring** 11.56n  
**segur** 12.58n  
**sengl** 11.18n  
**seithrif** 12.105n  
**sêl** 12.279(2)n  
**serthair** 12.129  
**Swddan** 12.125n  
**swrth** 12.129n  
**swydd** 9.62n  
**tabar** 11.2n  
**tad** 12.168n  
**tadwys** 9.18n  
**taerfyw** 10.81  
**talm** 10.97n, 11.3n  
**talm** 11.3n  
**talu: talai** 11.3n  
**tarfu: tarfai** 10.81  
**tarian** 10.98n  
**taw** 9.46n  
**tebyg** 10.91n  
**tecum** 12.34n  
**teg** 10.26n **tegach** 12.96n  
**teirtud** 11.52n  
**telyn** 11.51n  
**teulu: teuluoedd** 10.85n  
**tëyrn** 10.93n  
**tlodedd** 10.26n  
**tracheinlwys** 10.60  
**traed** 12.283n  
**trafn** 9.43n  
**tragwlychu: tragwlych** 12.79n  
**trais gw. i drais a treisio**  
**tramgwydd** 9.54  
**traw** 10.82n **draw** 9.31n  
**traws** 10.77n, 90n  
**trawsair** 12.111  
**trawsglwydd** 9.43n  
**trefn** 10.95n  
**treiad** 12.283  
**treiddio: traidd** 12.1 **treiddiwn**  
 10.74n  
**treiglaw** 12.79n  
**treisgledd** 9.43  
**treisio: traais** 12.92n  
**tri** 12.45n, 112n  
**trimodd** 12.217n  
**trithai ar ddeg** 11.47–8n  
**tromgad** 9.54, 11.67  
**trosedd** 10.37n  
**trosi: troses** 10.89n, **trosed**  
 10.87n  
**trwsiad** 10.89n  
**trwsio** 10.37n  
**trwydded** 10.74n, 75  
**trychan** 10.94n  
**trychanwledd** 10.60n  
**tryfrwyd** 9.34n  
**trymgawdd** 11.67  
**trysorer** 10.78n  
**tud** 10.70  
**tŵr** 10.79n  
**twyllfurn** 12.161n  
**twysg** 10.86n  
**tŷ: tai** 11.48n  
**tyfu: tyf** 12.92n **tyfawd** 12.211n  
**’th: i’th** 12.205n (yn cyfuno ag **i**<sup>1</sup>)  
 12.288 (yn cyfuno ag **i**<sup>2</sup>)  
**thus** 12.73n  
**ucheldir** 12.259n  
**ucher** 12.140n  
**uddun gw. i**  
**ufydd** 10.4n  
**un** 10.42n, 12.45n, 110n, 112n  
**unbeneiddrwydd** 9.52  
**unpryd** 12.173  
**unsom** 12.237  
**urddol** 10.20n  
**wynebsalm** 11.4

**y<sup>1</sup>** 10.5n, 26n, 12.97n, 102n, 283n  
**yr** 12.201 **'r** 9.23n, 10.17n,  
 11.53n, 72n, 12.16n(2)n, 182n,  
 251n, 252n  
**y<sup>2</sup>** 11.76n **y'i** 12.112n  
**yngod** 12.15  
**yngyrth** 12.230  
**ymorchwydd** 9.59n  
**ymwared** 11.8  
**ymyrrwr: ymyrwyr** 10.50n

**yn<sup>1</sup>** 10.24n, 12.17n, 182n **'n**  
 10.61n, 12.95n  
**yn<sup>2</sup>** 9.23n, 10.54n **yng** 10.25n  
**ynad** 10.48n, 77  
**yntau** 11.72n  
**ysbys** 10.105n  
**ysgithrlem** 11.54  
**ysgwrs** 12.135n  
**ysgymun** 12.86n  
**ysgythrlorf** 11.54n



*Enwau Personol*

- Addaf** 12.7  
**Agla** 12.241n  
**Crist** 10.29, 12.67, 77n, 142, 158, 166, 250, 253  
**Dafydd** 9.1, 18, 39 **Dafydd Llwyl** 9.8n, 37  
**Dofydd** 12.139, 144, 176  
**Duw** 10.104, 12.19, 21, 33, 50, 62, 95n, 127, 131, 142, 159, 168, 173(2), 174, 175(3), 176(2), 180, 188, 192, 194, 199, 204, 226, 229, 239, 274 **Mawrdduw** 12.32  
**Dyfr** 10.47n  
**Dyfrig** 10.91n  
**Efa** 12.4n, 5, 26, 150  
**Erod** 12.85n  
**Gabriel** 12.15n, 27n, 31  
**Goronwy** 10.6n  
**Gruffudd ... Maelor** 11.69–70n  
**Gwerful** 10.11n  
**Heledd** 10.31n  
**Hywel** 10.15, 65, 87  
**Iesu** 12.81, 97n, 116n, 134, 162n, 180 **Iesus** 12.49 **I[esus]** 12.242n  
**Iuddas** 12.115, 121 (gw. hefyd **Suddas**)  
**Lleucu** 11.80n  
**Mab Rhad, y** 12.53n  
**Mair** 10.13, 27n, 12.16, 54, 59, 80, 110n, 142, 200, 207, 215, 282 **Meirddoeth** 12.32  
**Maria** 12.26  
**Mordaf** 9.39n  
**Noe** 12.122n  
**Nudd** 9.16n, 20n, 57n, 10.30n  
**Ofydd** 11.55n  
**Rhisiart** 11.32, 68, 71n  
**Rhisierdyn** 11.19n  
**Rhosier, Syr** 11.34n  
**Sathan** 12.264  
**Suddas** 12.125n  
**Trindawd** 12.241  
**Ysbryd** 12.42, 48, 174 **Glân Ysbryd** 12.60

*Enwau lleoedd*

- Cymwd Lliwan** 9.38n  
**Gogledd, y** 10.18n  
**Gwynedd** 10.48, 76, 96, 99n, 11.74  
**Israel, yr** 12.97  
**Lloegr** 10.98n  
**Maelawr (-or)** 11.28, 64 (gw. hefyd **Gruffudd Maelor**)  
**Môn** 9.4, 10.7



# GWAITH LLYWARCH BENTWRCH

golygwyd gan

NERYS ANN JONES



## Rhagymadrodd

Un gerdd yn unig a gadwyd inni o waith Llywarch Bentwrch ac, ysywaeth, nid oes unrhyw wybodaeth ar glawr amdano heblaw am yr ychydig y gellir ei gasglu o'i gerdd ac o'i enw hynod.<sup>1</sup> Anodd bod yn sicr ai cyfeiriad at enw lle ynteu at hynodrwydd corfforol yw'r epithet 'Pentwrch'.<sup>2</sup> Digwydd sawl enghraifft o gyfuniadau o *pen* ac enw anifail, megis Penmarch, Penhwch a Phendafad, fel epithetau wedi eu cysylltu ag enwau personol mewn dogfenau o'r cyfnod hwn.<sup>3</sup> Cyffredin hefyd yw'r elfen *twrch* mewn enwau nentydd ac afonydd ym mhob rhan o Gymru<sup>4</sup> a diddorol sylwi bod Afon Twrch ym mhlwyf Llanbabo yng nghwmwd Talybolion, Môn.<sup>5</sup> Nid oes, fodd bynnag, yr un enghraifft o Bentwrch fel enw lle yng Nghymru, er bod Pentyrch yn digwydd.<sup>6</sup>

Tystia unig gerdd Llywarch ei fod yn un o'r nifer o feirdd a fu'n canu yng nghartrefi Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd yn Nhrehwfa a Threfeilir yng ngorllewin Môn.<sup>7</sup> Awgryma'r cwpled:

Mae 'mwriad ar 'y marwn  
Mal ar dad a henda hwn (llau. 17–18)

iddo wasanaethu mwy nag un genhedlaeth o deulu Dafydd Fychan. Ni wyddom pryd y bu farw Cynwrig ap Goronwy, taid Dafydd, ond yr oedd ei dad, Dafydd Llwyd, yn fyw rhwng 1343 a 1352<sup>8</sup> a dengys cyfeiriadau at weithgareddau Dafydd Fychan yng ngwasanaeth y Goron ym Môn ei fod yntau yn fyw rhwng 1346 a 1377. Awgryma hyn fod Llywarch yn ei flodau yn ystod blynyddoedd canol y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Nid oes unrhyw awgrym pendant yn y cywydd pryd yn union yn ystod gyrfa Dafydd Fychan y'i canwyd. Enwir ef ynddo fel perchennog plastai

<sup>1</sup> Digwydd enw Llywarch Bentwrch mewn rhestr o rhyw ddeg a thrigain o feirdd canoloesol yn LIGC 3029B [= Mos 110], 188 ac yn rhestr John Davies Mallwyd o awduron Cymraeg ar ddiwedd D.

<sup>2</sup> Sylwer mai *Llywarch bendwch hen* yw'r enw sy'n ymddangos ar ddiwedd y cywydd yn llsg. Bodley Welsh e 7, ond Llywarch Bentwrch sydd yn y llsgrau. eraill.

<sup>3</sup> Gw. W Surnames 176, ac am enghreifftiau o enwau personol eraill yn cynnwys yr elfen *pen*, gw. *ib.* 174–6 ac EWGT 227.

<sup>4</sup> Gw. I. Williams: ELI 34–5, EANC 90, G. Owen: DP ii, 656.

<sup>5</sup> *Ex inf.* Gwilym T. Jones. Ni lwyddwyd i leoli'r afon yn bendant, ond gall mai'r afon sy'n llifo hebio i eglwys Llanbabo ac i Afon Alaw (heddiw, mae'n debyg, Llyn Alaw) ydyw.

<sup>6</sup> *Ex inf.* Tomos Roberts. Ar *Bentyrch*, gw. J.T. Koch, 'The Loss of Final Syllables and Loss of Declension in Brittonic', B xxx (1983), 208.

<sup>7</sup> Ymhellach ar Ddafydd Fychan, gw. y nodiadau ar gefndir cerddi 1 a 9 uchod.

<sup>8</sup> Gw. D.W. Wiliam, 'Tair Cerdd Gynnar o Fôn', AAST, 1983, 31.

Trehwfa ym mhlwyf Bodedern yng nghwmwd Llifton a Threfeilir ym mhlwyf Trefdraeth yng nghwmwd Malltraeth. Arwyddocaol efallai yw'r ffaith iddo wasanaethu fel rhingyll Llifton yn ystod y pumdegau a'r chwedegau cynnar ac yna fel rhaglaw Malltraeth yn ystod y saithdegau.<sup>9</sup> Gwyddom iddo gael trwydded i brynu ychydig o dir ym Malltraeth yn 1368.<sup>10</sup> Tybed, felly, ai yn ystod y chwedegau y daeth Trefeilir i'w feddiant?<sup>11</sup>

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â chywydd moliant Llywarch i Ddafydd Fychan yw fod ynddo nodweddion sy'n anghyffredin yng ngwaith beirdd eraill y bedwaredd ganrif ar ddeg ond sy'n dra chyffredin yng nghanu beirdd y ganrif ddilynol. Yn yr adran agoriadol, pwysleisir tras fonheddig y noddwr, gan olrhain ei linach yn ôl i Hwfa ap Cynddelw o Llifon.<sup>12</sup> Anghyffredin yn y cyfnod hwn yw'r chwarae ar enw Prysaeddfed, hen gartref y teulu, yn llinell 3, a'r cyfeiriad at y llew euraid sydd ar arfbais disgynyddion Hwfa yn yr un llinell.<sup>13</sup> Anghyffredin hefyd yw'r gyfres o gyffelybiaethau sy'n cloi'r cywydd. Cymherir rhagoriaeth Dafydd ymysg uchelwyr Môn â *Ffynnon groyw a ffwyn graean / A'i berw 'mysg aberau mân* (llau. 51–2); cyffelybir parhad ei hil â hirhoedledd llaswyr o feini gwerthfawr, perlyisiau a'r ffenics a'i gyw (llau. 56–9); a phwysleisir y ffaith ei fod yn byw yn ôl ewyllys Duw drwy gyfeirio at draddodiad coll am y ffenics yn byw mewn ffynnon (ll. 57). Moli Dafydd fel noddwr hael, yn ddarparwr gwledd a dosbarthwr rhoddion, a wneir yng nghorff y cywydd. Ceir yn yr adran hon yr un math o ymhyfrydu yng ngwareiddiad y llys uchelwrol ag a welir yng ngwaith beirdd y bymthegfed ganrif. Digwydd y term *perchentyaeth* (ll. 24) am y tro cyntaf yma, a rhoddir lle amlwg i *tj* (llau. 4, 24), *tai* (ll. 36), *llys* (llau. 11, 29), *cwrt* (ll. 25) a *llety* (ll. 23), sef hoff eiriau Dafydd Nanmor.<sup>14</sup>

Dangosodd Mr Eurys I. Rowlands mai 'yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym i Ifor Hael y ceir sylfaen y pwyslais ar fwynhad bywyd llys a ddaeth yn nodwedd mor amlwg ar waith rhai o brif gywyddwyr ail hanner y bymthegfed ganrif'.<sup>15</sup> Arwyddocaol, felly, yw'r cyfeiriad at Ifor Hael yn y cywydd hwn (ll. 28), mewn llinell sy'n adleisio un o gywyddau Dafydd ap Gwilym iddo.<sup>16</sup> Awgryma'r adlais hwn fod Llywarch yn gyfarwydd â gwaith Dafydd ap Gwilym a theg casglu ei fod wedi dylanwadu arno. Mae cywydd Llywarch, o ran syniadaeth, geirfa, arddull a chynghanedd, yn

<sup>9</sup> *L.c.*

<sup>10</sup> MAng 179.

<sup>11</sup> Am gysylltiad y teulu â Threfeilir, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Hwfa' 1.

<sup>12</sup> Gw. *ib.* 'Hwfa' 1–3.

<sup>13</sup> Gw. ymhellach y nodiadau ar l. 3 isod.

<sup>14</sup> Gw. G.E. Ruddock, *Dafydd Nanmor* (Caernarfon, 1992), 35–6.

<sup>15</sup> *Ib.* 35 a gw. E.I. Rowlands, 'Nodiadau ar y Traddodiad Moliant a'r Cywydd', LICy vii (1963), 217–43, yn arbennig 228.

<sup>16</sup> Gw. ymhellach y nodyn ar l. 28 isod.

debycach o lawer i ganu'r bymthegfed ganrif na chywyddau Dafydd i Ifor ac efallai na ddylid diystyrru'r posibilrwydd fod y testun yn llwgr, ac mai cywydd o'r bymthegfed ganrif i un o ddisgynyddion Dafydd Fychan ydoedd yn wreiddiol.

Ar odre un o'i gopïau ef o'r cywydd<sup>17</sup> ychwanegodd Thomas Wiliems y cwestiwn, *Iolo onid e?* Ar sail hyn, a hefyd ddau debygrwydd rhwng y cywydd hwn a chywydd moliant Iolo Goch i feibion Tudur Fychan o Benmynydd, awgrymwyd gan y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam<sup>18</sup> mai llysenw neu 'enw dirmygus' a roddwyd ar Iolo oedd Llywarch Bentwrch. Fel y dangoswyd gan Dr Dafydd Johnston,<sup>19</sup> fodd bynnag, nid oes sail ddigonol dros gredu hyn. Nid yw'r cyfatebiaethau rhwng y ddwy gerdd yn glòs o gwbl, a beth bynnag, yr oedd yn arfer gan y beirdd adleisio gwaith eu cyfoeswyr, fel y tystia'r llinell o waith Dafydd ap Gwilym a ddigwydd yn y cywydd hwn.

Yn wahanol i Ddafydd ap Gwilym ac Iolo Goch, canu'n gypledol a wna Llywarch Bentwrch yn bennaf a phrin yw'r enghreifftiau o dorymadroddi yn ei gywydd. Ceir ganddo ddefnydd achlysurol o gymeriad geiriol, llythrennol, cynganeddol neu synhwyrol i glymu llinellau fesul cwpled. Addurnir pob llinell o'r cywydd gan gynghanedd: cynghanedd groes sydd mewn dwy ran o dair o'r llinellau, cynghanedd sain sydd yn y rhan fwyaf o'r traean sy'n weddill, a cheir hefyd ambell enghraifft o gynghanedd draws, un sain gadwynog, un lusk ac un seingroes.

Digwydd y cywydd yn gyfan mewn wyth llawysgrif yn dyddio o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

<sup>17</sup> LIGC 8497B, 75<sup>r</sup>.

<sup>18</sup> Gw. D.W. Wiliam, *art.cit.* 33.

<sup>19</sup> D. Johnston, 'Gwaith Iolo Goch' (Ph.D., Cymru [Aberystwyth], 1984), 150, ac ymhellach, gw. y nodiadau ar lau. 30 a 31–4 isod.





*Moliant Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir*

Gwrol lew rhagorol lys  
 A Brytwn ar wlad Brutys:  
 O'r llwyn ir a'r llew'n euraid,  
 4 Tud yw a thŷ tad a thaid.  
 Bo un od o benadur  
 Dafydd Fychan, darian dur,  
 Fab Dafydd Llwyd, rhuddwyd rhodd,  
 8 Golon Hwfa, glain hoywfodd.  
 At hwn yr af tan yr wyl,  
 F'erchwyniog eirchiog orchwyl,  
 12 Gŵr a'i lys yn y gaer lwyd,  
 Ni bu'n ôl o ben aelwyd.  
 Trefeilir tyrfa i'i weled,  
 Tŵr main a glain tir Môn gled,  
 16 Lle bu rhydd llwybr y rhoddi,  
 Ceisiwn oll lle cawson ni.  
 Mae 'mwriad ar 'y marwn  
 Mal ar dad a henda hwn.  
 Rhodd yng ngŵyl, rhydd 'y ngolud,  
 20 Rhad y beirdd yw rhodio byd!  
 Gorau rhodd a gyrhaeddwyd  
 Ysgar llaw ysgwier llwyd.  
 Beirdd a welais, bwrddwely,  
 24 Ar faeth perchentyaeth tŷ.  
 Cartref fydd y cwrt tra fo,  
 Clêr a dynn clared yno,  
 Ac yno fyth gwin o fôr  
 28 Ac yfed gydag Ifor.  
 O-lys-i-lys i aelwyd  
 Cangellorion, beirddion, bwyd:  
 O Drehwfa, hwylyfa hir,  
 32 Drwy foliant i Drefeilir;  
 O Drefeilir, wir warant,  
 I Drehwfa, cyrchfa cant.  
 'Y mendith yn dy drithai  
 36 Ar ddeg, caer deg cyfor dai!  
 Cyweirdon y dynion da,

- Cyweirdant acw i wyrda;  
 Ail i Eidol o Lydaw  
 40 A gwŷr y wlad gar ei law.  
 Aur yw gair a euro gŵr  
 O bai'n glod i ben gwladwr;  
 44 Chwi yw'r gair a'ch rhagoriaeth,  
 Angwy a'i dwg, yngod aeth.  
 Imp cadarn fal imp coedydd,  
 Imp ar dalwrn i fwrn fydd;  
 48 Barwn teulu, bron talaith,  
 Heawdr catgyrn, meddgyrn maith;  
 Aur ddeiliad o urddolion  
 A allei fei ar holl Fôn.  
 Ffynnon groyw a ffwyn graean  
 52 A'i berw 'mysg aberau mân:  
 Felly'r ych draw gerllaw'r llail  
 Yn rhagori rhag eraill.  
 Imp ir yw hwn yn parhau  
 56 Mal llaswyr main a llysau,  
 Neu ffenics yn y ffynnon  
 A'i nyth fry yn eitha' y fron,  
 A chyw hwn, o châi hynny,  
 60 Edn yn blât i dan ei blu.  
 Mal y dŵr i'r ederyn  
 Yw 'wyllys Duw yn lles dyn;  
 A da'r byd nid arbedi,  
 64 Rhoi a chael, mae'n rhyw i chwi.

### *Ffynonellau*

A—Bangor 5945, 180 B—BL Add 14875, 173<sup>v</sup> C—Bodley Welsh e 7, 31<sup>r</sup>  
 D—Card 1.2, 443 E—LIGC 1553A, 70 F—LIGC 3049D [= Mos 146], 402  
 (llau. 1–2) G—LIGC 8497B, 75<sup>r</sup> H—L1st 122, 604 I—Pen 77, 230 J—  
 Pen 221, 72 (llau. 1–2)

Gan nad yw testun yr un o'r llawysgrifau hyn yn rhagori ar y lleill, lluniwyd  
 testun cyfansawdd a nodir prif ddarlleniadau amrywiol y llawysgrifau i gyd  
 isod. (Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. isod tt. 229–31.)

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *A–J* y gwrol; *H* lain (lew), *I* lann gyda lew wedi ei ychwanegu. 2 *A–DG–I*  
 bryttwn, *E* a bryttus; *HJ* o wlad; *A–DG–I* y Brutys. 3–64 [*FJ*]. 3 *H* or llwyn  
 ir ar llaw. 4 *I* tvd yn. 5 *ADE* bu un od o bennadur, *BG* bo vn od yn benadŵr,  
*H* bu un nôd o benadur, *I* bo vn nod o benadŵr. 7 *C* rhoddyd rodd, *E* ruđ

lwyd vod. 8 *H* galon, *I* galon *wedi ei newid yn golon*; *A-EGHI* hyvodd. 9 *CE* ira; *C* tann yr wyd, *I* tynna yr wyl. 10 *AD* frenhiniog, *BC* fyrcwinoc, *H* frechwinnoc. 11 *A-E* Gwr ai lys yn gayr lwyd, *G* gwr yw ai lys yn gaer lwyd. 13 *G* tref i weled. 14 *A-D* twr main glain tir mon gled, *E* tŷr meinn glan tir mon gled. 15 *A-EH* llwybyr roddi. 17 *ADE* y mŷriad, *B* mae y mwriad. 19 *A* Rhodd fy yngwyl rhwydd fyng golud, *BDEI* Rhodd fyngwyl rhwydd fyngolyd, *H* rhodd fyng ŵyl rhydd fyng olud. 20 *ABDEHI* rrad ir beirdd yw rrodio r byd. 22 *C* ysgallan ysgwier llwydd. 23 *B* gwelais, *G* a weles; *B* bwrdd gwely. 24 *AD* perchen tyfaeth, *B* perchentaeth. 25 *ADEG* Cartref vydd i gowrtref vo, *B* gartref fydd i gowrt tra vo, *C* kartref vydd i gowrtai fo. 26 *ACD* a daynn, *B* a da yn, *G* a dwyn *gyda* daen *wedi ei ychwanegu*. 27 *BD* ac yny fyth. 30 *AD* kynyllorion, *BCEH* kyngyllorion. 35 *CGHI* fy mendith. 36 *HI* cywir dai. 37 *E* koweirddon yn dynion da, *CG* kowir don y dynion da, *HI* cywiraf don dynion da. 38 *BCDH* kywirdant. 39 *C* felly eidol holl lydaw, *G* velly i del holl Lydaw, *HI* Eelly eidol vy llydaw. 40 *C* may gwyr dy wlad gar dy law, *G* mae gwyr dwy wlad ger dy law, *H* mae dwy wlad ar dy law, *I* y mae dy wlad gar dy law. 41 *CG* aur ywr gair i euraw gwr, *E* Aur yŷ guir a euro gur. 42 *CGHI* ar ben. 43 *CG* maith rygoriaith. 44 *A* yn hwy ai tiwn, *B* a hwy ai tewn, *C* anhw ai tywn, *D* yn hwy ai tvwn, *E* ynhw ai twf, *G* angwy ai tvlon, *H* a nhwy ai twyn, *I* angwy ai dwyn; *A-EG-I* ynot ayth. 45 *A* Ymp, *B-EGI* amp, *H* lamp. 46 *A* ymp, *B-EG-I* wmp; *H* ar d'arddwrn. 47 *G* bren talaith. 48 *ABE* huawdr, *CDG* hyawdr, *H* hayadwr, *I* haywr *gyda* huawdr *wedi ei ychwanegu*. 49 *G-I* ddeileid. 50 *AE* a aļe fe, *BCDH* a alle fei, *G* a lle y vei. 51 *AD* o ffrwyn, *B* hoffwyn, *CI* o ffwrn, *E* o fŷy, *G* a ffwrn, *H* o ffwn. 52 *C* yn berwi. 53 *E* vely/r/ ŷyd. 55 *ABDE* imp hir, *CG* imp pur, *H* un gwr, *I* Ympvr pur; *C* wyt, *G* a wyt, *H* ydyw; *BH* pyrhaui, *C* perhay. 56 *ADE* mal ļasir a main ļysiau, *BCH* mal lļasir main a lļysau, *G* mewn lļasar maen a lļysau. 57 *BDEH* ne, *C* ner, *I* neu'r. 58 *H* ar nyth. 59 *H* arf yw hwn; *C* a chay. 60 *ADEHI* awnai y blew, *B* a na r blew; *ABDEHI* yn un ai blu, *C* dan i blu. 61–2 [*I*]. 62 *E* yn ewyllys; *CG* mewn lles dyn. 64 *E* mae/n/ rhyd i chui, *G* mae'n rhywia i chwi.

*Teitl* *A* Cowydd Moliant Dafydd Vychan O Dreifeilir ym Môn, *BI* Davydd fychan ab Dauydd llwyd o Dreifeilir ym Mon, *C* Ko i dd vychan ap dd llwyd, *D* Moliant Davydd Faghan o Dreifeilir, [*EFGIJ*], *H* Cyw: mol: Dafydd Fychan Dafydd llwyd o Dreifeilir ac o Dre Hwfa.

*Olnod* *ABEH* lļowarch bentwrch ai kant, *C* Lļywarch bendwch hen ai kant i dd vych<sup>n</sup> ap dd llwyd o gomwd lļivon a malltrayth tre feili[ ] a thre hwfa, *DI* lļywarch Bentwrch, *G* Iolo onid e?

*Trefn y llinellau*

*ABDEHI* 1–10, 13–14, 11–12, 15–64.

*Moliant Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir*

- [Y] llew gwrol, rhagorol [ei] lys  
 A Brython [yn rheoli] dros wlad Brutus:  
 O'r llwyn ir a'r llew yn ddisgleirwyd,  
 4 Gwlad ei dylwyth ydyw a chartref tad a thaid.  
 Bydded yn bennaeth arbennig  
 Ddafydd Fychan, [un megis] tarian ddur,  
 Fab Dafydd Llwyd, yr oedd [ei] rodd wedi ei chochi [gan aur],  
 8 [Un megis] colofn [yn tarddu o] Hwfa, [yr] anwylyd sy'n  
     boddhau yn wych.  
 At hwn yr af tan yr wyl,  
 Fy noddwr [a chanddo] swydd [un] yn erchi [cerdd],  
 [Y] gŵr a'i lys yn y castell llwyd,  
 12 Ni bu'n ddiffygiol fel pennaeth aelwyd.  
 Yn Nhrefeilir mae tyrfa i'w gweld,  
 Tŵr o garreg a thrysor tir Môn gysgodol,  
 Lle bu llwybr y rhoddi yn hael,  
 16 Cyrchwn oll lle cawsom ni [o'r blaen].  
 Mae fy mryd ar fy marwn  
 Fel [yr arferai fod] ar dad a hendad hwn.  
 [Cael] rhodd mewn gŵyl, [wedi ei roi'n] hael mae fy nghyfoeth,  
 20 Bendith y beirdd yw [cael] crwydro'r byd!  
 [Ond y] rhodd orau a dderbyniwyd  
 A ymedy â llaw[r] ysgwier llwyd.  
 Gwelais feirdd, gwely mewn llety,  
 24 Yn borthiannus ar letygarwch [y] tŷ.  
 Cartref fydd y plasty [iddynt] tra fo [ef],  
 Tyn clared y glêr yno,  
 Ac yno bob amser mae gwin tramor  
 28 Ac yfed gyda[r un sydd megis] Ifor [Hael].  
 O lys i lys i aelwyd  
 Stiwardiaid [y] bwyd, [sef y] beirdd:  
 O Drehwfa, taith hir,  
 32 Gyda moliant i Drefeilir;  
 O Drefeilir, amddiffyn sicr,  
 I Drehwfa, cyrchfa cant [o feirdd].  
 Fy mendith ar dy dair ystafell  
 36 Ar ddeg, castell teg [ac iddi] ystafelloedd gorlawn!  
 [Un sy'n] gyweirdon y dynion da,  
 [Yn] gyweirdant acw i wyrda;  
 Un tebyg i Eidol o Lydaw  
 40 A gwŷr y wlad [i gyd] wrth ei ymyl.

- [Megis] aur yw geirda sy'n anrhydeddu gwron  
 Os yw'n glod i brif arweinydd gwlad;  
 Chwi yw'r gair [hwnnw] a'ch rhagoriaeth,  
 44 [Un megis] Angwy sy'n ei ddwyn, a aeth [ar led] yno.  
 Tyfiant cadarn megis tyfiant coedydd,  
 Tyfiant ar faes brwydr i dwr [o bobl] fydd;  
 Arglwydd gosgordd, maethwr ardal,  
 48 Gwasgarwr cyrn rhyfel [a] chyrn yfed medd mawr;  
 Cynhaliwr gwych o [linach] gwŷr anrhydeddus  
 A allai roi her i Fôn i gyd.  
 Ffynnon groyw a gwaniad graean  
 52 A'i bwrlwm ymysg mân ffrydiau:  
 Felly'r ydych chi wrth ymyl y lleill  
 Yn rhagori ar [y] rhai eraill.  
 Tyfiant ir yw hwn yn parhau  
 56 Fel llaswyr o gerrig a pherlyisiau,  
 Neu ffenics yn y ffynnon  
 A'i nyth fry ym mhen uchaf y llethr,  
 A chyw hwn, petai'n cael un,  
 60 Aderyn ac arfwisg o dan ei blu.  
 Fel y dŵr i'r aderyn  
 Yw ewyllys Duw er lles dyn;  
 Ac nid arbedi dda'r byd,  
 64 Rhoi a chael, mae'n arferol i chi.



# Nodiadau

## 13

1 **gwrol lew ...** Mae'r ll. yn dechrau gyda'r fannod ym mhob un o'r llsgrau. ond fe'i hepgorwyd yma er mwyn cael ll. seithsill.

2 **A Brytwn ar wlad Brutys** Am enghreifftiau eraill o'r cyd-drawiad, cf. e.e. Siôn Brwynog: Gw 101 (ll. 7) *Brytwn un hap a Brutus*; GDL1 186 (95.60) *A hun Frutus, hen Frytwn* (Gwilym ab Ieuan Hen); HCL1 91 (XXXIII.27) *Tri Brytwn, tyrrau Brutus*.

**Brutys** Cyfeiriad at Brutus, arwr chwedlau Caer Droea a sylfaenydd y genedl Gymreig ym Mhrydain, yn ôl Sieffre o Fynwy. Arno, gw. DrOC 38–41, WCD 63. Cyfeirir ato'n aml iawn yng ngherddi mawl beirdd y 15g. a'r 16g. (gw. D.G. Lewis, 'Mynegai i'r Enwau Priod Storiol yng Ngwaith Cyhoeddedig y Cywyddwyr' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1968), xxi), ond ymddengys mai hwn yw'r unig gyfeiriad ato o'r 14g.

3 **llwyn ...** Y tebyg yw mai cyfeiriad at Brysaeddfed, cartref cyndeidiau Dafydd Fychan, sydd yma, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Hwfa' 1 a cf. GHC 32 (XIX.4, 6) *Llwyn ir o berllan Iorwerth / ... / Llwyn, pris addfwyn, Prysaeddfed*.

**â'r llew'n euraid** Mae'n bosibl fod cyfeiriad yma at arfbais disgynyddion Hwfa ap Cynddelw. Ymhellach, gw. DWH ii, 253–4, ac ar ddefnydd beirdd y 14g. o arwyddion herodrol yn eu canu mawl, gw. *ib.* i, 71–6.

4 **tud yw** Cymerir mai cyfeiriad at *llwyn ir* y ll. flaenorol sydd yma, ond cf. DN 26 (X.5) *Tref tad a chartref wyt ynn*.

5 **od** Arno, gw. GDG<sup>3</sup> 490 a GLM 382.

7 **rhuddwyd rhodd** Derbyniwyd yn betrus ddarlenniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. Cf. y syniad o 'euro llaw', GPC 1257.

8 **Hwfa** Sef Hwfa ap Cynddelw o gwmwd Llifon, cyndad i Dafydd Fychan, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Hwfa' 1 a'r nodyn cefndir i gerdd 8 uchod.

**howwfodd** Dewiswyd y darlleniad hwn am ei fod yn ddarlenniad anos, er mai *hyfodd* sydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. eraill. Mae'n bosibl fod y copiwyd wedi diwygio *howwfodd* yn *hyfodd* am eu bod yn credu ei fod yn peri i'r ll. fod yn rhy hir o sillaf, cf. ll. 15 isod am enghraifft debyg.

- 12 **ni bu'n ôl** Ar yr ymadrodd hwn, gw. GPC 2640.
- 13 **Trefeilir** Plasty a oedd yn eiddo i Ddafydd Fychan ym mhlwyf Trefdraeth ym Malltraeth, gw. ymhellach y Rhagymadrodd uchod.
- 22 **ysgwier llwyd** Am amryfal ystyron yr a. *llwyd*, gw. GPC 2239–40.
- 23 **bwrddwely** Ni ddaethpwyd o hyd i enghraifft arall o'r cyfuniad, ond ar ystyr yr elfen gyntaf yma, gw. GPC 365 d.g. *byrddiaf*: *byrddio*.
- 24 **perchentyaeth** Mae'n bosibl mai hon yw'r enghraifft gynharaf o'r term sydd ar glawr. Ymhellach arno, gw. GPC (i ymddangos) a CLC 468.
- 26 **Clêr a dynn clared yno** Am y cyd-drawiad, cf. uchod 3.70 *Cleroedd eigiau clarai ddygiad*; DN 17 (VII.9) *Ni by glerwyr yno heb glared. clared* Gw. uchod 3.70n d.g. *clarai*, ac ymhellach, gw. GST 567.
- 28 **Ifor** Sef Ifor 'Hael' ap Llywelyn (*fl.* 1340–60) o Fasaieg, cyfaill a phrif noddwr Dafydd ap Gwilym. Ystyr id ef yn noddwr delfrydol gan y beirdd a chyfeirir ato'n gyson yng nghywyddau mawl y 15g. a'r 16g., gw. D.G. Lewis, *op.cit.* lxxxviii–ix. Ymhellach, gw. CLC 292–3; G.E. Ruddock, *Dafydd Nanmor* (Caernarfon, 1992), 34–5 ac E. Rolant, 'Ifor Hael', *Traeth* cxxxvi (1981), 115–35.
- Ac yfed gydag Ifor** Adlais o un o gywyddau Dafydd ap Gwilym i Ifor Hael, GDG<sup>3</sup> 22 (8.34).
- 29 **O-lys-i-lys i aelwyd** Ar aceniad y ll. hon, gw. WG 62 a Treigladau 248. Cf. yn arbennig GDG<sup>3</sup> 303 (115.28) *O-lwyn-i-lwyn anialwch, ib.* 255 (93.30) *O-law-i-law, loyw eilun*.
- 30 **cangellorion** Am enghraifft arall o'r term yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol, gw. GIG 22 (V.25) lle mae'n cyfeirio at feibion Tudur Fychan. Yma cymerir mai cyfeiriad at y beirdd ydyw.
- 31 **Trehwfa** Plasty Dafydd Fychan ym mhlwyf Bodedern yn Llifton, gw. ymhellach y Rhagymadrodd uchod.
- 31–4 **O Drehwfa ... cyrchfa cant** Am yr un syniad, cf. GIG 24 (V.79–82) *O dŷ Ronwy, da'r Ynys, / Dir yw ymchwelyd dŷ Rys; / O dŷ Rys, dur ei aesawr, / Dŷ Wilym wych, daw elw mawr*.
- 35–6 **trithai / Ar ddeg** Cf. uchod 10.47–8 *Drythyll fûm yn ei drithai / Ar ddeg, llys deg llios dai*. Yn ôl Cyfraith Hywel Dda, yr oedd yn rhaid i'r bileiniad adeiladu naw tŷ i'r brenin; ymhellach, gw. LIC 171. Am gyfeiriadau'r beirdd at *nawtai* eu noddwyr, gw. GIG 47 (X.37, 49–50) a GGI<sup>2</sup> 275 (CVII.21–2), 133 (XLIX.35–6). Y tebyg yw mai rhif perffaith heb arwyddocâd rhifol oedd naw a gall yr un peth fod yn wir am y rhif tri ar ddeg yma. Ymhellach, gw. I.C. Peate, *The Welsh House: A Study in Folk Culture* (Liverpool, 1944), 112–14, 131–2; E. Roberts, *Tai Uchelwyr y Beirdd 1350–1650* (Barddas, 1986), 9.



- 36 **cyfor** Enghraifft gynnar o'r ffurf yn a., gw. GPC 709.
- 37–8 **Cyweirdon ... / Cyweirdant** Dau derm o fyd cerddoriaeth a ddefnyddir yma yn drosiadol am Ddafydd. Am enghreifftiau eraill o *cyweirdant* yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol, cf. GDG<sup>3</sup> 37 (13.115) *Cyweirdant y cywirdeb*, *ib.* 428 (ll. 7) *Cyweirdant mwyn a gwynir* (Gruffudd Gryg). Gw. hefyd y defnydd tebyg a wneir o *cyweirgorn*, ac ymhellach ar ddefnydd y beirdd o dermau cerddorol, gw. E. Roberts, 'Marwnadau Telynorion', TCHSDd xv (1966), 80–117.
- 39 **Ail i Eidol o Lydaw** Mae darlleniad y ll. hon yn ansicr iawn. Ar *Eidol*, *Eidal*, gw. uchod 4.67n. Nid oes, hyd y gwyddys, unrhyw dystiolaeth yn cysylltu yr un o'r ffigurau hyn â gwlad Llydaw nac â Llydaw, yr ardal ym Mrycheiniog.
- 44 **Angwy a'i dwyn, yngod aeth** Ansicr i'r eithaf yw darlleniad y ll. hon. Ar y ffurf *angwy*, gw. 3.37n a 4.18n uchod. Fe'i dehonglir yn betrus yma'n e. arwr anhysbys, gw. GPC 69.
- 45–6 **Imp cadarn ... / Imp ar dalwrn** Sylwer mai'r ffurfiau *amp* ac *wmp* sy'n dechrau'r llau. hyn yn y rhan fwyaf o'r llsgrau.
- 47 **bron talaith** Derbynnir yma ddarlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. a'i ddeall yn ffigurol am 'un sy'n maethu ei bobl', gw. GPC 332.
- 48 **heawdr** Sylwer mai *hyawdr* sydd yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. Ar y cymysgu rhwng *heawdr* a *huawdr*, gw. GPC 1830 a 1905.
- 50 **a allei fei** Mae'r darlleniad yn ansicr ond cymerwyd mai *fei* 'her, sialens' sydd yma, gw. ymhellach GIG 196, GPC 1272 a cf. yn arbennig GLM 117 (XXXII.65–6) *Ni chyrredd Gwynedd i gyd / roi'r fei ar wr o fywyd*.
- 55 **imp ir** Mae'r darlleniad yn ansicr. Nid amhosibl fyddai'r ffurf *ympir* a drafodir yn GLM 515 ond anodd cael ystyr addas iddi.
- 57 **ffenics** Ar yr aderyn chwedlonol hwn y digwydd y cyfeiriad cynharaf ato yn y Gymraeg yn 'Ystoria Gwlad Ieuan Fendigaid, Preutur Siôn' yn Llyfr yr Ancr, gw. DrOC 118–21, GPC 1282. Am rai o'r traddodiadau a oedd yn hysbys am y ffenics yn ystod yr Oesoedd Canol, gw., e.e., A. Payne, *Medieval Beasts* (London, 1990), 70–1. Mae'n debyg fod y bardd yn cyfeirio yma at draddodiad coll. Hyd y gwyddys, dyma'r unig gyfeiriad at y ffenics yng ngwaith beirdd y 14g. Am gyfeiriadau beirdd y canrifoedd dilynol ato, gw. GPC 1282.
- 60 **plât** Arno yn yr ystyr 'arfogaeth, cotarmur', gw. GPC (i ymddangos).



## *Mynegai*

<b>bron</b> 47n	<b>gwarant</b> 33
<b>Brytwn</b> 2	<b>gwladwr</b> 42
<b>bwrddwely</b> 23n	<b>heawdr</b> 48n
<b>canghellor: cangellorion</b> 30n	<b>hoymfodd</b> 8n
<b>catgorn: catgyrn</b> 48	<b>llaswyr</b> 56
<b>clared</b> 26n	<b>llwyd</b> 22n
<b>clêr</b> 26	<b>llwyn</b> 3n
<b>clyd: cled</b> 14	<b>meddgorn: meddgyrn</b> 48
<b>cwrt</b> 25	<b>od</b> 5n
<b>cyfor</b> 36n	<b>perchentyaeth</b> 24n
<b>cyweirdant</b> 38n	<b>plât</b> 60n
<b>cyweirdon</b> 37n	<b>rhuddo: rhuddwyd</b> 7n
<b>deiliad</b> 49	<b>rhyw</b> 64
<b>eirchiog</b> 10	<b>talwrn</b> 46
<b>fei</b> 50n	<b>trithai ar ddeg</b> 35–6n
<b>ffenics</b> 57n	<b>tud</b> 4n
<b>ffwyn</b> 51	<b>ysgar</b> 22
<b>glain</b> 8	

### *Enwau personol*

<b>Angwy</b> 44n	<b>Eidol</b> 39n
<b>Brutys</b> 2n	<b>Hwfa</b> 8n
<b>Dafydd Fychan</b> 6	<b>Ifor</b> 28n
<b>Dafydd Llwyd</b> 7	

### *Enwau lleoedd*

<b>Llydaw</b> 39n	<b>Trefeilir</b> 13n, 32, 33
<b>Môn</b> 14, 50	<b>Trehwfa</b> 31n, 34



## *Llawysgrifau*

*Mae nifer o'r llawysgrifau isod yn cynnwys sawl llaw; ni nodir ond y llaw(iau) a fu'n gyfrifol am godi cerddi'r gyfrol hon.*

### *Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor*

**Bangor (Penrhos) 1573:** llaw anh., c. 1600, gw. 'A Catalogue of the Penrhos Papers' (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor), *s.n.*; Eurys I. Rowlands, 'Llaw dybiedig Siôn Brwynog', Cylchg LIGC vii (1951–2), 381.

**Bangor 5945:** ?William Evans (1730–93), gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection' (cyfrol anghyhoeddedig, Bangor), *s.n.*

### *Llawysgrifau yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

**Bodewryd 1:** Humphrey Davies, 1600–35, gw. 'Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru), 1; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh Manuscripts', Cylchg LIGC v (1947–8), 258.

**Bodewryd 2:** llaw anh., c. 1620, gw. 'Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru), 1–2; D. Huws, 'Robert Lewis of Carnau', Cylchg LIGC xxv (1987–8), 118.

### *Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig*

**BL Add 14875 [= BM 30]:** llaw anh., 1570–1600, gw. RWM ii, 1039–48.

**BL Add 14970:** Edward Williams 'Iolo Morganwg', 1800–1, gw. CAMBM 48–9.

**BL Add 14971 [= BM 21]:** John Davies, Mallwyd, c. 1610–20, gw. RWM ii, 977–86; Rh.F. Roberts, 'Bywyd a gwaith Dr. John Davies, Mallwyd' (M.A., Cymru [Bangor], 1950), 342.

**BL Add 15001:** John Walters, a. 1792, gw. CAMBM 1844, 61–2.

### *Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen*

**Bodley Welsh e 7:** llaw anh., c. 1550–1600 (*ex inf.* Mr Graham Thomas), gw. F. Madan & H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford*, vi (Oxford, 1924), 216.

*Llawysgrifau yn Llyfrgell Sir De Morgannwg, Caerdydd*

**Card 1.2 [= BM 12]:** Thomas Evans o Hendreforfudd, 1600–4, gw. RWM ii, 145–58.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 111, ‘Llyfr Coch Hergest’ [= BM 1]:** Hywel Fychan, c. 1400, gw. RWM ii, 1–29; G. Charles-Edwards, ‘The Scribes of the Red Book of Hergest’, *Cylchg LIGC* xxi (1979–80), 246–56.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

**LIGC 1553A:** Roger Morris, 1580–1600 (*ex inf.* Mr Daniel Huws), gw. HMNLW i, 128.

**LIGC 1971B [= Pant 2]:** Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, a. 1766, gw. RWM ii, 802–4, HGK cclx.

**LIGC 1984B [= Pant 15]:** Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 1757, gw. RWM ii, 823–4.

**LIGC 2021B [= Pant 53]:** Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, canol y 18g., gw. *ib.* 859–61.

**LIGC 2033B [= Pant 67]:** William Morris, 1639, gw. *ib.* 866.

**LIGC 3049D [= Mos 146]:** Ifan Siôn o Wydir, *fl.* 1613–36 (*ex inf.* Mr Daniel Huws), gw. *ib.* i, 168–79.

**LIGC 4973B:** John Davies, Mallwyd, c. 1631, gw. HMNLW ii, 59.

**LIGC 8497B:** Thomas Wiliems, c. 1570–90 (*ex inf.* Mr Daniel Huws), gw. *ib.* iii, 54.

**LIGC 21287B [= Iolo Aneurin Williams 1]:** Evan Evans ‘Ieuan Fardd’, 18g., gw. Rh.F. Roberts, ‘A List of Manuscripts from the Collection of Iolo Morganwg ...’ (cyfrol anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

**Ll1st 122:** Wiliam Bodwrda, c. 1648, gw. RWM ii, 609–20; D. Ifans, ‘Bywyd a Gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron’ (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1974), 384–98.

**Ll1st 123:** Wiliam Bodwrda, *post* 1643, gw. RWM ii, 620–34; D. Ifans, *op.cit.*, 353–63.

- Llst 133:** Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 664–94; G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi* (Caerdydd, 1953), 37–40.
- Llst 145:** Samuel Williams, yn gynnar yn y 18g., gw. RWM ii, 721–5; G.H. Hughes, *op.cit.*, 22, 53.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

- Pen 51:** Gwilym Tew, *fl. c.* 1460, gw. RWM i, 399–402; A.E. Jones, ‘Gwilym Tew: Astudiaeth destunol a chymharol o’i lawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â’i farddoniaeth’ (Ph.D. Cymru, 1981), 94–5 *et passim*.
- Pen 77:** Thomas Wiliems, 1576, gw. RWM i, 509–18; GP liiii.
- Pen 90:** Siôn Cain, *c.* 1641, gw. RWM i, 565–6.
- Pen 94:** Thomas Wiliems, *c.* 1600, gw. *ib.* 578–89.
- Pen 100:** ?John Davies, Mallwyd, *c.* 1620–30 (*ex inf.* Mr Daniel Huws), gw. *ib.* 624–34; Rh.F. Roberts, *op.cit.* 342.
- Pen 112:** John Jones, Gellilyfdy, *a.* 1610, gw. RWM i, 671–86; N. Lloyd, ‘A History of Welsh Scholarship in the first half of the Seventeenth century ...’ (D. Phil., Oxford, 1970), 28–33.
- Pen 114:** Simwnt Fychan, *c.* 1600, gw. RWM i, 689–95.
- Pen 118:** Siôn Dafydd Rhys a’i gylch, *c.* 1600, gw. *ib.* 718–25.
- Pen 221:** John Jones, Gellilyfdy, *post* 1620, gw. *ib.* 1045; N. Lloyd, *op.cit.* 26–7; M.T. Burdett-Jones, ‘Trydydd Llyfr Cywyddau John Jones Gellilyfdy’, YB xvi (1990), 127–40.





## *Mynegai i'r llinellau cyntaf*

	tud.
Anrheg wladaidd, nis traidd traed.....	151
Bryd ar olud byd, o bydd,—mawrddodaf.....	9
Cad ddirwy, caid ei ddwyrodd.....	78
Fy rhwy geir Conwy, gorau caniad—mydr.....	74
Gwrol lew rhagorol lys.....	211
Llathrodd dros fydoedd, drumoedd dramwy.....	18
Llyw glyw glewnaws traws, trwsiad—cerddorion.....	52
Mygrdduw hardd, mae bardd balchffawd—cyfannedd.....	12
Prelad cyfarf braenarfaes.....	145
Rhwydd yw Dafydd rhodd difai.....	131
Rhy-gudd llew arfrudd, llyw eurfro—gwingost.....	65
Uniawn bill hirddawn o ball harddedd.....	61
Ydwyf (a mi nid oedes.....	138

## *Mynegai i'r noddwyr*

Angharad wraig Dafydd Fychan o Drehwfa a Threfeilir.....	cerdd 1
Dafydd Fychan ap Dafydd Llwyd o Drehwfa a Threfeilir .....	cerddi 9, 13
Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd .....	cerddi 3, 4
Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed.....	cerdd 8
Hywel ap Goronwy ap Tudur Hen o Benmynydd a Thre Castell.....	cerdd 10
Hywel ap Gruffudd 'Hywel y Fwyall' o Eifionydd.....	cerdd 6
Ieuan ap Rhys, abad Aberconwy .....	cerdd 7
Iorwerth ab y Cyriog .....	cerdd 2
Myfanwy wraig Goronwy Fychan ap Tudur o Benmynydd.....	cerddi 3, 5
Rhisiart ap Syr Rhosier Pilstwn o Emral.....	cerdd 11